John D. Jones.
17 Tanybwlch,
Mynydd-Llandegai.

PRIF EMYNWYR CYMRU

# PRIF EMYNWYR CYMRU

. . GAN Y . .

PARCH. EVAN ISAAC

*LERPWL:*

*Yng Ngwasg "Y Brython,"*

*Hugh Evans a'i Feibion,* 356-8 *Stanley Road*

—

1925

# RHAGAIR.

COSTIODD y llyfr hwn imi lawer o lafur am rai blynyddoedd. Gwn ei fod yn amherffaith. Bob yn dipyn y deuir o hyd i'r gwir am yr hen emynwyr; daw rhywbeth newydd i'r golwg o hyd, eithr teimlaf fod yn rhaid cau pen fy mwdwl rywbryd. Gwelir yn y llyfr ol llawer o ymchwil a pheth beirniadu. Ysgrifennais ar gyfer y werin yn fwyaf arbennig, ond hwyrach fod yn y gwaith rai pethau na ŵyr pob llenor amdanynt.

Canwyd amryw emynau didramgwydd, ac ambell un gwir dda, onid anfarwol, gan nifer lluosog iawn, megis Hugh Jones, Maesglasau; Evan Jenkins, Llansamlet; Ioan Dafydd, Caio; Josiah Jones, Brynmair; W. Williams, Llanbrynmair; Thomas Lewis, Talyllychau; Jane Hughes, Mary Owen, Alun, Islwyn, Emrys, Roger Edwards, Gwilym Marles, ac eraill. Eithr prin yr hawlia neb ohonynt eu rhestru ymhlith *prif* emynwyr Cymru. Petai galw, nid anodd fyddai rhoddi llyfr ar emynwyr yr ail ddosbarth.

Diolchaf yn gynnes iawn am lawer o help i Mr. Ifano Jones, M.A., a Swyddogion y Llyfrgell Genedlaethol, y Prifathro J. H. Davies, y Parch. R. S. Rogers, B.A., ac yn arbennig i'r Parch. Thomas Shankland, M.A., am ddarllen y traethawd cyn ei argraffu, a rhoddi imi lawer awgrym gwerthfawr, ac i'r Parch. Thomas Hughes am gywiro'r proflenni.

EVAN ISAAC.

*Aberystwyth,*
*Ionawr*, 1925.

# CYNNWYS.


*Tudal.*

I. YR EMYN - - - - - - 1

II. EDMWND PRYS - - - - - 7

III. WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN - - 39

IV. CYFOESWYR PANTYCELYN :—(i). DAFYDD JONES, o Gaio ; (ii.) MORGAN RHYS ; (iii.) DAFYDD WILLIAM, Llandeilo Fach - - - - 71

V. AR DRAI'R DIWYGIAD : (i.) JOHN THOMAS, Rhaeadr Gwy ; (ii.) BENJAMIN FRANCIS ; (iii.) THOMAS WILLIAM, Bethesda'r Fro ; (iv.) EDWARD JONES, Maes y Plwm - - - - - 137

VI. ROBERT AP GWILYM DDU - - - - 200

VII. PEDR FARDD - - - - - - 219

VIII. ANN GRIFFITHS - - - - - 236

IX. IEUAN GLAN GEIRIONYDD - - - 259

X. DAVID CHARLES - - - - - 275

XI. HIRAETHOG - - - - - - 278

XII. EHEDYDD IAL - - - - - 282

DANGOSEG - - - - - - 299

# PRIF EMYNWYR CYMRU.

## PENNOD I.

## YR EMYN.

EIDDO crefydd ydyw'r Emyn erioed; pobl yn addoli sy'n ei arfer o'r dechreu, ac y mae o werth amhrisiadwy i genedl grefyddol a cherddgar fel y Cymry. Unir cynulleidfa ynddo'n llwyrach nag mewn dim arall. Trwyddo ef y rhed teimladau goreu'i hysbryd yn ffrwd o fawl i wrthrych addoliad. Mewn emynyddiaeth hefyd y diogelir hynny o undeb gwir sydd rhwng enwadau Cymru a'i gilydd. Yn y Llyfr Emynau ceir pob enwad, a phawb yn un o ran ysbryd a phrofiad.

Pa faint bynnag ydyw swm llwyddiant moesol ac ysbrydol ein cenedl ni, rhaid ei briodoli i'r emyn yn gymaint ag i ddim yn ei hanes. Dywedai'r Deon Howel (*Llawdden*) ein bod yn fwy dyledus am gyflwr crefyddol Cymru yn ystod y ddau can mlynedd diweddaf i Williams, Pantycelyn, nag i neb. "Nid oes," ebe fe, "na dyn na dynes yn fyw sy'n cofio Daniel Rowlands, nac un Cymro o fil wedi darllen ei bregethau; ond y mae Williams yn dyfod yn ddylanwad crefyddol ehangach y naill flwyddyn ar ol y llall, yn ein gwlad ni ac mewn gwledydd eraill. Rhoddwch i ni gael dysgu emynau i blant y genedl am y deuddeg mlynedd cyntaf o'u hoes, a boed i'r neb a fynno eu dysgu a phregethu iddynt wedyn."

Yn yr emyn, y delyneg a'r englyn y rhydd beirdd Cymru eu goreu, ac yn y rhain y dylid eu hefrydu a'u barnu. Dysgir ni na fedd y meddwl Celtaidd rai o'r prif nodweddion a geir ym meddwl Homer a Milton. Y mae'r meddwl Celtaidd yn ddiffygiol o ran gweledigaeth

neu ddychymyg, ac o ran cydbwysedd a dyfalbarhad. Y mae creu cyfandir yn fwy na'i oreu, a phe llwyddai i'w greu, blinai a methai cyn hanner ei gerdded. Cewri meddyliol y byd sy'n creu cyfandiroedd, a hwy yn unig a fedr eu teithio yn amlder eu grym. Y mae'n wir y ceir yn ein llenyddiaeth gyfansoddiadau maith ac enwog fel *Cywydd y Drindod* Dafydd Ionawr, ac *Emanuel* Hiraethog, eithr oherwydd eu meithter a'u medr y maent yn enwog, ac nid oherwydd ehangder gweledigad, a chydbwysedd, a llwyredd ymdriniaeth. Ceir hufen ein llenyddiaeth yn ein pethau byr, fel yr emyn, y gân, a'r englyn. Caneuon bychain a gerir gan y werin, a darnau'n unig o'r pryddestau a'r awdlau gorchestol sy'n boblogaidd. Nid llescedd meddwl sy'n llithio'r genedl oddiwrth y pryddestau a'r awdlau hir, eithr ei greddf a'i tywys at oreu'r awen Gymreig yn y gân a'r emyn.

Ffaith darawiadol arall ydyw nad y prifeirdd yw'r emynwyr. Anodd cyfrif am hyn. Cyn belled ag y gwyddys ni fu un bardd mawr mewn unrhyw wlad erioed yn enwog fel emynydd. Beirdd yr ail ddosbarth, fel Watts a Wesley, Williams, Pantycelyn, a Morgan Rhys, ydyw prif emynwyr yr Eglwys. Y mae'n wir bod Cowper yn fardd mawr, ac iddo gyfansoddi llawer o emynau, eithr un ohonynt sy'n anfarwol, sef " God moves in a mysterious way." Y mae rhai o'r prifeirdd Cymreig, megis Islwyn, Alun ac Emrys wedi cyfansoddi un neu ddau emyn a fydd byw byth, eithr nid hwy ydyw emynwyr y genedl.

Anodd egluro anhepgor—nôd angen, y gwir emyn. Pe llwyddid i wneuthur hynny, hwyrach y ceid mesur o eglurhad paham nad ydyw'n etifeddiaeth y prifeirdd. Y mae pob emyn da yn syml a dirodres, yr iaith yn gyffredin heb fod yn sathredig, a'r cyferbyniadau a'r cymariaethau'n hawdd i'w deall a'u gwerthfawrogi. I fod yn ymarferol fel cyfrwng addoliad pob dosbarth o grefyddwyr y mae'n rhaid i emyn fod yn syml, heb ei feichio â barddoniaeth na chelf. Prif ddiffyg llawer o'r emynau diweddar ydyw

eu harddull lenyddol ; ceir rhai ymhob llyfr emynau wedi eu saernïo mor llyfn a chywrain nes trengi ohonynt cyn i'r werin eu dysgu.

Un prawf o gyfriniaeth yr emyn ydyw'r ceisiadau lluosog a wnaed i'w ddeffinio. " Ystyr y gair emyn," ebe Caledfryn, " yw caniad fer o fawl. Dylai emyn gynnwys llawenydd a moliant." Eithr ceir llu o delyn-egion sy'n cyfateb i ddeffiniad Caledfryn. Eglurhad y bardd Tennyson ydyw : " Y mae emyn da y peth an-hawddaf yn y byd i'w gyfansoddi ; mewn emyn rhaid cael y cyffredin (*commonplace*) a'r barddonol ; yr eiliad y peidia â bod yn gyffredin, fe beidia â bod yn emyn." Diau bod hyn i gyd yn yr emyn, eithr dylid cael rhywbeth mwy. Oni cheir y rhywbeth mwy ni ellir ei wahaniaethu oddiwrth y delyneg a'r bryddest, yn y rhai y ceir llawer o'r cyffredin a'r barddonol. Sonia Paul mewn dau o'i lyfrau am *salmau a hymnau*, *ac odlau ysbrydol*, a dywed yr Archesgob Trench, yn ei lyfr ar *Gyfystyron y Testa-ment Newydd*, bod y gair *salmau* o wreiddair yn golygu *cyffyrddiad*, ac yna aiff yn gyffyrddiad y bysedd â thannau telyn, neu ryw offeryn cerdd arall. Yn ol Trench y mae i'r salm berthynas agos â thelyneg. Hanfod *emyn* ydyw mawl—i'w ganu, i wron neu dduw, ac y mae *odlau*'n golygu pob math ar ganeuon,—caneuon rhyfel, a gwyliau, a gwleddoedd. Rhoddwyd y salm i'r Eglwys gan yr Hebrêwr, yr emyn gan y Groegwr, a gwnaeth yr Eglwys y gân yn eiddo iddi'i hun trwy ei hysbrydoli. Ymddengys mai hyn yw'r gwahaniaeth, neu'r prif wahaniaeth, rhwng salm, emyn, a chân,—y mae i salm berthynas agos ag offerynnau cerdd, yn arbennig y delyn ; prif nôd emyn ydyw mawl i Dduw, eithr nid ydyw cân o angenrheid-rwydd i'w chysylltu â'r tannau, nac yn cynnwys mawl i Dduw.

Yn ol y darnodiadau hyn nôd angen emyn ydyw mawl, ac y mae'n rhaid i'r mawl hwn fod yn ddigon eang i gyn-nwys meddyliau, a theimladau, a dymuniadau sy'n ogon-iant i Dduw. Gellir mynegi mewn emyn bob teimlad

gweddus i addoliad, eithr rhaid gochel teimladau chwerw, a dialgar, ac eithafol ofidus. Ni ellir canu'r rhain. Teimladau glân a santaidd fel tristwch a gobaith a llawenydd ydyw eiddo emyn. Ceir cannoedd o emynau da yn canu'n araf ac wylofus tan bwysau baich o dristwch am oes ar ol oes, a chwydda'u Cân swm mawl a gogoniant yr oesoedd i Dduw.

Y mae'n ddiogel dysgu mai profiad ysbrydol awenydd santaidd yn cymryd ffurf arbennig ydyw emyn. Rhaid cael bardd santaidd i'w gynhyrchu, ac nid bardd mawr. Ni wyddys am ddim yn gwahardd credu mai dynion santaidd wedi'u cynhyrfu gan yr Ysbryd Glân ydoedd prif emynwyr Cymru. Os gwedir hyn, pa fodd i gyfrif am tebygrwydd salm yr Hebrëwr i emyn y Cymro fel cyfrwng mawl? Tywallt allan ei brofiad yn ffrydiau gloyw tan arweiniad yr Ysbryd a wnai'r Hebrëwr yn ei Salmau, a gwna'r emynydd Cymreig yntau yn ei emynau yr un peth, tan arweiniad yr un Ysbryd. Y mae dirgelwch yr arddeliad sydd ar yr emynau goreu ym mherthynas awenyddiaeth ac ysbrydoliaeth ynddynt. Hyn sy'n cyfrif bod emynau mawr yn gorfyw cyfnewidiadau, ac yn teithio'n ddianaf o lyfr i lyfr ar hyd yr oesoedd. Dyma hanes yr emynwyr hwythau. Cyfansoddai Ann Griffiths ei hemynau "pan fyddai rhywbeth neilltuol ar ei meddwl. . . . . Y mae ei hemynau a'i llythyrau yn ddrych tra eglur o ansawdd ysbrydol ei chrefydd."[1] Y mae'n rhaid i fardd y bryddest a'r awdl, yn ogystal a bardd y pethau bychain, gael ysbrydiaeth newydd i gyfansoddi emyn da. Cyngor Pantycelyn i gyfansoddwyr emynau ydyw, "Peidio gwneud un hymn byth nes y byddont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbryd Glân." Ni ddaw'r eneiniad wrth orchymyn uchelgais. Cenir emyn am fod yn rhaid ei ganu, ac nid i ennill clod gwlad. Yn ychwanegol at awen a gwybodaeth, y mae'n rhaid bod yn gyfoethog yn y profiadau ysbrydol sy'n weddus a naturiol i filoedd o addolwyr amrywiol. Gwelir bellach

[1] *Cofiant a Llythyrau Ann Griffiths.* Y Parch. John Hughes.

nad bardd mawr, ond bardd santaidd, tan gynyrfiadau oddi uchod, a fedr gyfansoddi emyn anfarwol. Sylwer ar y tri emyn a ganlyn i'r Ceidwad :

Dy werthfawr waed, tywalltwyd hwn
  Do, dros y rhai'n, fel fyth y caent
Fwynhad ohonot ti'n ddidwn,
  Hyn a dim mwy ei geisio maent.
*Fafasor Powell* (*Cyf. W. Richard*).

Mi ymdreiglaf yn fy ngwendid,
  At Iachawdwr dynolryw,—
Dyna enw'n cynnwys digon
  I bechadur gwael gael byw ;
Os nad allaf fi ei gyrraedd,
  Gall efe fy nghyrraedd i,
Ac, os unwaith yn ei afael,
  Dyna hawl i'r nefoedd fry.—*Eben Fardd.*

Dyma Geidwad i'r colledig,
  Meddyg i'r gwywedig rai ;
Dyma un sy'n caru maddeu
  I bechaduriaid mawr eu bai ;
    Diolch iddo
  Byth am gofio llwch y llawr.—*Morgan Rhys.*

Yn y cyntaf ceir dyn da heb ddim awen, yn yr ail ceir bardd mawr heb ysbrydoliaeth, ac yn yr olaf ceir bardd bach tan eneiniad yr Ysbryd Glân.

O ddilyn hanes y prif emynau ceir mai yn awyrgylch brwd, llawn trydan, Diwygiadau nerthol y cyfansoddwyd hwy, pan oedd "gweithrediadau'r Ysbryd Glân megis tân." Eithr nid ydyw popeth a gyfrifir yn Ddiwygiad, na phob Diwygiad gwir, yn cynhyrchu emynwyr. Ni red dylanwadau pob Diwygiad i'r un cyfeiriad, ac ni chronnant yn yr un dosbarthiadau. Llifai dylanwadau'r Diwygiad Methodistaidd i lawer cyfeiriad, a lefeiniwyd meddwl a chalon y tlawd a'r cyfoethog, yr anneallus a'r diwylliedig, yr annoeth a'r doeth. Diau y gellir cyfrif

am y ffaith na chynhyrchwyd emynwyr gan y Diwygiad diweddaf, a gychwynnwyd trwy Mr. Evan Roberts, yn 1904. Pa syniadau bynnag a goleddir am y Diwygiad hwnnw, prin y medr neb ddal fod ei ddylanwad yn gyffredinol ; ni adawodd lawer o'i ôl ar y dosbarth mwyaf meddylgar a llengar, ac o'r dosbarth hwn y ceir emynwyr mawr. Y mae'n rhaid wrth rywfaint o awen, a pheth diwylliant meddwl, i gynhyrchu emynau. Ni wna hyd yn oed ysbrydoliaeth emyn onid trwy awen. Eithr yr hyn a bwysleisiwn ydyw, na all bardd, boed fawr neu fach, gyfansoddi emyn gwir dda oni fydd tan ddylanwad y tân a geir mewn Diwygiadau ysbrydol.

Gresyn am lawer rheswm na fai un llyfr emynau i'r holl enwadau. Arbedid llawer o egni ac arian i enwadau a chyfundebau sy'n methu â chyfarfod gwahanol ofynion yr oes arnynt. Dygai llyfr emynau cyffredin yr enwadau i undeb gwell, ac i gydweithredu ar achlysuron arbennig. Eithr yn fwy na dim diogelid yr emynau goreu, hen a diweddar, i bob eglwys trwy'r wlad. Gwelir yn amlwg oddiwrth y llyfrau a ddefnyddir yn bresennol bod tuedd ymhob enwad i anfarwoli gwaith ei emynwyr ei hun, a gwaith rhai nad ydynt emynwyr. Ni chydnabyddir yn gyffredin bod Iolo Morgannwg yn emynydd, eithr y mae Llyfr Emynau'r Undodwyr yn cynnwys llawer o'i waith.

Yn y flwyddyn 1885 cyhoeddodd Mr. Thomas Gee gasgliad o Salmau a Hymnau tan yr enw " Emynau y Cysegr." Y maent, ebr ef, " wedi eu dethol o weithiau'r emynwyr goreu, hen a diweddar, gyda'r amcan o gadw llaweroedd o'r hen emynau a'r penillion rhagorol sydd wedi eu gadael allan o'r casgliadau diweddar rhag myned ar ddifancoll, . . . . a chasglu at ei gilydd hefyd yr emynau goreu sydd yn arferedig gan y gwahanol enwadau Cymreig y dyddiau hyn."

Ymddengys y gobeithiai Mr. Gee y mabwysiedid ei gasgliad yn fuan gan holl enwadau Cymru, eithr gobeithiai'n ofer, oblegid y mae pob enwad wedi cyhoeddi casgliad newydd er pan gyhoeddwyd " Emynau y Cysegr."

## PENNOD II.

# EDMWND PRYS.

DYSG haneswyr mai oes dywyll a hygoelus oedd oes Edmwnd Prys. Ffynnai ofergoeledd trwy Gymru, ac yn ol cywyddau rhai o'r beirdd yr oedd llawer o dreisio ar y gwan gan y cryf. Nid oedd chwaith lewych ar grefydd y Werin na graen ar ei moes. Eithr mewn ystyr lenyddol y cyfnod hwn hefyd oedd un o'r cyfnodau hynotaf a gwerthfawrocaf yn hanes y genedl. Dyma gyfnod William Llŷn, Sion Tudur, Gwilym Ganoldref, Morus Cyffin, William Salsbri, y Ficer Pritchard, yr Esgobion William Morgan a Richard Davies, Edmwnd Prys ac eraill—sêr disglair i gyd, a Salsbri, Morgan, a Prys y disgleiriaf ohonynt. Gwnaeth y tri hyn waith a erys yn werthfawr. Rhoddodd Salsbri y Testament Newydd mewn Cymraeg yn 1567; cyfieithodd y Doctor Morgan yr holl Feibl i'n hiaith, a chyhoeddwyd ef yn 1588, ac yn 1621 caed y Salmau "wedi eu cyfieithu a'u cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg" gan Edmwnd Prys.

Ai prinder parch i'w gwŷr mawr a bair i'r Cymry fod mor hwyrfrydig i anrhydeddu eu coffadwriaeth? Gosodwyd colofn i gofio William Morgan ar bwys Eglwys Llanelwy, eithr buwyd tros dri chan mlynedd cyn i'r genedl a fendithiwyd â'i Feibl deimlo ar ei chalon i wneuthur hynny. Beth amser yn ol rhoddwyd ffenestr â lliwiau ynddi yn Eglwys Maentwrog er cof am Prys; ond collwyd, am byth, mae'n debig, bob sicrwydd am fan bedd William Salsbri, ac nid oes yn unman faen i'w gofio. Bydd y tri byw fel llenorion heb na maen na ffenestr i'w cofio, ond nid oes ddiolch i'r genedl am hynny.

Ychydig a wyddys hyd yma am Edmwnd Prys, ac o'i hanes bore'n enwedig. Ceir rhai traddodiadau a llawer o ddyfalu; eithr prin ydyw ffeithiau ynglŷn â'i hanes. Y

mae gennym doreth o'i waith fel bardd, a llawer o gyfeiriadau ato ym mhrydyddiaeth ei gyfoeswyr, ond tybiaeth ydyw swm mwyaf popeth arall. Tybir ei eni yn Nhyddyn Du, ym mhlwyf Maentwrog, a seilir y dybiaeth ar hen lawysgrif Saesneg yn Llyfrgell Tanybwlch. Y cofnod ynglŷn ag ef yn y llawysgrif ydyw: "Yr Archddiacon oedd fab y Tyddyn Du, Maentwrog, ac a anwyd yn y flwyddyn 1541. Efe a aeth i fyw i Gerddi Bluog, ym Mhlwyf Llanfair, ar briodas ei ail fab Morgan Prys â Margaret Williams, etifeddes y Gerddi Bluog. Fe'i claddwyd ym Maentwrog, heb unrhyw goflech, yn y flwyddyn 1624."[1]. Ni wyddys am ddim sicr ynglŷn â lle ei eni. Ymranna'r sawl a ysgrifennodd am Prys o blaid Gerddi Bluog a Tyddyn Du. Y mae traddodiad cryf ym mhlwyf Maentwrog ei eni yno, ac oherwydd hyn yn bennaf haws gennyf ogwyddo at y Tyddyn nag at y Gerddi. Ni ellir dibynnu dim ar dystiolaeth y cofnod yn ysgriflyfr Tanybwlch, oblegid y mae'n anghywir am flwyddyn ei eni a'i farw, fel y profir mewn lle arall.

Nid oes gennym sicrwydd am na dydd na mis ei eni, ac ni fu neb, cyn belled ag y gwn i, yn ceisio'u dyfalu, eithr credid yn sicr hyd o fewn ychydig fisoedd yn ôl y bu hynny yn 1541. Tybia Syr John Morris-Jones yntau nad tebig ei eni fawr cyn 1541, nac odid ddim ar ol hynny.[2] Seilia ef ei dybiaeth ar eiriau a geir uwchben llinellau Lladin o eiddo Prys yn ateb i ragymadrodd y Doctor John Davies yn ei Ramadeg a gyhoeddwyd yn 1621. Dyma'r geiriau :—" Atebiad Edmwnd Prys, henwr pedwar ugain, Archiagon Meirionydd, yn cymeradwyo'r gwaith." Dichon mai geiriau awdur y Gramadeg ydynt, ac nid geiriau Prys. Ymddengys yn awr o'r diwedd y rhoddir pen ar bob dyfalu ynglŷn â blwyddyn ei eni gan ddarganfyddiad o atosodiad Prys yng Nghofrestr Eglwys Gadeiriol Ely adeg ei arholiad am urdd offeiriad, Ebrill 15, 1568. Yr

[1] T. R. Roberts (*Asaph*). *Edmwnd Prys, Traethawd, etc.*, tud. 18.

[2] Syr J. Morris-Jones, *Edmwnd Prys, Y Geninen, Gwyl Ddewi*, 1923, tud. 57.

oedd Edmwnd Prys y pryd hwnnw yn bedair ar hugain oed. Felly, ganed ef yn 1544, ac nid yn 1541.[1]

Tybir yn gyffredin mai Sion Prys oedd tad yr Archddiacon, a'i fod yn un o uchelwyr ardal Maentwrog, â chryn dipyn o dda'r byd wrth ei gefn. Sonia Asaph am ryw hen lawysgrif—dylasid ei henwi—sy'n olrhain yr achau,—" Edmwnd Prys, M.A. ab Sion Prys ab Gruffydd ab Rhys ab Einion Fychan," ac i fyny trwy ab ar ol ab, oni chyrhaeddir " Aedd Mawr, brenin cyntaf ynys Prydain." Gresyn nad âi'r hen ysgrif yn uwch, a chyrraedd cychwyn pob ab. Efallai y gwyddai William Cynwal am yr hen lawysgrif hon, oblegid dywed yn un o'i gywyddau ateb at Prys :

Dy fonedd, caru difeinwyr,
A'th ach gawn, aeth uwch gwyr ;
Arch iawn enw erchwyn ynys,
Sy'n parhau o Sion ab Rhys ;
Esgob had i wisgo pan
Yn fych ŵyr Einion Fychan.

Cafodd Prys addysg fore dda, oblegid aeth i goleg St. Ioan, Caergrawnt, rywbryd ; ni wyddys pa bryd, eithr dengys Cofrestr y Coleg ei dderbyn i radd B.A. yn 1567, ac i radd M.A. yn 1571.[2] Ordeiniwyd ef yn offeiriad Ebrill 16, 1568.

Nid oes sicrwydd ymha le y bu, na pha waith a wnai, o 1568 hyd 1573. Yn ol Coflyfr Esgob Scory o Hereford

[1] " One interesting item in connexion with Edmund Prys's life is the discovery of his apposition at his ordination examination for priest's order at Ely Cathedral on the 15th of April, 1568. . . . On the same folio of the Episcopal Register, and immediately following below, appears the apposition of William Morgan . . . translator of the Bible. At the time Edmund Prys was twenty four years of age, and Wm. Morgan twenty three. So in this way we obtain for the first time the information that the Archdeacon was born in 1544, and Wm. Morgan in 1545."—Y Parch. A. Owen Evans, Archddiacon Bangor, *The Book of Archdeacon Ed. Prys.* The Welsh Outlook, August, 1923.

[2] Asaph. *Edmwnd Prys*, tud. 19.

(1569–85) gwnaed Edmwnd Prys yn Rheithor Llwydlo, yn Sir Amwythig, Mawrth 13, 1576.[1] Penodwyd ef yn Archddiacon Meirionydd, Tachwedd 6, 1576. Eithr y mae'n amlwg iddo dreulio peth amser yn Llwydlo, oblegid yn ei gywydd at Sion Tudur i ofyn dau lyfr, sef *Y Dwned*, hen ramadeg, a *Prognostication*, llyfr o waith Sion, dywed :

Person wyf, Prys, un ofer
Lwydlo lle anaml clo clêr,
Llediethig yw lle daethym
Llaw Duw a ddel a llwydd ym,
Llwydlo caiff ambell adlais,
A'r seib rhwng Cymro a Sais.

. . . . . .

Ceisio hen llyfr cyson llwyd,
Ag un newydd o gwniwyd.

. . . . . .

Llyfr a chlud farcud yw fo,
Cefn llychlyd ca fo'n Llwydlo.

Yng Nghofrestrfeydd Bangor a Llanelwy cofnodir penodi Prys i fywoliaeth Maentwrog, Mawrth 14, 1573, i Archddeoniaeth Meirionydd, Tachwedd 6, 1576, i fywoliaeth Llanenddwyn a Llanddwywe Ebrill 16, 1580, ac yn Ganon St. Asaph, Hydref 8, 1602.[2].

Dysg amryw o'r sawl a gred ei eni yn Nhyddyn Du symud ohono i Gerddi Bluog ar briodas ei fab Morgan ag etifeddes y Gerddi, a thybir iddo fod yno am weddill ei oes. Seilir y dybiaeth hon hithau ar dystiolaeth hen Ysgriflyfr Tanybwlch. Y mae'n ddigon tebig i'r Archddiacon ymweled ar brydiau â Gerddi Bluog, ac aros yno am ysbeidiau hwyrach, eithr nid oes brawf o gwbl iddo gartrefu yno. Eithr o thaerir gartrefu ohono yn y Gerddi ni fu hynny onid am ychydig ar derfyn ei oes, oblegid ysgrifennodd

[1] Y Parch. A. Owen Evans, Archddiacon Bangor, *Edmund Prys;* The Transactions of the Hon. Society of Cymmrodorion, 1924, p. 129.

[2] Syr J. Morris-Jones, *Y Geninen, Gwyl Ddewi*, 1923, tud. 58.

y llythyr a ganlyn o Faentwrog at Syr John Wynn o Wydr, yn 1616, saith mlynedd cyn ei farw :

To the Honred Sr John Wynn
Knight and Baronete
at Gwydr theise
delive

Right worll. I am glad of yor salf welcome, esteeming yor health and credit more then anye paynes or expenses. I must desir you to accept my good will & wishes in pap for that I can not delyvr the same by mouth as othr men doe. Phip King of Macedonie had ūj good tydings brought him in one daye. That his men and horses had caried the olympian prices. That parmeris his Captayne genr al had over comed his enimyes, and that his wife was salfely delyvred of a man child whiche was Alexandr : Wher pon he cryed out to the Gods, for so manie fortunat messages, to send him one finalle misfortune. This advrsitie of the tyme whether it be right or wronge it is Gods doing and marvelouse in or eyes, what soeev it be it is but a trifle to yu. And seinge the epiloge [sic] of this controv sie provethe more comnfortable then the prologe yov frendes will reioice : amonge whom I accompt my self and doe humbly take my leave mayntorock the sixth daye of Aprile, 1616.

Yor woll faithfull &
to comannd
Edm : pryse. ([1])

Ar wahan i'r ffeithiau mai dyma'r unig lythyr sydd ar gael ag enw Edmwnd Prys wrtho, ac y dengys ddull yr hen uchelwyr o ysgrifennu at ei gilydd, prawf hefyd y preswyliai Prys ym Maentwrog mor ddiweddar ar ei oes

[1] Y Llyfrgell Genedlaethol, *Wynn Papers, Casgliad Panton.* Oherwydd aneglurder yr Ysgrif a'r sillafu hynafol, methais â chopio'r llythyr, ond bu Mr. W. Ll. Davies, M.A., o'r Llyfrgell Genedlaethol, mor garedig â rhoddi i mi gopi cywir.

â 1616. Wrth gwrs, ni phrawf y creiriau—hen gloc a gwely Edmwnd Prys—a welodd Glasynys ac eraill yn Gerddi Bluog, i'r Archddiacon gartrefu yno o gwbl.

Ni wyddys na dydd na mis ei farw,—dim ond y flwyddyn. Y dybiaeth gyffredin ydoedd iddo farw yn 1624. Efallai mai Ysgriflyfr Tanybwlch a hudodd yr haneswyr i'r gwall hwn hefyd. Y cyntaf i mi wybod am dano yn dywedyd yn bendant mai 1623 sydd yn gywir yw'r Athro W. J. Gruffydd.[1] Eithr ni rydd yntau brawf. Yn awr, rhoddir pen ar bob amheuaeth gan gofnodion swyddogol yng Nghofrestrfeydd Bangor a Llanelwy. Yno ceir i Robert White gael ei benodi i Archddeoniaeth Meirionydd, Medi 29, 1623, *ar farwolaeth* Edmwnd Prys.[2] Gwyddys i sicrwydd bellach farw o Prys cyn diwedd Medi 1623, ac nid yn 1624.

Gwnaeth yr haneswyr lawer o dro i gilydd o'r cymorth a roddodd Edmwnd Prys i Doctor William Morgan i gyfieithu'r Beibl. Nid oes ddadl am gymhwyster Prys i'r gwaith, na neb yn ameu roddi ohono gymorth. Dywed yr Esgob yn ei lythyr, sy'n cyflwyno'r Cyfieithiad, ar ol enwi " y rhai uwchlaw eraill a ymdrechasant i hyrwyddo y gwaith, . . . yr un modd rhoddodd y rhai canlynol gynorthwy na ddylid ei ddibrisio,—D. Powell, Doctor Diwinyddiaeth Sanctaidd, E. Prys, Archddiacon Meirionnydd, Rd. Vaughan, Llywydd Ysbyty St. Ioan, yr hon sydd yn Lutterworth." Y mae'r ddadl ynglŷn â natur a maint y cymorth a roddwyd. Tybid yn gyffredin unwaith i Prys gyfieithu'r Salmau tros Morgan, eithr ni wyddys am unrhyw sail dda i'r dybiaeth. O gymharu Salmau'r Beibl Cymraeg â'r Salmau Cân, y mae'n haws credu na pheidio na fu a fynno Prys o gwbl â chyfieithu Salmau Doctor Morgan. Yr oedd y ddau yn offeiriaid, yn hen gyfeillion, yn ysgolheigion gwych, ac yn cynorthwyo'i gilydd. Cydnebydd Morgan gynorthwy Prys iddo,

[1] W. J. Gruffydd, M.A., *Llenyddiaeth Cymru*, tud. 94.

[2] Syr J. Morris-Jones, *Y Geninen, Gwyl Ddewi*, 1923, tud. 59.

a dangosir mewn lle arall fod Prys yn ddyledus i Forgan am gymorth ynglŷn â'r Salmau Cân. Efallai fod y Doctor Thomas Llewelyn yn gywir pan ddywed i Prys a'r ddau eraill " ddarllen a chwilio y cyfieithiad, gan ei olygu a'i ddiwygio trosto."[1]

Gwaith goreu a buddiolaf Edmwnd Prys yw'r Salmau Cân, eithr y mae gennym hefyd swm da o'i waith yn y mesurau caethion, ac er mai'r Salmau Cân a bair i ni ei gofio a'i barchu, yn ei gywyddau yn unig, ac yn ei gywyddau ymryson yn enwedig, y ceir syniad gweddol gywir am dano fel dyn ; yno y gwelir ei dymherau naturiol a'i nodweddion moesol. Wrth fwrw barn ar Prys yng ngoleuni'i waith, dylid cofio mai uchelwr ydoedd, yn offeiriad, ysgolhaig, a bardd cryf yn " canu ar ei fwyd ei hun." Fel uchelwr yr oedd o linach ymladdwyr, ac ymryson yn ei waed a'r meistr yn ei dymer. Ei swydd fel offeiriad, a hynny o ras oedd ganddo, ac nid natur, a'i cadwodd rhag bod yn ymladdwr mewn mwy nag un ystyr. Dywed William Cynwal ei fod yn gawr o ran maint :

Amrant ail Merddin Emrys
Wyt, a maint praff, Edmwnt Prys ;
Os mawr oedd, Swmer addysg,
Dy gorff, mae'n llawn dawn a dysg ;
Ail Derfel hy, awdurfawr,
Edmwnd,—corff hyd a maint lawr.

Ymladdwr wrth natur, fel ei dadau, ydoedd, a galwai'n aml ar rywun neu'i gilydd i ymladd :

Dyr'd i faes,—dewr ydwyf fi.

Yr oedd yn sylwedydd lled graff, a dengys ei brydyddiaeth y rhagorai ar y mwyafrif o feirdd ei oes o ran gallu i adnabod y natur ddynol. Gwyddai hefyd am drais uchelwyr a chyni'r tlawd :

Rhaid i'r gwan ddal y ganwyll
I'r dewr i wneuthur ei dwyll.

[1] *Llewelyn's British Versions*, p. 23.

Taer yw, a hawdd y tyr rhai
O groen gwirion gryn garai.

Gwybu gam y werin, ac hwyrach y teimlai beth trosti, ac y cynorthwyai hi. Eithr nid oes yn ei gywyddau brofion cedyrn o hynny—dim, ac eithrio ambell ergyd a ddaw o raid swydd yr offeiriad. Rhoddai bris mawr ar addysg yr ysgolion, a thueddai at fygylu'r sawl na fendithiwyd â'i freintiau ef :

Profais wau per wefus wawd,
Prif ieithoedd prawf o wythawd.

Ac, ebe William Cynwal am dano :

Dywedaist fod dy ddysg fydol,
Arna'n ffawd i'm bwrw'n ffol.

Tydi drwy sgorn a chornio,
A fyn fai i'r fan ni bo.

Gan nad oedd Prys yn " ŵr wrth gerdd " nid oedd raid arno barchu deddfau'r beirdd graddedig, a chanai fel y mynnai ac ar y testunau a fynnai.

Y mae llawer o amrywiaeth yn nhestunau canu Edmwnd Prys, megis " *Cywydd i'r Byd*," " *Y Nef*," " *Duw*," " *Cydsain Cerddorion yng Nglyn Helicon*," " *Cywydd Mwythus i Ferch*," " *Ymddiddan rhwng Pechadur a'i Gydwybod*," " *Ein Prynedigaeth Ni*," " *Cywydd i ofyn Tobaco*," " *Y Llwynog*," " *Y Bêl Droed*." Eithr y mae swm mwyaf ei brydyddiaeth mewn Cywyddau Ymryson. Ni wyddys nifer ei Ymrysonau, ond gwyddys am bedair, sef y rhai a fu rhyngddo â Huw Machno, Sion Phylip, Tomas Prys, a William Cynwal. Ni welais ddim o'r Ymryson a fu rhyngddo â Hugh Machno ; efallai ei fod mewn llawysgrif yn rhywle. Eithr y mae mewn argraff " Gywydd Cymod rhwng Mr. Prys a Hugh Machno," o waith Sion Phylip, a

chywydd ateb Prys iddo.[1] Y mae'n eglur oddiwrth y rhain y bu'r Ymryson yn un chwerw. Ebe Sion Phylip:

Pam i cair ungair angerdd
Anghord rhwng saeri coed cerdd,
Ysgydwch yn wasgedig
Ddwylo a dawdd ol y dig. . . . .
Rhowch o fefl a mawrhewch fawl
Heibio'r dychan bradychawl.

Eithr yn gyson â'i dymer ystyfnig a'i ysbryd meistrolgar, ni fyn Prys ildio i neb:

Dyn aurfawl wyd yn erfyn,
Nawdd i Huw anhawdd yw hyn;
Ba newdd i'r neb ni wyddai
Naddfa bur ne addef bai;
Mae'n ddau fai bob bai eb wir,
O bydd na chydnabyddir.

Amaethwr oedd Sion Phylip, a bu fyw am ran o'i oes, ac efallai am y rhan fwyaf ohoni, ym Mochres, Ardudwy. Yn 1620, boddodd pan yn ceisio croesi i'w gartref o Bwllheli, a chladdwyd ef ym mynwent plwyf Llandannwg. Yn wahanol i Edmwnd Prys, yr oedd Sion Phylip yn Bencerdd, wedi ei raddio yn Eisteddfod Caerwys yn 1568. Yr oedd hefyd yn fardd mawr, ac yn gymaint meistr ar yr hen fesurau a neb a fu o'i flaen. Tybir ei fod yn Fardd Teulu Corsygedol. Rhyw ddagr gwerthfawr a ddaethai i Brys o Edinburgh oedd achlysur yr Ymryson a fu rhwng y ddau fardd. Sion Prys yn gwybod gwerth y dagr yng ngolwg ei berchennog a ganodd gywydd i'w ofyn i Rhys Wyn o Drawsfynydd. Anfonwyd y dagr ar unwaith. Eithr cyn hir gwybu Prys nad awdurdodwyd Sion gan Rhys i ganu ei gywydd gofyn, ac yna bu dadleu a bygylu mawr rhwng y ddau.

[1] Asaph, *Barddoniaeth Edmwnd Prys*, tud. 105–107.

Bu brwydro hefyd rhwng yr Archddiacon â Thomas Prys, o Blas Iolyn. Tybir eni Thomas Prys tua 1560, a'i farw yn 1634.[1] Gŵr boneddig ydoedd, ac yn filwr. Bu'n gapten ar ei long ei hun, ac yn ymladd â'r Yspaenwyr, ac yn 1588 yr oedd yn swyddog ym myddin Lloegr. Canodd "Gywydd Duchan i Edmwnd Prys," yn pleidio William Cynwal, ac atebodd yr hen Archddiacon ef â'i fedr a'i chwerwder arferol.

Eithr brwydr fawr Edmwnd Prys, a'r un hynotaf yn hanes llenyddiaeth Cymru, oedd yr un a fu rhyngddo â William Cynwal. Prin iawn ydyw hanes Cynwal. Tybir llawer ynglŷn ag ef, eithr nid oes fawr o ddim sicr ar gael. Deuir yn lled agos i'r gwir ar rai pwyntiau o ddilyn y Cywyddau Ymryson. Gŵr o Ddôl Gynwal ydoedd, ac, yn ol Prys, o ymyl Ysbyty Ifan, oblegid yn ei gywydd cyntaf geilw ef yn "Tafod Ysbyty Ifan." Yr oedd yn ddisgynnydd o'r Palcysiaid, hen deulu enwog yn Ardudwy.

Einion o'r blaen unair blaid,
Epil cyson Palcysiaid.[2]

Tybir ei eni tua 1530; a fe eilw'i hun yn hen ŵr pan oedd yn ymryson â Prys:

Prydyddwr parod oeddwn,
Pennod hardd yn y pwynt hwn;
Os credir, dysgu'r ydwyf,
Hyn erioed a hen ŵr wyf.

Nid oes dim sicr ychwaith ynglŷn â blwyddyn ei farw, eithr gwyddys ei fod yn fyw yn 1586, oblegid y mae mewn llawysgrif yn yr Amgueddfa Brydeinig farwnad a ganodd yn y flwyddyn honno i Sion Wyn.[3]

Dywed yr Athro T. Gwynn Jones mai amaethwr bychan oedd Cynwal, a'i fod yn byw ym Mhenmachno.[4] Ond gellir

[1] W. J. Gruffydd. *Llenyddiaeth Cymru*, tud. 115, 116.

[2] Asaph, *Barddoniaeth Edmwnd Prys*, *tud.* 13.

[3] Asaph, tud. 52.

[4] T. Gwynn Jones. *Y Llenor.* Cyf. II. Rhif 4, tud. 247.

casglu oddiwrth y Cywyddau Ymryson mai gôf ydoedd. Yn ei seithfed cywydd, dywed Cynwal :

Ymryson drwy ddiglloni,
Rhad mawr yr wyd â mi ;
Fal ymryson son heb sail,
Gan nwyf â go'n ei efail.

Ac yn ei ateb iddo, gofyn Prys :

I ble ffois drygfoes dreig-fin,
Y gofan trwch, rhag ofn trin ;
I'th yrais ni syflais sail,
O'th gof ag o'th waith gefail ;
Er dy fod yn arw dy fin,
Lle daeth fwg llid o'th fegin ;
Nid wyd abl wrth barablu,
I gydio iaith â'r gô du.

Efallai ei fod yn ôf ac yn amaethwr. Ceir yn y Cywyddau rai cyfeiriadau sydd yn ffafr y dybiaeth ei fod yn amaethu. Dywed Prys :

Daethum pam na chyd weithi,
Damwain daith i'th domen di.

Ac etyb Cynwal :

Doit meddwl lueddwl dig,
I'm tomen ŵr ffrom tymig ;
Cawsed garw hoyw-fyd groesaw,
Pe doethid trafaelid draw :
O medrid llanwyd llwyth,
Godi'r tail gyda'r tylwyth ;
Y rhain oedd rhin a wyddir,
Yn bwrw'r tail obry i'r tir ;
Ond na weddai lliwia'r llen,
Drud amharch fynd i'r domen.[1]

[1] Asaph, *Barddoniaeth Edmwnd Prys*, tud. 28.

"Gŵr wrth gerdd" oedd William Cynwal. Ei athro oedd Gruffydd Hiraethog, a chafodd urdd pencerdd yn Eisteddfod Caerwys yn 1568. Felly, yr oedd ganddo hawl i ennill ei fywoliaeth fel bardd pes mynnai. Nid oedd yn ddarostyngiad o gwbl i uchelwr fel Prys ymddadleu ag amaethwr bach oedd hefyd yn bencerdd, ac yn sicr ni ddarostyngai'i hun wrth ymryson â gôf, oblegid yr oedd gofaniaeth yn un o'r galwedigaethau anrhydeddusaf,[1] a cheid yn llys y brenin neu'r tywysog gadair i'r gôf gyfartal mewn urddas â chadair pencerdd.

Dechreu'r Ymryson oedd danfon o Edmwnd Prys tros Rys Wyn gywydd, yn gofyn am ryw fwa oedd gan Gynwal,—bwa yw, ac nid bwa dur, fel y dywed yr haneswyr yn gyffredin :

Dodwch, a daëd ydyw
Bwa i Rys o bur Yw.

Atebodd Cynwal â chywydd bonheddig iawn yn moli Prys, eithr gwrthodai'r bwa am mai rhodd oedd :

Hefyd ennyd nid onest,
Rhoi rhodd o rodd, gormod gwest.

Ond y drwg oedd fod Prys neu Rhys Wyn wedi cael gair Cynwal y ceid y bwa, oblegid yn ol rheolau'r beirdd, ni ellid gwneuthur cywydd gofyn heb hynny. Ffromodd Prys gryn dipyn, ac atebodd â chywydd, a bu saith gywydd bob un rhyngddynt. Poethodd Prys a chanodd dri cywydd, ac atebodd Cynwal â thri. Yna caed naw bob un. Wedyn aeth Prys ati i ganu tri naw, ond cyn gorffen yr unfed ar bymtheg daeth y newydd farw o Gynwal. Trodd Prys ar unwaith i ganu marwnad i'w hen wrthwynebydd a'i ganmol â chymaint o fedr ac mor eithafol ag y bychanai ef yn y Cywyddau Ymryson :

Na atto Duw fynd Tad Awen,
O'r byd, rhaid rhoi cerdd ar ben ;

[1] Gwynn Jones, *Bardism and Romance*, tud. 17.

Ysgwirwalch mydr ysgwariai,
Os gwir hyn nid esgyr rhai. . . .

Gwawdydd fardd, gadawodd fi
O'r diwedd drwy hir dewi
Yma fu yn maethu i'n mysg,
Aur a gemau ar gymysg,
Oes dim ar a weles dyn,
I'w ddydd na chanodd iddyn' ?
Tad mawl, mae mewn tywod mân,
Tywod Ysbytty Ieuan ;
Duw'n ei gofl, da iawn gyflwr,
Doe aeth ag ef, doetha' gŵr,
I steddfod Crist, a'i noddfa,
Llys teg iawn o 'wyllys da ;
Oddiyno ni ddaw ennyd,
Ond teg yw, awn atto i gyd.

Y mae'n eglur oddiwrth brydyddiaeth ei gyfoeswyr yr ystyrid Edmwnd Prys yn ysgolhaig mawr a phrydydd cryf, ac yn ŵr hoff o frwydro. Eithr o'i farnu yn ei gywyddau'n unig, credaf na roddid mwy o sylw iddo yn yr oes hon nag a roddir i William Cynwal. Nid oes yn holl waith Prys yn y mesurau caethion ail i ddim o farddoniaeth, ac ni fyddai'n gamp yn y byd i Gynwal ragori arno fel bardd, fel y dysg Goronwy Owen a Llywelyn Ddu o Fôn, y gwnai.

Y mae llawer wedi ei ysgrifennu'n ddiweddar am y ddadl fawr a fu rhwng y ddeufardd, a dysg llenorion adnabyddus bod trafod ar ddau fater ynddi, sef, y diwylliant cynhenid Cymreig, a diwylliant diweddar yr ysgolion. Safai Cynwal tros y naill, safai Prys tros y llall. Dichon gwahaniaethu mewn barn oddiwrth y meistri mewn llenyddiaeth ymddangos yn rhyfyg, ond ar ol darllen yr holl ddadl, fy marn onest ydyw nad oedd dim mewn golwg gan y ddau fardd ond bygylu a difrïo'i gilydd, yn ol hen arfer y beirdd Detholai'r naill o'r crug nesaf

ato gerrig miniog a dynnai waed i'w taflu at y llall. Credaf hefyd gyda'r Athro W. J. Gruffydd mai gwastraff mawr ar amser a phapur oedd y ddadl drwyddi. "Fel prydyddiaeth, prin y mae'r Cywyddau yn haeddu sôn amdanynt, ac fel esiamplau o gelfyddyd y Cywydd, y maent ymhell iawn ar ol gwaith y cywyddwyr distadl, ac yn aml yn disgyn i lefel yr awdlau Eisteddfodol gwaelaf."[1] Ni thybir wrth hyn nad oes ddarnau mân prydferth a tharawiadol yma a thraw drwy'r cywyddau. Cymerer a ganlyn o gywyddau'r Archddiacon :

Gwyllt yw byd, gwell ydyw bodd
Yr ynfyd na'i wir anfodd.

Llwm yw'r ŷd lle mae'r adwy.

Os anaf y sy ynod,
Gwylia'r farn gwelir ei fod.

A gano ffug yn y ffau,
Ar gil, ni ddaw i'r golau ;
A gano wir ag ni wad,
A gâ lewyrch goleuad.

Y mae gofal am gyfoeth,
Yn lludd dawn, ac yn lladd doeth.

Taer yw, a hawdd y tŷr rhai,
O groen gwirion gryn garai.

Rhaid i'r gwan ddal y ganwyll
I'r dewr i wneuthur ei dwyll.

Nid teg ac nid diogan,
Iawn glod, ond o enau glan.

Y ci hefyd o cyfarth,
Antur yw, ddeintio ar arth.

[1] W. J. Gruffydd. *Llenyddiaeth Cymru*, tud. 102.

## Y Salmau Cân.

Yr oedd Edmwnd Prys yn sylwedydd craff, a chanddo fedr anarferol i osod mewn llinell neu gwpled ddoethineb a phrofiad cenedl gyfan, a dyna'r cwbl a wnaed ganddo yn y dyfyniadau uchod. Y mae'n ddiameu fod iddo ragoriaethau lawer fel offeiriad, ysgolhaig, a bardd, ond nid y rheini a bair i'r wlad ei gofio ar ben tri chan mlwydd ei farw, eithr ei gymwynas fawr ar derfyn ei oes o gyflwyno iddi y Salmau Cân.

Hyd 1547 ni chenid yn Eglwysi Lloegr a Chymru ddim ond Salmau, a hynny yn y Lladin, a'r Côr yn unig a ganai. Ni fu ynddynt erioed ganu cynulleidfaol. Eithr pan aeth Elizabeth i'r orsedd, dychwelodd amryw o'r sawl a ddihangodd neu a alltudiwyd i'r Cyfandir yn ystod teyrnasiad Mari, gan ddwyn gyda hwy Salmau mydryddol John Calvin, a chafodd llawer o Eglwysi Lloegr a Scotland flas ar eu canu. Gwnaeth y Saeson amryw geisiadau bore at gyfieithu'r Salmau ar fesur cerdd, ac yn 1562 caed mydryddiad Sternhold a Hopkins, a hwn a fu unig Lyfr Emynau Lloegr am ganrif a hanner. Yn 1696 cyhoeddwyd cyfieithiad rhagorach o waith Tate a Brady, a bu hwn yntau mewn arfer oni chaed cyfieithiad y Doctor Watts yn 1719. Yn 1753 cyfieithodd Dafydd Jones, o Gaio, Salmau Watts i'r Gymraeg.

O ddyddiau Dafydd ab Gwilym i ddyddiau Edmwnd Prys, canai beirdd Cymru yn y mesurau caethion. Nid oedd dim mewn mydr y gellid yn hawdd ei ganu mewn addoliad. Eithr yn oes Prys bu cyfnewid pwysig trwy ddyfod canu yn y mesur rhydd i beth bri. Nid Prys, fel y tybir yn gyffredin, oedd y cyntaf i dorri'n rhydd o hen efynnau traddodiadol y beirdd ; gwnaeth Sion Tudur hynny o'i flaen, a golygai fwy o ddewrder a beiddgarwch yn Sion oedd yn " fardd wrth gerdd " nag a wnai yn Prys oedd yn " canu ar ei fwyd ei hun." Nid Edmwnd Prys chwaith oedd y cyntaf i ganu salmau cân ar y mesur rhydd a'r mesur salm, ac nid ef a deimlodd gyntaf angen y

genedl am danynt fel cyfryngau mawl. Gwnaed, o leiaf, bum cynnyg i droi'r Salmau i fesur cerdd Gymraeg cyn ymroddi o Prys i'r gwaith. O wneuthur sylw byr o bob un ohonynt dichon y gwelir fyned o Brys i mewn, i ryw fesur, i lafur eraill.

Cyn belled ag y gwyddys, y cynnyg cyntaf i droi'r Salmau ar gân yn Gymraeg oedd un Dafydd Ddu, o Hiraddug. Nid oes ar gael fawr ddim am Dafydd Ddu ond tybiaethau. Tybir yn gyffredin mai offeiriad pabaidd, a Ficer Tremeirchion, Sir Fflint, ydoedd, yn byw ddechreu'r bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad yn gynt.[1] Yn y *Myvyrian Archæology of Wales* ceir cyfieithiadau o amryw Salmau a briodolir iddo. Nid yw Cymraeg y cyfieithiadau o ran na llythyraeth na geiriadaeth yn hen, ond efallai i rywun ei newid mewn oes gymharol ddiweddar. Cyfieithodd Dafydd Ddu chwech ar hugain o'r Salmau. Dyma enghraifft o'i gyfieithu :

Llyma mor dda, mor ddigrif, mor eiddun,
Yw cydbreswyliaw o frodyr yn gyfun,
Megys iraid gwyrthfawr ym mhen dynion,
A ddisgynnawdd ym marf, barf Aaron ;
A ddisgynnawdd yn ymylau ei wisg mal gwlith yn Hermon,
Yr hwn a ddisgynnawdd o'r nef hyd ym mynydd Sion ;
Canys yno y gorchymmynawdd Duw ei fendith,
A buchedd barhaus yn oes oesoedd, wastad ddichwith.

Salm cxxxiii.

Y nesaf i droi'r Salmau ar gân oedd Sion Tudur. Gorffennodd Gwilym Ganoldref ei fydryddiad Ionawr, 1595, eithr cred rhai haneswyr i Sion Tudur ganu ei salmau beth ynghynt. Yr oedd y ddau fardd yn cydoesi, a bu farw'r ddau o fewn dwy flynedd i'w gilydd. Yn 1588, pan ddaeth Beibl y Doctor William Morgan o'r wasg soniai Sion Tudur am dano'i hun yn hen ŵr. Tybir ei

[1] *Enwogion y Ffydd.* Cyf. I. tud. 18.

eni yn y Wig Fair, yn Llanelwy. Bu farw yn 1602. Ni wyddys yn sicr ei alwedigaeth, eithr gellir casglu oddi wrth ei *Gywydd i'r Beibl* fod ganddo ryw gysylltiad â'r Eglwys Gadeiriol :

> Hen fardd a fu hardd fy hynt
> Wyf, a hynaf o honynt,
> Tario yng nghansel Llanelwy,
> Heb allu mynd i bell mwy.
> A chanlyn gair, iawnder oedd,
> Iesu, madws im ydoedd,
> Darllen yn ffel hyd elawr,
> I y 'bobl mwth y Beibl Mawr.

Yr oedd Sion Tudur yn llawer rhagorach bardd nag Edmwnd Prys—ei nwyd farddonol yn gryfach, yn fwy meistr ar y grefft, a'i ddiddordeb ym mywyd cymdeithasol ei oes yn llawer mwy. Y mae'r salmau a gyfieithodd mewn mesur cywydd, ac yn rhifo deg, sef 1, 6, 15, 30, 32, 38, 49, 51, 52, 86. Nid ydynt ar gael onid mewn llawysgrif yn y Llyfrgell Genedlaethol.[1] Dyma enghreifftiau o'i gyfieithiad :

Salm i.

> Dedwydd yw'r gwr diwidwaith
> ar na rodiodd mewn modd maith
> wrth gyngor di gyfor dig
> annuwiolion an nelwig
> nag yn ol annuwiol naid
> dirras ffordd pechaduriaid. . . . . .

Salm xv.

> Arglwydd pwy aroglwydd pell
> oth bobl a drig yth babell
> pwy drig heb ddim dig ne dwyll
> yth fynydd dedwydd didwyll. . . .

[1] Y Llyfrfa Gen. *Y Llyvyr Hir N.C.W. MS.*

Yn 1603 argraffwyd gan Simon Stafford tros Thomas Salsbri dair ar ddeg o'r salmau a gyfieithodd Edward Cyffin. Ni wyddys ddim yn sicr am Edward Cyffin, ac ofer dyfalu; tybir ei fod naill ai'n frawd neu'n fab i Morus Cyffin. Dysg yr haneswyr na chyfieithodd Edward Cyffin fwy na thair ar ddeg o'r Salmau,[1] eithr y mae hyn yn anghywir, oblegid dywed Thomas Salsbri yn ei lythyr yn 1610 at Syr John Wyn gyfieithu o hono tua hanner cant: "Itt rejoyced me not a little when I understood yt your worshippe was inquisitive whether ye psalmes are translated into our vulgar tounge or not I sent you by your man a coppy of them yt are printed (i.e. Edward Kyffin) had finished some fifty of them before hee dyed this time seven yeares in ye time of ye greate sickness." Dywed Mr. W. Ll. Davies, M.A., bod y llythyr hwn ym meddiant Mrs. Alan Gough, Gelliwig, Pwllheli.[2]

Ni ellir penderfynu pa un ai Edward Cyffin ai Gwilym Ganoldref a gyfieithodd y Salmau gyntaf, eithr ceir prawf mai Cyfieithiad Cyffin a argraffwyd gyntaf, er i Salsbri gyhoeddi gwaith y ddau yn yr un flwyddyn. Yn ei Annerch i'r Darllenydd ar ddechreu gwaith Gwilym Ganoldref, dywed Salsbri ei fod eisoes wedi dechreu argraffu'r Salmau "mewn mesur cyffelyb yn yr iaith Frytanaidd." Y dechreu hwn oedd Salm i.–xiii., o waith Edward Cyffin. Awgryma Mr. John Ballinger, M.A., llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol, yn *The Bible in Wales*, i bla 1603, a laddodd y cyfieithydd, Edward Cyffin, atal Thomas Salsbri rhag argraffu'r cwbl a gyfieithwyd, ac na chyhoeddwyd byth y rhan a argraffwyd, yn cynnwys y tair Salm ar ddeg. Y mae awgrym Mr. Ballinger yn un digon rhesymol, a'r rhan olaf ohono'n enwedig, yn wyneb nad oes ar gael ond y copi sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.[3]

[1] Asaph, td. 122. Glan Menai, td. 113.

[2] W. Ll. Davies, M.A. *Welsh Met. Vers. of the Psalms*, p. 7.

[3] Eto, p. 7.

Dyma'r cais cyntaf i droi'r Salmau ar gân mewn mesur y gellid yn hawdd ei ganu, a chan nad oes ond un copi ohono ar gael, rhoddaf yr wyneb-ddalen.

> "Rhann o | Psalmae Dafydd—Broffwyd Ivv ca | nu ar ôl y dôn arferedig yn | Eglwys Loegr | Simon Stafford a'i printiodd yn Llundain dros T.S. | 1603."

Yn ei ragymadrodd "At fyngharedigion wlad-wyr y sawl a garant ogoniant yr Arglwydd, ag ymgeledd ei gwlad-iaith," dywed yr awdur, "wrth weled mor ofalus ydiw ieithyddion eraill am ei gwlad-iaith, a chynnydd yr Efengil drwy holl gred . . . ag wrth weled a chlywed mor ber-ffaith ag mor hyfryd rydys yn moliannu Duw yn yr holl Eglwysi lle mae'r Efengil yn cael rhyddid, ond Ynghymru yn unig, wrth ganu Psalmae Dafydd, hynny a wnaeth i mi (er gogoniant i'r Arglwydd, a chariad i'm gwlad) ddangos fy wyllys da yn cychwyn hynn o waith ar ddechre cynghaneddu hynn o Psalmae yn nesaf ag ellais at feddwl yr Ysbryd Glân, fel y cefais hwynt yn scrifennedig yn y Scrythyrau."

Ar ddiwedd y llyfryn y mae'r geiriau, "Terfyn ar hynn; hyd oni threfno Duw gymmorth ymhellach." Dyma gyfieithiad Edward Cyffin o'r Salm gyntaf:

1. Dyn ni rodio dedwydd yw
 Ynghyngor an-nuw ddynion:
Yn ffordd pechadwyr ni sai,
 Ni steddai'n stôl gwatworion.

2. Ond ei holl ddifyrwch sydd
 Yng-hyfraith Arglwydd nefol:
Ag yn unrhyw gyfraith rydd
 Mae beunydd yn fyfyriol.

3. Fel prenn glan-ddwr dwg ffrwyth pryd,
 Ei ir-ddail clyd ni wywa:
Pa beth bynnag wnel ei law
 Hynny draw a lwydda.

4. Nid un-feth y di-dduw trwch,
   Fel us a llwch i gwelir :
Oddar wyneb dayar faith
   Gan yrrwynt daith a chwelir.

5. Am hyn ni sei enwir lu,
   Wrth farnu'r ddeu-lu'n uniawn :
Nar pechadwyr diriaid bla
   Mysc y gynlleidfa gyfiawn.

6. Herwydd ffordd y cyfiawn rhwydd
   Ebrwydd duw a'i hedwyn :
A difethir hwnt ar lled
   Ffordd ddi-gred annuwiol-ddyn.

Y mae'n eglur oddiwrth resymau Cyffin tros " ddangos wyllys da yn cychwyn hynn o waith," ac oddiwrth gyfeiriadau mynych yng nghywyddau ei gyfoeswyr, yr ofnid cymaint am fywyd yr iaith Gymraeg dri chan mlynedd yn ol ag a wneir yn awr. Meddai Edmwnd Prys yn ei gywydd marwnad i William Cynwal :

Ag iaith Gymraeg weithian,
Agos ar goll, gysur gwan ;
Cyffrois benrhaith ein iaith ni,
A chellwair rhag ei cholli.

Efallai mai Capten William Middleton (*Gwilym Ganoldref*) oedd y cyntaf i droi'r holl Salmau ar gân Gymraeg. Ni ellir bod yn bendant ar hyn, oblegid yr oedd James Rhys Parry yntau yn eu canu yr un adeg, a dichon iddo'u gorffen yn gynharach. Mab Richard Middleton, a fu'n Geidwad Castell Dinbych, a brawd Syr Hugh Middleton, oedd Gwilym Ganoldref. Tybir ei eni tua 1536, a'i farw tua 1600. Bu yn Rhydychen tan addysg, a bwriedid iddo fod yn offeiriad neu'n gyfreithiwr, eithr i'r fyddin y mynnai ef fyned, ac eilwaith i'r llynges. Bu'n gapten ar long rhyfel, ac yn ymladd â'r Ysbaenwyr.

Yr oedd yn fardd da, ac yn gryn feistr ar yr hen fesurau. Canodd bron yr holl Salmau yn y mesurau caethion. Ar ddiwedd y gwaith dywed iddo'i orffen yn 1595. "Gorffenwyd y gwaith hwn yn Scutum, Ynys yn yr India Orllewinol, y 24ain o Ionawr, yn y flwyddyn o oed Ein Hiachawdwr 1595." Eithr yn 1603, dair blynedd wedi marw'r awdur, yr argraffwyd ef, gan Simon Stafford, yn Llundain, tros Thomas Salsbri. Ail-argraffwyd y gwaith yn 1827 gan Robert Jones, Llanfair-Caer-Einion, tan olygiaeth Gwallter Mechain.

Gorchest anarferol fawr oedd y cyfieithiad hwn o waith Middleton, ac nid oes ddadl am deilyngdod ei amcan. Fel llawer o'r hen uchelwyr, carai'r Gymraeg a'i genedl â chariad mawr, ac aberthai lawer er eu lles. Eithr methodd â chyrraedd ei amcan oherwydd gormod sêl tros hen fesurau'r beirdd. Ni fu ei fydryddiad o'r Salmau, oblegid ei gaethter, o ddim budd fel cyfrwng mawl addolwyr. Wele'i gyfieithiad o'r salm gyntaf :

Gwynfyd o'i febyd gwinfaith
Gwirion dôn i'r gŵr nid aeth
Ar ol cyngor lwc anghall
Y drwg a ro'i fryd ar wall ;
Ni salf yn ffordd brif-ffordd brys
Bechaduriaid, baich dyrys,
Nac ar gadair gyfair gawdd
Gwatwarwyr a gyd-dariawdd.
Ond cyfraith Dduw'n faith iawn fydd
Ei ddiddanwch dda ddeunydd,
A'i myfyrio mwy fawredd
Ddydd a nos yn ddiddan wedd.
Bydd ail i bren a blennir
Yn nglan afon dirion dir,
A ddwg ffrwyth ddigyffro hawl
Is irwydd yn amserawl ;
Ag ar y brig dêg ir bren
Ni ddielwa un ddalen ;

Ag oll a wnel gwellha'n wir,
A'i law ddyn a lwyddiannir.
Annuwiol fraint ddynol fry
O fall-haint ni bydd felly;
Hwn o fab hoewan a fydd
Fal manus ar fol mynydd,—
O'i flaen y gwynt flina' gwaith,
Chwith ammod, a'i chwyth ymaith.
Ni welir annuwiolion
Ofer yn hir i'r farn hon;
A gwn na saif, gwan o said,
Deirawr y pechaduriaid,
Drwy fawl oll, i'r dyrfa lawn
O wŷr cofus—rai cyfiawn.
Duw a edwyn ffordd dyn da;
Dinystrir enwir yna.

Y cyntaf i droi'r holl Salmau i'r Gymraeg ar gân *rydd* oedd James Rhys Parry. Ni welais ddim mewn argraff yn Gymraeg am yr awdur na'i waith, ac nid oes neb hyd yma wedi ymdrin o gwbl â'i gyfieithiad o'r Salmau. Ychydig o'i hanes sydd ar gael, eithr dywed ei fab, y Parch. George Parry, mai lleygwr o deulu parchus (" *a well-born layman* ") yn byw yn Ewyas Lacy, yn Sir Henffordd, ydoedd, a'i fod yn noddwr i'r beirdd ac yn fardd o fri ei hun.[1] Dysgir hefyd ei fod o deulu Parry o Poston, yn Henffordd, a Llandyfeilog Tre'r Graig, ym Mrycheiniog.[2]

Y mae mydryddiad James Rhys Parry mewn tair Llawysgrif, sef, " Salmay dafydd broffwyd wedy y Cynghanedy gan Sams Parry o Eyas y Gymraec," Add. MS., 14895, yn yr Amgueddfa Brydeinig; " Salmay dafydd Broffwyd Gwedy gynhaddy mywn brythaniaeth gan Siams Parry o Eyas," Cwrtmawr MS. 28; a " Llyfr Salwyreu Dafydd

[1] George Parry, *Llawysgrif Salmau Can*, Llyfr. Gen. Cymru.

[2] W. Ll. Davies, M.A., *The Welsh Met. Vers. of the Psalms*, p. 10.

Broffwyd," Peniarth MS. 2206, yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yr unig Lawysgrif a welais i ydyw'r un sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Adysgrif ydyw'r copi hwn o waith John Jones, Gelli Lyfdy, a wnaed ganddo yn 1635, yn ystod un o'i ysbeidiau fel carcharor am ddyled yn y Fleet, Llundain. Y mae'r Llawysgrif a gopïodd John Jones hyd yma ar goll.

Gwahaniaetha Llawysgrif Cwrtmawr beth o ran llythyren a gair oddiwrth gopi John Jones ; er enghraifft :

Salm i.

Gwyn (y) fyd y dyn nyd ai
ar ffyrdd y rhai anywiol
ac na cherddodd ddim ar draws[1]
nac isde ar glaws gwatwarol.
(Cwrtmawr MS.).

Gwyn ei fyd y dyn nid ai,
ar ffordd y rai annuwiol
ac na redodd ddim ar draws
nac eiste ar glaws gwatwarol.
(Peniarth MS.).

Y mae hefyd chwech pennill yn Salm i. Peniarth MS., eithr nid oes ond pump yn Cwrtmawr MS.

Ni ellir bod yn bendant am ddyddiad cyfieithiad Siams Parry, eithr y mae'n lled debig ei wneuthur rywbryd rhwng 1595 a 1601, oblegid anfonodd yr awdur y Llawysgrif i'r Doctor William Morgan, cyfieithydd y Beibl pan oedd yn Esgob Llandâf, a chyfnod William Morgan fel Esgob Llandâf oedd 1595–1601. Ni wyddys chwaith o ba iaith y cyfieithodd Parry, ond pair Cymraeg ei gyfieithiad inni feddwl na fanteisiodd ar gyfieithiad y Doctor Morgan ; efallai mai o'r Saesneg y cyfieithodd. Y mae llawer o debygrwydd mewn mannau yng nghyfieithiad Siams Parry i gyfieithiad Edmwnd Prys, eithr os mant-

[1] W. Ll. Davies, *The Welsh Met. Vers. of the Psalms*, p. 10.

eisiodd un ar y llall nid Parry oedd hwnnw, fel y profir ym mhellach ymlaen.

Dyma fydryddiad James Rhys Parry o'r Salm i. fel y'i ceir yn Llawysgrif Cwrtmawr :

Gwyn (y) fyd y dyn nid ai
ar ffyrdd y rhai anywiol
ac na cherddodd ddim ar draws
nac isde ar glaws gwatwarol.

Namyn dilyn ewyllis dyw
ac ynte yn clyw ni n keisio
Cadw y ddeddf ddydd a nos
ac arno n glos gweddio.

Tebig y fydd hwnnw y bren
ay ddalen byth heb wiwder
Gwedy blany ar lan nant
ay ffyniant yn y hamser.

Yn y farn y dieflic draw
gan faint y braw ay hofon
ar y pechadyr byth ny sai
Ymysk y rhai dywolion.

dyw a edwyn ac mayn wir
ffyrdd y cywir cyfion
ffyrdd y dieflic a ar goll
ac felly y holl weithredon.

Edmwnd Prys oedd y chweched i gynnyg ar droi'r Salmau ar gân yn Gymraeg. Dyma'i brif waith, a'i gymwynas fawr i'w genedl. Er cymaint ei ddawn a'i ddysg a'i swyddau, ni chofid ef gan yr oes hon onibai am ei Salmau Cân. Rhoddir iddo lawer o glod fel bardd medrus yn yr hen fesurau, eithr y mae'n ddiameu y godd-efid i'w gywyddau, er eu bod yn gywrain, gysgu'n dawel yn llwch hen guddfeydd onibai iddo tua diwedd ei oes ganu'r Salmau at wasanaeth addolwyr ei wlad.

Cyhoeddwyd gwaith Prys gyntaf oll yn gysylltiol â'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn 1621. Dywed Glan Menai, yn ei draethawd ar yr awdur, i'r cyfieithiad ymddangos ar wahan hefyd yn yr un flwyddyn, ond methais â chael prawf o hynny. Y mae Llyfr Gweddi Gyffredin 1621 yn y Llyfrgell Genedlaethol, a wyneb-ddalen mydryddiad Prys fel hyn:

> " Llyfr y Psalmau | wedi eu cyfieithu a'i cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg | Drwy waith Edmwnd Prys Archddiacon Meirionnydd | a'i Printio yn Llundain, 1621."

Mewn math ar ragymadrodd i'r gwaith rhydd yr awdur ei resymau am na chanodd ar yr hen fesurau caethion y gosodid cymaint bri arnynt gan feirdd ei oes. Er i Edward Cyffin a Siams Parri feiddio cefnu ar yr hen fesurau a chanu yn y mesur rhydd o flaen Edmwnd Prys, nid yw'n debig yr ystyrid hwy yn feirdd o fri, ond yr oedd Prys yn un o feirdd mawr ei oes, a diau y teimlai yntau y dylai ei gyfiawnhau ei hun pan dorrai i ffwrdd oddiwrth hen arfer y beirdd.

" Tri pheth a wnaeth na chyfieithiwyd y Psalmau bendigaid ar yr un o'r pedwar mesur ar hugain," ebr Prys. Yn gyntaf, ni allai " ryfygu clymu'r Scruthur Sanctaidd ar fesur cyn gaethed " rhag pechu yn erbyn Duw. Yn ail, y mae Gair Duw i'w ganu gan gynulleidfa yn unllais, yr hyn ni ellid pe troid ef i'r mesurau caethion. Yn drydydd, gall pawb ddysgu " pennill o garol," eithr ni all " ond ysgolhaig ddyscu cywydd neu gerdd gyfarwydd arall."

Bu llawer o ddyfalu ynglŷn â chymhellion Prys i ymgymryd â gorchest mor fawr, eithr ni ddyfalwyd dim pendant hyd yma. Tybir yn gyffredin fod a fynno sylwadau Morus Cyffin ynglŷn â throi'r Salmau ar gân, yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad o *Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, rywbeth â symud yr Archddiacon at y gwaith. " Gwaith

rheidiol iawn," ebe Cyffin, "fyddai troi y Psalmau i gynghanedd Gymraeg, . . . . nid i fath yn y byd ar gerdd blethedig, . . . . fel y gallo'r bobl ganu i gyd ar unwaith yn yr Eglwys." Y mae ail reswm Prys tros ganu "yn y mesur gwael hwn" yn peri credu y rhoddai bwys ar awgrym Morus Cyffin. Nid yw'n annhebig i'r Doctor William Morgan ei annog. Y mae prawf i'r ddau ynghyd drin y pwnc, ac i Forgan roddi benthyg i Brys rai defnyddiau a allasai fod o help iddo. Wrth gwrs, gwyddai Prys cystal ag undyn am angen crefyddwyr ei oes o gyfryngau mawl, a dichon mai'r wybodaeth honno'n fwy na dim a'i cymhellai.

Eithr beth am ei ddyled i eraill? Yr ydym yng nghyfnod ymlid y cewri a'u difa. Yn ddiweddar cododd y cigfrain llenyddol, a disgynasant ar rai fel William Owen Pughe, Iolo Morgannwg, ac hyd yn oed Goronwy Owen, ac o farnu wrth eu crawciadau bu celanedd fawr. A lwydda Edmwnd Prys i ddianc rhag tynged y rhain? Gwyddai ef am gyfieithiad Sternhold a Hopkins o'r Salmau i'r Saesneg yn 1562, ac mewn mannau y mae llawer o debygrwydd rhwng ei gyfieithiad ef a'u cyfieithiad hwy. Eithr ni phrawf hynny ddibynnu ohono ddim arnynt. O gyfieithu'n gywir feddwl y Salmydd ymdebygent o raid. Y mae'r un peth yn wir am debygrwydd ei gyfieithiad ar brydiau i gyfieithiad y Doctor William Morgan. Bu'n darllen ac yn beirniadu Salmau Cân Gwilym Ganoldref, fel y dangosir ymhellach ymlaen, ond ni fanteisiodd ddim arno ef oni chafodd ei argyhoeddi ganddo, fel y cafodd y Ficer Pritchard, mai ofer canu yn y mesurau caethion. Dywed yr hen Ficer, gan gyfeirio at waith Gwilym Ganoldref:

> Am weld dwfn-waith enwog Salesbury,
> Gan y diddysg heb ei hoffi,
> Cymrais fesur byr cyn blaened,
> Hawdd i'w ddeall, hawdd i'w styried.

Ffaith nad oedd yn wybyddus cyn ei chyhoeddi gan Mr. W. Ll. Davies yn Awst 1923,[1] ydyw, i Salmau Cân James Rhys Parry, o Ewyas, fod ym meddiant Edmwnd Prys cyn iddo ddechreu ar ei gyfieithiad ei hun. Cyfieithodd y Parch. George Parry, mab James Rhys, y Salmau i fesur cerdd, heb fod yn ddiweddarach na 1675, ac yn ei annerch i'r darllenydd dywed i'w dad gyflwyno'i Lawysgrif ef o'i gyfieithiad i'r Doctor William Morgan oedd ar y pryd (1595–1601) yn Esgob Llandâf, ac i'r Esgob ei rhoddi'n fenthyg i Edmwnd Prys, a chaniatau iddo hefyd adysgrifennu gwaith Gwilym Ganoldref gan Thomas Salsbri.[2] Felly, y mae sicrwydd i Prys weled cyfieithiad Siams Parri cyn dechreu ar ei waith ei hun ; a dywed George Parry ymhellach, i waith ei dad fod yn gymhellydd i Prys ymgymryd â'r gorchwyl o gyfieithu'r Salmau.

Gwneuthum beth ymdrech i gymharu cyfieithiad James Rhys Parry (Peniarth MS) â chyfieithiad Edmwnd Prys, ond ni chefais brawf fenthyca o Brys ddim oddiar Parry, na manteisio ar ei gyfieithiad mewn unrhyw ystyr arall. Petai meistr mwy na mi ar hen lawysgrifau, ac un â mwy o hamdden, yn mynd at y gwaith o gymharu, hwyrach y deuid ar draws profion o ddyled Prys.

Ni cheisiaf fwrw barn ar waith mawr yr Archddiacon ; y mae hynny ymhell o'm cyrraedd i. Hyfdra noeth, os nad rhyfyg, fyddai i neb feirniadu'i gyfieithiad oni fyddai, o leiaf, yn gymaint meistr ag yntau ar yr iaith Hebraeg. Dysg rhai llenorion cyfarwydd mewn ieithoedd y gwyddai Prys Hebraeg yn dda, ac y rhagora'i gyfieithiad yn aml ar gyfieithiad y Doctor William Morgan. Ni ddylai neb feirniadu iaith y Salmau Cân chwaith, ond y sawl a ŵyr Gymraeg oes yr awdur, a Chymraeg hynach na hynny.

Ychydig yw'r rhai cymwys i ffurfio barn gywir am waith Prys, eithr dywed y rhai hynny fod ei gyfieithiad

[1] *Met. Vers. of the Psalms*, p. 15.

[2] George Parry. *Y Salmau Cân, Llawysgrif.* Llyfr. Gen. Cymru.

o'r Salmau yn odidog, a phrawf nifer yr argraffiadau a gaed ohono ei fod yn ddefnyddiol a phoblogaidd ; o 1621 hyd 1799 caed cynifer a 48 o argraffiadau. Dyma'r Salm gyntaf wedi ei chopïo o argraffiad 1621 :

Y sawl ni rodia, dedwydd yw,
  yn ol drwg ystryw gyngor,
Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol,
  nid eiste'n stol y gwatwor.

Ond ei holl serch ef sydd yn rhwydd,
  ar ddeddf yr Arglwydd uchod ;
Ac ar ei ddeddf, rhydd ddydd a nos,
  yn ddiddos ei fyfyrdod.

Ef fydd fel pren plan ar lan dol,
  dwg ffrwyth amserol arno ;
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith.
  A lwydda'n berffaith iddo.

Nid felly bydd y drwg di-rus,
  ond fel yr us ar gorwynt ;
Yr hwn o'r tir â'i chwyth a'i chwal,
  anwadal fydd ei helynt.

Am hyn y drwg ni saif mewn barn,
  o flaen y cadarn uniawn :
Na'r pechaduriaid mawr eu bar,
  Ynghynulleidfa'r Cyfiawn.

Canys yr Arglwydd Dduw, fel hyn,
  a edwyn ffyrdd gwirioniaid :
Ac ef ni ad byth i barhau,
  mo lwybrau pechaduriaid.

Gan mai diben ymdrin â'r cyfieithwyr bore ydoedd arwain i fyny at Edmwnd Prys, dichon nad oes reswm tros

son am neb a ddaeth ar ei ol. Eithr gan i mi ddwyn enw George Parry i mewn ynglŷn â Salmau Prys, a chan nad oes dim erioed wedi ei argraffu yn Gymraeg am ei gyfieithiad ef, nac yn Saesneg ychwaith, ac eithrio sylwadau Mr. W. Ll. Davies yn ei *Welsh Metrical Versions of the Psalms*, 1923, goddefer i mi roddi peth o hanes yr awdur a'i waith fel cyfieithydd y Salmau.

Mab James Rhys Parry, o Ewyas Lacy, oedd George. Ni wn ddim o'i hanes bore, ond cafodd addysg dda, oblegid enillodd radd B.A. yn 1633/4, a bu'n brifathro Ysgol Ramadeg yn nhref Caerfyrddin. Nid oes sicrwydd pa bryd na faint o amser y bu yno, eithr os ydyw'r dybiaeth gyfieithu ohono'r Salmau tua 1672 yn gywir, rhaid ei fod yng Nghaerfyrddin tua 1639, oblegid dywed yn ei annerch i'r darllenydd sydd o flaen ei gyfieithiad, fod tair blynedd ar ddeg ar hugain er pan oedd yn feistr Ysgol yng Nghaerfyrddin. Yr oedd yr awdur yn offeiriad, ond nid oes sicrwydd a oedd mewn urddau pan yn athro ysgol. Bu un o'r enw George Parry yn Ficer Dingeston o 1640 hyd 1645, a chredir mai ef oedd hwnnw. Yn ei annerch i Henry Somerset o flaen Rhan I. ei gyfieithiad dysg fod ganddo ryw gysylltiad ag Eglwys Gadeiriol Llandâf, ac y mae'n debig mai ef oedd George Parry, rheithor Cheriton, a fu farw yn 1678.

Y mae cyfieithiad George Parry o'r Salmau mewn Llawysgrif, a ysgrifennwyd ganddo ef ei hun, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Hwn ydyw'r unig gopi sydd ar gael. Y mae hanes yr hen Lawysgrif yn un diddorol iawn. Bu'n gorwedd mewn cuddfan neu'n crwydro mewn cysgodion am 236 o flynyddoedd. Nid oes air o sôn am dano yn ystod y blynyddoedd hynny. Eithr tua phymtheg mlynedd yn ol prynodd rhywun ef am ychydig geiniogau oddiar fainc llyfrau ail law yn Lambeth, Llundain, a rhoddodd y prynwr ef i Mr. John Francis, Clapham; cyflwynodd yntau ef i Brifysgol Cymru, ac o'r diwedd daeth i gartref sefydlog yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Y mae'r gwaith hwn yn dair rhan, a chyflwynir pob rhan i noddwr,—Y Rhan Gyntaf, Salm 1–50, i Henry Somerset, Marquis of Worcester; yr Ail Ran, Salm 51–100, i Henry Benet, Lord Arlington; a'r Drydedd Ran, Salm 101–150, i Syr Thomas Williams, Royal Physician. Yn y Rhan I, 1–46, dilyna George ei dad ac Edmwnd Prys o ran mesur, a dywed, " Mesur gynhelir drwy yr holl Ran Gyntaf hon sydd gan mwyaf yn ol dull yr hen Awdwl Gywydd (Agos); ag yn rhydd oddiwrth y Gynghanedd Ganolig, oddieithr o ddamwain." Dyma'i gyfieithiad o'r Salm Gyntaf:

Gwynfyd y dyn, ni rodia'n ghôr
  gŵyr gynghor gwŷr annuwiol:
Ni thwyllir gan yr enwir blaid,
  blin bechaduriaid hudol.

Yr hwn sydd yn ffieiddio câs
  gymdeithas drwg weithredwyr:
Ni saif ny ffyrdd, nid eistedd aingc
  gwawd-gaingc, ar faingc gwatworwyr.

Holl serch yr hwn, a meddwl fryd
  ei galon hyfryd wiwlan
Sy ddydd a nos ar ddyw ay air
  Ei ddeddef ddiwair burlan.

Bydd hwn fel pren a blennir bron
  ar ymyl afon lariaidd:
Yr hwn a ddwg ei ffrwythau per
  Mewn pryd ag amser gweddaidd.

Ei ddail ni wywant fyth, ay frig
  yn irwydd trig bob amser
pob peth a wnel fydd rhwydd a da
  ei waith nid â yn ofer.

Eithr nid felly ddim y bydd
  i'r dyn aflonydd diffaith :
ond fel yr us y bydd ei hynt
  Gan wynt a chwythir ymaith.

Yn nydd y farn, ni rydd Dyw naid
  ir drwg enwiriaid ofnus
Sefyll ni chânt ym mhlith, yn hir
  y dyrfa gywir breintus.

Yr holl Alluog ddyw o'r ne'
  hwn wêl pob lle yn eglyr
a edwyn ddiddrwg ffordd y da
  a ffyrdd y gwaetha gollyr.

Yn yr ail a'r drydedd ran amrywia'r mesurau, a chenir yn y mesurau caethion yn ogystal ag yn y mesur rhydd. Dyma dair adnod gyntaf Salm 51 :

Wrthyf Dyw trugarha
  yn ol dy fawr drugaredd
dy drugareddau amlha
  Dileua fy anwiredd.

In wyn Golch fenaid achlan
  Golch fi yn lan o'm pechawd
Cans addef wyt a ger fy mron
  Mae'n gnydion i yn wastawd.

Cân yr awdur yn aml yn llithrig a chlir. Dyma'r trydydd a'r pedwerydd pennill o Salm 84 :

Fy nghalon a fy nghnawd a lef
  am fyw yn nhref dyw bywiol,
Pwy bryd y caf neshay i dŷ
  Yr Arglwydd sy dragwyddol.

Gwyn fyd Aderyn brŷch y to
  a gafas yno letty :
ar wenol folwen wnaeth ei nyth
  yn ddilyth i anneddy.

Salm 113, pennill cyntaf:

> Molwch yr Arglwydd, molwch ef,
> Chwi weision ffyddlon, Arglwydd nef
>   Molwch ei enw ef yn hyf
> Sancteiddiol bid mawr enw Naf
>   a bendigedig byth y sa'f
> Ardderchawg enw yr Arglwydd cryf.

Dywed George Parry, yn ei annerch i'r darllenydd, roddi ohono'r gwaith ar ol ei orffen i'w gadw am flwyddyn, ac wedyn, iddo fod am flwyddyn arall ym meddiant Francis Davies, Esgob Llandâf. Bu Francis Davies yn Esgob Llandâf o 1667 hyd 1675. Y tebig ydyw wneuthur o George Parry'r cyfieithiad o fewn y blynyddoedd hyn. Cred Mr. W. Ll. Davies, M.A., na all y gwaith fod yn gynharach na 1672, a thyn ei gasgliad oddiwrth y ffaith gyflwyno o Parry Rhan gyntaf y gwaith i "Henry Somerset . . . . Lord President of the Council of the Marches of Wales," ac yn 1672 y penodwyd Somerset yn llywydd y Cyngor.

Ni wyddys o ba iaith y cyfieithodd George Parry. Yn y Llawysgrif ceir cyfieithiad o'r Salmau yn y Lladin yn gyfochrog â'r cyfieithiad Cymraeg, fel y gall y sawl a ŵyr y ddwy iaith gymharu'r ddau gyfieithiad. Nid oes ar gyfieithiad George Parry gymaint o gamp o lawer ag sydd ar Salmau Edmwnd Prys, eithr credaf fod ynddo amryw Salmau teilwng o le yn llyfrau Emynau Eglwysi Cymru.

## PENNOD III.

# WILLIAM WILLIAMS,

## PANTYCELYN.

DYNODIR sefyllfa grefyddol ac ysbrydol oes gan nodwedd ac amlder ei hemynau. Ni chafodd y genedl Gymreig un Diwygiad crefyddol mawr heb i ganu mawl fod yn elfen bwysig ynddo, ac y mae canu effeithiol yn amhosibl heb emynau. Ar gychwyn y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru, teimlid angen arbennig am emynau i'r addolwyr fynegi'u profiadau newydd trwyddynt. Cyfoeth ysbrydol gwlad ydyw cyfle'r emyn. Hyn, mewn rhan, onid yn gwbl, yw'r rheswm fod mwyafrif emynwyr mawr Cymru wedi ymddangos bron yr un adeg, yn y Deheubarth, a hynny o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd. Yn Sir Gaerfyrddin ceid Williams, Pantycelyn, Dafydd Jones, o Gaio, Morgan Rhys, Dafydd Williams, Ioan Sanders, ac eraill. Ym Morgannwg, Thomas Williams, Bethesda'r Fro, a John Williams, St. Athen. Yn Sir Aberteifi canodd Daniel Rowlands beth, a Harri Shôn yntau ym Mynwy. Yr oedd emynwyr goreu'r Gogledd, megis Ann Griffiths, Pedr Fardd, Robert ap Gwilym Ddu, Ieuan Glan Geirionydd, ac eraill, yn ddiweddarach. O ddyddiau Edmwnd Prys hyd y Diwygiad Methodistaidd—cyfnod o fwy na chan mlynedd—ni cheir un emynwr mawr, nac un emyn da. Eiddo Elis Wyn yw'r goreu, ac nid yw ei rai yntau ond mydryddiad i'r Ysgrythur, megis "Myfi yw'r Adgyfodiad Mawr," etc., "Mi wn, medd Job, o'r cynfyd cudd," etc. Bu'r Eglwys yn cyflwyno'i mawl oreu y gallai trwy'r "Salmau Cân" oni ddaeth Williams, Pantycelyn, i gyflwyno iddi ragorach moddion.

Y mae mwy wedi'i sgrifennu am Pantycelyn nag am holl emynwyr Cymru gyda'i gilydd, ac eithrio Ann Griffiths; eithr trwy beth ymofyn darganfum bod y mwyafrif o'r sawl sy'n arfer ei emynau ar hyd eu hoes yn resynus o brin eu gwybodaeth am dano. Ni wyddant fan a blwyddyn na'i eni na'i farw. Tybiant bod a fynno ef rywbeth unwaith â'r Eglwys Wladol, ac â'r Diwygiad Methodistaidd, a'r unig beth a ŵyr y werin yn sicr ydyw bod Williams yn emynydd mawr. Credaf bod cymaint o eisiau sgrifennu'n helaeth ac yn aml am Pantycelyn ag sydd am unrhyw un o gymwynaswyr ein cenedl.

A haul Williams yn machlud, yr oedd Thomas Charles o'r Bala yn anterth ei nerth, ac iddo ef y mae Cymru'n ddyledus am hynny o hanes sicr a geir i'r emynydd. Ysgrifennodd Charles gofiant bras i *Drysorfa* Ionawr, 1813, ac o'r fan honno y cafodd Kilsby, a'r *Gwyddoniadur*, a *Chymru* Owen Jones, holl ffeithiau'r hanes.

John a Dorothea Williams oedd rhieni'r emynydd. Nid oes sicrwydd am na dydd na blwyddyn geni William Williams. Nodir ar garreg ei fedd iddo farw yn 74 mlwydd oed, ar yr 11 o Ionawr, 1791, a chesglir oddi wrth hyn ei eni yn 1717. Dichon nad ydyw'r oedran sydd ar y garreg yn gwbl gywir, ac mai amcangyfrif ydyw. Y mae hyn yn debig, oblegid dywed John Williams (*Gwernogydd*), un o gyfoedion Williams, yn ei Ysgriflyfr a geir yn Llyfrgell Abertawe, mai 73 ydoedd yn marw, a dywed Williams yntau yn ei lythyr olaf i'r Parch. Thomas Charles, ychydig ddyddiau cyn marw, mai 73 ydoedd.

Yng Nghoflyfr Eglwys Llanfair ar y Bryn, cofnodir bedydd William, mab i John a *Magdalena* Williams, o'r Rhandir Issa, ar Ebrill 29, 1716. Cred y Parch. D. Edmondes Owen, Ficer Llanymddyfri, mai'r emynydd Pantycelyn ydyw'r William hwn, ac eglurai i'r Parch. M. H. Jones, B.A., Penllwyn, mai diffyg y cofnodydd ydoedd ysgrifennu Magdalena ac nid Dorothea fel enw'r fam. Cyfrifai am y diffyg trwy egluro mai copi amherffaith o'r coflyfr yw'r unig un sydd ar glawr am y cyfnod

uchod, ac mai hawdd i un fethu wrth gopïo neu geisio copïo pan yn cofnodi yn y tŷ ymhen rhawg wedi'r bedydd.[1] Pe gellid rhoddi llaw ar y coflyfr gwreiddiol dichon y ceid sicrwydd; onis gwneir, rhaid parhau mewn amheuaeth.

Ystyrid rhieni'r emynydd yn yr oes dywyll honno yn bobl feddylgar a chrefyddol anarferol. Ymneilltuwyr oeddynt, yn aelodau o Eglwys Annibynnol Cefnarthen, a bu John Williams yn ddiacon oni chrewyd terfysg trwy ddyfod athrawiaethau Arminaidd i mewn. Ni ddywedir pa un a'i gwrthwynebiad i'r athrawiaethau newydd neu ynteu lledneisrwydd ysbryd yn gwneuthur addoli mewn terfysg yn anodd a barodd i'r diacon droi cefn ar yr Eglwys. Yn y terfysg ymneilltuodd ef a'i deulu, ynghydag eraill, a sefydlu a wnaethant eglwys newydd mewn amaethdy o'r enw Clinpentan, a chyn hir iawn adeiladwyd capel Pentre-ty-gwyn, ar dir Pantycelyn, a roddwyd yn rhad gan Dorothea Williams. Daethai etifeddiaeth Pantycelyn i Dorothea ar ol ei brawd a fu byw a marw'n ddibriod, a thrwyddi hi y disgynnodd Pantycelyn i'w mab William. Bu farw John Williams tua'r flwyddyn 1739, eithr bu'r fam byw hyd o fewn saith mlynedd i derfyn oes ei mab. Cafodd hi oes faith o 95 o flynyddoedd, ac ni wybu lawer am wasgfa a thrallod blinfyd.

Ni wyddys ond ychydig am ddyddiau bore'r emynydd. Yr oedd yn un o chwech o blant, ac ef yn unig o dri mab a welodd oedran gŵr. Diau ei fagu'n dda ar aelwyd glyd a chymen, ac iddo gyfranogi o fanteision goreu addysg ardal ei gartref. Ceir profion iddo orffen ei addysg yn Athrofa Llwynllwyd. Ychydig a ddiogelwyd o hanes yr ysgol hon, eithr y mae'r ffaith i ddau o enwogion pennaf Cymru, sef Howell Harris a William Williams, dderbyn cyfran fawr o'u haddysg ynddi yn ddigon i gadw'n fyw am byth ei henw. Cytuna haneswyr mai yn Llwynllwyd y gorffennodd Williams ei addysg, ond gwahaniaethant

[1] *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd.* Cyf. III. Rhif 2.

lawer ynglŷn â phwy ydoedd yr athro. Myn y Parch. Thomas Charles, a *Methodistiaeth Cymru*, mai'r Parch. David Price, gweinidog eglwys Annibynnol Maesyronen ydoedd; eithr deil y Parch. Thomas Rees, D.D., yn *The History of Protestant Nonconformity in Wales; Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru; Cymru*, gan Owen Jones, *Y Gwyddoniadur*, *Gweithiau Williams*, gan Gynhafal, a *Diwygwyr Cymru* gan Beriah, mai'r Parch. Vavasor Griffiths, gweinidog Maesgwyn, ydoedd. Credaf y profir tuhwnt i bob amheuaeth gan y Parch. T. Shankland, M.A.,[1] mai'r ddau gyntaf sy'n gywir. Yr oedd dwy Athrofa, sef Llwynllwyd, ger Glasbury, ar ororau deheuol Sir Faesyfed, a'r Parch. David Price yn athro iddi; a Maesgwyn, ym mhlwyf Bugeildy, yn eithaf gogledd-ddwyrain Maesyfed, a'r Parch. Vavasor Griffiths yn athro ynddi. Yr oedd tros bum milltir ar hugain rhwng Llwynllwyd a Maesgwyn.

Ymddengys mai'r Parch. Thomas Rees, D.D., yn 1861 a gychwynnodd y cyfeiliornad ynglŷn â'r athro, a dilynwyd ef gan bob hanesydd oni thywysodd y Parch. T. Shankland ni'n ol i'r trywedd cywir. Dyma bellach derfyn ar yr hen amryfusedd. Nid oes le i ddadl mwy ynglŷn ag Athro Harris a Williams yn Llwynllwyd.

### TROEDIGAETH YR EMYNYDD.

Gwyddai Williams lawer am grefydd er yn blentyn. Gwybu am allor ac aberth ar aelwyd Cefncoed, a chlywodd bregethu am bechod a maddeuant o bulpudau Cefnarthen a Phentretygwyn, eithr tyfodd i fyny fel ei gyfoedion yn ysgafn a chwaraes ei fryd, ac aeth i athrofa Llwynllwyd heb ddim profiad o grefydd ysbrydol. Testun siarad a syndod byd ac eglwys yng Nghymru y dyddiau hynny ydoedd y diwygiwr ieuanc ac afreolaidd Howell Harris. Peth ar gyfyl rhyfyg yn ol rheolau'r Eglwys Wladol ydoedd i ddyn heb urddau bregethu'r Efengyl, a pheth llawn mor afreolaidd ac annisgwyliadwy yn yr oes ddiog a chysglyd

[1] *Y Beirniad*, Awst, 1918.

honno ydoedd i bregethu neb pwy bynnag fod tan ddigon o eneiniad y nefoedd i ddeffroi gwlad ac achub pechaduriaid. Dechreuasai Harris bregethu yn y flwyddyn 1736, ac yr oedd Williams yn athrofa Llwynllwyd, chwe milltir o Dalgarth, yn 1738, a diau glywed ohono lawer am y diwygiwr gan ei gydfyfyrwyr ac eraill. Naturiol i fachgen brwd a chywrain ei ysbryd, a mab i flaenor, awyddu gweled a chlywed y pregethwr ieuanc a gynhyrfai wlad gyfan. Cydredai'r hen ffordd o Lwynllwyd i Dalgarth â mur mynwent Eglwys y plwyf,—y mae'r ffordd bresennol led cae bychan i lawr o'r fynwent,—ac ar hyd yr hen ffordd hon y teithiai William Williams un bore Sul. Ac efe'n dynesu at yr Eglwys clywai lais clir Harris yn cyhoeddi Efengyl y tangnefedd i gynulleidfa fawr. Wedi cyrraedd y dorf, ymwthiodd y llanc drwy ei hymylon yn ddigon agos i weld y pregethwr a bregethai wrth borth yr eglwys. Gwnaed gwyrth ar y myfyriwr ieuanc y bore hwnnw, a throdd yntau o'r oedfa a'i wyneb tua'r wawr, i fod yn sant, yn bregethwr, a phrif emynydd ei genedl. Tynnwyd darlun gan ddarfelydd hoyw Hiraethog o effeithiau y bachgen-bregethwr ar y bachgen-ysgol :—" Y mae yn gyffro cyffredinol ; ond pa le mae y gŵr ieuanc diddorol hwnnw ? Dacw efe, a'i wyneb wedi gwynlasu, a'i holl gorff yn ysgwyd gan gryndod a braw. Y mae yn wir ddelw o ddychryn. Disgwylia bob moment weled Mab y Dyn yn dyfod ar gymylau y Nefoedd—aeth rhyw saeth loew-lem oddi ar fwa athrawiaeth y gŵr sydd ar y gareg fedd acw i'w galon.[1] Y mae cleddyf daufiniog wedi ei drywanu hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd. Y mae ganddo olwg wahanol arno ei hun yn awr i'r hyn a fu ganddo erioed o'r blaen. Mewn gair, y mae yn ddyn newydd. Daeth allan o'r fynwent y bore hwnnw wedi ei greu o newydd."

[1] Nid ar garreg fedd y safai'r pregethwr, eithr "o flaen porth yr Eglwys eang, heb un twmpath dan ei droed." Gweler Farwnad Williams i Harris.

Nid dychymig penrhydd sydd yn narlun Hiraethog, eithr lliwiau a chyffyrddiadau a gyfiawnheir gan ffeithiau. Dywed Williams ei hun rywbeth am yr oedfa ryfedd honno :

Dyma'r boreu, fyth mi gofia,
 Clywais innau lais y nef ;
Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod
 Gan ei sŵn dychrynllyd ef ;
Dyma'r fan, trwy byw mi gofiaf,
 Gwelais i di gynta erioed,
O flaen porth yr Eglwys eang,
 Heb un twmpath dan dy droed.

Ni wyddys ddim pendant o helynt Williams wedi'r oedfa hon oni cheir ef yng ngwasanaeth yr Eglwys Wladol fel Curad. O'r pellter hwn anodd gweled ei lwybr o aelwyd Anghydffurfiol Cefncoed, ac o oedfa fythgofiadwy un

 Heb arddodiad
Dwylaw dynion o un rhyw,

i urddau yr Eglwys Loegr. Urddwyd ef yn ddiacon ym Mhlas Abergwili, yn 1740, gan ŵr o'r enw Nicholas Claget, Esgob Tŷ Ddewi, a phenodwyd ef i guradiaeth Llanwrtyd a Llanddewi Abergwesyn, tan ofal Theophilus Evans, awdur *Drych y Prif Oesoedd*. Tariodd dair blynedd yma, ond oherwydd anwybodaeth ddygn y bobl a'u bywyd bâs a llwgr, ni lwyddodd yn fawr er gweithio'n ddyfal a chaled. Cartrefai'n ystod tymor ei guradiaeth yng Nghefncoed, ac ymddengys ei fod cyn hyfed â phregethu'n aml y tuallan i'r plwyfydd tan ei ofal. Ystyrid hyn gan awdurdodau'r Eglwys yn drosedd dybryd a pheryglus, a galwyd ef i gyfrif am dano. Ni chafodd well urdd nag un diacon,—"offeiriad hanner pan," chwedl gwerin gwlad Goronwy. Gwrthododd yr Esgob urddau cyflawn iddo oherwydd ei gydymdeimlad â'r Methodistiaid. Dywed y Parch. Daniel Rowlands fod Williams wedi ei

ddwyn i lys yr Esgob am na phreswyliai yn y plwyf y penodwyd ef iddo.[1] Un o'i bechodau mawr, fel ei gyfoeswr John Wesley, ydoedd ystyried ei blwyf gyfled â'r byd. Dywed traddodiad y cyhuddid ef yn llys yr Esgob o bedwar ar bymtheg o fân bechodau, eithr unig resymau'r Esgob tros wrthod urddau cyflawn, yn ol Williams ei hun, ydoedd ei fod yn Fethodist, ac yn gymeradwy gan y plwyfolion.[2]

## Gadael yr Eglwys Wladol.

Dywedai'r Parch. Thomas Rees, D.D., yn 1883,[3] a dywedai llenor arall yn 1909,[4] i'r Eglwys Wladol esgymuno Williams, ac nid oedd y Parch. Thomas Charles yn sicr ar y pwynt. Eithr erbyn hyn y mae prawf pendant gefnu o'r emynydd ar yr Eglwys ohono'i hun ac o'i fodd. Ceir cofnod ar hyn yn *Minutes of the Associations*, *Trevecka MSS*. Cynhaliwyd Cymdeithasfa gan y diwygwyr Methodistaidd yn Watford, Ebrill 6 a 7, 1743, a'r penderfyniad cyntaf a gofnodir ydyw :

> " *Resolved that the Rev. Mr. Williams should leave his Curacy and be assistant to the Rev. Mr. Rowlands.*"

William Williams ydoedd y cyntaf o'r diwygwyr i ddyfod yn Ymneilltuwr. Parhaodd Daniel Rowlands yn offeiriad am flynyddoedd wedyn, oni thorrwyd ef allan yn 1763, ac arhosodd Howell Harris mewn undeb â'r Eglwys Wladol hyd ei fedd. Tebig ydyw y cynorthwyai Williams lawer ar eglwys Fethodistaidd Cilycwm cyn torri ei gysylltiad â'r Eglwys Sefydledig, a phan ymunodd â'r Trefnyddion ymaelododd yng Nghilycwm.

[1] Llythyr Rowlands at Howell Harris, dyddiedig Hydref 20, 1742.

[2] *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Cyf. III. Rhif 2.

[3] *Hist. Pro. Noncon.*, td. 380. Thomas Rees, D.D.

[4] *Manual of Welsh Literature.* J. C. Morrice, M.A.

WILLIAMS YN PRIODI.

Pan oddeutu deuddeg ar hugain oed ymbriododd Williams â Mary Francis, merch Thomas Francis, Penlan, Llansawel—gŵr yn dda arno, a dwy fferm fechan yn Llanllawddog yn gefn iddo. Mary oedd unig blentyn ei rhieni, ac wedi peth disgwyl daeth y ffermydd yn eiddo iddi hi a Williams. Gŵr ffodus a chefnog ynglŷn â phethau'r byd hwn oedd yr emynydd, oblegid daeth tair etifeddiaeth yn eiddo iddo, sef Cefncoed, cartref ei dad, Pantycelyn, cartref ei fam, a ffermydd tad ei wraig yn Llanllawddog. Dyma dair ffrwd ei gysylltiadau teuluol yn arllwys cyfoeth i'w fywyd. Eithr cafodd fwy a gwell cyfoeth ym " Mali " ei briod nag yn yr holl ffermydd gyda'i gilydd.

Bu Mary Francis yn gymdeithes i wraig y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, yr hon oedd chwaer i Syr John Phillips, o Gastell Picton, a magodd Mary brofiad gwerthfawr yng nghymdeithas y teulu hwn a'r ymwelwyr bonheddig a ddaethai i Gastell Picton o dro i dro, a chwanegodd yn fawr at ei chymhwyster i fod yn gymar bywyd i'r bardd-bregethwr. Dywedir bod Mrs. Williams yn wraig dalentog a duwiol, a chanddi lais canu swynol anarferol, ac y penderfynai'r emynydd faint llithrigrwydd ei emynau a'u cyfaddaster i donau adnabyddus trwy iddi hi eu canu. Wyth mlynedd wedi claddu ei phriod hunodd Mrs. Williams hithau yn y flwyddyn 1799, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd hi wrth ochr ei gŵr ym mynwent Llanfair-ar-y-bryn.

Ganed i'r emynydd a'i briod wyth o blant—chwe merch a dau fab. Gwnaeth yr Ymneilltuwr Methodistaidd a gefnodd ar yr Eglwys Sefydledig offeiriaid o'i feibion. Mor anodd cysoni rhai pethau ym mywyd dynion enwog ! Ni wyddys ond ychydig o hanes William y mab hynaf. Cafodd guradiaeth yn Newlyn, ger Truro, yng Nghernyw, ac yno y bu farw yn 1818. Urddwyd John yn ddiacon gan Esgob Warren, yn Abergwili, Hydref 17, 1799. Bu'n gurad yn eglwys Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, ac ym

Medi, 1780, urddwyd ef yn offeiriad cyflawn. Yn ddilynol i Lanfynydd cafodd guradiaethau Llanfair-ym-Muallt, a Llanddewi'r Cwm, yn Sir Frycheiniog. Bu yng ngwasanaeth yr Eglwys Sefydledig o 1779 hyd 1786, pryd y cefnodd yntau fel ei dad ar yr Eglwys, ac yr ymunodd â'r Cyfundeb Methodistaidd. Pregethodd yn gymeradwy a defnyddiol yn y Corff hyd ei farw yn 1828.

Ynglŷn â William Williams yn ymadael â'r Eglwys Wladol, dywed y Parch. Thomas Charles :—" Pallodd yr Esgob ei urddo oherwydd ei afreolaeth yn pregethu ymhob man heb law yn Eglwysydd y plwyfau yr oedd yn gweinidogaethu ynddynt. Nid oedd yn cymeradwyo yr afreolaeth hwn yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynddo, yr oedd yn ei barnu, ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwyllog."[1] Nid oes dim yn amwys yn y geiriau hyn o eiddo Mr. Charles, eithr rhag gorfod credu i Williams edifarhau cefnu ar yr Eglwys, a bod rhywfaint o'r hen gurad yn llechu'n ddirgel yn ei ysbryd ar hyd ei oes, gwna'r Parch. John Hughes ymdrech wrol i ddiddymu meddwl naturiol y geiriau trwy ddywedyd mai'r hyn a olygid ydoedd i Williams ofidio ar hyd ei oes oherwydd ymuno'n fyrbwyll â'r Eglwys ar y cychwyn a chymryd ei urddo'n ddiacon,— " Dichon fod Williams yn edrych ar ei ysgogiadau gyda gweinidogaeth yr Efengyl o'r dechreuad yn fyr o bwyll a dwysder ; yn cymeryd yn gyntaf ei urddo gan Esgob, a thrachefn yn bwrw ymaith yr iau a gymerasai arno ei hun mor ddiweddar, . . . o dan y fath amgylchiadau nid rhyfedd a fuasai iddo ystyried ei waith yn myned i'r Eglwys, ac nid ei waith yn ei gadael, yn effaith ysgafnder a byrbwylldra."[2]

Y mae geiriau Thomas Charles yn rhy glir a phendant i'r esboniad hwn newid eu hystyr. Gwrthodwyd urddau llawn i Williams *oherwydd ei afreolaeth* yn pregethu mewn

[1] *Y Drysorfa*, Llyfr II.

[2] *Methodistiaeth Cymru*, Cyf. I.

lleoedd y tuallan i'r plwyfydd a berthynai iddo fel curad, a'r afreolaeth hwn a gondemnir ganddo " yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd," ac nid ei waith yn ymuno â'r Eglwys ar y cyntaf a goddef ei urddo'n ddiacon. Diau mai'r hyn a barai iddo anghymeradwyo ei afreolaeth fel curad a barai hefyd iddo ddwyn ei feibion i fyny'n offeiriaid, sef ei anwyldeb at yr hen Eglwys, a'r anfantais a gawsai fel pregethwr oherwydd nad ydoedd yn ordeiniedig.

GORLAFUR WILLIAMS.

Dyn o gorff cryf ac iach ydoedd William Williams, ond ymddengys iddo ddibrisio ac afradu ei nerth. Trwy brynu'r amser, a'i brynu'n ddrud iawn, y llwyddodd i roddi cymaint i'w genedl mewn llafur llenyddol a chyhoeddus. Dywedir ei fod yn naturiol, gorff a meddwl, yn fywiog a gweithgar, ac yn elyn diogi a difaterwch ym mhawb. Amaethai fferm Pantycelyn, a chyfansoddai lyfrau lawer, a gwnai'r ddau cyn ragored a'i gilydd. Yr oedd yn gynnil heb fod yn gybyddlyd. Meddai ddawn i gasglu arian a doethineb i'w gwario. Talai'r fferm yn dda am ei ofal trosti, a bernir i bob llyfr a gyhoeddodd ddwyn elw iddo. I ychydig y mae cyhoeddi llyfrau yn fudd ariannol hyd yn oed yn yr oes ddarllengar hon yng Nghymru, eithr gwnai'r emynydd elw drwy gyhoeddi llyfrau mewn oes dywyll a phrin ei darllenwyr. Byddai ganddo bersonau yma a thraw trwy'r wlad yn casglu enwau derbynwyr, ac yn diogelu rhag-daliadau, sef cyfran o bris y llyfr, a'r gweddill o'i bris wrth ei dderbyn. Tybir y derbyniai oddeutu £200 y flwyddyn o bob ffynhonnell, a chan y dywedir fod chwech swllt y pryd hwnnw yn gyfartal i bunt yn bresennol, yr oedd ei gyllid blynyddol yn gyfartal i £666 o'n harian ni heddyw. Ni wyddys delerau gwasanaeth Williams yn yr Eglwysi, ond anodd fuasai i ddyn mor ysbrydol dderbyn tâl gan dlodion ag yntau mor gyfoethog.

Trwy lafur dibaid yn myfyrio, ysgrifennu, teithio, pregethu, a chadw cyrddau neilltuol, amharodd ei iechyd.

Poenid ef am flynyddoedd gan y graeandwst a'r prudd-glwyf, ac aeth ei iau cyn wanned onid ofnai yn ei hen ddyddiau groesi trothwy'i dŷ wedi nos heb Mrs. Williams i gadw drygddyn a bwgan draw. Cymaint oedd ei brudd-glwyf ar brydiau nes anghofio ohono'i hun a'i amgylchiadau, a llithrai i freuddwydio ar ddihun. Edrydd y Parch. Owen Thomas, D.D., hanes a glywodd pan yn llanc amdano yng nghapel Uchaf Clynnog, pan deithiai trwy Arfon. Gorffwysai'r pruddglwyf yn drwm ar yr hen brydydd, ac fel pe rhwng cwsg ag effro llithrodd ei feddwl at Mali a Jack ei fab, a phan gododd yn y pulpud, rhoddodd i'w ganu y pennill hwn :

Hed y gwcw, hed yn fuan,
  Hed aderyn glas ei liw,
Hed oddiyma i Bantycelyn,
  Dwed wrth Mali mod i'n fyw ;
Hed oddiyno i Lanfair-Muallt,
  Dwed wrth Jack am gadw'i le ;
Ac os na chaf ei weled yma,
  Caf ei weled yn y ne'.

Galwodd dechreuwr y canu sylw'r pregethwr at anaddaster y geiriau i'r achlysur. Daeth yntau ato'i hun ar unwaith. Cofiodd mai iachawdwriaeth y Groes ydoedd baich ei genadwri ar y pryd, ac ar darawiad rhoddodd i'w ganu :

Mae'r iachawdwriaeth fel y môr
  Yn chwyddo byth i'r lan ;
Mae ynddi ddigon, digon byth,
  I'r truan ac i'r gwan.

Ymddengys y cynhyrfid ei awen weithiau gan ysbrydiaeth sydyn ac annisgwyliadwy, a'r adegau hynny mynnai'r prydydd byrbwyll a phendant roddi ei weledigaethau ar bapur yn ddiymdroi. Weithiau aflonyddid ar hun felys Mali wedi llafur a gofalon y dydd, gan waeddi'r emynydd

ganol nos yn ei ddull swta, "Mali, Mali, cannwyll, cannwyll! Rhaid i mi fynd i sgrifennu." Dywedir i'r ysbrydiaeth hon ddisgyn arno drymder nos un tro mewn lle o'r enw Maes-cefn-y-ffordd, gerllaw Llangamarch; eithr er gwaeddi'n hir a chroch am gannwyll, methodd â dihuno'r forwyn. Wrth gwrs, byddai'n berigl bywyd iddo ef yn y tywyllwch mud ddisgyn o'i wely i ganol bwganod gwancus. Bore trannoeth canodd y bardd i'r forwyn fel hyn:—

Yn awr 'rwy'n gorfod credu
  'Tai yma glychau'r llan,
A rhod y felin bapur,
  A gyrdd y felin ban,
A'r crochan mawr a'r badell
  Yn twmblo o gylch y tŷ,
A'r gwely yn torri tani,
  Mai cysgu wnelai hi.

Yn y llythyr a ysgrifennodd at Charles o'r Bala, tua therfyn ei oes, rhydd Williams syniad am faint ei lafur cyhoeddus. "Y mae fy nyddiau yn tynnu tua'r terfyn, mae fy ngyrfa ymron wedi ei rhedeg. Cefais oes faith; yr wyf yn awr yn 73 mlwydd oed. Yr wyf wedi bod yn pregethu am y 43 mlynedd diweddaf, ac wedi teithio bob wythnos at ei gilydd rhwng deugain a deg a deugain o filltiroedd tros yr holl amser hynny. Y Gwanwyn diweddaf, mi a deithiais bedair neu bum waith trwy siroedd Deheudir Cymru; pob taith yn para pythefnos, ac yn 200 milltir o hyd." Nid oedd y teithio a'r pregethu onid rhan o waith yr emynydd. Meddylier am y llyfrau mewn rhyddiaith a gyfansoddodd ac a gyfieithodd, ac am ei bryddestau hirion a'i gannoedd emynau! Ychwaneger at y cwbl ei ofal tros fferm Pantycelyn, a gwelir iddo weithio hyd at orlafur trwy gydol ei oes faith.

Daeth terfyn rhawd yr "Hen Williams" yntau, a diwedd tangnefeddus a fu. Hunodd yn ddigŵyn a bodlon Ionawr 11, 1791. Bu farw yn 73 (74 ?) mlwydd oed

ym Mhantycelyn, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfair-ar-y-bryn, gerllaw Llanymddyfri. Gosododd edmygwyr yr emynydd ar ei fedd gofadail o ithfaen coch ac arno yn Saesneg y geiriau a ganlyn :[1]

"Sacred to the memory of Rev. William Williams, Pantycelyn, in this Parish, Author of several works in prose and verse. He waits here, the coming of the morning star, which shall usher in the glories of the first resurrection, when at the sound of the Archangel's trumpet the sleeping dust shall be re-animated, and death for ever shall be swallowed up in victory.

Born 1717 ; Died Jan. 11, 1791. Aged 74 years.

Heb saeth, heb fraw, heb ofn, ac heb boen,
Mae'n canu o flaen yr orsedd ogoniant Duw a'r Oen ;
Yn nghanol myrdd myrddiynau, yn canu oll heb drai,
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau."

### Lle Williams yn y Diwygiad Methodistaidd.

Megis yr Wyddfa ymhlith mynyddoedd Cymru, ac fel Pantycelyn ymhlith Emynwyr Cymru, felly y Diwygiad Methodistaidd ymhlith Diwygiadau Cymru. Mudiad mawr o'r dwyfol a'i egni'n ddiatal ydyw, ac yn goroesi pob diwygiad arall ym mywyd y genedl. Gesyd Duw yn ddieithriad ddynion o bersonoliaeth anghyffredin i gychwyn pob mudiad sydd i fyw yn hir,—dynion a fedr edrych tros fynyddoedd cenedlaethau, a digon o loywder a threiddgarwch yn eu llygaid i weled ymlaen am ganrifoedd. Dynion felly oedd Wesley a Whitfield, Harris a Rowlands a William Williams. Arweinwyr amlwg a phoblogaidd y Diwygiad yng Nghymru oedd Howel Harris a Daniel Rowlands ; eithr yr oedd i Williams yntau ran bwysig yn y symudiad. Pwy bynnag oedd dyn am-

[1] Y Parch. Thomas Levi, Aberystwyth, a fu'n offeryn i gychwyn mudiad y Gofadail.

lycaf y Diwygiad, Williams, Pantycelyn, oedd ei ddyn mwyaf ar lawer cyfrif.

Yr oedd crefydd yng Nghymru mewn cyflwr isel a drwg ar gychwyn y Diwygiad, a gwaethygu'n araf a wnai'r Eglwysi mewn cyflwr ac o ran rhif eu haelodau. Y mae'n wir nad oedd pawb mewn trymgwsg fel yr haera Williams yn un o'i farwnadau, oblegid yr oedd amryw ddynion fel Griffith Jones, Edmwnd Jones, ac Isaac Price, ar y muriau. Eto, cysglyd a gwan oedd Seion.

Ofnaf bod perigl i'r anghyfarwydd yn hanes crefydd Cymru dybio na fu erioed na haul na hindda yn y wlad cyn dyddiau'r Diwygiad Methodistaidd, a bod y cwbl o'n dyled i Harris a Rowlands a Williams. Cyfeiliornad gwrthun a fuasai tybio felly, oblegid bu i Gymru'n fore gewri ysbrydol, o ddoniau anarferol,—dynion a'u meddyliau wedi'u trwytho â dysg oreu prif ysgolion y deyrnas, megis Edmwnd Prys, Y Dr. Wm. Morgan, William Salsbri, Y Dr. Richard Davies, Y Ficer Pritchard, Y Dr. Davies o Fallwyd, Walter Cradoc, Vavasor Powell, Hugh Owen, Bronclydwr, a llawer eraill. Dynion o alluoedd anghyffredin oedd y rhain, a phob un wedi ei addysgu naill ai yng Nghaergrawnt neu Rhydychen. Dyma ddiwygwyr mawr cyntaf Cymru, a gweddus cofio mai cewri oeddynt mewn meddwl a diwylliant a chymeriad ; a pha cyn lleied bynnag oedd ffrwyth uniongyrch eu hymdrechion, eu llafur hwy a wnaeth y Diwygiad Methodistaidd yn bosibl. Er hyn i gyd, a chymryd gwedd gyffredinol ar grefydd y wlad y mae'n rhaid addef bod pethau mewn cyflwr gresynus. Hwyrach na fu i ni erioed hanesydd mwy cymedrol a phrinnach ei ddawn i feio na'r Parch. Josua Thomas, eithr gorfodir ef i ddywedyd, " Hyn sydd sicr, anwybodaeth ac anfoesoldeb mawr oedd ymhlith y cyffredin bobl "[1]

Rhagflaenor mawr y Diwygiad ydoedd y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Ef a fu'n naddu llwybr yn y graig, yn darostwng bryniau ac yn codi'r pantiau, ac yn medi

[1] *Hanes y Bedyddwyr*, Joshua Thomas.

drain a mieri'r diffeithwch, fel y cawsai dylanwadau nerthol y byd a ddaw lifo i fywyd y genedl. Meiddiodd Howel Harris dorri tros furiau uchel a thrwchus yr hen Eglwys, a cherdded i'r prif-ffyrdd a'r caeau heb ofni na gwg na sen yr awdurdodau goruchel, a defnyddiodd Duw Daniel Rowlands a William Williams i ddiogelu a chyfeirio dylanwadau'r mudiad newydd.

### Safle Williams fel Pregethwr.

Ystyrrir Williams gan ei gofiannwyr yn gystal trefnydd â'r goreu o'r diwygwyr, ac yn rhagorach diwinydd na'r un ohonynt. Ef ydoedd prif ddiwinydd y Diwygiad, ac erbyn hyn cydnabyddir yn gyffredinol mai ef ydoedd ac ydyw y bardd cysegredig mwyaf a gafodd y genedl. Eithr anaml y cyfeirir ato fel pregethwr. Y mae hyn, yn gyntaf, oherwydd y cydoesai â rhai o'r pregethwyr hynotaf yn hanes y ddaear, megis John Wesley, George Whitfield, Daniel Rowlands, a Howel Harris. Nid goleu Williams oedd yn fach, eithr eiddo'r rhain oedd yn eithriadol fawr. Yn ail, cuddid y pregethwr mawr yn yr Emynydd mwy. Yn ol tystiolaeth Charles o'r Bala, a gafodd lawer cyfle i'w glywed, yr oedd Williams yn bregethwr mawr ymhlith cewri. Dyma dystiolaeth Mr. Charles,—"Yr oedd ei ddoniau areithyddol yn helaeth, ei bregethu yn efengylaidd, yn brofiadol, ac yn felys—yn chwilio i mewn i au athrawiaethau, a gau brofiadau, ac yn gwahaniaethu yn fanwl rhwng gau a gwir ysbryd. Yr oedd ei ddychymyg yn gry, ei lygaid yn graff a threiddgar, a llawer o ddylanwadau nefol ar ei ysbryd wrth weinidogaethu yn gyhoeddus, ac yn ei ymddiddanion â dynion am fater eu heneidiau yn y cymdeithasau neillduol."

Er cymaint a wnaeth Harris a Rowlands i'r Diwygiad, gwnaeth Williams fwy. Nid oeddynt hwy ddim ond pregethwyr ; prin gwerth son am yr hyn a ysgrifennwyd ganddynt. Eithr ysgrifennodd Williams gyfrolau mewn rhyddiaith a barddoniaeth i ddysgu hanes a diwinyddiaeth i'r eglwysi. Profodd dro ar ol tro fod ei fedr fel trefnydd

yn gyfartal onid yn rhagori ar bawb o arweinwyr y Diwygiad. Pregethodd â llwyddiant mawr, a chanodd gannoedd o emynau eneiniedig i fod yn gyfryngau mawl saint Cymru hyd ddiwedd amser.

### Ei Farddoniaeth ar wahan i'r Emynau.

Ni chyfyngodd Williams ei hun fel awdur i farddoniaeth, eithr gwnaeth enw iddo'i hun a lles i filoedd trwy lenyddiaeth rydd. Rhwng blynyddoedd 1759 a 1791 cyhoeddodd bymtheg o lyfrau mewn rhyddiaith. Yr oedd tri o'r rhain yn gyfieithiadau, a'r gweddill yn eiddo gwreiddiol. Y mae un ohonynt, sef *Pantheologia, neu Hanes holl grefyddau y Byd*, yn waith mawr a gostiodd yn ddrud iddo mewn darllen a meddwl. Ysgrifennodd yr awdur mewn iaith seml ac arddull lled ddidramgwydd, fel y gallai'r diddysg a'r bach ei amgyffredion ddeall, a'i brif amcan ydoedd llesoli'r Cymry anwybodus ac annuwiol. Bu'r traethodau'n enwog a buddiol yn yr oes y'u cyhoeddwyd ynddi, eithr erbyn hyn nid ydynt yn ddiddorol a gwerthfawr onid i'r hynafiaethydd a'r llyfrbryf cywrain.

Cyfansoddodd y bardd amryw ganeuon, a rhyw bymtheg marwnad ar hugain ar ol enwogion megis Howel Harris, Daniel Rowlands, Griffith Jones, Llanddowror, etc., eithr ei orchestion prydyddol ar wahan i'w emynau ydyw ei bryddestau hirfaith, sef *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus*. Y mae yn y gyntaf 1367 o benillion pedair llinell yn dair sill ar ddeg yr un, ac yn yr ail 1741 o benillion ar yr un mesur â'r gyntaf. Dywed Williams yn ei ragymadrodd i'r argraffiad cyntaf o *Golwg ar Deyrnas Crist* mai yr hyn a'i cymhellodd i gyfansoddi " am Helaethrwydd Teyrnas a godidowgrwydd Person y Messiah " ydoedd " awydd am ddeffroi'i enaid ei hun i garu'r Iesu'n well, ynghyda cheisio argyhoeddi rhai o'u diystyrwch cyhoedd o Grist, ac eraill o'u difrawder ewyllysgar i bwyso arno am gyfiawnhad enaid." Dyma brif amcan yr awdur yn y cwbl o'i waith—ei draethawd, a'i bryddest, yn gystal a'i bregeth a'i emyn ;

ac wrth ddarllen a beirniadu ei waith y mae cofio ei brif amcan yn anhepgor i wneud cyfiawnder ag ef. Y mae yn y gyntaf o'r ddwy gân gynllun eang a lenwir â gwybodaeth efengylaidd a buddiol iawn. Rhennir hi yn chwe phennod: "Y Deyrnas yn cael ei rhoddi i Grist, neu Crist yn bob peth yn yr Arfaeth—Crist yn gosod i fyny ei Deyrnas, neu yn bob peth yn y Greadigaeth—Crist yn achub ei Deyrnas yn y gwrthryfel cyffredin, neu Crist yn bob peth yn Addewid Eden—Crist yn llywodraethu ei Deyrnas, neu Crist yn bob peth mewn Rhagluniaeth—Llyfr Statute Teyrnas Crist, neu Crist yn bob peth yn y Beibl—Teyrnas neilltuol Crist, neu Crist yn bob peth yn iachawdwriaeth y Saint."

Ceir ugain pennod ar Fywyd a Marwolaeth *Theomemphus* yn portreadu ei annuwioldeb cyn ei gyfnewid, ei argyhoeddiad o bechod trwy bregethu Boanerges, ei demtasiynau, ei ofnau, ei beryglon oddi wrth athrawon gau, ei gadernid yn y ffydd, a'i farw. Dengys yr awdur allu anarferol i ddadansoddi teimladau, anawsterau, a buddugoliaethau'r bywyd ysbrydol. Diau y cyfyd ei fedr yn y gorchwyl hwn o'i brofiad personol. Nid cynnyrch awen bardd ydyw'r gân, eithr cynnyrch profiad dyn gwir ysbrydol. Y mae'r gwaith ar yr un cynllun â *Thaith y Pererin* Bunyan, ac y mae llawer o debygrwydd rhyngddynt, ond y mae'n waith newydd a gwreiddiol er hynny. Dywed yr awdur yn ei ragymadrodd, "Fe redodd y Llyfr hwn o'm hysbryd fel dwfr o ffynnon, neu wê'r pryf copyn o'i fol ei hun. Y mae yn ddarn o waith newydd, nad oes un *platform* iddo yn Saesneg, Cymraeg, nac yn Lladin, a'r wn i." O'r ddwy gân, credaf mai *Theomemphus* ydyw'r werthfawrocaf o lawer. Gall dyn crefyddol ddarllen hon â blas ac er budd heddyw, eithr gwaith caled a blin i fardd neu Gristion yn yr oes hon a fyddai darllen *Golwg ar Deyrnas Crist*.

Bodlona cofianwyr Williams ar farn Hiraethog am dano fel bardd. Dywed ef am *Golwg ar Deyrnas Crist* ei bod yn "Arwr-gan benigamp,"—"A gadael allan o

ystyriaeth y gwallau ieithyddol ni phetruswn honni ei chystadledd â phrif orchestion awenyddiaeth anwyfoledig yr oesoedd." Cymhara hi â *Choll Gwynfa* Milton, a dywed fod y ddwy gân yn gwahaniaethu yn " ansoddion gwahaniaethol y ddwy oes, yn gystal a'r ddau fardd," eithr ni ddysg y gwahaniaethant—mewn gwerth barddonol.[1] Yn wir, gedy ei eiriau yr argraff ar feddwl dyn yr ystyriai ef y ddwy gân yn gyfwerth. Cyn belled ag yr â'i feirniadaeth dysg fod rhyw wahaniaeth rhwng nodweddion y ddwy oes y'u cyfansoddwyd ynddynt, a rhwng nodweddion athrylith y ddau awdur, a dyna'r prif wahaniaeth, onid yr unig un. Tybed nad oes lle i ofni y byddai dychymyg Hiraethog fawr ar brydiau yn creu gwerth lle nad ydoedd, ac yn methu â'i weled lle y byddai ? Prin y mae'n ddiogel dilyn Hiraethog bob amser yn ei draethawd ar athrylith Williams, oblegid methiant anarferol ydyw ei feirniadaeth ar Dafydd ap Gwilym. Dysg prif lenorion a beirniaid Cymru a gwledydd eraill fod Dafydd ap Gwilym y bardd mwyaf a gafodd ein cenedl ni hyd yr oes hon, ac â rhai cyn belled â'i restru gyda phrif feirdd y byd. Eithr dywed Hiraethog mai darostwng a halogi awenyddiaeth ei wlad a wnaeth, " a dwyn mawr ddirywiad a llygredigaeth i'w hysbryd a'i nodwedd foesol." Fe gydnebydd gryfder a hoenusrwydd ei ddychymyg, eithr dychymyg " wammal gellweirus ydoedd." Cymhara ap Gwilym â Huw Llwyd, a dywed fod yn nau gywydd Huw i'r Llwynog " fwy o wir farddoniaeth nag a gynwysai deng mil o gywyddau o fath rhai D. ap Gwilym." Gofyn ymhellach, " Pa beth a ganodd yn deilwng o'i gadw ar gôf ac ar gael."[2] Rhag ofn i Hiraethog gyfeiliorni cymaint mewn barn ar waith Williams ag a wnaeth ar eiddo D. ap Gwilym, doeth fyddai ei ddilyn â llygaid agored.

Cyn belled ag yr â hyd y mae *Golwg ar Deyrnas Crist* yn waith mawr iawn ; eithr diwinyddiaeth ydyw ac nid

[1] *Holl Weithiau Williams*, Kilsby Jones.

[2] *Beirdd a Barddoniaeth—Gweithiau Barddonol Gwilym Hiraethog.*

barddoniaeth. O safle barddoniaeth nid oes fawr o werth ynddo, oherwydd fod y wisg mor garpiog a'r cynnwys yn rhyddiaith. Amcan mawr yr awdur, fel yr hen Ficer o'i flaen, ydoedd dysgu gwirioneddau'r Efengyl i'r werin anwybodus. Nid ei uchelgais ydoedd ei anfarwoli ei hun fel bardd, ond anfarwoli dynion trwy eu hachub. Canu ei wybodaeth ysgrythyrol a'i syniadau diwinyddol a wnaeth Williams yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Nid oes dim yn galw am fath yn y byd ar drais i wneuthur yr awdur yn fwy na phawb ym mhopeth. Yr oedd yn bregethwr mawr, yn ddiwinydd mawr, ac yn brif emynydd Cymru, a dyna ddigon i unrhyw awdur meidrol. Y mae'n syn fel y trodd y llanw ym meirniadaeth Hiraethog. Cyn cyhoeddi'i draethawd ef nid ystyrrid William Williams yn fardd o gwbl, eithr er y pryd hwnnw, clodforir ef gan rai fel prif fardd y genedl.

## Yr Emynau.

Cynhaliwyd Cwrdd Misol neu Sasiwn yn nhŷ Jethro Dafydd Ivan, o'r Rhiwiau, ym mhlwyf Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, naill ai yn y flwyddyn 1743 neu 1744,[1] a dywed y Parch. Thomas Charles, yn ei gofiant i Williams, mai yn y cyfarfod hwn y caed prawf mai ef ydoedd Emynydd y Diwygiad. Y mae'n debig mai un o'r materion yr ymdriniwyd ag ef yng Nghwrdd tŷ Jethro Dafydd ydoedd yr angen am emynau cyfaddas i'w canu yn yr addoliad cyhoeddus. Nid oedd ond ychydig o emynau, ar wahan i Salmau Cân Edmwnd Prys, at wasanaeth addolwyr ar gychwyn Methodistiaeth, ac er gwyched Salmau Prys, nid oedd ond ychydig ohonynt yn gymwys fel cyfryngau mawl plant y Diwygiad â'u profiadau dwfn a gwresog. Dywedir i Howel Harris annog y sawl oedd yn nhŷ Jethro Dafydd i gyfansoddi emyn erbyn y Cwrdd Misol nesaf, i weled a oedd bardd yn eu plith. Gwnaed

[1] Ni wyddis yn sicr na hanes na dyddiad y Cwrdd yn nhŷ Jethro Dafydd. Gwel *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Cyf. III., Rhif 2.

felly, ac wedi i bob un adrodd ei waith i Harris ddywedyd, "Williams biau'r emyn." Gwelwyd fod y ddawn i emynu yn eiddo Williams i fesur mwy na neb arall, ac iddo ef yr ymddiriedwyd y gwaith.

> Pan dano'r boreu hwnnw llamai'r llawr,
> Ychydig a feddyliai Harris fawr
> Wrth roi y dorch i Williams Pantycelyn,
> Y gwaeddai Cymru byth, "Wil biau'r emyn."[1]

Dichon nad ydyw helynt "Williams biau'r Emyn" ond traddodiad noeth, fel amryw bethau a gredir heddyw am yr emynydd, eithr y mae'n ddiddorol tros ben, ac yn ddigon naturiol i fod yn wir.

Cyhoeddodd y Perganiedydd ei emynau mewn amryw lyfrynnau â'u pris yng nghyrraedd y tlotaf o'r werin. Yna, ymhen ychydig, argraffai'r llyfrynnau'n un llyfr o faint a phris rhesymol. Caed amryw argraffiadau o'r llyfrau hyn yn ystod bywyd yr awdur. Cyhoeddwyd ei waith prydyddol tan olygiaeth ei fab, y Parch. John Williams, yn 1811–12. Ni chaed argraffiad arall hyd 1867, pryd y daeth allan *Holl Weithiau Williams* gan y Parch. Kilsby Jones. Yr argraffiad perffeithiaf yn fy marn i a feddwn hyd yma ydyw dwy gyfrol hylaw y Parch. Cynhafal Jones, D.D. Argraffwyd y gyntaf o'r ddwy gyfrol gan P. M. Evans, Treffynnon, yn 1887, a'r ail gan W. Jones, yng Nghasnewydd ar Wysg, yn 1891. Yn argraffiadau 1811, 1887, ac 1891, ceir y llyfrau yn y drefn y'u cyhoeddwyd gan yr awdur:

I. *Aleluia*, *neu Gasgliad o Hymnau, ar amryw ystyriaethau.*

Cyhoeddwyd hwn ar y cyntaf yn chwech o rannau bychain. Caed y Rhan I. ddechreu 1744, ac ail-argraffiad ohoni ddiwedd yr un flwyddyn; Rhan II. yn 1745; Rhan III. yn 1745; Rhan IV. yn 1746; Rhan V. yn 1747; a Rhan VI. yn 1747. Yn y flwyddyn 1749 cyhoeddwyd y chwe Rhan yn un llyfr, a galwyd ef yn Ail Argraffiad.

[1] *Williams Pantycelyn*, Ben Bowen.

Nid ydyw holl emynau *Aleluia* 1749 yn eiddo Williams. Yn y bumed a'r chweched Ran ceir enwau'r awduron wrth y rhai a ganlyn :

| | | |
|---|---|---|
| Ymdeithydd wy'n y byd, etc.,—Dafydd Jones o Gaio. | | |
| Ymdeithydd wyf fi'n awr o hyd, etc.—John Dafydd o Gaio. | | |
| Fy enaid mewn gwir ofid mae, etc.— | ,, | ,, |
| Newyddion braf a ddaeth i'n bro, etc.— | ,, | ,, |
| Wel, dyma'r pererinion dewr, etc.— | ,, | ,, |
| Arglwydd, rhyddha fy enaid caeth, etc.—J. Jones. | | |
| Yn hir bum mewn trueni trist, etc.— | ,, | |
| Trwy ras 'rwyf, Arglwydd, ger dy fron,— | ,, | |
| Moliannaf byth yr annwyl oen, etc.—William Edwards. | | |
| O Fugail doeth yr Israel hâd, etc.—Morgan Dafydd o Gaio | | |
| Ffarwel i'r holl bleserau gwael, etc. | ,, | ,, |
| Ymdeithydd wy'n y byd, etc.— | ,, | ,, |
| Yr Iesu'n ddi-lai, etc.— | ,, | ,, |
| Yr Iesu mawr, Pentywysog ne, etc.— | ,, | ,, |
| Pererin wyf tua Salem ber, etc.— | ,, | ,, |
| Ffarwel i bechod a phob chwant, etc.— | ,, | ,, |
| Ffarwel bob cnawdol chwant, etc.— | ,, | ,, |
| O braf yw meddwl am y fraint, etc. | ,, | ,, |

Pan gyhoeddodd Williams y Rhannau'n un llyfr yn 1749, ac eilwaith yn 1758, caed yr holl emynau hyn heb enwau'r awduron wrthynt, a chyhoeddwyd hwy felly ymhob argraffiad dilynol hyd eiddo Cynhafal, ac yn gyffredin priodolid hwy i Pantycelyn. Pethau gwael ydyw llawer o emynau Williams, yn yr *Aleluia*. Y mae amryw'n glogyrnaidd ac anfarddonol, ac mewn gwisg dipyn yn garpiog. Hawdd gweled mai diofalwch yr awdur ydyw'r

rheswm am y diffygion hyn ac nid prinder gallu, oblegid ceir yn y llyfr lawer o'r emynau perffeithiaf yn yr iaith.

II. *Caniadau y rhai sydd ar y Mor o Wydr, etc., i Frenin y Saint.*

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r llyfr hwn yn 1762. Daeth allan ar y cyntaf yn dair o rannau bychain tan yr enw *Hosanna i Fab Dafydd* yn 1751, 1753 a 1754. Rhaid fod y llyfr a gyhoeddwyd yn 1762 yn anarferol o gymeradwy yn yr eglwysi, oblegid dywed yr awdur iddo werthu tros ddeuddeg cant ohono mewn ychydig fisoedd. Rhagora lawer mewn naws a gorffeniad ar yr *Aleluia*, ac y mae ynddo 139 o emynau.

Gellir casglu oddi wrth y rhagymadrodd i'r *Mor o Wydr* fod yn yr eglwysi gŵyn oherwydd tôn ysbrydol uchel emynau *Aleluia*. Yr oedd profiad yr emynau yn gyfoethocach nag eiddo'r addolwyr. Am Emynau llyfr 1762, dywed yr awdur fod "yr ysbryd ag sydd yn rhedeg trwyddynt wedi ei addasu at dymherau ysbrydol rhai ag sydd wedi cyfarfod ag amryw brofedigaethau, croesau, a chystuddiau o maes, ac aneirif gystuddiau ysbryd ac ymdrechiadau o mewn,—dynion meddaf, sydd wedi myned dan dywyllwch, culni, anghrediniaeth, a'r cyffelyb. . . . Nid oes yma ond ychydig hymnau nas gall y gwanaf yn yr Eglwys eu canu, am eu bod naill ai yn y dull o weddi am ryw rai o roddion y cyfamod newydd, neu achwyniad am bechod, lle mae llawer o'r rhai cyntaf yn ffaelu cael eu canu gan rai oherwydd y llawn sicrwydd ffydd sydd ynddynt am fywyd tragwyddol."

Dywed y Parch. Thomas Charles i amser tywyll a marwaidd ar waith yr Arglwydd ddilyn y rhwyg rhwng Howel Harris (1750) a Daniel Rowlands oherwydd syniadau dieithr y cyntaf ar berson Crist, ac mae yng nghyfnod yr adweithiad hwn y cyfansoddwyd emynau'r *Môr o Wydr*; a dywed ymhellach, "Y mae yn nodedig mai

y diwrnod y dygodd y llyfr hwn i Langeitho y torrodd y diwygiad mawr allan, a'r cyntaf wedi y rhwyg."

III. "*Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig bethau; neu rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen.*"

Yn rhannau y cyhoeddwyd hwn hefyd ar y cyntaf. Daeth allan yn dair rhan, y ddwy gyntaf yn 1763 a 1766, gan I. Ross, Caerfyrddin, a'r drydedd yn 1769, gan Rees Thomas, Llanymddyfri. Argraffwyd y tair rhan yn un llyfr gan Ioan Daniel, Caerfyrddin. Nid oes dyddiad arno, eithr gan nad ymsefydlodd Ioan Daniel yng Nghaerfyrddin cyn 1786, y mae'n sicr i'r llyfr gael ei argraffu rhwng 1786 a 1790. Cyfeiria Williams at y llyfr mewn llythyr at ei fab yn 1790.[1] Rhif emynau'r llyfr ydyw 253.

Yn ei ragymadrodd dyry'r awdur gyfarwyddiadau i gyfansoddwyr emynau, ac yn y dyddiau hyf hyn, pan dry pob crachfardd duwiol ac annuwiol ei law at y gwaith, y mae gwir angen am danynt:

> "Mi a gynghorwn yn ostyngedig i bwy bynnag eto a ddanfono hymnau i'r argraff-wasg, yn (1) I ymofyn am wir ras eu hunain; gwir adnabod Duw yn ei Fab; heb ba beth y mae yn rhyfyg ofnadwy i gyffwrdd ag Arch Duw. (2) Darllen yn Saesneg, os nad allant ddarllen mewn ieithoedd eraill, bob llyfrau o brydyddiaeth, —pa le y mae ei thegwch hi yn gorphwys, at ba ddyben y mae, a'r amryw reolau sydd yn perthyn iddi. (3) Pa un bynnag a'u bod ai peidio yn gallu cyrhaedd y peth olaf, eto darllienent drachefn a thrachefn lyfrau y Prophwydi, a'r Salmau, y Galarnad, y Caniadau, Job, a'r Datguddiad, y rhai sydd nid yn unig yn llawn o ehediadau prydyddiaeth, troell-ymadroddion, amrywioldeb, esmwythter iaith, a chyffelybiaethau bywiog,

[1] Prawf hyn nad ydyw *Llyfryddiaeth y Cymry*'n gywir wrth roddi 1770 fel dyddiad y llyfr.

ond ag ysbryd hefyd ag sydd yn enyn tân, sêl, a bywyd yn y darllenydd tu hwnt (am mai llyfrau Duw ynt) i bob llyfrau yn y byd. (4) Peidio gwneud un Hymn byth nes y byddont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbryd Glân, a'r Ysbryd hwnnw a fydd barod i fendithio eu gwaith."

IV. *Gloria in Excelsis, neu Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen.*

Daeth y gwaith hwn hefyd allan fel emynau eraill yr awdur, yn llyfrynnau. Argraffwyd y Rhan gyntaf yn 1771, gan Rees Thomas, Llanymddyfri, a'r Ail Ran yn 1772, gan I. Ross, yng Nghaerfyrddin.

Rhyfedd mor hoff ydoedd yr " Hen Williams " o enwau mewn iaith estronol ar ei lyfrau Cymraeg. Wele rai ohonynt,—*Pantheologia*, *Aurora Borealis*, *Templum Experientiae Apertum*, *Ductor Nuptiarum*, *Dialogus*, *Gloria in Excelsis*. Tybed y gwyddai gwerin dywyll Cymru fwy am ieithoedd meirw na'r Gymraeg fyw? Rhy anodd heddyw chwilio allan resymau'r awdur tros yr arfer chwithig hon.

Ceir mwy o emynau goreu Williams yn y *Gloria* nag mewn unrhyw un o'i lyfrau. Tybir fod ei brofiad, ei grebwyll, ei farn, a'i chwaeth, ar eu goreu yn y llyfr hwn. Ni wnaeth ef, na'r un emynydd arall yn yr holl fyd, well emynau na'r rhai sydd yn hwn. Rhif emynau y *Gloria* ydyw 168.

V. *Rhai Hymnau Newyddion ar Fesurau Newyddion, a gyfansoddwyd ar gais Cynulleidfaoedd Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin.*

Hwn ydoedd y llyfr Emynau Cymraeg olaf i'r awdur ei gyhoeddi. Argraffwyd ef ar y cyntaf yn dair rhan o ddeuddeg tudalen yr un, yn 1781 a 1782, yn Aberhonddu, a'r olaf yn Nhrefeca yn 1787. Rhif emynau hwn ydyw 50.

Lloffodd Dr. Cynhafal Jones o'r gwahanol lyfrau rhyddiaith a gyhoeddwyd gan Williams, ddeg emyn nas ceir mewn unrhyw gasgliad o emynau'r awdur.

Cyn belled ag y gwyddys rhif holl Emynau Cymraeg Pantycelyn ydyw 868.

VI. *Hosannah to the Son of David, or Hymns of Praise to God, for our Glorious Redemption by Christ. Some few translated from the Welsh Hymn Book, but mostly composed on new subjects.*

Emynau Saesneg yw'r rhain, a chyhoeddwyd hwy yng Nghaerodor yn 1759. Nid oes odid un o'r emynau mewn arfer gan y Saeson, er bod yr emynau gwreiddiol a gyfieithwyd yn rhai da, a'r gweddill yn ddigon didramgwydd. Eto, mae hoen ac eneiniad pethau goreu'r awdur ar goll ohonynt. Prin y gellid disgwyl hyd yn oed i Williams ganu cystal mewn iaith estron ag yn ei iaith gysefin.

VII. *Gloria in Excelsis, or Hymns of Praise to God and the Lamb.*

Iarlles Huntingdon, wedi gweled yr *Hosannah to the Son of David*, a gymhellodd yr awdur i gyfansoddi'r llyfr hwn, at wasanaeth Amddifaty Whitfield yn America. Ceir yn hwn eto amryw gyfieithiadau o emynau Cymraeg Williams. Y mae'n llyfr gwir dda, ac yn rhagori llawer ar yr *Hosannah*, etc., a saif rhai o'r emynau'n gyfartal â goreuon yr awdur yn y Gymraeg. Y rhai mwyaf poblogaidd yn y llyfr ydyw:

O'er those gloomy hills of darkness, etc.

Jesus! lead us with Thy power, etc.

Beneath Thy Cross, I lay me down, etc.

Guide me, O Thou great Jehovah, etc.

Am yr olaf o'r uchod dywed un awdur Seisnig, "It is, and is likely to remain, one of the great songs of the Christian pilgrim in his progress from this world into that which is to come."[1] Y mae yn y ddau lyfr 122 o emynau.

[1] *The Hymn-Book of the Modern Church*, A. E. Gregory, D.D. 1904.

Gwelir felly fod emynau Cymraeg a Saesneg Pantycelyn yn rhifo 990.

### NODWEDDION YR EMYNAU.

Ystyrrir Williams gan lenorion a chrefyddwyr y genedl yn fardd da, ac yn frenin emynwyr. Yn y dyddiau brwd hyn a ni newydd ddathlu dau can mlwydd yr emynydd, ymuna llawer â Chynhafal i'w osod ar flaen rhestr y beirdd, —"ymhell uwchlaw pawb a gafodd y genedl o ddechreu'i hanes hyd heddyw." Dywed y Dr. Cynhafal mai Williams "yw y bardd mwyaf tu hwnt i bob cymhariaeth a ymddangosodd erioed ymhlith y Cymry."[1] Mor hawdd ydyw rhedeg i rysedd wrth glodfori arwyr! Pe dywedasai mai Williams ydyw bardd cysegredig mwyaf y genedl, cawsai ymron pawb i gytuno ag ef.

Gwaith diflas a braidd yn beryglus ydyw beirniadu'r Perganiedydd yn ei fan cryfaf. Er hyn, gan nad ydyw'r perffeithiaf yn gwbl berffaith, ni ddylid cau llygaid rhag y diffygion. Nid ydyw ei feiau yn lluosog, eithr y maent yn ddrwg, ac wedi niweidio llawer ar ei emynau. Bu dipyn yn esgeulus a diofal.

#### I. *Ynglyn â'r Iaith.*

Ceir yn yr emynau amryw eiriau sy'n Gymraeg da nad ydynt yn ddealledig i'r werin ond yn y Deheudir yn unig, megis *clau*, *col*, *cwnnu*, *dere'n glau*, *gwirion*, *hur*, *safwyr*, *tyle*, a *salwino*. Eithr nid yn erbyn y rhain y mae cŵyn, ond yn erbyn y geiriau a dorfynyglir er mwyn odl, a bastardd eiriau a ffurfir o eiriau Saesneg, megis *eriad* am irad, *owar* am oddiar, *beger*, *criw*, *not*, *sialens*, *stopo*, *teid*, *seil*, *ple*, *ffar* a lliaws eraill.

Y mae'n sicr ped aethai'r emynydd i drafferth i gaboli ei gyfansoddiadau y byddai llawer mwy ohonynt yn gymeradwy ac yn arferedig. Ond beth dâl siarad. Y mae holl waith y bardd yn awgrymu y costiai fwy iddo ymostwng

[1] *Gweithiau Williams, Pantycelyn*, tud. 36, y Dr. Cynhafal Jones.

i loywi ei eiriau a saernio'i frawddegau na chreu meddyliau ysbrydol mawr a godidog.

II. *Bai amlwg arall ydyw camarfer ffigyrau.*

Y mae profion pendant yng ngwaith yr emynydd mai diofalwch sy'n cyfrif am ymron holl feiau'r emynau, a phan gofir hyn anodd ydyw maddeu iddo. Mae'n syndod i awdur o'i wybodaeth a'i ddiwylliant ef ollwng o'i law bethau mor anghyson a gwrthun â'r rhai a ganlyn :

Ti ffynnon bywyd beraidd, ddwys,
Arnat dy hun, 'rwyn rhoddi mhwys, etc.

Pwy erioed a feddyliodd am roddi'i *bwys* ar ffynnon ?

Mewn emyn arall ceir ganddo *graig* ar *bren* :

Chwi, ffynonau bywiol, hyfryd,
Craig agorwyd ar y pren, etc.

Daearol o'r ddaear, a llawer o raib y bwystfil ynddo, ydyw'r cyntaf o'i Emynau Sacramentaidd :

Rhyfeddol yw effeithiol rin
Y moddion pwyntiaist Ti dy hun ;
Dy gnawd yw bara'r bywyd pur,
O'th glwyfau tardd y ddiod glir.

Mae syched ynof, Arglwydd mawr,
Am brofi'r gloyw win i lawr ;
Ac i mi gael chwanegu' ngrym,
Trwy fod dy gnawd yn ymborth im.[1]

[1] Condemniwyd yr emynydd am y defnydd a wnai o'r gair *tegan* yn ei emynau,—

Mi wneuthym degan gynt o'r byd,
I gael arogli hwn o hyd, etc.
Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw,
Aroglaf Ef tra byddwyf byw, etc.

Golygai'r gair *tegan*, yn Sir Gaerfyrddin, yn nyddiau'r awdur, *flodeuglwm*, ac i'w gyfoeswyr yn y Sir honno, yr oedd y defnydd a wnai ef ohono'n un priodol.

Gellid yn hawdd luosogi enghreifftiau o'r diffygion uchod a brofai nad ydyw'r Perganiedydd yntau'n ddifai mwy na'i gyfoeswyr llai eu dawn a'u medr. Pan feddylir am allu anghyffredin yr awdur, ac y dealiai hanfodion emyn cystal o leiaf â neb yn ei oes, y syndod ydyw iddo gyfansoddi degau o rai gwael, ac nid iddo gyfansoddi cannoedd o rai da.

Teimlaf beth euogrwydd oherwydd aros cyhyd gyda diffygion yr emynydd mawr cysegredig hwn, a throaf yn eiddgar i sôn am ei ragoriaethau lluosog.

1. *Yr oedd Pantycelyn, fel y mwyafrif o emynwyr mawr Cymru, yn hoff o Natur, a chafodd ei chyfrinach i fesur helaethach na neb yn ei oes.* Diau mai ysbrydolrwydd ei feddwl a gyfrifai am i gymaint o sylweddau'r anweledig ddyfod iddo trwy Natur. Ni rydd Natur, mwy na Duw Natur, ei chyfrinachau ond i feddyliau unplyg, gostyngedig, a defosiynol. Eithr hoffa ef Natur nid yn unig oherwydd ei eni trwy ras, ond oherwydd hefyd ei eni'n fardd fel Dafydd ap Gwilym, Islwyn a Cheiriog. Yr oedd Benjamin Francis yn ddyn duwiol anarferol, ac yn emynydd da, ond gan mai bardd bach ydoedd, ychydig a geisiodd ef gan Natur. Edrydd Natur ei chyfrinachau wrth fardd da sy'n ysbrydol ei feddwl.

I esbonio llawer o emynau Williams rhaid adnabod ei wlad. Gwlad llawn o amrywiaeth ydyw. Y mae ynddi fynyddoedd mawr, ac weithiau gymylau du fel gorthrwm yn llithro'n araf o'u corun i'w godre ; ambell waith ceir gwynt cryf yn rhwygo'r cymylau'n rhibiniau hirion a gwelw. Y mae ynddi gymoedd a dolydd yn llonydd a chysglyd tan haenau o niwl llwydwyn, ac awel y De yn ei thro yn ei ymlid, i'r haul gael gwenu ar y weirglodd.

Gwyddai'r bardd am ddrycin y mynyddoedd, a disgwyliai'n hiraethus am hindda :

Ar ddisgwylfa uchel gribog,
  Disgwyl 'rwyf ers hir brydnawn,

Edrych am yr hindda hyfryd
    'Nol cawodydd geirwon iawn,
        Ac i'm hysbryd,
    Trwy'r cymylau, weld y wlad.

Esgyn i ben y mynydd, a gwêl arall yn uwch, ac arall yn ymddyrchafu wedyn, a chlyw dymestl yn rhwygo'i llwybr rhyngddynt a throstynt, a theimla beth ofn; eithr ymwrola pan gofia am nerth mwy nag eiddo tymhestloedd :

Er cuwch y bryniau uchel fry,
A swn tymestloedd tywyll, du,
A'r holl freuddwydion ofnau sy',
    Anturiaf eto 'mlaen ;
Mae nerth y Nefoedd fry yn fwy,
Na myrdd o'u dychryniadau hwy.

Diau iddo lawer gwaith pan yn dychwelyd o un o'i deithiau gefn gaeaf edrych o ysgwydd mynydd uchel ar y bryniau a gysgodai Bantycelyn :

Rhwng cymylau duon, tywyll,
Gwelaf draw yr hyfryd wlad, etc.

Deuthai Haf i'r wlad, canai'r adar, ymdonnai'r ŷd tan awel deg, dawnsiai'r haul ar loywder afonydd, a theimlai yntau wrth ei fodd :

Dyma'r man dymunwn drigo,
    Wrth afonydd gloewon llawn,
Sydd yn llifo o ddwr y bywyd
    O las fore hyd brydnawn,
        Lle cawn yfed
    Hyfryd gariad fyth a hedd.

Gerllaw hen amaethdy a elwir Y Fannog, fel yr elych o Bantycelyn i Langeitho a Thregaron, ceid golygfa wyllt a barai ddychryn i ŵr cydnerth. Rhed llwybr cul trwy leoedd ysgythrog a pheryglus ar fin dibyn arswydus. Ar

y naill law ymgyfyd creigiau sy ymron yn unionsyth, ac ar y llall y mae ceudod o ryw ugain llath, a'i ochrau'n ymwasgu at ei gilydd, ac afon Tywi'n ymferwi yn y gwaelod dilewyrch. Dywed traddodiad mai ar ol teithio'r ffordd hon un tro y canodd Williams yr emyn anfarwol :

Cul yw'r llwybr i mi gerdded,
  Is fy llaw mae dyfnder mawr ;
Mae arnaf ofn yn fy nghalon
  Rhag i'm troed i lithro lawr ;
Yn Dy law y gallaf sefyll,
  Yn Dy law y dof i'r lan,
Yn Dy law fyth ni ddiffygiaf,
  Er nad ydwyf fi ond gwan.

2. *Ceir mwy o amrywiaeth mesurau gan Williams na chan yr holl hen emynwyr gyda'i gilydd.* Ychydig oedd rhif mesurau emynau trwy'r deyrnas cyn y Diwygiad Methodistaidd, a pherthyn y clod am yr ymdrech gyntaf i symud y diffyg i Charles Wesley a Williams. Canodd Dr. Watts yn Lloegr yn bennaf ar dri mesur, sef y Cyffredin, y Byr, a'r Hir, a Mesur Edmwnd Prys yng Nghymru ydoedd yr un a adnabyddir heddyw fel Mesur Salm. Anturiodd Pantycelyn ganu ar amryw fesurau newydd, a chafodd rai ohonynt gan y Saeson. Yn ei ragymadrodd i'r *Mor o Wydr*, dywed, " Y mae yma amryw fesurau nad oedd yn y rhai o'r blaen, ond gobeithio yr wyf nad esgeuluswch eu cael hwy allan," ac mewn hysbysiad ynglŷn â'r argraffiad cyntaf o Ffarwel Weledig, dywed ei fod yn aros " i gael amryw fesurau newyddion oddiwrth y Saeson, fel na bo'r Cymry yn fyr o'u braint hwy mewn dim i foli Duw."

3. *Testun mawr a dihysbydd yr emynau ydyw Person a Gwaith y Gwaredwr.* Anaml y crwydrai'r emynydd oddiwrth Grist, ac ni chrwydrai byth ymhell. Ymhyfrydai aros gyda dioddefaint a gogoniant y Cyfryngwr Mawr. Pan geisiai ganu am rywbeth arall collai'i ddawn, eithr canai'n ddihafal am iachawdwriaeth trwy'r Groes.

4. *Prawf yr emynau adnabyddiaeth lwyr yr Awdur o'r galon ddynol yn ei gwahanol gyflyrau, a'i allu anarferol i ddadansoddi'r bywyd ysbrydol.* Gan mai cyfrwng mawl ydyw emyn, nid oes ond dyn wedi'i achub a fedr ei ddefnyddio'n briodol, ac i'r dyn hwnnw y canodd Williams. Gwyddai hanes dyn wedi ei wneuthur yn greadur newydd, yn well na'r mwyafrif o grefyddwyr ei oes. Ganed ef ei hun mewn Diwygiad mawr, a gwelodd eni miloedd trwy'r un gallu. Edifeirwch, ofnau, ffydd, hyder, brwydrau, buddugoliaeth, a gorfoledd ei galon ei hun, ac eiddo pob credadun arall sydd yn ei emynau. Canodd ei brofiad ei hun, a'r profiad hwnnw ydyw eiddo pob dyn fel creadigaeth newydd ymhob oes. Ni wahaniaetha lawer yn hyn oddi wrth brif emynydd y Diwygiad ymhlith y Saeson. Canodd Charles Wesley yntau yr un profiadau cyn berffeithed â Williams.

5. *Y mae'r emynau, oll ymron, yn addas i addoliad cyhoeddus.* Gwnaeth ymdrech arbennig, yn ol ei dystiolaeth ei hun, i sicrhau hyn, a llwyddodd uwchlaw pawb yng Nghymru. Emynau Ysgrythyrol ac efengylaidd ydynt. Gŵr cyfarwydd â'r Ysgrythyr oedd ef, a gwelir y gwyddai trwy brofiad am y gwirioneddau a ganai.

Cyfrifydd yr emynau bob agwedd ar eisiau'r Eglwys yn ei hamgylchiadau amrywiol. Gellir datgan trwyddynt edifeirwch am bechod, tristwch oherwydd oerni a diogi ysbryd, dymuniad am faddeuant, awydd am burdeb a santeiddrwydd, gofid oherwydd pechod y byd, a gweddi am ei achub. Gall yr eglwys hefyd foli Duw am ei ras yng Nghrist, am arweiniad yr Ysbryd, ac am orfoledd mewn gorthrymderau.

At y cwbl, y mae symledd iaith, a chymariaethau wedi eu cyfaddasu i addolwyr o bob gradd. Iaith seml, gyffredin, ddealledig i'r werin ydyw, a gellir ei gyfiawnhau yn defnyddio rhai geiriau Saesneg, am eu bod yn arferedig gan y bobl gyffredin, ac yn fwy dealladwy ganddynt na'r geiriau Cymraeg cyfystyr. Prif amcan yr awdur yn ei holl lyfrau ydoedd cyfarfod amgylchiadau neilltuol ei oes.

Ysgrifennai mewn iaith agos at y werin ddiddysg, am mai ei brif amcan ydoedd achub y wlad ac nid bodloni llenorion.

Bu prif emynydd Cymru yn ffyddlon i'w brofiad ei hun, a thrwy hynny canodd emynau i grefyddwyr cenedl, ac nid i eiddo enwad. Yr un yw profiad dynion wedi'u hachub ymhob cwr o'r byd, ac ymhob oes. Gwybodaeth calon dda sydd yn ei emynau, yn fwy nag eiddo deall goleuedig. Sonia lawer am benarglwyddiaeth Duw ac arfaeth, a sonia lawn cymaint am ryddid ewyllys a chyfrifoldeb dyn. Gwyddai fod y ddau yn wir, ac hwyrach y gwyddai hefyd, fel ninnau heddyw, er bod y ddau yn wir, nad oes neb a fedr eu cysoni. O'r hyn lleiaf, ni cheisiodd wneuthur hynny yn ei emynau penigamp.

" Llanddowror biau Cymru y Brif Ysgol ;
Ac ef ddwg goed i godi ei phulpud ;
Ond Pantycelyn dodda y tragwyddol
Yn hiraeth am y nef i'w bywyd."

PENNOD IV.

# CYFOESWYR PANTYCELYN.

MEWN un ystyr bwysig y mae oes aur Cymru yn y gorffennol. Diau fod pethau mawr a da ymlaen; eithr hyd yma rhaid edrych yn ol i'r unfed ganrif ar bymtheg i weled y cyfnod llenyddol hynotaf yn ein hanes. Yno ceir William Lleyn, Gwilym Ganoldref, Sion Dafydd Rhys, Morris Cyffin, William Salsbri, y Vicer Pritchard, yr Esgobion William Morgan a Richard Davies, Edmwnd Prys, ac eraill,—sêr disglair, a Salsbri, Morgan a Prys fel comedau mawr yn eu plith. Gwnaeth y tri hyn wasanaeth amhrisiadwy i'n cenedl ni. Caed y Testament Newydd mewn Cymraeg gan Salsbri yn 1567; cyfieithodd Esgob Morgan yr holl Feibl i'n hiaith a chyhoeddwyd ef yn 1588; ac yn 1621 caed y *Salmau Cân* "wedi ei cyfieithu ai cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraec" gan yr Archddiacon Prys. Cyn belled ag yr oedd moddion mawl cyhoeddus yn y gynulleidfa'n bod, bu raid i Gymru fyw ar lewyrch gwawr bore Edmwnd Prys hyd y ddeunawfed ganrif; ond yn y ganrif honno caed goleuni a gwres dydd cyfan. Dilynydd uniongyrchol yr Archddiacon fel emynydd ydoedd Williams, Pantycelyn, eithr ar ei sawdl ef caed yn dilyn Dafydd Jones, Morgan Rhys, a Dafydd William, ac eraill llai eu bri. Er geni Dafydd Jones chwech neu saith mlynedd o flaen Pantycelyn, Williams a ganodd yr emyn gyntaf. Cyhoeddwyd y Rhan I. o *Aleluia*, emynau Pantycelyn, naw mlynedd cyn cyhoeddi cyfieithiad Dafydd Jones o *Salmau Watts*. Gan nad oes sicrwydd am flwyddyn geni Morgan Rhys, rhoddir y flaenoriaeth o ran amser i Dafydd Jones.

## I.—DAFYDD JONES, O GAIO.

Prin yw'r defnyddiau i fanteisio arnynt wrth ysgrifennu ar Dafydd Jones, o Gaio, fel ar lawer a fu o wasanaeth

i'w cenedl. Y mae hanes dynion mawr a da yn gofyn gwybod llawer am fywyd eu meddwl a'u calon, ynghŷd â'r dylanwadau amrywiol a fu'n cynorthwyo i'w ffurfio yng nghwrs eu tyfiant. Ychydig o hyn a geir ynglŷn â'r hen emynydd o Gaio. Nid oes air o gofiant iddo gan neb o'i gyfoeswyr ac eithrio'r Parch. John Thomas, Rhaeadr Gwy. Canodd ef farwnad iddo, a chyhoeddwyd hi y flwyddyn y bu farw, ac yna bu distawrwydd fel eiddo bedd am dros bedwar ugain mlynedd, hyd oni chwiliodd rhyw lenor caredig gilfachau traddodiad, a chyhoeddi ysgrif yn *Nhraethodydd* 1849. Y mae'r ysgrif hon yn un lafurfawr, eithr prin y mae'n ddiogel dibynnu arni, oblegid cyfeiliorna ynglŷn â rhai materion pwysig.

Bu llawer o ddyfalu parthed blwyddyn geni'r emynydd. Yn ol yr ysgrif yn *Y Traethodydd*, ganed ef yn 1669, a rhydd *Eminent Welshmen*, Williams, y flwyddyn 1710, eithr dywed ei gyfoeswr a'i gyfaill, y Parch. John Thomas, ei farw yn 1777, yn drigain a chwech oed ; felly rhaid ei eni yn 1711 :

Un mil tri saith i lawr yn gywrain,
Oedd oed Crist ein pen a'n perchen,
Degfed dydd ar hugain hefyd,
O fis Awst y cadd ei symud ;
  Chwech a thrigain mlwydd oedd yntau
Pan yr hunodd gyda'i dadau ;
  I lwch y llawr, rhow'd e'i lawr,
  Mewn galar mawr unwedd ;
Yng Nghrug y Bar y rhow'd e'i orwedd,
Nes delo'r adgyfodiad rhyfedd.

Collwyd rhawd rhieni Dafydd Jones yn niwl tew y gorffennol pell, ac ni ddwg enwogrwydd y mab i'n hoes ni onid enw'r tad yn unig, sef Daniel John. Tybir mai brodor o Dregaron, Sir Aberteifi, ydoedd y tad. Yr oedd ffermydd Cwmgogerddan Uchaf, a Chwmgogerddan Isaf, ym mhlwyf Caio, Sir Gaerfyrddin, yn eiddo i Daniel John, tra rhedai'r dŵr, ac yn un o'r ddau le hyn y ganed yr

emynydd. Nid oes i ni belydryn o oleuni ar fore bywyd Dafydd Jones. Ni wyddom am ei gyfoedion, ei fanteision, na'i arferion. Eithr gan y rhagorai ardal Caio ar ardaloedd gwledig eraill Cymru y dyddiau hynny mewn cyfryngau addysg, trwy fod y Parch. Leyshon Lewis, ficer y plwyf, yn cadw ysgol dda yno, y tebygolrwydd ydyw i fab amaethwr cefnog a pharchus fel Daniel John dderbyn cyfran helaethach na'r cyffredin o freintiau'r ysgol honno. Boed hynny'n wir a'i peidio, hawdd casglu oddi wrth ei waith fel prydydd a chyfieithydd iddo fwynhau gwell manteision addysg na phlant amaethwyr cyffredin Sir Gaerfyrddin yn yr oes honno, oblegid y mae'n sicr y gwyddai lawer o Saesneg yn ogystal a Chymraeg. Y cwbl a wyddis i sicrwydd am ei ddyddiau bore ydyw, bod y ddawn i brydyddu'n gref a pharod ynddo, ac yr ymhyfrydai yn bennaf mewn sennu a chellwair a thuchan. Dywedir fod iddo 'n was fachgen heb ddawn i ddim ond bwyta, a bwyta caws yn arbennig. Un tro codai'r cawswr ei lef mewn cwyn oherwydd caledi rhyw orchwyl, ac ebe'r prydydd :

> Taw'r llipryn llo a'r wyneb llwyd,
> Ti fyti fwyd o'r gore ;
> Pe delit gwys fel torrit gaws,
> Fe fyddai'n haws dy ddiodde.

Wrth erchi esgidiau un tro, dywedai wrth y crydd,

> Rhowch imi bâr o dapau,
> Rhai tewon, nid rhai tenau,
> A ddalio i fynd o fan i fan,
> Yn wydnon dan fy ngwadnau.

Diau mai goganu y mae yn y ddau bennill a ganlyn :

> Mae chwech peth a sych yn chwipyn,—
> Carreg noeth a genau meddwyn,
> Cawod Ebrill, tap heb gwrw,
> Pwll yr Haf, a dagrau gwidw.

Pum peth a wna bregethwr gallant,—
Calon Pedr,[1] doniau Rowland,[2]
Corff Will Harri,[3] ceffyl Benny,[4]
Pwrs y Popkin,[5] gyda hynny.

Ymbriododd y prydydd â Miss Jones, o Abercarfan, ym mhlwyf Llanddewibrefi, Sir Aberteifi. Unwyd y ddau yn Eglwys y Plwyf hwnnw, ac ar ddydd y briodas aeth Dafydd a'i wraig ieuanc i Gwmgogerddan, bymtheg milltir o ffordd. Marchogai'r ddau un ceffyl—un glâs, ac nid rhyfedd i'r ceffyl chwythu a thuchan a chwysu llawer dan faich mor drwm. Canodd y gŵr ieuanc fel hyn :

Mae'r ceffyl glâs yn egwan,
A'r chwys oddiarno'n dropan,
Mae'r ffordd yn mhell, a'r llwyth yn drwm,
Oddi yma i Gwmgogerddan.

Gwnaeth merch Abercarfan wraig dda odiaeth i Dafydd Jones, ond bu farw yn 1748. Ymhen rhyw ysbaid—nid oes fodd gwybod yn sicr nifer y blynyddoedd—ymbriododd eilwaith â Miss Price, Yr Hafod,[6] ym mhlwyf Llanwrda, Sir Gaerfyrddin, ac aeth i'r Hafod i fyw. Ceir yn hyn eglurhad paham y gelwir ef weithiau yn Dafydd Jones o Gaio, a phrydiau eraill yn Dafydd Jones, Llanwrda.

### Yr Emynydd yn derbyn Crefydd.

Yn ychwanegol at amaethu, arferai Dafydd Jones brynu anifeiliaid yng Nghymru a'u gwerthu yn Lloegr. Fel

[1] Y Parch. Peter Williams. [2] Y Parch. Daniel Rowlands. [3] Dyn enwog ar gyfrif cryfder corff, a fu'n byw am dymor ym melin Llanwrtyd, ac yn pregethu am beth amser gyda'r Methodistiaid. [4] Benjamin Thomas, hen bregethwr yn Sir Benfro. [5] Gŵr cyfoethog o Abertawe, yn pregethu gyda'r Methodistiaid. Cyfieithodd Popkin rai llyfrau o'r Saesneg i'r Gymraeg, a chyhoeddodd hwy. (Gwêl *Rhestr o Lyfrau argraffedig gan John Ross*, gan Mr. John Davies, o'r Llyfrgell Genedlaethol).

[6] Dywed *Hanes Emynwyr Cymru*, y Parch. W. A. Griffiths, mai gweddw ydoedd ail wraig y prydydd ; eithr dywed *Enwogion y Ffydd* a *Geiriadur Bywgraffyddol* y Parch. J. T. Jones mai morwyn ydoedd.

y mwyafrif o'r rhai sy'n cymdeithasu llawer ag anifeiliaid, meddyliai, fel ei gymdeithion, fwy am bethau da daear nag am " y pethau ni welir," a thrwy hyn ymddatblygodd yn fydol a chefnog. Yn wahanol i borthmyn yn gyffredin casglodd lawer o gyfoeth. Wrth ddychwelyd o Loegr un tro a gwerth yr anifeiliaid a werthasai yn ei logell, ffon onnen gref yn ei law, a chi neu ddau wrth ei sodlau, pan oddeutu chwe milltir o Lanfairmuallt, daeth at hen gapel Troedrhiwdalar. Enillodd y canu ei sylw, ac aeth yntau i mewn, a'r Saboth oedd hi. Yn yr oedfa honno achubwyd enaid y prydydd, a rhoed terfyn i'w fywyd bydol a phechadurus. Diflannodd gwanc y cybydd, collodd telyn y dafarn ei swyn, a pheidiodd gogan y rhigwm a bod yn demtasiwn.[1]

Nid ydyw *Enwogion y Ffydd*, a rhai llyfrau eraill, yn gywir pan ddywedant mai'r Parch. Isaac Price a bregethai yn yr oedfa y dychwelwyd Dafydd Jones at grefydd ynddi. Pwy bynnag a bregethai, nid Isaac Price ydoedd, oblegid yn 1755 yr urddwyd Price yn weinidog Llanwrtyd a Throedrhiwdalar, ac yn ôl[2] Mr. Williams, Llanwrtyd, ni ddechreuodd bregethu cyn 1754.[3] Yr oedd Dafydd Jones ar gais " amryw weinidogion parchedig " wedi cyfieithu a chyhoeddi *Salmau* Dr. Watts yn y flwyddyn 1753, ac y mae'n naturiol credu fod yr hwn a ystyrrid gan weinidogion yr enwad yn gymwys i ddarparu cyfryngau mawl i'r eglwys yn grefyddwr profiadol cyn dechreu gyrfa'r Parch. Isaac Price fel pregethwr. Y mae'r Annibynwyr yn Nhroedrhiwdalar ers tro byd, a bernir fod a fynno Walter Cradoc â sefydlu'r Eglwys yno. Gwyddys yn sicr i Vavasor Powel ac yntau deithio a phregethu llawer ym Mrycheiniog a Maesyfed.

Y mae'r Annibynwyr ym mhlwyf Caio er yn fore iawn. Ni wyddys yn bendant pa mor fore. Dywed Mr. Beriah

[1] Ceir y traddodiad hwn gan bob awdur a geisiodd roddi hanes yr emynydd.

[2] *Hanes Eglwysi Annibynnol*, Cyf. II.

[3] *Yr Adolygydd*, Cyf. I.

Evans mai yn 1688 y sefydlwyd eglwys Annibynnol yn Crugybar;[1] eithr dywed y Parch. Dr. Davies, Ffrwdyfal, fod yno eglwys yn 1662[2]. Dichon fod y ddau yn gywir. Tystiolaeth y Parch. D. B. Richards, gweinidog presennol yr eglwys ydyw,—" 'Does *dim sicrwydd* pa bryd y cychwynwyd Crugybar, gan nad oes dim lleol i'n cynorthwyo i benderfynu'r pwnc; ond wedi byw am agos i ddeugain mlynedd yn yr ardal yn weinidog i'r eglwys, ac wedi darllen bron bob peth i'r cyfeiriad, fy marn bersonol i yw mai tua'r flwyddyn 1662 y dechreuodd yr Achos yn Crugybar,—o'r hyn lleiaf, yr oedd yma *rywbeth* felly mewn bod yr amser hwnnw, gan nad faint yn gynt."[3]

Dysg traddodiad fod yng Nghrugybar yn y flwyddyn 1662 eglwys gymysg o Fedyddwyr ac Annibynwyr, ac iddi fudo i Fwlchyrhiw, yn unigedd Cwmcothi, yn ystod teyrnasiad Siarl II. a Iago II., pryd yr erlidid yr Ymneilltuwyr yn greulon. Yna ar ddyfodiad William III. i wisgo coron Prydain, dychwelodd yr Annibynwyr i Grugybar yn 1688, ac arhosodd y Bedyddwyr ym Mwlchyrhiw, ac y maent yno hyd heddyw.[4] Yn 1689 pasiwyd *Deddf Goddefiad*, a chafodd Ymneilltuwyr heddwch i addoli yn ol eu cydwybod. Yr adeilad presennol ydyw y pedwerydd capel, a dywedir y safai'r capel cyntaf ar ochr y briffordd rhyw led cae cymedrol oddi wrth yr un presennol.

## Yr Emynydd fel Crefyddwr.

Ymunodd Dafydd Jones â'r Annibynwyr yng Nghrugybar, a chan ei fod yn dda arno bellach ynglŷn â'r ddau fyd, diau i'r eglwys gael ynddo drysor gwerthfawr. Ymddatblygodd yn gyflym yn grefyddwr deallus, gwresog ei ysbryd, a diflin ei ymdrech o blaid yr Efengyl. Dichon

[1] *Diwygwyr Cymru*, tud. 176, Beriah Gwynfe Evans.

[2] *Y Diwygiwr*, Cyf. XIII.

[3] Llythyr at yr awdur, Ebrill 5, 1916.

[4] Dywed y Parch. D. B. Richards y parheir i gredu'r traddodiad hwn yn ardal Caio.

mai isel ei chyflwr ydoedd yr eglwys a llwyd ei gwedd, fel eglwysi Ymneilltuol Cymru'n gyffredin y dyddiau hynny; eithr ganed Dafydd Jones o'r newydd pan oedd Diwygiad mawr yn y wlad, ac aeth tân y Diwygiad hwnnw i'w ysbryd.

Ymddengys mai ffurfiol ac oer ydoedd hen Eglwysi Ymneilltuol Cymru pan dorrodd gwawr y Diwygiad Methodistaidd, ond nid ydym i feddwl nad oedd dim crefydd yn y tir cyn ymddangos o Howel Harris a Daniel Rowlands. Nid ydyw sylwadau Pantycelyn ar gyflwr crefydd y cyfnod yn ei farwnad i Howel Harris yn llythrennol gywir:

Pan oedd Cymru gynt yn gorwedd
  Mewn rhyw dywyll, farwol hun,
Heb na Phresbyter na Ffeiriad,
  Nac un Esgob ar ddi-hun;
Yn y cyfnos tywyll, pygddu,
  Fe ddaeth dyn fel mewn twym iâs,
Yn llawn gwreichion goleu tanllyd,
  O Drefeca fach i mâs.

Y mae'n wir fod yr Eglwys wedi diosg gwisgoedd ei nerth a'i gogoniant, ond yr oedd ambell offeiriad, ac amryw weinidogion Ymneilltuol, yn effro ac egnïol, ac ychydig o eglwysi yma a thraw yn y Deheudir heb fod yn gwbl oer a diwaith. Rhyfeddai'r Hybarch Edmwnd Jones, Pontypwl, at ryfyg rhai o haeriadau Marwnadau Williams, ac yn ei ddyddlyfr am 1773, cyfeiria at yr hyn a ddywedir yn y pennill uchod fel "anwiredd digywilydd, oblegid yr oedd rhai offeiriaid yn effro ac ymdrechgar o'i flaen ef, megis Mr. Griffith Jones o Landdowror, Mr. Thomas Jones, o Cwmian; ac amryw weinidogion Ymneilltuol, megis Mr. John Thomas, yn Sir Gaernarfon, Mr. Williams, Tredustan; Mr. Morgan, Llanafan, yn Sir Frycheiniog; Mr. Vavasor Griffiths, ym Maesyfed; Mr. Palmer, Henllan, a Mr. W. Morrice, yn Sir Benfro; Mr. Philip Pugh, yn Sir Aberteifi; Mr. James Davies,

Merthyr, a myfi fy hun ddaeth â Mr. Harris i bregethu i Sir Fynwy. Y mae yn syndod i'r dyn ddyweyd y fath beth ag yntau wedi ei eni a derbyn ei addysg ymhlith yr Ymneilltuwyr."[1] Ofnai Edmwnd Jones oni pheidiai'r Methodistiaid â beirniadu a beio y cefnai Duw arnynt, ac y collent eu nerth a'u dylanwad.

Yr oedd y Parch. Edmwnd Jones ei hun yn ddyn ysbrydol iawn ei feddwl, a'i ddylanwad yn fawr yn y wlad, a dengys ei ddyddlyfr y llafuriai bron yn ddiorffwys. Yn 1770 pregethodd 337 o weithiau, yn 1773 pregethodd 511 o weithiau, a blwyddyn ei farw 1789, ac efe'n bedwar ugain ac wyth, pregethodd 405 o weithiau. Am nodwedd ei ysbryd a'i waith, ni ellir gwell tystiolaeth na geiriau Arglwyddes Huntingdon,—" Y mae'r hen broffwyd annwyl a da newydd ein gadael. O'r fath sant gwynfydedig! Mor gysegrol, mor siriol, mor ymdrechgar; bob amser yn sychedu am gymundeb llawn â Thad y goleuni. Y mae ei anerchiadau i'r myfyrwyr, a'i weddiau taer a gwresog am eu llwyddiant, yn sicr o adael bendith ar eu hôl."[2] Gwelir oddi wrth y dyfyniad hwn fod Edmwnd Jones yn ŵr addas i ffurfio barn am gyflwr ysbrydol eglwysi ei oes.

Dengys un o ganeuon Dafydd Jones ei fod yntau, er yn perthyn i'r " Dissenters Sychion," fel y gelwai'r Diwygwyr hwy, yn gwybod am orfoledd crefydd, ac yn ddigon gwrol i amlygu hynny i'r byd:

Mae plant y byd yn holi, ac yn rhyfeddu'n syn,
Pan f'wy i'n molianu f' Arglwydd, " Beth yw'r ynfydrwydd hyn?"
Rhyddhawyd fi o'm caethiwed, ni thawaf ddim a sôn,
Mi gana'n wyneb gwawdwyr am rinwedd gwaed yr Oen;
Mi fum yn hir dan gwmwl yn ffaelu canmol Duw,
'Roedd pechod a'i euogrwydd o'm mewn fel colyn byw;

[1] *Hist. of Prot. Non. in Wales*, Thos. Rees, D.D.

[2] *Life and Times of the Countess of Huntingdon*, Cyf. II.

Fe dynwyd hwnw ymaith yn nghyd a'i bwys a'i boen,
Mi ganaf yn dragywydd am rinwedd Gwaed yr Oen.

A pheth pe bawn yn neidio, a'i wneud e gyda pharch,
A chwareu megys Dafydd cyn hyn o flaen yr arch ?
Neu'r cloff wrth borth y demel, am hwnw clywsoch sôn,
Pan oedd e'n teimlo iechyd a rhinwedd Gwaed yr Oen ?

Nid oedd Dafydd Jones i'w gymharu o ran gallu naturiol a dysg ag arweinwyr y Diwygiad, eithr yr oedd cyn wresoced ei ysbryd a hwythau, ac ni bu'n segur yng ngwinllan ei Arglwydd. Yn ychwanegol at amaethu, a phrynu a gwerthu anifeiliaid, a chyfansoddi a chyfieithu cannoedd o emynau, dilynai lawer ar weinidogion o fan i fan trwy'r wlad. Cofnodir hanesyn am dano ar un o'r teithiau hyn a brawf ei fod yn grefyddwr anghyffredin. Digwyddai un o'r enw Mr. Perkins, o Bencader, bregethu mewn lle a elwid " Y Pound " yn Llanbedr-Pont-Stephan, i dyrfa fawr o bobl, a Dafydd Jones yn eu plith. Trefnodd gŵr bonheddig,[1] a breswyliai yn y gymdogaeth, i nifer o bersonau annuwiol a dibris ymosod ar y tŷ. Llusgwyd y pregethwr i'r heol, ac ymosodwyd ar y gwrandawyr, eithr ar darawiad syrthiodd Dafydd Jones ar ei liniau, dyrchafodd ei olwg a'i ddwylo tua'r nef, a gweddïodd â'r fath daerni a dylanwad nes dychrynu a pharlysu ohono'r gelynion. Siomwyd y gŵr boneddig gymaint gan fethiant yr ymosod oni throdd allan ŵr y tŷ y cynhelid y cyfarfod ynddo. Cafodd yntau fwthyn tu hwnt i'r bont, a chroesawodd yr Ymneilltuwyr i'w annedd newydd, a buont yno'n addoli am flynyddoedd lawer.[1]

Gosodai'r hen emynydd ei fryd ar gael y doniau goreu a'r nerthoedd ysbrydol cryfaf i Grugybar. Teithiai ymhell ac yn aml i gyrchu'r pregethwyr mwyaf efengylaidd a thanllyd, ac wedi eu cael ymorfoleddai mewn chwerthin a dagrau tan ddylanwad eu gweinidogaeth. Rhydd y

[1] *Hist of Prot. Non. in Wales*, Thos. Rees, D.D.

Parch. John Thomas ddarlun ohono fel gwrandawr:

Pan elwy'i Grugybar a'r Hafod,
Ni wela'i mwy o Dafydd hynod,
Yma gwelais ef rai prydiau
Dan y Gair yn chwerthin dagrau,
Gan hwylio'i danau gyda'r fyddin,
Ac ar ei wên yn mhlith y werin;
Wrth ei fodd, byddai ar goedd,
   Mewn modd siriol,
Pan bai'r Brenin mawr tragwyddol,
Yn rhoi tro yn mhlith ei bobol.

Gweinidog sefydlog cyntaf Crugybar ydoedd y Parch. Isaac Price.[1] Yn ei amser ef yr adeiladwyd y trydydd capel, a pharhaodd ei ofal am yr eglwys am agos i hanner can mlynedd. Yr oedd Isaac Price a Dafydd Jones o'r un ysbryd a'r diwygwyr Methodistaidd, yn cydymdeimlo'n ddwfn â'r Diwygiad, ac yn llawenhau yn ei lwyddiant. Os ceid yn hen eglwysi'r Ymneilltuwyr ffurfioldeb oer, a mesur o wrthwynebiad i'r diwygwyr oherwydd eu brwdfrydedd tanllyd, prin y gellir credu fod eglwys Crugybar a arweinid gan weinidog efengylaidd ac emynydd ysbrydol yn euog o'r cyfryw ffaeleddau. Dyma dystiolaeth y Parch. John Thomas i nodwedd ysbryd Dafydd Jones:

Cyfaill i'r gwir bererinion,
I bob enw oedd o'i galon;
O Ysbryd rhydd, ac ni fel llawer,
Yn llawn o barti-sêl a chleber;
'Rhyn sy'n ymdaenu dros y gwledydd
Bron a bwyta bywyd crefydd;
Caru wnai, dduwiol rai,
   Er bai a gwendidau,
Ag yn ebrwydd cydymdeimlai
A rhai gweinion eu grasusau.

[1] Llythyr y Parch. D. B. Richards.

### Ei Waith Llenyddol—Y Salmau Cân.

Capten William Middleton (*Gwilym Ganoldref*) oedd y cyntaf i droi'r holl Salmau i gân Gymraeg, a chyhoeddwyd hwy yn 1603. Ymhen deunaw mlynedd caed cyfieithiad Edmwnd Prys, ac yn 1753 cyhoeddwyd cyfieithiad Dafydd Jones o fydryddiad y Dr. Isaac Watts o'r Salmau. Dyma wyneb-ddalen argraffiad cyntaf cyfieithiad Dafydd Jones:

> Salmau Dafydd wedi eu cyfansoddi yn ol iaith y Testament Newydd, ac wedi eu cymhwyso i Stâd ac Addoliad Cris'nogol.
>
> ---
>
> Yn Saesneg
> Gan I. Watts, D.D.
>
> ---
>
> Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg, allan o'r Bymthegfed Argraffiad, gan D. Jones, o Gayo.
>
> ---
>
> Luc xxiv. 44, "Rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd yn y Salmau am danafi."
>
> Heb. xi. 32, 40, "Dafydd, Samuel, a'r Prophwydi, fel na Pherffeithid hwynt hebom ninnau."
>
> ---
>
> Llundain: Argraphwyd gan Ioan Olfir, ym Martholomy Clôs, gerllaw Smithfield Gorllewinol.
> M,DCC,LIII.

Mewn rhagymadrodd byr dywed y cyfieithydd,—"Trwy gynghor ac annogaeth rhai Gweinidogion Parchedig (ond nid heb olwg ar fy Anghymwyster fy hun) mi a ymosodais ar y gwaith; a thrwy lawer o boen a llafur (ond nid heb lawer o bleser a hyfrydwch weithiau) mi a'i gorphenais; ac wedi cael barn a phrofiad rhai gweinidogion dysgedig arno, danfonais ef i'r argraphwasg."

Ymwelai'r emynydd yn fynych â Lloegr ynglŷn â'i alwedigaeth, a hynny ar ol ei droedigaeth, fel cynt, a naturiol casglu y manteisiai ar gyfleusterau i fynychu addoldai'r Saeson, ac iddo yn y rhain ddyfod yn gynefin â Salmau godidog y Dr. Watts. Rhaid casglu hefyd oddi wrth y ffaith i " rai gweinidogion parchedig " ei annog i'w cyfieithu nad gŵr cyffredin ei gynheddfau a'i fedr ydoedd Dafydd Jones, oblegid nid dynion anwybodus a diddysg ydoedd gweinidogion Ymneilltuol y cyfnod hwnnw. Y mae'n lled debig i'r Diwygiad Methodistaidd effeithio llawer ar yr hen eglwysi Ymneilltuol, oblegid awgryma'r awydd am gyfieithiad Dafydd Jones y sylweddolai crefyddwyr i ryw fesur angen am addasach cyfryngau i fynegi eu profiadau crefyddol na Salmau Edmwnd Prys. Tra'r oedd yr Eglwys yn isel gwasanaethai cyfieithiad llythrennol ac oer Prys i'w hanghenion, eithr pan daranodd Duw trwy'r Diwygiad, deffrodd yr hen Ymneilltuwyr i fywyd uwch a gweithgarwch mwy, ac ni allai profiad tanllyd diwygiad droi'n foliant mewn llythyren gul ac oer ; yr oedd yn rhaid cael cyfryngau perffeithiach. Adroddir hanes crefydd Cymru er y Diwygiad gan ei hemynau.

Prin yr amheua neb ragoriaeth Salmau Dafydd Jones ar eiddo Prys fel cyfryngau mawl crefyddwyr y flwyddyn 1753, â'r Diwygiad yn y wlad. Ond paham tybed yr anogai " gweinidogion parchedig " yr emynydd i gyfieithu Salmau Watts pan geid eisoes yn eu cyrraedd cystal cyfryngau ag a gaed erioed, os nad gwell yn emynau Pantycelyn ? Cyhoeddwyd *Aleluia* Williams yn bum Rhan ; y gyntaf yn 1744 a'r olaf yn 1747. Felly, yr oedd y pum rhan at wasanaeth yr eglwysi chwe blynedd cyn cyhoeddi Salmau Dafydd Jones. Y mae amryw resymau tros gredu fod dau beth o leiaf yn cyfrif am ymddygiad y gweinidogion yn ceisio Salmau'r Dr. Watts. Yn gyntaf, yr oedd rhagfarn sect yn gryf yn Eglwysi'r cyfnod. Dysg y mwyafrif a sgrifennodd ar gyflwr Crefydd Cymru ar gychwyn y Diwygiad Methodistaidd i'r hen eglwysi Ymneilltuol ddefnyddio ysbryd byw a thanllyd y Diwygwyr

yn achlysur difaterwch mwy, a ffurfioldeb oerach, ac iddynt edrych ar y Methodistiaid fel pobl hanner gwallgof, gan ymdrechu bod mor annhebig iddynt ag y medrent. Er yn awyddus am well emynau nag eiddo Edmwnd Prys, rhwystrwyd hwy i ddefnyddio eiddo Williams gan gulni plaid. Yn ail, rhoddodd yr hen Ymneilltuwyr y flaenoriaeth i Salmau Watts am eu bod yn fwy athrawiaethol ac yn llai profiadol nag eiddo Williams.[1] Diau fod yr eglwysi yn lled ddeallus ac yn fawr eu sêl dros athrawiaeth, eithr yn eu deall yn fwy nag yn eu profiad yr oedd eu crefydd, a phrofiad eneidiau wedi'u cynhyrfu a'u tanio gan nerthoedd y Diwygiad a geir yn emynau Pantycelyn.

### Salmau Watts a Salmau Prys.

Dywed gwŷr o farn y rhagora cyfieithiad Edmwnd Prys ar eiddo Dafydd Jones o ran teilyngdod llenyddol; ac fel rheswm dros y rhagoriaeth atgofir ni o ddysg, diwylliant, a gwybodaeth gyffredinol Prys, ac o fychander dysg a diffyg hamdden Dafydd Jones. Nid oes ddadl ynghylch y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfieithydd o ran gallu a dysg a chyfleusterau; eithr prin y cyfiawnha hyn y casgliad fod gwahaniaeth rhwng gwerth y ddau gyfieithiad. Wrth eu cymharu dylid cadw mewn cof, yn gyntaf, fod gwahaniaeth mawr rhwng *amcan* y ddau gyfieithydd. Amcanai Prys gyfieithu o'r Hebraeg mor llythrennol ag y medrai,—cadw'n gaeth at y synnwyr a'r llythyren, a llwyddodd. Aiff rhai llenorion Cymreig hyddysg mewn ieithoedd cyn belled a dysgu bod ystyr yr iaith wreiddiol yn llawnach a chywirach ym mesur cerdd Prys nag hyd yn oed yng nghyfieithiad godidog y Doctoriaid Morgan a Parry. O'r tu arall, *amcan* Watts a Dafydd Jones yn y cyfieithiad ydoedd cyfaddasu meddyliau ac ymadroddion y Salmydd Hebreig at feddyliau a phrofiadau crefyddwyr eu hoes hwy. Yn ei Ragymadrodd i'w

[1] *Yr Adolygydd*, 1852.

gyfieithiad dywed Watts,—" A pha fai a fydd o helaethu ychydig ar y testunau mwyaf defnyddiol yn null ymadrodd yr Efengyl, lle byddo'r Salm yn rhoddi achlysur, gan fod holl grefydd yr Iddewon wedi ei barnu'n fynych yn y Testament Newydd fel peth diffygiol ac amherffaith ?" A dywed Dafydd Jones yntau yn ei ragymadrodd,—" Y mae yn anhawdd i neb dynion gymhwyso y cyfryw ymadroddion yn briodol at eu cyflyrau eu hunain, oddieithr cael iddynt droad neu gyfaddasiad Efengylaidd, i fod yn fwy cytunol a chyfryngau gras, a chyflyrau a phrofiadau pobl Dduw dan y Testament Newydd." Yn ail, dylid cofio fod cyfieithiad Prys o'r Hebraeg ac eiddo Dafydd Jones o'r Saesneg. Amcanai Prys gyfieithu Hebraeg y Salmydd yn fanwl a chywir, ac amcanai Dafydd Jones gyfieithu Saesneg y Dr. Watts yn fanwl a chywir, a llwyddodd y ddau i fesur lled gyfartal. Nid ydyw'n debig fod gwybodaeth Edmwnd Prys o'r Hebraeg yn berffeithiach nag eiddo Dafydd Jones o'r Saesneg, ac wrth gymharu y mae'n anodd gweled rhagoriaeth y naill ar y llall. Llwyddodd Dafydd Jones i gyfleu syniadau Salmau Watts yn gywir, mewn iaith lân ac eglur, a phriod-ddull hollol Gymreig. Nid oes fwy na thri yn adnabyddus ac enwog fel cyfieithwyr yr holl Salmau i gân Gymreig. Rhoddir yma y Salm Gyntaf o eiddo'r tri fel y gellir eu cymharu :

Gwynfyd o'i febyd gwinfaeth,
Gwirion dôn i'r gŵr nid aeth
Ar ol cyngor lwc anghall
Y drwg a ro'i fryd ar wall ;
Ni saif yn ffordd brif-ffordd brys
Bechaduriaid, baich dyrys,
Nac ar gadair gyfair gawdd
Gwatwarwyr a gyd-dariawdd.
   Ond cyfraith Dduw'n faith iawn fydd
Ei ddiddanwch dda ddeunydd,
A'i myfyrio mwy fawredd
Ddydd a nos yn ddiddan wedd.

Bydd ail i bren a blennir
Yn nglan afon dirion dir,
A ddwg ffrwyth ddigyffro hawl
Is irwydd yn amserol,
Ag ar y brig deg ir bren
Ni ddielwa un ddeilen ;
Ag oll a wnel gwellha'n wir,
A'i law ddyn a lwyddiannir.
Annuwiol fraint ddynol fry
O fall-haint ni bydd felly ;
Hwn o fab hoewan a fydd
Fal manus ar fol mynydd,—
O'i flaen y gwynt flina' gwaeth,
Chwith ammod, a'i chwyth ymaith ;
Ni welir annuwiolion
Ofer yn hir i'r farn hon ;
A gwn na saif, gwan o said,
Deirawr y pechaduriaid,
Drwg fawl oll, i'r dyrfa lawn
O wŷr cofus—rai cyfiawn.
Duw a edwyn ffordd dyn da,
Dinystrir enwir yna.

*Gwilym Ganoldref*, 1595.

Y sawl ni rodia, dedwydd yw,
Yn ol drwg ystryw gyngor :
Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol,
Nid eiste'n stol y gwatwor.

Ond ei holl serch ef fydd yn rhwydd
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod ;
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nos,
Yn ddiddos ei fyfyrdod.

Ef fydd fel pren plan ar lan dol,
Dwg ffrwyth amserol arno ;
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith
A lwydda'n berffaith iddo.

Nid felly y bydd drwg di-ras,
Ond fel yr us ar gorwynt ;
Yr hwn o'r tir a'i chwyth, a'i chwal,
Anwadal fydd ei helynt.

Am hyn y drwg ni saif mewn barn
O flaen y Cadarn uniawn ;
Na'r pechaduriaid mawr eu bâr
Ynghynnulleidfa'r uniawn.

Canys yr Arglwydd Dduw, fel hyn,
A edwyn ffyrdd gwirioniaid ;
Ac ef ni âd byth i barhâu
Mo lwybrau pechaduriaid.

*Edmwnd Prys*, 1621.

Gwyn fyd y dyn ochelo'r fan
Sydd hoff gan annuwiolion ;
Ffieiddio mae eu ffyrdd di râs
A'u gwawdiaeth gâs o'i galon.

Ond yng nghyfreithiau'r Arglwydd Ner,
Ei hoffter ef fydd benna ;
Darllen neu wrendy'r Gair y dydd,
A'r nos yn brudd myfyria.

Fel pren rhywiogaidd peraidd plan,
A dyf ar lan dw'r bywiol ;
Rhag gwynt a stormydd diogel fydd,
Mewn cyflwr dedwydd hollol.

Fel dalen werdd ei broffes wiw,
Fydd dêg ei lliw a'i llewyrch ;
A ffrwythau gras, un-wedd a grawn,
Fydd arno'n llawn o gynnyrch.

Nid felly bydd y rhai di-râs,
Annuwiol câs eu helynt !
Eu gobaith, chwythir ffwrdd ar frys,
Fel llwch neu us gan gorwynt.

Ni saif yr enwir yn y farn
  Yn gadarn, gan euogrwydd ;
Pan ddodo Crist ei saint gerllaw
  Ar ei ddeheulaw hylwydd.

Can's ffordd y cyfiawn uniawn yw,
  Mae'n boddio Duw'n rhagorol ;
Ond traws ffyrdd dynion drwg a syrth,
  I lawr i'r pyrth uffernol.

*Dafydd Jones*, 1753.

CYFIEITHIADAU'R EMYNYDD.

Cyhoeddwyd yn 1775 *Hymnau a Chaniadau Ysbrydol* y Dr. Watts, wedi'u cyfieithu gan Dafydd Jones. Y mae yn y llyfr 341 o emynau, a'r cwbl ac eithrio deg emyn gan y Dr. Doddridge, yn eiddo'r Dr. Watts. Nid oes eisiau sôn am werth yr emynau, oblegid rhoddir i Watts gan y Saeson safle gyffelyb i'r un a roddir gan y Cymry i Williams. Cyll amryw o'r emynau lawer o ynni ac eneiniad wrth eu troi i'r Gymraeg, a dyna'r ffaith ynglŷn â chyfieithu unrhyw waith. Prif ddiffyg Dafydd Jones fel cyfieithydd ydoedd cadw'n rhy gaeth i'r llythyren yn hytrach nag aralleirio meddyliau Watts. Fe'i caethiwodd ei hun hefyd i'r mesurau gwreiddiol, a thrwy hynny collodd y salmau a'r emynau lawer o'u hystwythter a'u gwres. Eithr er hyn i gyd, bu'r cyfieithydd yn lled lwyddiannus ar y cyfan, a rhagorodd ar y gwreiddiol mewn rhai emynau. Pwy a dybiai mai trwy feddwi Sais y daeth y rhai a ganlyn gyntaf ?

Mewn bywyd mae gwasanaeth Duw, etc.

Coffawn yn llawen, gyda pharch, etc.

Mae gwlad o wynfyd pur heb haint, etc.

Yr Iesu a deyrnasa'n grwn, etc.

Gwyn fyd yr hwn nid â ar hyd
Ffordd lydan annuwiolion byd, etc.

Yn y flwyddyn 1771 cyhoeddwyd cyfieithiad Dafydd Jones o *Ganiadau Dwyfol . . mewn iaith esmwyth . . . i Blant*, gan y Dr. Watts. Prin y bu'r awdur mor ffodus gyda'r "Caniadau" a chyda'i gyfieithiadau eraill. Dichon mai gorchest fwyaf Watts ydoedd cyfansoddi emynau digon syml mewn iaith a syniadaeth i blant ei oes. Gwnaeth Dafydd Jones yntau ymdrech deg i'w cyfieithu, eithr methodd â'u gwneuthur yn gyfryngau addas moliant plant Cymru. Gwrthodai meddyliau syml y Sais a chartrefu yng Nghymraeg y Cymro. Ni ddioddefa praffter a chadernid lawer wrth eu trosglwyddo, ond rhaid wrth law ysgafn a thyner i drin symledd a swyn. Braidd yn llawdrwm oedd Dafydd Jones i drin emynau plant, a methodd yn bennaf oherwydd anaddaster yr iaith i'r meddyliau. Wrth amcanu bod yn syml aeth yn rhy werinaidd a chyffredin. Nid yw'r cyfieithiad agos mor ystwyth a'i eiddo o'r salmau.

Ni ddyfynnir o'r llyfr hwn fwy nag un pennill, sef "Y deg Gorchymyn o'r Hen Destament, wedi eu gosod mewn Cynghanedd ferr i Blant :"[1]

1. Na foed it dduwiau ond Myfi,
2. Un eulun nac addola di.
3. Nac ofer gymmer enw Duw,
4. Na lygra'r Sabboth, sanctaidd yw.
5. Rho i'th rieni barch a bri,
6. Na wna lofruddiaeth, gochel di.
7. Cadw rhag aflan air neu waith,
8. Er tlodi na ladratta chwaith.
9. Na fydd, na châr fod yn gelwyddog,
10. Na chwenych eiddo dy gymydog.[2]

### YR EMYNAU GWREIDDIOL.

Cyhoeddwyd emynau gwreiddiol Dafydd Jones yn dair rhan, dan yr enw "Difyrwch i'r Pererinion." Rhif

[1] Tybia rhai nad eiddo gwreiddiol y Dr. Watts ydyw'r pennill.

[2] Yn 1775, cyhoeddwyd cyfieithiad Dafydd Jones o "Hymnau a Chaniadau Ysbrydol," gan Isaac Watts, D.D.

emynau'r tair rhan ydyw 127; eithr dywed y Parch. Thomas Rees, D.D., bod ei emynau gwreiddiol yn 167[1]. Gall hyn fod yn gywir. Dichon y gwyddai'r Dr. Rees am emynau i'r awdur nad ydynt yn ei lyfr.

Nid grawn i gyd a geir gan yr hen emynwyr,—y mae llawer o us gan Pantycelyn,—eithr y mae ganddynt rawn, a hwnnw'n iach a maethlon, a mwy ohono nag a gaed byth wedyn. Y mae llawer o emynau " Difyrwch i'r Pererinion " yn ddiffygiol o ran ynni a gwres a chwaeth; ond y mae ynddo amryw â digon o ysbrydiaeth ac eneiniad ynddynt i ddiogelu hyd byth safle'r awdur fel emynydd. Pa Gymro crefyddol sydd na ŵyr am y rhai a ganlyn, a pha fardd sydd na fyddai'n falch o fod yn awdur unrhyw un ohonynt:

Clywch genhadon Duw yn galw;
Bechaduriaid heddyw dewch, etc.

Mae arnaf eisiau sêl i'm cymell at dy waith,
Nid ddim rhag ofn y gosb a ddêl, nac am y wobr chwaith, etc.

Wele, cawsom y Messia, etc.

Plant ydym eto dan ein hoed, etc.

Mae, mae yr amser hyfryd yn nesau, etc.

O! Arglwydd, galw eto, etc.

Caersalem, dinas hedd, etc.

Y mae gan yr emynydd yn y " Difyrwch " rai caneuon maith a buddiol iawn a brawf ei awydd angherddol i lesoli ei gyd-wladwyr. Dyfynnwn ddau bennill o un a deilynga sylw ieuenctid yr eglwysi ymhob cenhedlaeth. Cân o " Gynghor i beidio ieuo yn Anghymharus ":

Wŷr ieuainc a gwyryfon, blant ffyddlon Sion sydd,
O fewn i Gymru'n trigo, yn rhodio a'u dwylaw'n rhydd,
Ac yn bwriadu newid eu cyflwr eto ar hyn,
Clywch air neu ddau o gynghor, yn sobr ac yn syn;

[1] *Hist. of Non. in Wales*, p. 402.

Ni welwn yn y 'Sgrythyr orchmynion eglur iawn,
Am beidio ieuo â'r digred, rai diriaid heb ddim dawn ;
Y rheol hon dilynwn, a rhodiwn yn ei hol,
Gochelwn gyfeiliornu wrth ddilyn ffansi ffol.

Am hyny, pwy ymyrai yn fawr am bethau'r byd,
Na thegwch ond fo gweddaidd, can's gwagedd ynt i gyd ;
Dyledswydd holl blant Sion, rhag ofn troion traws,
Yw 'morol am gymharon rai union o'r un naws ;
Dyledswydd gwir Gristnogion yn ddoethion ac yn dde,
Yw atal trachwant cnawdol, gelynol, gael ei le ;
A mynd at Dduw o ddifri i ymgynghori'n gall,
Rhag iddynt gael eu temtio i ieuo â phlant y fall.

Ymddengys fod Dafydd Jones yn cymdeithasu llawer â'i Dduw, a gwyddai fwy na'r cyffredin o grefyddwyr ei oes am orfoledd crefydd, oblegid cân bob amser ar yr uchelfannau. Dyn prysur, glân ei galon a thawel ei gydwybod ydoedd, yn byw yn yr awyr agored, ac ni allai ganu'n lleddf. Nid oes ganddo un emyn a chŵyn neu brudd-der ynddo ; eithr y mae ei ganu i gyd yn gyforiog o nodau llon a hyderus. Pa mor wych bynnag ydyw'r cyfieithiadau, credaf bod yr emynau gwreiddiol yn rhagori arnynt. Parhant i ddifyrru'r pererinion â'r difyrrwch sydd yng ngwydd y Brenin. Nid oes i Dafydd Jones, o Gaio, safle fel bardd ond ym myd yr emyn, eithr yn y byd hwnnw ni ragora llawer arno. Pantycelyn, yn ddiau, sydd ar y blaen, a Morgan Rhys a Dafydd William yn cadw golwg arno, ac y mae Dafydd Jones ar eu cyfyl hwythau. Dywed y Dr. Thomas Rees y dylid rhestru Dafydd Jones yn nesaf at William Williams[1] ; eithr nid ydyw'n ddiogel dibynnu ar farn Dr. Rees, am emyn beth bynnag am ffeithiau hanes, oblegid dywed ef beth cyffelyb am Thomas Williams, Bethesda'r Fro.[2] Yn ol

[1] *Hist. Prot. Non. in Wales*, p. 402.

[2] *Gweithiau Prydyddol y Parch. Thomas Williams, Bethesda, y Fro, yn nghyd a Hanes ei Fywyd*, Y Parch. Thomas Rees, D.D.

barn Rees nid oes ond emynau goreu Pantycelyn yn rhagori ar eiddo Emynydd y Fro. Ni all Dafydd Jones fod y nesaf at Williams ond yn unig ar gyfrif rhif ei emynau. Rhwng cyfieithiadau ac emynau gwreiddiol y mae eiddo Dafydd oddeutu 800. Nid oes un casgliad o emynau a gyhoeddwyd at wasanaeth yr eglwysi o 1791 hyd 1925 heb amryw o salmau ac emynau y bardd o Gaio ynddo. Gwnaeth waith mawr a bendithiol. Huned yn dawel yn naear Crugybar oni chyfarfyddom oll yng " Nghaersalem, dinas hedd. "

## II.—MORGAN RHYS.

Dyn heb hanes iddo ydyw Morgan Rhys. Wrth ddechreu ysgrifennu arno daw i fy meddwl ddwy linell gyntaf emyn :

> Yn y nos y bum yn trigo,—
> Nos heb loer, na sêr, na swyn.

Y mae'n rhyfedd na wyddys mwy am dano ac yntau'n un o brif emynwyr y genedl, a ni'n gwybod cymaint am ei gyfoeswyr llai eu gwerth. Dywed *Enwogion y Ffydd* am Morgan Rhys, " Y mae ei hymnau ef ym mysg y rhai mwyaf arferedig yn ein plith, ac y maent yn gyfartal ymhob ystyr i waith prif fardd a phrif farddones Cymru,—Williams o Bantycelyn, ac Ann Griffiths o Ddolwar Fach." Aiff rhai mor bell a dysgu mai ef ydyw prif emynydd ein gwlad, ac nid oes neb cyfarwydd â'i waith yn sicr fod y farn yn eithafol.

Unig ffynonellau gwybodaeth sicr am yr awdur ydyw *Welch Piety* y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, a'i emynau ef ei hun. Ni wyddys ddim am dano cyn 1757. Y mae bore'i oes cyn dywylled â'r nos heb na lloer na sêr, ac nid oes sicrwydd am ddim yn ei gylch wedi'r flwyddyn 1775,—dim ond ei gladdu ym mynwent Eglwys plwyf Llanfynydd, yn Awst, 1779. Nid oes o'r tadau un y gwyddys llai o'i hanes. Er hynny, y mae mor enwog â'r goreu

ohonynt. Goleuodd awyrgylch meddwl a moes Cymru, eithr ni welir ei lwybr mwy nag eiddo'r wawr. Y mae anfarwoldeb Morgan Rhys, fel eiddo rhai o brif feirdd y byd, yn seiliedig ar gynnyrch ei feddwl a'i brofiad, ac nid ar ei amgylchiadau.

Nid oes brinder math ar gofiannau iddo ; ond y mae ymron bopeth pob cofiant yn seiliedig ar dybiaeth a thraddodiad, a phan fo ffeithiau'n brin am ddyn mawr y mae traddodiad yn hael. Ni fu mwy o ddyfalu am ddyn erioed nag am Morgan Rhys. Tybir ei eni yng Nghilcwm, pentref bychan bedair milltir o dref Llanymddyfri. Oddiwrth ei waith fel emynydd tybir ei argyhoeddi o bechod a'i ail-eni, a thyb noeth hefyd ydyw mai Howel Harris neu Daniel Rowlands a fu'n gyfrwng y cyfnewidiad. Ni wyddys am sail dda ond yn unig i'r ail dyb, a cheir y sail hon yn ei emynau. Dywed *Methodistiaeth Cymru* bod yn eglwys Fethodistaidd Llanfynydd " liaws o ddynion da eu gair, eiddigeddus eu hysbryd, a ffyddlawn eu gwasanaeth, megis Morgan Rhys, awdur yr hymnau, William Morgan Thomas, Gallt-llan, Thomas Lewis, Pantgwineu, etc." Ni wyddys ar ba sail y dywedir hyn onid ar sail traddodiad. Cymer pob ysgrifennydd yn ganiataol i Morgan Rhys dreulio'i oes fel crefyddwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac iddo fod yn gynghorwr neu bregethwr am flynyddoedd. Dywed Mr. Morris Davies, Bangor, yn ei ysgrifau ar Emynyddiaeth,[1] " Ymunodd â'r Methodistiaid yng Nghil-y-Cwm, lle y bu yn aelod defnyddiol trwy ei oes, ac heblaw cadw ysgol fel y soniwyd bu yn llafurio fel pregethwr neu gynghorwr yn dra chymeradwy am lawer o flynyddoedd." Eithr nid oes brawf iddo ymaelodi gyda'r Methodistiaid yng Nghilcwm nac unrhyw fan arall. Y mae prawf na fu'n aelod yng Nghilcwm " trwy ei oes." Credir a dysgir hefyd gan bawb a fu'n dyfalu troeon gyrfa'r emynydd iddo sefydlu ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yn ardal Capel Isaac, rhwng Llan-

[1] *Traethodydd*, 1872.

fynydd a Llandeilo Fawr. Y mae hyn yn bosibl, ond ni cheir dim i brofi iddo wneuthur hynny. Ac os gwnaeth ni fu yno ond am dymor byr iawn, ac nid " am ran helaeth o'i oes" fel y dysg y Dr. Moelwyn Hughes,[1] oblegid y mae sicrwydd ei fod o 1757 hyd 1775,—bedair blynedd cyn ei farw,—yn athro ysgol tan y Parch. Griffith Jones a Madam Bevan.

Y mae pob ysgrif ar Morgan Rhys—eiddo *Enwogion y Ffydd*, *Geiriadur Bywgraffyddol* y Parch. J. T. Jones, *Emynyddiaeth* Mr. Morris Davies, yn y *Traethodydd*, a phob ysgrif arall a ddarllenais, ac eithrio un, yn llawn o dybiaethau disail. Er rhagored y llyfrau uchod ni ellir dibynnu arnynt am ddim o hanes yr emynydd. Yr ysgrif sy'n eithriad ydyw eiddo Elfed ar ddechreu *Gwaith Morgan Rhys*.[2]

Cyhoeddodd y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, yn gyson am flynyddoedd, adroddiadau o gyflwr a gweithrediadau'r Ysgolion Cylchredol, tan yr enw *Welch Piety*. Dechreuwyd cyhoeddi'r adroddiadau yn 1737,[3] ac o'r flwyddyn 1741 ymlaen ceir ynddynt lythyrau oddiwrth offeiriaid ac eraill yn tystiolaethu i ffyddlondeb a llwyddiant yr athrawon. Yn y llythyrau hyn ceir sicrwydd i Morgan Rhys fod yn athro yn yr Ysgolion Cylchredol am o leiaf ddeunaw mlynedd, o 1757 hyd 1775, a cheir ffeithiau eraill ynddynt a rydd derfyn ar lawer o ddyfalu ynglŷn â phreswylfod, gwaith, a chymeriad yr emynydd. Yn yr Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod bywyd Griffith Jones ni cheir onid llythrennau dechreuol enwau'r athrawon, megis " H—T—," " M—R—," eithr wedi ei farw ef a dyfod yr ysgolion tan ofal Madam Bevan, rhoddir weith-

[1] *Traethodydd*, Ionawr, 1915.

[2] *Gwaith Morgan Rhys*, Rhan I., o dan olygiaeth y Parch. H. Elvet Lewis, M.A., 1910.

[3] *The Welsh Charity Schools*, p. 6, Principal David Salmon, a *Griffith Jones, Llanddowror*, Cymdeithas y Traethodau Crefyddol. Eithr dywed Elfed yng *Ngwaith Morgan Rhys*, tud. 17, gyhoeddi'r cyntaf yn 1734. Y cynharaf yn y Ll. G. a Ll. Gyh. Caerdydd ydyw 1738–39.

iau'r enwau'n llawn. Ni cheir enw Morgan Rhys yn yr Adroddiadau cyn y flwyddyn 1757, ond ni phrawf hynny nad ydoedd yn athro'n flaenorol i'r flwyddyn honno, oblegid y mae llawer o'r llythyrau a anfonwyd i Griffith Jones a Madam Bevan heb enw unrhyw athro ynddynt. Gan mai ychydig heblaw tybiaethau a ysgrifennwyd am yr emynydd, i brofi bod gwybodaeth sicr o ddeunaw mlynedd o'i oes, rhoddir yma ddau o lythyrau'r Adroddiadau y mae a fynno hwy â Morgan Rhys,—y cyntaf a'r olaf, ynghyda rhestr o'r lleoedd y bu'n athro :

*A letter from a Gentleman, in or near Llandisilliogogo in Cardiganshire.*

*Gwndwn, Feb. 4th*, 1758.

Reverend Sir,

The benefit that our neighbourhood received this last quarter from the *Welch* School, incites us to bless God, and to return you our hearty thanks praying God to reward all the promoters of so needful a charity. I make bold to acquaint you that M—R—, the Schoolmaster at present in Llandisilio Parish, has used his utmost diligence in a very engaging and familiar way to draw people of all ages to be taught with delight and pleasure ; in this manner the young and the old have reaped uncommon benefit in so small a time. When the parents and other labourers, and indeed many farmers, saw the children so well instructed in the principles of the Christian Religion, then they, who were of riper years flocked there by night, with their candles and fuels, desiring with great concern to be likewise instructed. And I own, we, who were standers by, had no small pleasure and satisfaction in seeing the willingness of the Master to teach them together with the willingness of the neighbourhood to be taught by him. I therefore pray God to prosper and increase the number of faithful Schoolmasters. I hope you,

will take notice of him for the encouragement of others and leave him to continue some time longer here, which will oblige, etc.,

(*Signed*) WATKIN WATKINS.

Y mae'r llythyr a ganlyn wedi'i ysgrifennu at Madam Bevan, a ofalai am yr ysgolion wedi marw'r Parch. Griffith Jones, ac yn hwn y mae'r cyfeiriad olaf at Morgan Rhys sydd ar gael ac eithrio'r cofnod am ei gladdu yng nghofrestr Eglwys Llanfynydd :

*Llangunor in Carmarthenshire,*
*June* 1, 1775.

Madam,

As I have been several times at *Morgan Rees*'s School, I can give you a more particular account of it. He has about sixty Scholars, and the greater part of them small. I verily believe there are but few equal to him in capacity, labor and industry, wherewith the people, as well as myself, are much pleased and satisfied. And indeed, if the Catechismers should lose him now, on the expiration of this quarter, his labour will be lost in a great measure, as they are so small ; therefore I hope and beg, in conjunction with the children's parents, you will be pleased, Madam, to take our case into a candid consideration, and favor us longer with the continuance of the said Master. Thereby you will add to your past favours, and ever oblige us to pray for your welfare, and the rest of the promoters of this most noble charity.

I am,

MORGAN DAVIES, *Vicer.*

Dengys y *Welch Piety* i Morgan Rhys fod yn athro'r Ysgolion Cylchredol yn y lleoedd a ganlyn :

| *Blwyddyn.* | | *Plwyf.* | | *Lle'r Ysgol.* |
|---|---|---|---|---|
| 1757–8 | .. | Llwyn Dafydd | .. | — |
| 1759 | .. | Llangathen | .. | Pantyrhelyg. |
| 1761–2 | .. | Llandysul | .. | Dolfor. |
| 1767 | .. | Llanfynydd | .. | Penlan Fach. |
| 1770 | .. | Llanfynydd | .. | Ffoslwyd. |
| 1772. | .. | Llandeveision | .. | Castell Howel. |
| 1772–3 | .. | Cil-y-Cwm | .. | Tŷ Newydd. |
| 1774–5 | .. | Llanfynydd | .. | Soar. |
| 1775 | .. | Llangunnor | .. | Nant-y-Caws.[1] |

Ni wyddys mab pwy oedd yr emynydd, dydd ei eni, y man y ganed ef, na dim arall o'i hanes hyd y flwyddyn 1757; eithr rhydd y rhestr uchod gyfrif o'i alwedigaeth a'r lleoedd y gweithiai ac y preswyliai ynddynt, am ddeunaw mlynedd, ac nid oes ar glawr, cyn belled ag y gwyddys yn awr, gyfrif am ddim ond y deunaw mlynedd hyn. Tyb a thraddodiad yw popeth arall. Cesglir yn naturiol oddiwrth ei emynau ei fod yn ŵr meddylgar a da, a rhydd llythyrau'r *Welch Piety* brawf o hynny. Dengys yr holl lythyrau ei fod yn un o athrawon mwyaf medrus a llwyddiannus Griffith Jones, bod ei ymarweddiad yn lân a chyson, a'i fod yn anarferol o ddefosiynol ei ysbryd. Yr oedd holl athrawon yr ysgolion yn ddynion rhinweddol, eithr dengys y llythyrau y rhagorai Morgan Rhys ar bawb ohonynt mewn diwydrwydd a defosiwn.

Rhy brin yw defnyddiau llythyrau'r Adroddiadau i seilio bywgraffiad i'r emynydd arnynt, ond diolchwn am danynt, oblegid rhoddant inni wybodaeth sicr am gyfnod helaeth o'i oes. Dysgant os bu'n aelod o gwbl yn y Corff Methodistaidd, na fu "yn aelod defnyddiol *trwy ei oes* yng Nghilcwm," oblegid mynychai'r Eglwys Sefydledig tra bu'n athro'r Ysgolion Cylchredol. Prawf yr Adroddiadau ei fod yn ffyddlon i gredo a threfn yr Eglwys Wladol.

[1] Methais â tharo hyd yma ar Adroddiadau 1764–5 a 1777–9. Pe deuid o hyd i'r tri olaf, dichon y ceid prawf i Morgan Rhys barhau'n athro'r Ysgolion Cylchredol hyd derfyn ei oes yn 1779.

Gofalai baratoi y plant dan ei ofal ar gyfer gwasanaeth yr Eglwys ar y Saboth, trwy ddysgu iddynt y *Catechism* a phethau eraill, a cheid ef yn bresennol yn yr Eglwys gyda'i ddisgyblion. Ni ddysg yr Adroddiadau na feddai'r Emynydd gydymdeimlad â'r Methodistiaid a'u gwaith, ac ni fwriedir dysgu'n awr na fu'n aelod yn yr eglwys Fethodistaidd ar adeg neu adegau o'i fywyd ; y cwbl a ddywedir ydyw, na wyddys am ddim i brofi hynny.

Tyb arall gyffredin i holl gofiannau Morgan Rhys ydyw iddo fod yn bregethwr neu gynghorwr cymeradwy am flynyddoedd yn y Cyfundeb Methodistaidd. Dichon bod hyn yn gywir. Gallai arfer y ddawn bregethu cyn myned yn athro'r Ysgolion Cylchredol yn 1757, ac eilwaith am y pedair blynedd olaf o'i fywyd, y rhai nad oes gyfrif ohonynt. Eithr y mae'n amlwg oddiwrth lythyrau'r *Welch Piety* na oddefid i athrawon Griffith Jones gynghori neu bregethu. Yn Adroddiad 1741, Mai 29, cadarnheir hyn gan dystiolaeth dau offeiriad, a Wm. Williams, Pantycelyn, curad Llanwrtyd ar y pryd, yn un ohonynt :

> Reverend Sir,
>
> This is to certify that the Master of the *Welch* Charity School, near Pentretygwyn, in the Parish of *Llanfair y Bryn*, behaved himself civil and according to the prescribed rules without taking upon him to be an *exhorter* or anything unbecoming his Calling.

Yn yr un Adroddiad rhoddir hanes diarddel H—T— am gynghori neu bregethu " yn y gwahanol Gymdeithasau a sefydlwyd yn ddiweddar " :

> " Complaints being brought against H—T—, Master of a Welch School in Lantwit, viz, that he kept the least of all the Masters within the Bounds of his Duty, he was discharged."

Ynglŷn â'r achos hwn, mewn llythyr dyddiedig, Kilpebyll, Ion. 8, 1741, ysgrifenna Thomas Jenkins, Offeiriad,

Llangiwe, "I was informed that you were told H— T— published Meetings in publick places as the Methodists do." A dywed William Thomas, Curad Cadoxton, mewn llythyr o'r un dyddiad, am H— T—, "He has been charged, and he confesses it in part himself to be true, with exhorting in the Religious Societies lately established here. He seems to be very sensible of his indiscretion in being over persuaded by some hot-headed people to take upon him in the least the part of a teacher and promises he will never attempt such things again."

Nid yw'n debig oddiwrth y cymeriad a roddir i Morgan Rhys yn yr Adroddiadau y torrai ef y *Prescribed Rules* trwy bregethu yn y Cymdeithasau Methodistaidd nac yn unman arall. Dichon iddo bregethu wedi marw Griffith Jones, oblegid tybir i'r *Prescribed Rules* golli llawer o'u grym pan ddaeth yr Ysgolion tan ofal Madam Bevan. Tybiaeth yw hyn hefyd. Nid oes ar glawr gyfeiriad at yr emynydd yn pregethu mewn unrhyw fan erioed.

Traddodiad a gredwyd mor gadarn onid aeth yn ffaith i gofiannwyr Morgan Rhys ydyw, iddo sefydlu ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yng Nghapel Isaac, rhwng Llanfynydd a Llandeilo, eithr y mae'r hyn a nodwyd eisoes yn egluro na wyddys heddyw am un sail i'r traddodiad. Gorwedd niwl tew ar fore oes y prydydd; cododd am ychydig yn y prynhawn, a disgynnodd drachefn yn yr hwyr.

Y mae'n fwy na thebig mai rhywle yn ardal Llanfynydd y bu farw'r emynydd—mewn tŷ bychan ar dir Cwmgwaunhendy, medd traddodiad. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys y plwyf, Llanfynydd, ac yng nghofrestr y claddedigaethau yn yr Eglwys ceir y geiriau "*Morgan Rhys, August 9th*, 1779." Yn anffodus ni chyfeirir at ei oedran. Felly, nid oes ar gadw ddim sicr am yr emynydd ond y blynyddoedd y bu'n athro'r Ysgolion Cylchredol, nodwedd ei gymeriad, ffrwyth ei athrylith, a dydd ei gladdu. Huna'n dawel er 1779, ac ni wyddys am fan ei fedd. Nid oes yno "garreg arw a dwy lythyren."

Dywed traddodiad "bod ei fedd ar y tu gogleddol i'r Eglwys, tan y ffenestr ganol."[1] Pe meddai Morgan Rhys yr un safle fel milwr ag a fedd fel emynydd, ceid maen mynor cyn hyned â'i fedd i alw sylw at ei athrylith. Hwyrfrydig ydyw'r werin i anrhydeddu coffadwriaeth ei chymwynaswr.[2]

MORGAN RHYS A WILLIAMS.

Er na wyddys ddim am fore oes Morgan Rhys, ac er i'r niwl gasglu trachefn cyn ei therfyn, nid oes raid wrth broffwyd i ddysgu ei fod fel emynydd yn gynnyrch diwygiad crefyddol mawr. Dwyster ac asbri a thân diwygiad ydyw elfennau mawr ei emynau, ac oni cheir sicrwydd iddo erioed fod yn aelod o eglwys y Trefnyddion Calfinaidd, ceir digon o sicrwydd mai i'r Diwygiad Methodistaidd y mae dyled y genedl am ei emynau penigamp. Cydoesai â Phantycelyn, Dafydd Jones o Gaio, a Dafydd William, Llandeilo Fach. Gwelodd fel hwythau oleuni byd a ddaw yng ngwawr bywyd newydd y genedl. Anadlodd yr un awyr gynnes, yfodd o'r un ffynhonnau melys, a chanodd fel hwythau folawd y Groes. Bach a llwm a fyddai Llyfr Emynau Cymru ar wahan i'r Diwygiad Methodistaidd a Sir Gaerfyrddin.

Prawf prif waith yr awdur ei fod yn ddyn hyfedr anghyffredin pa un bynnag a gydnabyddid hynny yn ei oes ef ai peidio. Yr oedd yn feddyliwr cryfach na Dafydd Jones o Gaio, a Dafydd William, Llandeilo Fach, ac yn well bardd; yr oedd yn gystal Cristion â Williams, Pantycelyn, ac yn ol barn rhai yn gystal emynydd hefyd. Diau y tybiai amryw gais at ddiorseddu Pantycelyn a dyrchafu Morgan Rhys i'r orsedd yn ymylu ar ryfyg; eithr gesyd deunydd, ansawdd, a gwasanaeth ei emynau yr awdur yn uchel iawn ymhlith yr emynwyr, onid yn uwch na phawb. Os prawf dadl y Parch. Cynhafal Jones, D.D., yn ei

[1] *Y Tadau Methodistaidd.*

[2] Yn 1915 penderfynodd Cyngor Eglwysi Rhydd Llanfynydd a'r Cylch godi Cof-golofn i'r emynydd ym mhentref Llanfynydd, eithr daeth y Rhyfel a'i afiwydd i rwystro'r gwaith.

feirniadaeth ar *Weithiau Williams* mai ef, Williams, ydyw'r bardd mwyaf a welodd Cymru erioed, gwasanaetha'r un ddadl i brofi mai Morgan Rhys ydyw'r emynydd mwyaf a welodd Cymru erioed. Dyma eiriau y Dr. Cynhafal :

" Y mae hyn yn sicr, fod mwy o ddarllen ar weithiau Williams yng Nghymru, a mwy o ol ei weithiau ar fywyd a chymeriad y genedl, nag sydd o ddarllen, ac nag sydd o ol gweithiau yr holl feirdd eraill i gyd gyda'u gilydd. Ac os yw hyn yn wir (ac yr ydym yn meddwl nad oes neb ystyrbwyll a'i gwada), y mae yn ddigon i brofi tuhwnt i bob dadl na phetrusder, mai Williams yw y bardd mwyaf tuhwnt i bob cymhariaeth a ymddangosodd erioed ymhlith y Cymry, neu ynte nad yw y Cymry ond cenedl o ffyliaid a deillion. Ydyw, er holl fregawd bechgyn y " glec," a baldordd " seiri y cynghaneddion " wrth y maen chwyf, y mae cysgod yr Hen Williams yn drymach na'r holl gyfandorf gwmpasog ohonynt hwy."[1]

Prin y mae'r geiriau hyn yn eiddo un " ystyrbwyll." Un o beryglon edmygydd mawr ydyw bod yn rhy hydwyth ei dystiolaeth am wrthrych ei edmygedd. Yr oedd William Williams yn fardd da, a chydnebydd y mwyafrif hynny byth wedi beirniadaeth ffafriol Hiraethog ar " Golwg ar Deyrnas Crist" a "Bywyd a Marwolaeth Theomemphus," eithr nid oes un o bob deng mil o Gymry wedi darllen y rhain a'i farwnadau. Emynau Williams yn unig a ddarllenir ac a genir gan y genedl, a'u dylanwad hwy sydd ar ei bywyd. Byddai mwy o rym yn nadl Cynhafal pe cymharai'r awdur ag emynwyr Cymru, ac nid â'i phrif feirdd. Heblaw hyn, ceir rhai " ystyrbwyll " yn gwadu fod mwy o ddarllen ar weithiau Williams nag sydd ar eiddo'r holl feirdd eraill gyda'i gilydd. Ymddengys nad oes cymaint o ddarllen, neu o leiaf, nad oes cymaint o ganu, ar emynau Williams ag sydd ar eiddo'i gyfoeswr Morgan Rhys. Dywed y Dr. J. Moelwyn Hughes yn ei ysgrif ar Morgan Rhys yn y *Traethodydd*[2] i leygwr meddyl-

[1] *Gweithiau Williams Pantycelyn*, 1887.

[2] *Y Traethodydd*, Ion. 1915.

gar o Sir Gaerfyrddin ei hysbysu y cenir emynau Morgan Rhys yn amlach gan gynulleidfaoedd Cymru nag eiddo neb arall, a bod y dystiolaeth yn ffrwyth sylw manwl a chyfrif teg o'r emynau a genid am flwyddyn gyfan yn y capel yr addolai ef ynddo. "Penderfynais yn y fan," ebe'r Dr. Hughes, "y rhoddwn innau brawf ar y mater; cefais hefyd gyfaill ym Morgannwg i wneud yr un peth; ac er ein syndod, canfuwyd gennym ein dau, ar derfyn deunaw mis y profi, fod ffrwyth ein sylwadaeth yn gwireddu tystiolaeth y diacon craffus o Fro Myrddin." Yn gyson â dadl y Dr. Cynhafal Jones, prawf y dystiolaeth hon naill ai mai Morgan Rhys yw prif emynydd y genedl, neu nad yw'r saint ond cynulliadau o "ffyliaid a deillion."

### Gwaith Llenyddol yr Awdur—Ei Farwnadau.

Yn ol arfer beirdd ei oes cyfansoddodd Morgan Rhys amryw farwnadau. Ymddengys y disgwylid i'r sawl a fedrai ychydig ar farddoni ganu coffa dynion da, fel y disgwylir heddyw i'r sawl a fedr gysylltu geiriau'n gryno anfon ysgrif i bapur newydd neu gylchgrawn am gymeriadau gwerthfawr a gollir. Pa mor wael bynnag fyddai cân yr emynydd byddai llawer o werth yn y testun fynychaf. Cenid naill ai am bregethwr poblogaidd neu am gymeriad crefyddol adnabyddus.

### *Marwnad y Parch. Howel Davies.*

Un o ddynion mawr ei oes ydoedd y Parch. Howel Davies,—dyn y mae Methodistiaeth a Chymru mewn dyled fawr iddo. Disgynnai o deulu anrhydeddus a chrefyddol yn Sir Benfro, a ganed ef, yn ol Williams, Pantycelyn, yn y flwyddyn 1717.[1] Wedi cwrs o addysg elfennol yn ei gartref, aeth i fath ar athrofa a gynhelid gan y Parch. Griffith Jones, yn Llanddowror, ac yn 1736, tua'r adeg y

[1] "Yr hwn a fu farw Ion. 13, 1770, yn dair ar ddeg a deugain oed,"—*Gweithiau Williams Pantycelyn*, Cyf. I., tud. 472, y Dr. Cynhafal Jones.

dechreuodd Howel Harris efengylu, cafodd urddau yn yr Eglwys Wladol, a galwyd ef cyn hir i fod yn gurad Eglwys Llys-y-fran, ym Mhenfro. Eithr yr oedd naws ei ysbryd, glendid ei fuchedd, ac egni a gonestrwydd ei bregethu, yn ormod i'r plwyfolion, a bwriwyd ef allan o Lys-y-fran. Dymunai crefyddwyr gwanllyd a difoes y plwyf weinidog fel hwythau dipyn yn ysgafala ei fywyd a'i arferion. Ymhen peth amser symudodd i Hwlffordd i wasanaethu fel curad eto. Deuthai yno fel gwynt nerthol yn rhuthro ac yn dadwreiddio hen dderi annhyblyg ; cynhyrfwyd yr holl dref, a chynhyddodd ei ddylanwad mor gyflym nes ymdaenu ohono'n fuan tros yr holl sir. Trwy ei athrawiaeth iach, ei fywyd unplyg, a'i bregethu tanllyd, tynnodd offeiriaid y Sir yn ei ben, a chaewyd yr eglwysydd yn ei erbyn. Aeth yntau fel ei Feistr i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Daeth yn gyfaill i Harris, Rowlands a Whitfield, ac yn gydweithiwr â hwy, a phregethodd trwy Gymru gyfan. Am agos i ugain mlynedd bu Howel Davies yn crwydro heb fan sefydlog i bregethu ynddi. Weithiau ceid ef yn efengylu mewn llan, a phryd arall mewn tŷ annedd, neu yn y maes. Dywed *Enwogion y Ffydd*, " Y capel cyntaf a adeiladwyd yn y Sir[1] oedd capel Woodstock (Bôn-y-Coed) yn y flwyddyn 1754 ; a'r ail oedd y capel newydd, ar derfyn gogleddol y Sir, yn y flwyddyn 1763. Yn y ddau hyn, ynghyda dau addoldy perthynol i'r Eglwys Sefydledig, ond diwaddol, sef Capel Maunston, gerllaw Narberth, a St. Daniel, gerllaw Penfro, y pregethai y gŵr enwog fynychaf, a gweinyddai Swper yr Arglwydd ynddynt bob mis."[2] Bernid y rhifai'r cymunwyr fynychaf yn y Cymundeb misol oddeutu dwy fil, ac y rhifai gwrandawyr y pedair eglwys 7,000 :

Howel Davies ffyddlon, gywir,
  Bugail pedair eglwys fawr,
Sydd yn mynd i Fynwent Prengast
  Heno, i orwedd yno i lawr ;

[1] Sir Benfro. [2] *Enwogion y Ffydd*, tud. 210.

'Rwyf yn clywed saith o filoedd
  Yn ochneidio tua'r nen,
Ac yn dyweyd, " Beth ddaw o'r gorlan
  Wasgaredig sy heb ben."[1]

Yr oedd Howel Davies yn bregethwr nerthol, ac yn allu ysbrydol mawr drwy'r holl Sir, a dysg hanes y cyfnod y llafuriai ynddo ei fod i Sir Benfro yr hyn ydoedd Daniel Rowlands i Sir Aberteifi. Ef oedd gannwyll yn llosgi ac yn goleuo, eithr diffoddodd Ionawr 13, 1770, ac ef ond 53 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Prengast, Hwlffordd.

Canodd Morgan Rhys ei deyrnged i goffadwriaeth Howel Davies, a rhain yw'r geiriau sy uwchben y gân:— " Marwnad, neu Goffadwriaeth o ddedwydd farwolaeth rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl, a ymadawodd a'r byd hwn yn ddiweddar, yn Neheudir Cymru, sef y Parchedig Mr. Howell Davies, yn Sir Benfro ; Mr. William Richard, yn Sir Aberteifi ; a Mr. Sion Parry, yn Sir Gaerfyrddin, ynghydag amryw eraill o'r saint a fu yn cydaddoli gyda rhai ohonom yn y byd presennol, sydd heddyw yn holliach yn y byd tragwyddol."[2]

*Marwnad y Parch. Lewis Lewis.*

Yn y flwyddyn 1764, cyhoeddodd Ioan Ross, dros Morgan Rhys, " Farwnad neu hanes bywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Lewis Lewis, gweinidog yr Efengyl, yn Llanddeiniol, yn Sir Aberteifi, yr hwn a hunodd gyda ei dadau, Mehefin 9, 1764, 27 oed, er mawr golled i'r Eglwys." Canodd Pantycelyn yntau farwnad i Lewis Lewis yn cynnwys 4,320 o linellau, a bernir ei bod yn un o'i ganeuon goreu. Er pob ymchwil, methais â tharo ar

[1] *Marwnad Howel Davies*, gan William Williams.

[2] Gan fod y personau a enwir yn y geiriau hyn yn " gyd-addolwyr " â Morgan Rhys, a hwythau i gyd yn amlwg ymhlith y Methodistiaid, y mae rheswm cryf dros gasglu bod yr Emynydd yn cydymdeimlo'n ddwfn â'r Methodistiaid onid yn aelod o'r Corff.

ddim o hanes gwrthrych y caneuon hyn, eithr y mae'n amlwg nad y Lewis Lewis a urddwyd yn weinidog i'r Annibynwyr ym Mhencader, ar yr ail o Awst, 1759, ydoedd, fel y tyb y Parch. Thomas Levi,[1] oblegid dywed wyneb-ddalen marwnad Williams mai gweinidog "Eglwys Loegr" ydoedd. Dywed Morgan Rhys yntau mai "gweinidog yr Efengyl yn Llanddeiniol, Sir Aberteifi" ydoedd. Eithr pwy bynnag ydoedd tystia'r ddwy farwnad ei fod yn gymeriad ysblennydd, ac yn bregethwr hyawdl a llwyddiannus anarferol. Dyma dystiolaeth Morgan Rhys:

> Cennad ffyddlon tros ei Arglwydd,
> Dewr a didwyll mewn diwydrwydd ;
> Yn seinio udgorn yr Efengyl
> A'r newyddion da yn rhigil ;
> Cafodd lwyddiant anghyffredin,
> Ymhlith y waredigol werin ;
>    Trwy ei oes, gwaed y Groes
>    Marwol loes Iesu,
> Oedd ef yn ddidwyll yn draddodi,
> Yn seil-faen Iechydwriaeth inni.

Er ieuanged ydoedd y Parch. Lewis Lewis—bu farw yn 27 mlwydd oed,—yr oedd yn boblogaidd trwy Gymru gyfan. Teithiodd lawer i bregethu:

> Trwy Ddeheudir a thrwy Wynedd,
> Bu'n pregethu gwir ymgeledd,
> I'r eneidiau archolledig,
> Llwyr iachâd yngwaed y Meddyg ;
> Rai blynyddau yn anhwylus
> Y trafaelai yn ofalus,
>    I blith y saint, hyfryd fraint,
> Er maint ei afiechyd ;
> Y Sabboth ola yn ddyfal hefyd,
> Cyn ymado o'r byd i'r bywyd.[2]

[1] *Casgliad o Hen Farwnadau Cymreig*, Y Parch. Thomas Levi.

[2] *Marwnad, etc., y Parchedig Lewis Lewis*, Morgan Rhys.

Y mae yn y gân bymtheg o benillion, a'u syniadau'n gyffredin, a'u gwisg yn llwm ei gwala.

*Marwnad Morgan Nathan.*

Y gân olaf y sylwir arni ydyw Marwnad Morgan Nathan, Llandeilo Fawr. Cyn belled ag y gwyddys nid oes dim ar gael o hanes Morgan Nathan ond a geir yn y gân hon. Ymddengys mai dyn cyffredin ei amgylchiadau ydoedd, yn gwasanaethu ym mhlasau cyfoethogion, eithr yr oedd yn anghyffredin o dduwiol ei fryd a glân ei fuchedd :

Gorchfygodd fyd o ddrygau ac annuwiolion llym,
A llygredigaeth gwreiddiol yn eitha' ei rwysg a'i rym,
Er ofni yn y palas yn hollol golli'r ma's,
Fe'i nerthwyd yn y frwydr, anfeidrol olud gras.

Gwasnaethu'r bonedd penna' Nghymru 'roedd efe,
Lle galwyd, ac y treuliodd ei ddyddiau tan y ne',
Mewn plasau a mynyddau fe roddai ei liniau lawr,
Nosweithiau fe weddie o hwyr i foreu wawr.

Wedi canu deg pennill arall y gellid heb ystum eu cymhwyso at unrhyw ddyn da mewn unrhyw oes, disgyn drachefn ar Morgan Nathan, i egluro'i fod yn Galfin iach a chryf, ac yn meddu hyder sefydlog ei fod " ymhlith y cadwedigol rai " :

Fe ddywedodd wrthyf lawer am arfaeth gadarn râd,
Ei brynu cyn ei eni ar Galfari â gwâd ;
Jehofa, Alpha, Omega, a'r hen-ddihenydd o'dd,
Ei gân bereiddlon yma yn siriol wrth ei fodd.

Yn y penillion nesaf gesyd wrthrych ei gân ynghanol y nef, ac

Fe ganodd sêr y boreu, ar ei ddyfodiad E'.
'Nghanol nef y nefoedd ei weled yn ei le.

Ac yna, wedi sôn am bethau anhraethadwy a welodd Nathan yn nef y nefoedd, try'n ol i'r ddaear eilwaith i draethu am ei briod, ac i ganu am ei oedran :

Ca's briod ddiwar, fedrus, cariadus, mwyn a da,
Ymgeledd gymmwys iddo'r wyth mis y bu yn gla',
Yn agos i naw mlynedd yn briod buont hwy,
O'r dechreu i ddydd angeu, pob un yn caru yn fwy.

Ei oed pum mlwydd a deugain, bu ar y ddae'r yn byw,
O rhain bu bymtheg mlynedd yn 'mofyn am ei Dduw,
Un mil saith gant a thrigain pedair ar ddeg ynghyd,
Y trydydd dydd o Dachwedd aeth i'r tragwyddol fyd.

Nid oes llawer o drefn na medr nac awen yn y gân, ond llwyddodd yr awdur i rigymu wyth a thrigain o benillion, a diau i berthynasau Morgan Nathan fagu digon o amynedd i'w darllen drwyddi. Ymddengys mai prif amcan yr hen emynwyr yn canu marwnadau ydoedd cofnodi'n syml *hanes* y personau y cenid amdanynt, a llwyddodd Morgan Rhys i roddi'r unig hanes sydd gennym am Nathan. Clodfora rhai Morgan Rhys ar gyfrif ei fedr i drin ansoddeiriau. Wel, y cwbl a ddywedaf ydyw, na wybu'r hen brydydd ddim am brinder o'r pethau hyddawn hynny,—" Ca's briod *ddiwar*, *fedrus*, *cariadus*, *mwyn*, a *da*." Ychydig a wyddys am yr hen Emynydd, ac nid oes ddiolch i'w farwnadau bod hyd yn oed ei enw gennym.

### Emynau'r Awdur.

Er nad oes fawr ffurf lenyddol, a llai fyth o geinder, ym marwnadau'r hen emynwyr, y mae eiddo rhai ohonynt yn rhagori llawer ar ganeuon Morgan Rhys. Pethau gwael yw ei farwnadau ef, heb egni meddwl na theimlad, ac heb ond ychydig o ofal am gorfan ac odl. Nid o'i galon y codai'r cymhellion i ganu, eithr oddi allan y deuthant. Cyfansoddodd rai, yn ol ei dystiolaeth ei hun, ar gais cyfeillion, a dichon mai bodloni cyfeillion a'i cymhellodd i'w cyfansoddi oll. Eithr canu fel aderyn, wrth

fodd ei galon, a wnaeth yn ei emynau,—canu diolch, a llawenydd, a gweddi, wedi i wawr byd arall dorri ar ei fywyd a chynhesu ei ysbryd.

Prif waith Morgan Rhys ydyw *Golwg o Ben Nebo*. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf yn 1755. Wele'r wyneb-ddalen :

> " Golwg o Ben Nebo, ar Wlad yr Addewid : sef Ychydig Hymnau Duwiol. Yn cynnwys gan mwyaf Golwg Ffydd wrth edrych ar Dragwyddoldeb. O waith Morgan Rhys.
>
> Argraphedig ym Mristo, gan F. Ffarley, yn y flwyddyn 1755."[1]

Y mae yn yr argraffiad hwn un emyn ar ddeg, gyda'r testun uwchben pob Emyn, fel a ganlyn :

1. *Byw i mi yw Crist, a marw sydd Elw.*

Gofudus Dyddiau Mhererindod<br>Sydd ar ddarfod yn ddilai ;<br>Ffarwel yfed Dyfroedd *Mara*,<br>I Ddinas arall 'rwy'n nesau, etc.

2. *Gorphwysant oddiwrth eu Llafur.*

Fy enaid athrist, gorfoledda,<br>Darfu Amser o ryfela, etc.

3. *Yno y gorphwys y rhai Lluddedig.*

Henffych i'r Borau hyfryd<br>'Ddaw Gelyn byth i'm cwrddid<br>  I Dir y Bywyd fry, etc.

4. *Ac yno y bydd Barn, etc.*

Caned y Genedl gyfiawn<br>Ddaeth Iesu i'w rhyddhau, etc.

[1] Cyflwynwyd copi o'r argraffiad cyntaf o " Golwg o Ben Nebo " i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1921, gan Mr. D. Lleufer Thomas, M.A.

5. *Ymdaith o'r Aipht i Ganaan.*

I'r Aipht daeth Iesu 'ngwared
O Dir Caethiwed du, etc.

6. *Gwaredigaeth.*

Trugaredd f'Arglwydd cu
Fyth-fyth ryfedda i
I wneud Pechadur du
Fod fel yr Eira gwyn, etc.

7. *Crist Noddfa mewn Cyfyngder.*

Yn erbyn stormydd mawr a thonnau
Mae fy Siwrnai tua Thre, etc.

8. *Arall.*

Nid wy'n ceisio fawr Esmwythder
Ar y Ddaear 'rwyf yn byw, etc.

9. *Golwg gyssurus ar Drag'wyddoldeb.*

Newyddion brâf wy'n gael heb lai
Fod Trag'wyddoldeb yn nesau, etc.

10. *Canmoliaeth o Grist.*

Trag'wyddol Glôd i'r Oen a laddwyd,
Fy ngharu wnaeth er maint fy mai, etc.

11. *Hyder.*

Pechadur yw fy Enw,
Trwy waed mi ge's fy ngadw
Rhag marw a mynd i'r Tân, etc.

Cyhoeddwyd ail argraffiad o *Golwg o Ben Nebo* yn 1764, a thrydydd argraffiad yn 1775. Dywed Gwilym Lleyn[1] bod argraffiad 1775 y pedwerydd, a chamarweiniodd hyn amryw o'r sawl a ysgrifennodd ar Morgan Rhys. Hysbysir ar wyneb-ddalen argraffiad 1775 bod yr emynau

[1] *Llyfryddiaeth y Cymry.*

"wedi eu trefnu a'u diwygio allan o'r ail argraffiad." Cyhoeddwyd o dro i dro amryw argraffiadau o *Golwg o Ben Nebo*, eithr y trydydd argraffiad oedd yr olaf yn oes yr Emynydd. Cyhoeddwyd hefyd amryw fân lyfrynnau o emynau gan yr awdur, megis "Casgliad o Hymnau, am Gwymp Dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i Gyfodiad yn yr Ail"; "Golwg ar Ddull y Byd hwn yn myned heibio"; "Golwg ar Ddinas Noddfa"; "Y Frwydr Ysbrydol," a "Gruddfannau'r Credadyn."

Y mae peth dryswch ynglŷn â "Gruddfannau'r Credadyn." Cyhoeddwyd dau lyfr gwahanol tan yr enw hwn, y naill ynglŷn â *Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. Fafasor Powel* yn 1772, a'r llall ychydig yn ddiweddarach. Nid oes na dyddiad nac enw cyhoeddwr wrth yr olaf, eithr tybir ei gyhoeddi tua'r flwyddyn 1773 neu 1774, ac o gymharu'r argraffwaith, gwelir mai Ioan Ross, Caerfyrddin, a'i hargraffodd. Ceir deg emyn yn llyfr 1772, ac un ar ddeg yn y llall, ond y pedwar a ganlyn yn unig sy'n gyffredin i'r ddau:

O gwyn eu byd y dyrfa
Sy'n canu Haleluia, etc.

Dewch holl hiliogaeth Adda,
I wledd y Brenhin Alpha, etc.

Mae'r byd wyf yn breswylio
A'i ddull yn myned heibio, etc.

Gwnawd concwest ar Galfaria fryn,
Am dani canodd myrdd cyn hyn, etc.

Yn y cyntaf o'r ddau lyfr yn unig y mae "Beth sydd i mi yn y byd," etc. Pwy a ŵyr nad amheuai'r awdur hawl yr hen emyn i fyw; ac iddo'i adael allan yn yr oerni i rynnu hyd farw, fel yr hoffai rhai beirniaid wneuthur heddyw. Am ryw reswm neu'i gilydd byw a wna'r emyn, ac wedi cant a hanner o flynyddoedd y mae'n iraidd a hoyw.

### Nodweddion yr Emynau.

Er gwyched gwaith Morgan Rhys y mae yntau'n euog o feiau cyffredin emynwyr mawr ei oes. Nid yw ei iaith mor lân a choeth ag y dylai fod, a defnyddia ambell ffigyr annaturiol. Cymerer enghraifft neu ddwy :

O furgyn gwael drewedig câs,
Ffieiddiaf ar wyneb daear lâs.

Clod tragwyddol fo i'w enw,
  Torrodd fi'n y goedwig fawr ;
Er fy mod yn bren anghymwys,
  Yn ei Eglwys 'rwyf yn awr.

Dichon bod "burgyn drewedig câs" yn burion Cymraeg, eithr nid yw'n goeth, ac ni ddylid ei gymhwyso at fod moesol pa mor ddrwg bynnag y bo. Chwithig hefyd ydyw cyffelybu aelod mewn eglwys i bren a dorrwyd yn y goedwig.

Ceir digon o brawf yng *Ngolwg o Ben Nebo* na flinid, neu'n hytrach na swynid yr emynydd gan ysfa lenyddol prif feirdd ei oes. Nid oes ynddo un ymdrech at y cain a'r perffaith. Darnia'n ddidrugaredd eiriau da, a gwaedant fyth i anurddo'i emyn. Afrada ansoddeiriau nes difa synnwyr, ac ni fedd ddigon o gydwybod llenor i feddwl yn drefnus bob amser. Petai'r awdur wedi osgoi'r beiau hyn dyblid nifer ei emynau arferedig yn eglwysi Cymru heddyw, eithr gan nad ydyw mwyafrif y diffygion namyn tyllau yn y wisg, ni fyddai raid wrth gyweiriwr medrus iawn i gymhwyso degau ohonynt i wasanaeth y gynulleidfa.

Y mae testun y llyfr yn un hollol briodol,—"Golwg o Ben Nebo. . . . Casgliad o Bigion Hymnau, am Gwymp dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i gyfodiad yn yr Ail Adda," etc. Edrydd yr awdur hanes moesol dyn o'i gwymp "Yn Eden i bydew du blin" trwy y "gorthrymderau mawr o hyd" i'r "tangnefedd difrâd ym mynwes fy nhad," ac

yna, o Ben Nebo, gwel yr " etholedig rai " mewn hedd digymysg yn y Ganaan Nefol. Rhai o nodweddion amlycaf yr emynau ydyw :

I. *Eu Gwreiddioldeb.* Gwelir gwreiddioldeb yr awdur hyd yn oed yn y mesurau. Nid oes yng ngwaith yr un emynydd, ac eithrio Pantycelyn, gymaint o amrywiaeth mesur, ac y mae rhif emynau Williams yn rhifo eiddo Morgan Rhys bedair gwaith onid mwy. Eithr y prawf sicraf o wreiddioldeb emynau Morgan Rhys ydyw, nad oes arnynt arlliw cyfieithu na chysgod efelychu. Beiïr Benjamin Francis am gyfieithu gwaith y Sais a benthyca'i syniadau, a thybir i Thomas William, Bethesda'r Fro, efelychu rhai o'i gyfoeswyr Cymreig ; ond dibynnu'n gwbl ar ei allu a'i brofiad ei hun am ddefnyddiau a wnai Morgan Rhys, a gwisgai ei feddyliau fynychaf yn iaith yr Ysgrythyr.

II. *Ceir y lleddf a'r llon yn lled gyfartal yn yr emynau.* Erys yr emynydd yn hir gyda phechod a blinfyd y saint ; hwyrach yr erys yn hwy nag a wna gyda'u rhinwedd a'u llawenydd, ac y mae hyn o angenrheidrwydd yn tywyllu'r emynau. Y mae'n wir y daw gobaith a buddugoliaeth i mewn cyn terfyn yr emyn fynychaf, eithr hawdd yw disgyn i'r lleddf. Y mae ganddo amryw emynau goleu a hoenus ; ond ceir y prudd a'r siriol fel efeilliaid yn ymyl ei gilydd trwy'r emynau. Prif ddiffyg, os diffyg hefyd, yr emyn adnabyddus,

> Beth sydd i mi yn y byd,
> Gorthrymderau mawr o hyd, etc.,

ydyw ei brudd-der trwm. Ceir yn yr emyn brawf o dynherwch cydwybod dyn santaidd mewn byd pechadurus. Yr un yn hollol ydyw profiad Morgan Rhys ag eiddo Paul, a miloedd o ddynion ysbrydol eraill. Sylwer mai " gorthrymderau " ac nid " gorthrymder " sydd yn yr emyn gwreiddiol. Gwna hyn wahaniaeth pwysig. Ceir

y syniad dro ar ol tro yn emynau *Golwg o Ben Nebo*, megis :

Un cystudd sydd ar ol y llall
I'm cwrddid yma yn ddiball, etc.

Beth ydyw dyn ond gwagedd gwael ?
A pheth sydd yn y byd i'w gael,
  Ond gorthrymderau foreu a hwyr ?

Nid ydyw " Beth sydd i mi yn y byd," er cystal ydyw, yn un o emynau goreu'r awdur, ac nid ei gynnwys na'i naws sy'n cyfrif am ei boblogrwydd, ond tôn ragorol y Dr. Joseph Parry. Prawf o hyn yw'r ffaith na ellir na meddwl nac adrodd yr emyn heb feddwl hefyd am y dôn " Aberystwyth." Pa werth bynnag sydd yn yr emyn, ac y mae llawer ynddo, prin y tybia neb ei fod mor addas i addoliad cyhoeddus ag emynau goreu'r emynydd, megis :

Pechadur wyf, o Arglwydd, etc.

Gwnawd concwest ar Galfaria fryn, etc.

Dyma Geidwad i'r colledig, etc.

Ceir enghreifftiau o'r awdur ar lawer " prynhawngwaith teg o ha hir felyn tesog " yn canu'n llon fel aderyn diofid mewn emynau melys odiaeth :

Henffych i'r boreu hyfryd,
Ddaw gelyn byth i'm cwrddid,
  I dir y bywyd, fry, etc.

Fy rhan yw'r Oen fu farw ar ben Calfaria draw, etc.

Wel, dyma'r newydd da,
A lawenycha'r cla',
  Messia ga'd, etc.

Canu wnaf am fuddugoliaeth, etc.

III. *Nodwedd arall amlwg yn yr emynau ydyw grymuster beiddgar.* Y mae ynddynt lawer o nerth meddwl a

dewrder calon. Dengys amryw o'r emynau wybodaeth ac ynni deall yn ogystal a phrofiad yr awdur. Dyn cyffredin ymhob ystyr a geir yn ei farwnadau, eithr ceir meddwl cryf a theimlad dwfn yn yr emynau. Er yn dueddol i'r prudd, esgyn ei brofiad yn uchel iawn weithiau, ac yn rhy uchel i'r crefyddwr cyffredin. Dywed traddodiad yr arferai adrodd emyn o bryd i bryd wrth Pantycelyn, ac i Williams ar dro ddywedyd yn ei ddull sionc am emyn newydd, " Wel, y mae gen' ti yn hwna, beth bynnag, brofiad Cristion a hanner da." Ceir rhai llinellau yn emyn " Pechadur wyf, O, Arglwydd," a brawf gryfder a beiddgarwch meddwl yr emynydd, ac wrth ei osod yn yr ysgrif hon, gwelir hyn, a gwelir hefyd y llurgunio a fu arno gan gyfnewidwyr Emynau :

Pechadur wyf, O Arglwydd, sy'n curo wrth dy ddor,
Erioed mae dy drugaredd diddiwedd i mi'n stor ;
Er i ti faddeu beiau, rifedi'r tywod mân,
Gwn fod dy hen drugaredd lawn cymaint ag o'r blân.

Er i mi bechu'n ffiaidd o'm mebyd hyd yn awr,
Mil mwy yw dy drugaredd na'm holl bechodau mawr ;
Mwy rhinwedd gwaed dy galon na'm ffiaidd bechod câs,
Dyfnach na damnedigaeth yw'th gadwedigol râs.

Mil cryfach yw dy gariad na'r hen elyniaeth gâs,
Sy'n ddirgel yn fy mynwes yn llwyr wrth'nebu'th râs ;
Tragwyddol yw dy gariad, fe dynn fy nrwg o'r gwraidd,
Perffeithrwydd yn dragywydd feddiana'i gyda'r praidd.

Gwir i mi gyfeiliorni o ddechreu dyddiau nhaith,
A phechu yn dy erbyn fil o filiynau maith ;
O Ffrynd troseddwyr maddeu fy mhechod i, mawr yw,
Un olwg ar dy glwyfau a lwyr iacha fy mriw.

Er bod fy ffiaidd feiau yn aml fel y gwlith,
Ni alla'i lai na chanu am waed dy galon byth ;
Wrth gredu'th fod yn maddeu i'r fath bechadur mawr,
Gogoniant fo i'th enw trwy'r nefoedd wen a'r llawr.

Fe gawd yr hyfryd fanna, bwytawn o ŷd y wlad,
Mae rhein yn canu'n beraidd am iechydwriaeth rad ;
Mae'r Brenin ar ei orsedd, a'r pyrth yn lled y pen,
Fy enaid mwy na orphwys nes dringo uwch y nen.

IV. *Ceir hefyd yn yr emynau brofiad byw iawn o chwerwder pechod a melyster gras.* Y mae hynny o hanes yr emynydd sydd yn y *Welch Piety*, ac a gesglir oddiwrth ei waith, yn dysgu'n glir ei fod yn gymeriad pur a defosiynol, a'i fryd yn ysbrydol anarferol. Prawf hanes yr eglwys ar hyd yr oesoedd mai mesur santeiddrwydd y saint ydyw mesur eu sylweddoliad o ddrwg pechod. Cafodd Morgan Rhys ei draed ar graig, a thywalltwyd arno oleuni ysbrydol y Diwygiad mawr. Bu fyw yn uchel am ran helaeth o'i oes, a daeth i weled yn glir ddyfnder y pydew y dyrchafwyd ef ohono. O'i safle ysbrydol dyrchafedig gallodd ganu :

Un wyf o'r pechaduriaid mawr,
Ffieiddiaf ar wyneb daear lawr,
    Ni wela'i un,
Fel fi fy hun, ymhlith y llu.

Meddyliais fil o weithiau mai uffern fyddai'm nyth,
Yn gyfiawn am fy meiau y poenid fi ynthi byth ;
O uffern fe'm gwaredwyd, o greulon safn y ddraig,
Gogoniant yn dragywydd i Dduw am Had y Wraig.

Gwybu'r emynydd hefyd am fwynderau nefol y daith ysbrydol trwy'r anial. Wedi gadael yr Aifft a'i blinfyd caled, a dianc ar ddialedd Pharo, cân yn yr anialwch ar ei ffordd i Ganaan :

Ces ddwr o'r graig i yfed,
  I dorri'm syched mawr,
Ces beunydd fara i fwyta,
  O'r nef y daeth i lawr.

Ces delyn tu yma i angeu,
(Fy holl gystuddiau ffodd),
I ganu i'r Oen fu farw,—
Mae'n briod wrth fy modd.

Wyneb siriol fy Anwylyd,
Yw fy mywyd yn y byd, etc.

Mae dy Gariad, Iesu hawddgar,
Fil o weithiau'n well na'r byd,
Gwell na'r nefoedd faith, er cymaint,
Gwell na'r haul, a'r ser i gyd ;
Tragwyddol yw cariad Duw
At golledig ddynolryw.

V. *Prin y mae eisiau nodi bod symlrwydd yn un o brif nodweddau'r emynau.* Y mae'r iaith yn gyffredin, heb rodres ynddi, ac yn ei emynau goreu yn bur lân. Nid yw'r meddyliau'n llac nac yn gymysglyd a thywyll, ac nid ydynt yn rhy farddonol i addolwyr syml fynegi eu profiadau ynddynt. Cristion sy'n canu, ac y mae'r emynau fel ef ei hun, yn onest a defosiynol. Ceir y symledd hwn yn ei holl emynau poblogaidd. Beth symlach na

O, agor fy llygaid i weled, etc.

Dyma Geidwad i'r colledig, etc.

Gwnes addunedau fil, etc.

Dewch, hen ac ieuanc, dewch, etc.

O Gariad ! O Gariad ! Anfeidrol ei faint, etc. ?

Bu Morgan Rhys fyw yn dda, gweithiodd yn galed a chydwybodol, cyfrannodd addysg fydol a chrefyddol i gannoedd o blant a rhieni ei oes, a chanodd emynau ysblennydd a bair fendithion i'r eglwys genhedlaeth ar ol cenhedlaeth. Ni raid petruso ei osod ymhlith prif emynwyr Cymru, a'i osod yn uchel hefyd. Diau mai Pantycelyn sydd yn

ben—ef biau'r orsedd, ac eto, emynau Morgan Rhys a genir amlaf gan gynulleidfaoedd Cymru. Pa fodd y cyfrifir am hyn? Pwy a ddylid ystyried yn ben? Ni wnaed hyd yma gyfiawnder â Morgan Rhys fel emynydd. Dichon y cyfyd cyn hir lenor a'i gesyd yn y lle a deilynga.

## III.—DAFYDD WILLIAM.

Un o feibion Sir Gaerfyrddin ydoedd Dafydd William yntau. Er mai fel Dafydd William, Llandeilo Fach, yr adnabyddir ef, y farn gyffredin ydyw mai ym mhlwyf Llanedi, Sir Gaerfyrddin, y'i ganed, a'r tebig ydyw iddo dreulio rhan gyntaf ei oes hyd oedran a gwybodaeth gŵr yn y sir honno, oblegid ceir ei fod cyn dechreu ohono grwydro, yn bregethwr neu gynghorwr gyda'r Methodistiaid yn Llanfynydd. Yn un o'i adroddiadau i'r Sasiwn dywed James Williams, "David Williams an exhorter at Llanfynydd has left me, and gone to keep a school."[1] Credaf oddiwrth *Lawysgrifau Trefecca* mai hwn oedd Dafydd William *Rhys*,[2] awdur *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, ac y mae'n ymddangos yn debig iawn hefyd mai hwn oedd Dafydd William, Llangyndeyrn, y sonnir am dano yng Nghofnodion Trefeca, yn 1743, a ataliwyd i gynghori'n gyhoedd oni cheid tystiolaeth y Seiadau am dano. Bu'r emynydd yn trigiannu mewn amryw leoedd ym Morgannwg a Mynwy, eithr y mae'r ffaith ei eni, a'i fagu hyd oedran gŵr, yng Nghaerfyrddin, yn peri i mi ei gysylltu â'r sir honno.

Gellir bod dipyn yn bendant ar hanes meddwl a chymeriad yr emynydd; y mae hwnnw yn ei waith, eithr rhaid dyfalu peth am fore'i oes,—ei gychwyn a'i dyfiant. Ni wyddys yn sicr hyd yn oed flwyddyn ei eni. Dywed Mr. Morris Davies, Bangor, ei eni yn 1720.[3] Eithr ar garreg

[1] *Welsh Calvinistic Methodism*, Williams, Abertawe, Arg. I., tud. 32.

[2] Gelwid ef yn Dafydd William *Rhys* i'w wahaniaethu oddiwrth Dafydd William, Llysfronydd, a elwid hefyd yn Dafydd William *Dafydd*.

[3] *Y Traethodydd*, 1872.

ei fedd ceid y geiriau, "In memory of David Williams, who died 1st October, 1794, aged 82 years," ac er bod gwres ac oerni a glaw canrif a rhagor wedi treulio'r llythyrennau, gellid eu darllen yn 1910. Yn 1912 dadorchuddiwyd cofgolofn i'r emynydd yng Nghroesyparc, ac arni'r geiriau, "Yr hwn a hunodd yn yr Iesu, Hydref 1, 1794, yn 82 mlwydd oed." Gosodwyd y gofgolofn ar fedd yr awdur gan Eglwysi Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg, a diau i bwyllgor y mudiad dderbyn tystiolaeth y garreg fedd ynglŷn â'r oed. Os derbynnir y dystiolaeth hon rhaid credu eni'r emynydd yn 1712. Ond y mae tystiolaeth arall bwysig. Yn 1777 cyhoeddwyd ail ran *Gorfoledd ym Mhebyll Sion*, sef prif lyfr emynau'r awdur, ac ar yr wyneb-ddalen dywedir, "a gyfansoddwyd gan Dafydd William . . . yn y 56 o oedran a thri mis." Cesglir yn naturiol oddiwrth y geiriau hyn eni'r emynydd yn 1720 neu 1721. Y mae'n bosibl i Dafydd William gyfansoddi emynau'r ail ran o *Gorfoledd ym Mhebyll Sion* wyth neu naw mlynedd cyn eu cyhoeddi.[1] O'r ochr arall, gwyddys na ellir dibynnu'n hollol bob amser ar yr oedran a osodir ar garreg fedd. Tueddir fi i dderbyn tystiolaeth wyneb-ddalen ail ran y "Gorfoledd," etc., a chredu eni Dafydd William yn 1720 neu 1721.

### Y Deffroad Mawr.

Ni cheir dim sicr chwaith am adeg ail-eni'r emynydd. Yn y flwyddyn 1713 ganed Daniel Rowlands, Llangeitho, a Howel Harris yn 1714, a'r ddau hyn a ddefnyddiodd Duw i ddeffroi Cymru o'i chwsg moesol. Deuthai'r ddau i deimlo, fel proffwyd arall o'u blaen, "Ei air ef oedd yn fy nghalon yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn fy esgyrn, a mi a flinais yn ymatal, ac ni allwn beidio." Torrodd ystorm Duw ar y bryniau, fflachiodd mellt trwy gymoedd anwiredd, a rhuodd taranau tros fynyddoedd

[1] Sylwer mai "a gyfansoddwyd" a geir ar yr wynebddalen, ac nid "a argraffwyd" neu "a gyhoeddwyd."

llygredd. Tybir mai yn yr ystorm hon yr ail-aned Dafydd William, ac y rhoddwyd cân anfarwol yn ei galon a'i enau.

Ni wyddys ail i ddim o hanes yr awdur cyn cael ohono grefydd. Y mae'n debig na phenderfynir yn sicr byth ymha le y cychwynnodd ei yrfa;[1] a pha mor aml ac hagr bynnag camweddau rhan gyntaf ei rawd, dilewyd hwy ers cenedlaethau. Gwrthyd amser gario diffygion meddylwyr mawr a dynion da ymhell. Pwy a ŵyr heddyw am bechodau Dafydd ap Gwilym a Dewi Sant? Athrylith a daioni sy'n byw o oes i oes. Dywedir yr enillai Dafydd ei damaid fel dilledydd, ac os ydoedd agos cystal dilledydd ag ydoedd a emynydd, rhaid bod byd da arno. Ofnaf nad ydoedd. Y byd a'i gwnaeth yn deiliwr, ond Duw a'i gwnaeth yn emynydd. Gwyddys am ambell un arall a fwriadwyd gan Ragluniaeth i safle bwysig oedd yn ateb i'w ddawn a'i egni meddwl, eithr a rwymwyd gan y byd wrth orchwyl yn gofyn yn unig gorff grymus neu fysedd medrus.

### Yr Emynydd yn Athro Ysgol.

Gadawodd Dafydd William ei waith fel dilledydd a phregethwr yn Llanfynydd, ac aeth yn athro un o ysgolion y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Ni olygai hyn ei fod yn ysgolhaig gwych,—dim mwy nag y gwyddai ddigon i ddysgu'r bobl i "ddarllen y Beibl a llyfrau da eraill." Oherwydd perthynas agos amryw o'r hen emynwyr â Griffith Jones, a dyled fawr Cymru iddo, ni fydd gair am dano yn yr ysgrif hon yn amherthynasol â'i thestun.

Dyn godidog oedd y Parch. Griffith Jones, a dylai ei hanes fod yn llawer mwy hysbys. Ni ŵyr y werin fawr am dano er ei fod yn un o'i chymwynaswyr pennaf, onid y pennaf oll. Ni warafunir y lle mawr a roddir i goffadwriaeth Howel Harris, Daniel Rowlands, a Phantycelyn, prif alluoedd y Diwygiad Methodistaidd. Y mae dyled Cymru'n fawr i'r rhain; eithr dylid cofio y byddai'r tri

[1] Dadleuir tros dri lle, sef Llanymddyfri i Llanfynydd a Llanedi. Y mae'r farn gryfaf o blaid Llanedi.

hyn yn amhosibl heb Griffith Jones,—mor amhosibl ag ydoedd Luther heb Erasmus. Llanddowror a roddodd Drefeca, Llangeitho, a Phantycelyn i Gymru. Y mae pob deffroad crefyddol mawr yn dilyn deffroad llenyddol. Dywed *Enwogion y Ffydd* mai'r tri a wnaeth " fwyaf i addysgu, coethi, a chrefyddoli Cymru o neb a fu o'u blaen nac ar eu hôl, hyd yn hyn," ydoedd y Dr. William Morgan, a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg; Griffith Jones, a sefydlodd Ysgolion Cylchynol Cymreig; a Thomas Charles, a sefydlodd yr Ysgol Sul yng Nghymru a'r Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor.[1]

Yr oedd Griffith Jones yn offeiriad ac yn un o bregethwyr mwyaf Cymru. Yr oedd yn llenor gwych, a chyhoeddodd amryw lyfrau gwerthfawr. Eithr cofir ef heddyw, a chofir ef tra y rhed Tywi, fel sefydlydd " Ysgolion Cylchynol Rhad " i'r bobl. Barnai gyflwr Cymru wrth dywyllwch a thrueni moesol ei blwyf ei hun, a chredai y dylid addysgu'r werin cyn y cai pregethu'r Efengyl afael a dylanwad yn y wlad. Sefydlwyd y gyntaf o'r ysgolion yn Llanddowror. Y cynllun o weithio ydoedd cyflogi nifer o ysgolfeistri, a'u hanfon ar hyd a lled y wlad. Aent o bentref i bentref, ac mewn amser dychwelent, weithiau trwy'r un pentrefi i ddysgu'r tô a dyfasai er eu hymweliad cyntaf, a thrwy eu hymdrechion diflannodd llawer o dywyllwch ac anfoesoldeb o'r tir. Cynorthwywyd Griffith Jones yn effeithiol gan Madam Bevan, ac i'w gofal hi y syrthiodd yr Ysgolion wedi marw'r sylfaenydd.

Y mae'n anodd onid yn amhosibl penderfynu'n derfynol berthynas yr emynydd â'r Ysgolion Cylchynol. Yn y *Welch Piety*, adroddiadau'r Ysgolion, anaml y rhoddir mwy na llythrennau dechreuol enw'r Ysgolfeistr, megis " M—R.—," neu " D—W—." Yn adroddiad 1746 ceir bod un " D—W—" yn athro yn " Cwm-an-llwyd, in Kil-y-pebyll, in Glamorganshire." Yn 1747, yr oedd " D—W— " yn athro yn Tretales, ym Morgannwg.

[1] *Enwogion y Ffydd*, tud. 77.

Gwelais hefyd y ddwy lythyren yn adroddiadau 1749, 1750, 1752 a 1776. Eithr nid oes brawf y golyga " D— W— " Dafydd William yr emynydd.

Y mae rhai ystyriaethau yn peri i mi gredu i Dafydd William ymsefydlu rhwng 1746 a 1760 yn ardal Llandeilo Fach, Gorseinion, a Llangyfelach. Yr oedd ganddo'n ddiddadl deulu yn y broydd hyn. Sonia Hopkin Bevan yn ei Hunangofiant am " Israel William, mab Dafydd William, Llandeilo Fach, awdwr y llyfr Hymnau a elwir *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, oedd yn byw yn Llangyfelach, ac yn aelod yn Society Goppa Fach," a dywed ymhellach bod gan Israel William blant ym Mryste yn 1808.[1]

Yr oedd ysgol o 43 o blant gan Griffith Jones yng Ngorseinion yn 1757–8, ac un arall o 40 o blant " near Corse Eynon," ac y mae'n ddigon posibl mai Dafydd William oedd yr ysgolfeistr yno. Sonnir i'r emynydd symud i Faesaleg. Yr oedd nifer o Ysgolion gan Griffith Jones yn ardaloedd Maesaleg, yn 1758–9. Ac ni ddylid anghofio bod ganddo ysgolion yn Llandeilo, Talybont, yn 1740–1, ac yn Llanfynydd yn 1740–1, lleoedd y gwyddys y bu Dafydd William yn byw ynddynt. Y mae'n bosibl hefyd mai ef yw D—W—, Margam, yn 1762–3.

Gwyddys mai " Dafydd William, o blwyf Llandeilo Fach, Sir Forgannwg, gerllaw Pontarddulas," sydd ar wynebddalen Rhan Gyntaf *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*. Argraffwyd hwnnw rhwng 1762 a 1764. Yno felly yr oedd cartref Dafydd yn y tymor hwn. Ar yr Ail Ran o " Gorfoledd," etc., a gyhoeddwyd yn 1777, " Dafydd William, gynt o Landeilo Talybont " a geir.

Y mae, fodd bynnag, sicrwydd o gysylltiad yr emynydd fel athro â'r Ysgolion Cylchynol. Ysgrifennodd Joshua Thomas ei nodiadau ar Eglwys Croes-y-Parc yn niwedd 1794, ym mhen llai na dau fis wedi marw Dafydd William. Nid oes ddadl na adnabuai Joshua'r emynydd. Perthynai'r ddau'n ymarferol i'r un Gymanfa—Cymanfa Dde'r

[1] *Hunanfywgraffiad*, Y Parch. Hopkin Bevan, tud. 12, 14.

Bedyddwyr. Yn Lloegr yr oedd eglwys Joshua Thomas, eithr teithiai lawer i Gymanfaoedd Cymru, ac yn arbennig i eiddo'r De. Dywed Joshua'n bendant bod Dafydd William yn cadw ysgol tan Madam Bevan, ac yn gwasanaethu fel pregethwr yn eglwys Croes-y-Parc.[1] Yr oedd hyn ar ôl 1761, oblegid yn y flwyddyn honno y bu farw Griffith Jones, ac y disgynnodd y gofal am yr ysgolion ar Madam Bevan. Yr oedd yr ysgol y cyfeiria Joshua ati yn Nhre-Witting, rhyw filltir a hanner o Lanbedr-y-Fro.[2]

### Y Traddodiad am Briodas adfydus yr Emynydd.

Pan gofir cynllun yr ysgolion, hawdd deall symudiadau Dafydd William o le i le. Nid yw'n debig y symudai o Lanfynydd i blwyf Llandeilo, oherwydd ei alwedigaeth fel dilledydd. Bu fyw, y mae'n amlwg, mewn amryw leoedd yng nghymdogaeth Pontarddulas, eithr treuliodd y tymor hwyaf yn Llandeilo Fach, ac wrth enw y lle hwn yr adnabyddir ef byth mwy. Ymbriododd yr emynydd â merch Nantymoel, ffermdy ar y mynydd rhwng Pontarddulas a Chwm Aman. Yn ol traddodiad, " gwraig ystyfnig, anynad, ac anhydrin iawn " a fu merch Nantymoel, a gwnaeth gartref y prydydd yn drigfa dreigiau iddo. Gwybu trwy brofiad am wirionedd pennill yr hen Ficer Pritchard :

> Archoll calon, baich anesmwyth,
> Defni dyfal, gwawd i'w thylwyth,
> Iau yn gwasgu, sarff yn pricio,
> Yw gwraig ddrwg,—gwae'r gŵr a'i caffo.

Y mae'n debig mai byd llwm ydoedd eiddo ysgolfeistri Griffith Jones a Madam Bevan, a dywedir bod gwraig y prydydd mor wancus am grafangu'r byd fel y mynnai wneuthur hynny trwy gadw tafarn. Beth bynnag am

[1] *Hanes y Bedyddwyr.* Joshua Thomas, Arg. 1885, tud. 579.

[2] Y mae " Athraw Ysgol Râd " ar wynebddalen rhai o'i lyfrau yn y tymor hwn.

gymeriad ac ysbryd y wraig, y mae'n amlwg ei bod yn bur llygadog, oblegid aiff cyfran fawr o'r byd i rywle trwy'r tŷ tafarn.

Ni ddywedir faint o gyfoeth a ddaeth i'r wraig trwy'r dafarn, eithr dywedir ddyfod trwyddi boen a helbul mawr i'w phriod. Er ei bod yn hollol gyfreithlon i bregethwr Methodus, hyd yn oed wedi ei ordeinio, gadw siop neu fferm, ni ellid cadw tafarn gan un a efengylai, a barnodd eglwys y Goppa'n ddoeth ddisgyblu'r bardd-bregethwr. Y mae'n wir yr ymddygai'r wraig yn gwbl groes i ewyllys y gŵr, a bu llawer ymryson galed rhyngddynt, eithr disgyblwyd, ef am y credai'r eglwys y dylai henadur "lywodraethu ei dŷ ei hun."[1]

### Yr Emynydd yn cefnu ar y Methodistiaid.

Cefnodd yr emynydd ar y Methodistiaid ac ymunodd â'r Bedyddwyr, a gwyddys pa bryd. Y mae gennym hanes am dano yn Fedyddiwr yn 1777. Mewn ysgrif yn *Seren Gomer*, Tachwedd 1895, dywedir ei dderbyn gan y Bedyddwyr; iddo "gymeryd ei gladdu gyda Christ yn y bedydd bore Sul, Mehefin 29, 1777, yng ngwydd cannoedd lawer o edrychwyr. Y bedyddiwr oedd y Parch. Edmund Watkins, o Langwm." Ceir sicrwydd ei fod yn Fedyddiwr yn y Fro yn 1777, oblegid yr oedd yn un o'r pedwar ar ddeg a aeth i gyfamod i ffurfio eglwys i'r Bedyddwyr yng Nghroes-y-Parc yn y flwyddyn honno; ac yn yr eglwys hon y bu'n aelod a phregethwr cynorthwyol hyd ei farw. Cadwai ysgol yn Tre Witting, Llanbedr y Fro, yn yr wythnos, a phregethai'n yr eglwysi ar y Sul, ac yn y blynyddoedd cyntaf yn amlach yn Eglwys Croes-y-Parc nag unman arall. Gwnaed llawer cais i brofi paham yr ymunodd yr hen Drefnydd Calfinaidd â'r Bed-

[1] Ni wn am un sail i'r traddodiad hwn. Cofnodir ef yma oherwydd y derbynnir ef fel ffaith gan bawb a ysgrifennodd ar Dafydd William, ac y defnyddir ef i egluro rhai o weithredoedd pwysicaf yr emynydd. Ni ddylid rhoddi pwys mawr ar y traddodiad oni ddeuir o hyd i'w sail.

yddwyr. Y farn gyffredin ydyw mai loes y tramgwydd oherwydd ei ddiarddel gan eglwys Goppa Fach a barodd iddo gefnu ar y Methodistiaid. Y peth agosaf i dystiolaeth-bersonol a phendant ar y mater ydyw'r geiriau a ganlyn:— "Clywsom hen ŵr o Lanedi, Sir Gaerfyrddin, yr hwn sydd wedi marw er ys blynyddau bellach, yn dyweyd fod ei dad ef a Dafydd William yn gyfeillion mynwesol; ac yn ol tystiolaeth yr hen ŵr hwnnw y prif achos o ymadawiad yr hen brydydd â'i hoff gyfeillion y Trefnyddion oedd ei anghysur teuluaidd, yr hwn a achosid gan ei wraig, yr hon, fel y dywedir, oedd yn nodedig o ddiffaith ac anynad. . . . Er ei fod yn dra thebygol oddiwrth bob peth a glywsom ac a ddarllenasom am Dafydd William, ei fod yn ddyn duwiol, eto, darfu i'w drallod teuluaidd iselu cymaint ar ei gymeriad crefyddol yn y gymdogaeth yr oedd yn byw ynddi, nes ei ddwyn dan gerydd a disgyblaeth ei frodyr y Trefnyddion, a'r canlyniad fu iddo ymadael â hwynt yn ei hen ddyddiau."[1]

Tueddir fi i gredu oherwydd amryw resymau mai argyhoeddiad o gywirdeb athrawiaeth y Bedyddwyr ynglŷn â dull a deiliaid Bedydd a barodd i'r emynydd ymuno â hwy, ac nid tramgwydd oherwydd ei ddiarddel gan y Methodistiaid. A chaniatau iddo sorri wrth y Methodistiaid, paham yr ymunodd â'r Bedyddwyr? Mwy naturiol a haws o lawer fuasai iddo ymuno â'r Annibynwyr, sy'n gwahaniaethu oddi wrth y Trefnyddion Calfinaidd mewn ffurflywodraeth yn unig. Ofnaf hefyd na ellir dibynnu llawer ar stori'r diarddel gan eglwys Goppa Fach. Fel mater o ffaith, ni fu cymundeb yn Goppa Fach cyn 1791, o leiaf, ac yr oedd Dafydd William yn Fedyddiwr yn 1777. Y mae'n wir y gellir dadleu, os nad oedd Goppa Fach ond cangen o eglwys yn nyddiau yr emynydd, y gellid ei ddiarddel gan yr eglwys honno, neu gan y Cwrdd Misol. Eithr ni ellir dadleu fel y dysgir yn gyffredin ei ddiarddel gan Goppa Fach. Nid wyf dueddol chwaith

[1] *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru*, Y Parch. J. T. Jones.

i ddibynnu ar Eiriadur Bywgraffyddol y Parch. J. T. Jones fel awdurdod. Gwn i sicrwydd y derbyn ef lawer o chwedlau disail fel ffeithiau. Y mae ei dystiolaeth ynglŷn â chefnu Dafydd William â'r Methodistiaid yn gorffwys yn hollol ar yr hyn a glywodd hen ŵr o Lanedi gan ei dad.

Diau na cheir bellach sicrwydd am y rheswm iddo newid ei enwad, ac nid yw'r mater yn un i bryderu yn ei gylch. Yr hyn sy'n bwysig ydyw i Dafydd William, drwy bob cyfnewidiad yn ei hanes, gadw ysbrydolrwydd ei feddwl a glendid ei gymeriad. Croesodd trwy'r afon i etifeddiaeth fras yr enwad newydd a goreu'r hen enwad yn ei galon, a pharhaodd i bregethu efengyl gynnes ei emynau hyd derfyn ei oes.

### Marwolaeth yr Emynydd.

Bu farw Dafydd William yn hen, ac wedi oes dreiglog, ac helbulus hwyrach, rhoddwyd ef i huno'n dawel hyd ddydd brawd ym mynwent capel Croes-y-Parc. Codwyd maen coffa ar ei fedd yn y blynyddoedd cyntaf, a thorrodd llaw fedrus ar y maen eiriau rhywun na feddai syniad am addaster pethau, " In Memory of David Williams, who died 1st October, 1794, aged 82 years." Wrthuned ceisio cadw'n fyw, mewn iaith estron, goffadwriaeth hen emynydd â'i galon a'i dafod mor Gymreig! Araf ydyw Cymru i sylweddoli ei dyled i'w chymwynaswyr. Euthai cant a deunaw o flynyddoedd heibio cyn i'r genedl symud i anrhydeddu'n gyhoeddus goffadwriaeth yr emynydd, a rhan o'r genedl a symudodd wedyn. Daw culni enwadol i'r golwg cyn amled yn ei berthynas ag emynwyr ag â dim. Dyn cenedl oedd Dafydd William, a chanodd brofiad calon crefyddwyr Cymru, ac nid eiddo calon Bedyddiwr yn unig; eithr y Bedyddwyr, ac ychydig edmygwyr eraill, a fanteisiodd ar gyfle i'w anrhydeddu. Yn 1912, codwyd cofgolofn ysblennydd ar ei fedd. Y mae'n argraffedig ar y golofn y geiriau a ganlyn :

*Gorweddle*
*Y Perganiedydd Dafydd William*
Yr hwn a hunodd yn yr Iesu
Hydref 1af, 1794
*Yn 82 mlwydd oed*
Cyfansoddodd emynau lawer, ac yn eu plith
Yr emyn anfarwol
" Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau "

---

Cyfodwyd y Gofgolofn hon gan
Eglwysi Cymanfa Ddwyreiniol Bedyddwyr Morganwg
ac edmygwyr Cristionogol eraill

---

Dadorchuddiwyd hi Hydref 21ain, 1910,
Gan y
Gwir Anrhydeddus D. Lloyd George, A.S.
Canghellydd y Trysorlys.

Gresyn bod yr hyn a geir ar y golofn am y dadorchuddio yn anghywir. Gall y geiriau beri dyryswch ac ymryson mewn oes neu ddwy eto. Gwell manteisio ar y cyfle hwn i'w cywiro. Darparwyd y golofn i'w dadorchuddio Hydref 21, 1910, gan Mr. D. Lloyd George, ond brysured ydoedd y gwleidydd enwog fel y methai â chael egwyl i ymweled â Chroes-y-Parc. Gohiriwyd y dadorchuddio o fis i fis gan ddisgwyl y llwyddai Mr. George i gyflawni ei addewid, ond wedi aros yn hir ac yn ofer, dadorchuddiwyd y golofn gan Arglwydd Pontypridd, Cymro a Bedyddiwr enwog arall, dydd Iau, Medi 12, 1912. Ymddangosodd adroddiad o waith y dadorchuddiad yn *Seren Cymru* am Medi 27, 1912.

## Ei Waith Llenyddol.

Cyhoeddodd Dafydd William lawer o lyfrau, os priodol eu galw felly, oblegid rhyw fân lyfrynnau oeddynt, yn gwerthu am ychydig geiniogau. Y mae ei gynnyrch

llenyddol i gyd, neu o'r hyn lleiaf, y cwbl y gwyddys am dano, mewn emynau, caneuon a marwnadau. Ni chyhoeddodd ddim rhyddiaith ond hynny sydd yn ei brydyddiaeth, ac y mae cryn dipyn yn hwnnw. Y peth cyntaf a gyhoeddwyd ag enw Dafydd William wrtho ydyw y Rhan Gyntaf o'r "*Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, neu ychydig o Destynau o'r Ysgrythur, wedi eu troi mewn ffordd o fawl, ynghyd â Chân o hanes Pechod." Argraffwyd hwn gan Rees Thomas, yn Heol Awst, Caerfyrddin, tua'r flwyddyn 1763, a gwerthwyd ef am dair ceiniog. Ceir ymdrin â'r emynau ymhellach ymlaen.

### Marwnadau.

Ymddengys oddiwrth yr hyn a geir ar wasgar mewn llenyddiaeth Gymraeg bod y tadau'n bur ofalus o goffadwriaeth Cymry enwog, yn bregethwyr poblogaidd ac yn lleygwyr rhinweddol. Gwahaniaethant yn y modd o ofalu oddi wrthym ni yn yr oes hon. Heddyw ysgrifennir Cofiant i gylchgrawn yr enwad ; eithr cynt, cofnodai'r tadau ddigwyddiadau pwysig a rhinweddau amlwg eu cyfoeswyr, wedi eu marw, mewn cân faith a manwl. Canodd Williams goffa llu mawr ; dyna hefyd arfer Morgan Rhys, Dafydd Jones o Gaio, Thomas William, Bethesda'r Fro, a John Thomas, Rhaeadr Gwy. Canodd Dafydd William yntau lawer marwnad. Y mae ar gael heddyw yn Llyfrgelloedd Cyhoeddus Aberystwyth, Caerdydd, ac Abertawe, o leiaf bedair ar ddeg ohonynt.

Ni cheir ym marwnadau'r hen emynwyr lawer o naws barddoniaeth, ac nid oes raen llenyddol arnynt. Nid amcanent at y pethau hyn. Y mae'r syniadau'n syml a'r iaith yn gwbl werinol ganddynt oll. Nid canu molawd tywysogion ac arglwyddi yr oeddynt, eithr coffa meibion a merched y Deffroad Mawr, y rhai a ddewisodd oddef adfyd mewn brwydrau ysbrydol yn hytrach na mwyniant safle ac esmwythyd. Heblaw cofnodi'n fanwl ddigwyddiadau bywyd y gwrthrych, ei oed a'i farw, a phregethu cryn lawer i'r byw, rhydd rhai o'r marwnadau hyn, yn

enwedig eiddo Pantycelyn, syniad mwy neu lai cyflawn am gyflwr moesol y wlad ar y pryd. Diau nad oes i ni heddyw lawer o ddiddordeb yn yr hyn a ddywedir am y personau y cenir am danynt, eithr y mae'r caneuon coffa'n werthfawr, fel eiddo'r hen Ficer, ar gyfrif y ffaith y gellir mesur wrthynt gynnydd moesol gwerin Cymru o ddyddiau'r Diwygiad Methodistaidd hyd heddyw. Ceir syniad am nodwedd y caneuon mewn enghraifft o ychydig benillion o un o farwnadau Dafydd William :

Duw faddeuo ein holl bechodau,
  Cyn y delo yr angau syn,
Oil i'n lampau, a'r haul yn oleu,
  Yn yr oriau cyfyng hyn ;
Yn yr afon fawr ofnadwy,
  Arglwydd, cadw'r enaid cu ;
Priodol wisg a gwedd Dy wyneb,
  Ar fryniau tragwyddoldeb fry.

. . . . . . .

Er côf i bawb a fyddo'n gofyn,
  Cawn gyfri'r flwyddyn eto'n llawn,
Un mil, saith cant, a thri-ugeinmlwydd,
  Pymtheg hylwydd eto cawn,[1]
Oedd oed Iesu, ond ei gasglu,
  Ddaw heb fethu gyd i ben,
Duw, ro hedd ac union lwybrau,
  Oll i chwithau a minnau, Amen.

## Caneuon.

Heblaw y *Gân o Hanes Pechod* sydd yn y rhan gyntaf o *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, cyhoeddodd yr awdur ddwy neu dair cân arall. Un ydyw cân ar " Haf sych y flwyddyn 1785, wedi ei osod allan ar Fesur Cerdd gyd ag Adnodau Ysgrythyrol er cadarnhad o'r Gwirionedd," etc. Yn y gân hon edliwia i'r genedl ei llygredd a'i diystyrwch o al-

[1] Dyma'r flwyddyn y bu farw gwrthrych y gân.

wadau Duw trwy Ei weision, ac wedi profi i'w fodlonrwydd ei hun bod yr haf sych yn gosb ddwyfol arni am ei phechod, dywed, a hynny â "chadarnhad o'r Ysgrythyr," mai bywyd ac eiriolaeth yr ychydig ddynion da sy'n cyfrif am na ddifodwyd yr holl genedl, a bod yr annuwiol yn llechu yng nghysgod y dyn santaidd :

Er mwyn yr unig etholedig,
  Mae Duw mor ddiddig ac mor fwyn,
Pan elo rhain o'i flaen mewn gweddi,
  O'r nef fe wrendy ar eu cwyn ;
Tra fu Lot o fewn i Sodom,
  Hi ga'dd gan Frenin Seion barch ;
Ni ddaeth diluw, ni ddaeth gwasgfa,
  Nes i Noah fynd i'r arch.

Hwy yw'r gwych bilerau cryfion,
  Auraidd hoelion Seion lân,
Pan ddelo rhain i gyd i'r unman,
  Fe aiff y cyfan fyd ar dân ;
Ofer galw y pryd hwnnw,
  Rhowch o'ch olew ini beth,
Fe ddarfyddodd ein canhwyllau,
  Aeth ein lampau i gyd ar feth.

Ni chyhoeddodd yr emynydd ond un llyfr o ganeuon, sef *Diferion o Ffynnon Iachawdwriaeth*. Argraffwyd ef gan Rhys Thomas, ym Mhontfaen, yn 1772, ac eilwaith gan J. Ross, Caerfyrddin, yn 1777. Ar yr wyneb-ddalen ceir y pennill :

Dos, fy llyfr bach, yn llawen,
Heda yn ebrwydd fel colomen,
Galw bawb i'r Ffynnon hyfryd,
Lle mae cael tragwyddol iechyd.

Y mae'r awdur yn y "Diferion" yn ffyddlonach i'w destun nag mewn llawer o'i emynau. Dechreua â chân i Grist fel ffynnon holl fendithion y Saint, ac yna cân i

" Rinwedd y Ffynnon," " Y Wir Ffydd," " Newyddion Da," " Gwacter y Byd," a llawer eraill. Ceir digon o brawf yn y llyfr hwn fod Dafydd William yn Galfin mawr o ran credo, a dichon mai Calfiniaeth y caneuon, ynghyda phrinder asbri farddonol, yw'r rheswm nad ydynt i'w cael heddyw ond mewn ychydig lyfrgelloedd. Profiad sy'n byw ac nid opiniwn ; synnwyr calon sy'n anfarwol, ac nid synnwyr pen. Gwybodaeth pen Dafydd William sydd yn ei ganeuon, ac y mae oerni'r wybodaeth wedi lladd y mwyafrif ohonynt. Gwybodaeth ei galon sydd yn ei emynau, ac y mae gwres y wybodaeth wedi anfarwoli amryw ohonynt hwythau. Crefyddol ydyw'r caneuon i gyd, ac y mae rhai ohonynt yn dda, a'r gweddill yn gywir eu hamcan. Dyma dri pennill hoyw o ymgom rhwng " Silo a Seion " :

Silo : O, Seion fwyn, gariadus,
Pam wyt ti mor wylofus ?
O, cyfod, bydd gysurus,
Na fydd gwynfanus clyw !
Myfi yw'th Briod hoyw,
Un glywa'th lais yn galw ;
Gwir Silo yw fy enw,
'Rwy'n gwneud y marw'n fyw.

Seion : Y finneu yn Seion ddinerth,
A'm taith trwy ddyffryn trafferth,
Yn euog o farwoleth,
Heb obaith dan fy mron,
Cyfiawnder sy'n fy ngofyn,
Am ddyled mae'n fy nilyn,
A finnau heb feddu hatling
I dalu'r gofyn hwn.

Silo : Mi'th gerais di mor gynnar,
Cyn creu nef na daear,
Fod i mi'n briod hawddgar
A chydmar yn y byd.

Ni thorr y clwm a'r undeb
I eithaf tragwyddoldeb,
Fe bery mewn ffyddlondeb
Pan ddarffo dyddiau'r byd.

EMYNAU'R AWDUR.

Y mae peth gwerth a swyn yng nghaneuon Dafydd William, eithr ei emynau a rydd le amlwg iddo ymhlith cymwynaswyr mawr ei genedl. Ei brif lyfr emynau ydyw *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, a gyhoeddwyd yn bedair rhan. Nid oes ddyddiad wrth y rhan gyntaf, ond bernir ei hargraffu yn 1763 neu 1764. Gan fod yn anodd taro ar lyfrau prin yr hen emynwyr ond yn y prif lyfrgelloedd rhoddir yma wyneb-ddalen y "Gorfoledd," a rhoddir eiddo'r ail ran oherwydd y cyfeiriad sydd ynddi at oedran yr emynydd :

Gorfoledd
Ym Mhebyll Seion,
Yr Ail Ran,
neu ychydig o Hymnau Efengylaidd,
Wedi eu cymmeryd allan o amryw
Destynau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd,
Wedi eu hamcanu
I'r diben o ddiddanu'r gwan ei Feddwl, y sydd ar ei daith tua'r Jerusalem Newydd, gwir Noddfa'r Gwaredigion.
Psalm cxlix. 2.

Llawenhaed Israel yn yr hwn a'i gwnaeth, gorfoledded Meibion Seion yn eu Brenhin, Esay xxiv. 10. 2 Sam. xxiv. Dat. v. 9.

O, fy enaid, teithia yn gywir,
Llwybr cul yr hen Ryfelwyr,
Di gai seinio Cân yn uchel
O fawl i'r Oen ar ddiwedd Rhyfel.

A gyfansoddwyd
gan Dafydd William, gynt o Landeilo Tal-y-bont,
yn Sir Forganwg, yn y 56 o oedran a thri mis.
Caerfyrddin.

Argraffwyd tros yr Awdwr gan J. Ross, yn Heol Prior,
ac ar werth gan Thomas Maurice, 1777.
Pris dwy geiniog.

Cyhoeddwyd y pedair Rhan yn un llyfr yn 1782, a chaed amryw argraffiadau ohono. Anodd dychmygu beth a gymhellodd yr emynydd i gyfieithu nifer o'i Emynau i'r Saesneg. Dichon mai eu poblogrwydd ymhlith y Cymry. Cyhoeddwyd yr ail ran o "Gorfoledd" yn Saesneg yn 1779, tan yr enw "*Joy in the Tents of Zion,*" etc. Gwastraff ar amser ydoedd y cyfieithiad hwn. Nid oes ynddo ddim teilyngdod, ac ni eilw am sylw pellach.

### Nodweddion yr Emynau.

Y mae cynnwys yr emynau yn gyson ag enw'r llyfr. Eu prif nodwedd yw Gorfoledd. Y mae Dafydd William yn canu'n wrol a hwyliog. O gredu'r traddodiadau am ei helbulon teuluaidd, rhaid credu hefyd fod iddo, fel Paul, ddawn i orfoleddu mewn gorthrymderau. Ei gynefin fel emynydd ydoedd glesni'r nef, ac awyr iach pen y mynydd. Disgyn weithiau i'r dyffryn tan y cwmwl, a gruddfan beth mewn cystudd ysbryd. Eithr buan yr esgyn, ac wrth esgyn mâg obaith a nerth, a chyn hir try'r gŵyn yn gân felys, a cheir buddugoliaeth yn ei nodau. Os ceir ef yn gruddfan-ganu ar fin cors y morfa llaith, gofala orffen y gân ar ben y mynydd, a bloeddio

Haleliwia, Haleliwia,
Craig fy iachawdwriaeth yw.

Sonia lawer am yr "Awel," a myn hi'n "Awel gref i godi'r ysbryd egwan o'r ddaear hyd y nef." Cawn ef yn aml yn yr "Afon," ac yn y "Dyfroedd mawr a'r tonnau,"

ond y mae Rhywun bob amser yn dal ei ben, a chroesa'n ddiogel i'r "lan brydferth draw."

Y mae rhai o emynau goreu Dafydd William heb fod yng nghasgliadau'r holl enwadau, ac ambell emyn gwir dda heb fod mewn unrhyw gasgliad enwadol. Dyma un da nas ceir ond yn *Emyniadur yr Eglwys*, ac ni cheir y pennill cyntaf yn hwnnw:

Dacw angeu wedi ei faeddu,
  Dacw'r ddraig a'i phen yn friw,
Dacw'r gelyn wedi ei lethu,
  Dacw'r faner hardd ei lliw;
Dacw'r frwydr wedi ei hennill,
  Er cadernid grym y tân,
Gan fy Iesu, 'Mrawd anwyla,
  Haleliwia,—f'enaid cân.

Dyma gariad heb ddim gwaelod,
  Dyma gariad heb ddim trai,
Dyma gariad digyffelyb,
  Dyma gariad sy'n parhau;
Dyma gariad a fy nghynnal
  Tra bo ynof anadl chwyth,
Dyma gariad wnaeth i'm henaid
  Ddechreu cân na dderfydd byth.

Dyma eto emyn gweddol dlws i'r "Awel." Ceir ef yn *Emynau y Cysegr*, wedi ei wella trwy leihau nifer y gair "hyfryd," a'i waethygu trwy newid y llinell olaf. Ni cheir ef mewn un casgliad enwadol a arferir heddyw:—

Awel gref o fynydd Seion,
  Annwyl Iesu, sydd arna'i chwant,
Awel gref wna imi ganu
  Ar nefol dannau gydâ'r plant;
Awel hyfryd ddaw a'm henaid
  O'm caethiwed oll yn rhydd,
Awel hyfryd wna dawelwch,
  A'r dywyll nos yn hyfryd ddydd.

Awel gref o dir y bywyd
  Y sydd eisiau arnaf fi,
Goleu'r heulwen ar fy mhabell,
  Awel hyfryd gyda hi ;
Awel hyfryd ac addewid,
  Awel fawr o Ganaan wlad,
Awel hyfryd ar ol awel,
  A'r awel ola i dŷ fy Nhad.

Y mae'n anodd esbonio hwyl galonnog emynau Dafydd William. Yn ol traddodiad ni fu un o'r hen emynwyr mewn cymaint o helbulon ag ef. Yr oedd ei fywyd yn llawn brwydro,—brwydro ar yr aelwyd gartref, brwydro yn ei amgylchiadau bydol, a brwydro â gelynion ysbrydol lawer. Ei brif elyn ydoedd Anghrediniaeth. Ymladdai'n galed â hwn, ac ymladdai'n aml ; ac er ei faeddu'n arw lawer tro, teimlai'n gryf ac hyderus ymhob brwydr. Gwyddai hefyd yn dda ymha le i geisio adgyfnerthiad yn ei frwydrau :

Anghrediniaeth, gâd fi'n llonydd,
  Onide mi godaf lef, etc.

O ynfyd anghrediniaeth, rhoist i mi lawer briw,
Taw sôn, gad lonydd imi, mae'r Iesu eto'n fyw ;
Fe agor byrth dy garchar, fe ddaw a'r caeth yn rhydd
Fe wna i'r cloff i rodio a llamu fel yr hydd.

Lleferaist anghrediniaeth, do, wrthyf, lawer gwaith,
Mai marw fyddai niwedd, cyn mynd i ben y daith ;
Fe ddywed ffydd, er gwaned, y câf feddiannu'r wlad ;
Dy waethaf, anghrediniaeth, fe'm golchwyd yn y gwaed.

Gŵyr yr emynydd beth yw prudd-der, a rhydd aml ddolef yn ei emyn. Eithr yn ddieithriad, terfyna'r emyn mewn llawenydd ; ac yn orfoleddus, heria'i elyn,—" Dy waethaf, anghrediniaeth," etc.

"YN Y DYFROEDD MAWR A'R TONNAU."

Dyma brif emyn Dafydd William, a dichon nad oes emyn perffeithiach mewn unrhyw iaith. Y mae mor syml a naturiol, ac addas i brofiad Cristion yng "ngwlad y cystudd mawr." Berffeithied ydyw ei feddyliau, ei deimlad, a'i iaith, nes mynegi ohono brofiad pob dyn da, boed ef ddiwylliedig neu anllythrennog. Y mae pawb yn ei wybod. Myn le ymhob llyfr emynau Cymraeg, a chenir ef gan Gymry crefyddol trwy'r byd cyfan. Clywais ei ganu gan blant yr Ysgol Sul pan yn dychwelyd o'u pleserdaith flynyddol. Fore haf ar y môr, fil o filltiroedd o dir, gwelais bedwar Cymro ar fwrdd y *Mauretania* yn dychwelyd o Gymru, a'u hwynebau ar gartref yn y gorllewin pell, mewn afiaith wrth ei ganu. Clywais hefyd yr hen eiriau "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau" yn yr un hen seiniau lleddf yn esgyn i Foel Cadwgan o galon torf ddu ar lan bedd glöwr ieuanc ym mynwent Abergorci. Rhydd yr hen emyn fynegiant i brofiad pob cynhulliad Cymreig galarus ymhob oes hyd ddiwedd amser.

Y mae pawb a ysgrifennodd am Dafydd William yn sôn am y traddodiad ynglŷn ag achlysur cyfansoddi'r emyn hwn. Y mae'n draddodiad diddorol iawn. Fel hyn y bu: Wedi Saboth o bregethu i'r Methodistiaid mewn ardal bell, daeth Dafydd adre'n hwyr, trwy wynt a glaw mawr; ond erbyn croesi'r morfa, a dyfod hyd Llandeilo Fach yn wlyb a lluddedig, cafodd ddrws ei dŷ yn gloêdig, a'i wraig yn y gwely, ac er curo a churo, gwrthodai ei gymhares anhydrin drugarhau wrtho. Wedi aros yn hir, trodd am loches i lety'r ych ychydig bellter oddi wrth y tŷ. Curai'r glaw yn drwm o hyd, a chyrhaeddai sŵn berw gwyllt afon Llwchwr hyd ato, a chan sŵn dyfroedd lawer arweiniwyd myfyrdod yr hen brydydd digalon at afon angau. Teimlai fod gan ei enaid Briod a safai'n ffyddlon hyd y diwedd, ac a roddai fodd iddo ganu ym malchter Iorddonen, a than ysbrydiaeth y teimlad hwn canodd[1]

[1] Dylid cofio mai *traddodiad* yw'r eglurhad hwn, ac na wyddys am unrhyw sail iddo.

"Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau," etc.

Y trydydd pennill o'r pedwar sydd gan yr awdur tan y geiriau "Llais ffydd y credadyn mewn gweddi," seiliedig ar Salm lv. 14, yw'r emyn. Rhoddir ef yma yn ei ffurf wreiddiol :

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau
  Nid oes neb a ddal fy mhen,
Ond fy anwyl Briod Iesu
  A fu farw ar y pren ;
Cyfaill yw yn afon angeu
  A ddal fy mhen i uwch y don ;
Golwg arno wna i mi ganu
  Yn yr afon ddwfwn hon.

Ymhlith emynau mwyaf poblogaidd yr emynydd y mae'r rhain :

Anghrediniaeth, gâd fi'n llonydd, etc.

Hosanna, haleliwia, fe aned brawd i mi, etc.

Dyma Gariad heb ddim gwaelod, etc.

O, Arglwydd, dyro awel, etc.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau, etc.

O Dduw, rho i'm dy ysbryd, etc.

O f'enaid paid ag ofni, etc.

O'r nef mi glywais newydd, etc.

Nid oedd Dafydd William yn fardd mawr nac yn llenor gwych. Athrylith calon ac nid eiddo pen a geir yn ei emynau. Cyfoeth amrywiol ei brofiad, ac nid grymuster awen a'i hanfarwolodd. Y mae'n wir bod llawer o'i emynau'n gyffredin, ac amryw'n wael, a gellir dywedyd hynny am yr holl brif emynwyr. Andwyir ambell emyn

o eiddo Dafydd gan gymysgedd a diffyg chwaeth. Y mae hefyd yn rhy dueddol i ailadrodd, ac weithiau rhed i eithafion. Eithr ni cheir y rhain i'n blino ; ei oreuon sy'n teithio i lawr o oes i oes, ac y maent hwy yn ysblennydd ac anfarwol.

Fel emynydd, saif Dafydd William, Llandeilo Fach, ochr yn ochr â Dafydd Jones o Gaio, heb neb ond Morgan Rhys rhyngddo â Phantycelyn.

PENNOD V.

# AR DRAI'R DIWYGIAD.

AR donnau uchel llanw'r Diwygiad Methodistaidd y daeth inni hen emynwyr mawr Cymru i gyd. Plant y Diwygiad ydoedd William Williams, Dafydd Jones, Morgan Rhys a Dafydd William, a chanent i gyd yr un adeg ac yn sŵn ei gilydd. Caed y tô nesaf o Emynwyr ar drai'r Diwygiad. Ymhlith y rhain yr oedd John Thomas, Benjamin Francis ac amryw eraill llai eu dawn. Yn eu dilyn hwy caed Thomas William, Bethesda'r Fro, Edward Jones, Maes-y-Plwm, Robert ap Gwilym Ddu, Pedr Fardd, Ann Griffiths; ac yn ddiweddarach daeth Ieuan Glan Geirionydd, ac ambell emynydd da arall. Eithr o'r sawl a gaed wedi llanw'r Diwygiad nid oes onid dau o unrhyw fri a berthyn i Sir Gaerfyrddin, sef John Thomas a Benjamin Francis.

## I.—JOHN THOMAS, RHAEADR GWY.

Y mae'n anodd penderfynu paham nad ydyw John Thomas yn fwy adnabyddus a phoblogaidd nag y mae, oblegid yr oedd yn emynydd gwir dda, ac yn ddyn o allu ac ymroad anarferol. Nid oedd ef, mwy na'r mwyafrif o emynwyr mawr Cymru, yn fardd gwych; ac o'i gymharu â'r emynwyr goreu, collai beth o ran gwres a swyn. Dichon mai dyma'r prif reswm ei fod gymaint yn llai poblogaidd na rhai o'i gyfoeswyr. Hwyrach y gorwedd peth bai wrth ddrws ei enwad hefyd, gan i'r genedl ers rhai cenedlaethau ymostwng i weithredu ar linellau enwadol. Ceir ambell enwad yng Nghymru â digon o gydwybod a sêl i fawrhau ei ddynion mawr a chadw'n fyw eu coffadwriaeth, eithr nid enwad John Thomas sydd ar y blaen yn hyn.

Bachgen â'i feddwl yn deffro ydoedd yr emynydd pan oleuai Griffith Jones, Llanddowror, awyr foesol y wlad,

a phan oedd Howel Harris a Rowlands yn taranu gwirioneddau mawr y byd a ddaw oni pharent i annuwiolion wrth y miloedd ffoi rhag y llid a fydd. Daliwyd y bachgen yntau gan ddylanwad mawr y Diwygiad, a daeth yn efengylydd effeithiol.

Un o blant Sir Gaerfyrddin ydoedd John Thomas. Y mae'n rhyfedd y nifer o gewri mewn meddwl a moes a roddwyd i'r genedl gan y Sir hon. Yn ei *Hunangofiant* dywed yr emynydd ei eni yn 1730, mewn tŷ o'r enw Col, ym mhlwyf Myddfai.[1] Nid oedd yn ddyledus i'w rieni am fawr mwy na'i eni, oblegid fe ddywed: " Fe'm rhoddwyd at famaeth i'm magu, yr hon a'm carodd fel pe buasai yn fam i mi, ac yn llawer mwy na fy mam fy hun. Nid oedd argoel crefydd ar fy rhieni, na neb o'm perthynasau ar a wn i, am hynny ni chefais fy hyfforddi ym mhen y ffordd ganddynt hwy, na dim anogaeth yn y mesur lleiaf i ymofyn am grefydd." Er hyn i gyd daeth y dylanwadau ysbrydol o hyd iddo'n fore, a deuthai yntau i feddwl am bethau ysbrydol cyn gwybod ohono fawr am bethau y byd presennol. Ei dystiolaeth ef ei hun ydyw, " Oddiamgylch 4 neu 5 oed, yr oedd Ysbryd yr Arglwydd yn dechreu ymryson â mi, ac yn teimlo ynof chwant bod yn dduwiolgrefyddol." Os prin ei addysg grefyddol, prinnach fyth ei addysg fydol. Cafodd un chwarter o ysgol pan oddeutu wyth oed, ac yn ddiweddarach cafodd ddigon o ysgol i " ddysgu darllen yn gyfatebol i'm graddau o blant tylodion eraill."

Pan yn dair ar ddeg oed aeth John Thomas i weini i le a elwid Gelli Felen. Yr oedd teulu'r Gelli yn bobl grefyddol, ac yn arfer yr hen ddyletswydd deuluaidd o addoli, a synnwyd y gwas bach yn fawr gan waith y mab yn gweddïo heb lyfr. Trefnodd Rhagluniaeth i'r bachgen tlawd a diddysg freintiau amhrisiadwy awyrgylch iach ac ysbrydol, ac yn yr awyrgylch hwn datblygodd ei fywyd. Yn fuan wedi ymsefydlu ohono yng Ngelli Felen, daeth

[1] *Rhad Ras, neu Lyfr Profiad, etc.*, Y Parch. John Thomas.

Howel Harris i'r fro a phregethu yn nhŷ Jethro Dafydd Ifan, yn Llanddeusant. Cafodd y bregeth beth dylanwad ar feddwl y llanc, eithr ymddengys i wedd a phersonoliaeth y pregethwr ddylanwadu'n ddyfnach na gwirionedd y bregeth: " Yr olwg arno a enillodd fy serchiadau; mi debygwn rai prydiau i'm tyb i, bod hyd y nod croen ei wyneb yn dysgleirio (megis wyneb angel). Yr oedd yn pregethu'r gyfraith yn llym iawn." Rhydd yr emynydd ddyfyniad o'r bregeth yn nhŷ Jethro Dafydd Ifan a ddengys inni nodwedd a dull pregethu Howel Harris yn y cyfnod tywyll hwnnw:

" Fe ellai dy fod ti wedi troi llawer ar ddail y Bibl er ys deugain mlynedd, ac eto na wyddost ti fwy am Dduw na'r ci, neu fochyn; fe allai dy fod ti wedi bod ar dy liniau yn gweddio lawer gwaith yn dy dyb dy hun, ac yn grefyddol braf, ond ni weddiest ti eto unwaith o dy galon erioed, ac oni chaiff Duw dy galon di, fe fyn weled y diawliaid yn dy rwygo gorph ac enaid yn awr angeu, ac yn nydd y farn; mae fy saethau yn llymion, Duw a ddanfono ei eiriau fel bwlets i saethu trwy dy galon di."[1]

Anesmwythwyd ar feddwl y llanc gan y bregeth, ac am ysbaid bu'n dywyll a chaeth arno, eithr daeth goleuni ac ymwared, ac y mae'r hanes yn ddigon diddorol a phwysig i'w osod yng ngeiriau'r awdur ei hun, " Fel yr oeddwn ar un noswaith yn canu hymnau gyda mab y tŷ, fel y byddem arferol, pan y byddai'r tylwyth wedi myned i'w gwelyau, wedi dyfod y gair hwnnw yn yr hymn,—

Yn agos atat gad im' fod,
Yn llawn o gariad fy enaid dod;
Bla'n dast o'r nef gad i mi gael,
Clyw, ateb fi, o'r Iesu hael.[2]

[1] *Rhad Ras.*

[2] Ail bennill emyn a geir mewn hen Lyfr Llawysgrif o eiddo W. Williams, Pantycelyn, a'r dyddiad 1745 wrtho. Nid oes sicrwydd fod dim o gynnwys y llyfr yn eiddo gwreiddiol i Williams. Y mae D.R. wrth dri emyn, ac y mae enw Daniel Rowlands wrth eraill. Gwel *Caniadau ei Ieuenctid—Gweithiau Williams, Pantycelyn*, Dr. Cynhafal Jones.

Ar y gair hwn rhyw oleuni dysglaer a lewyrchodd ar fy enaid, nes llanw fy enaid o orfoledd, ynghyd â hiraeth am nerth i fyw i'r Arglwydd, fe ddisgynodd fel mellten nes oeddwn yn gweled y cwbl fel wedi newid ac yn synnu fel dyn dyeithr yn y byd. . . . . Nis gwyddwn beth oedd profi'r fath beth erioed o'r blaen. O mor felus oedd arnaf tra parhaodd ; ac wedi cael fy ateb mewn rhai pethau eraill, mi a ddywedais wrth fy nghyfaill, sef mab y tŷ, fy mod yn adnabod fod yr Arglwydd yn gwrando ngweddi, ac yn ateb mewn rhai pethau bychain ; y mae hyn yn dangos, ebe fe, y bydd iddo dy ateb mewn pethau mawrion ryw bryd, yr hyn a gredais ac a welais wedi hyn, a bod yr Arglwydd wedi gwneud iddo ddyweud hyn wrthyf er anogaeth i mi."

Ymunodd ag eglwys fechan i'r Annibynwyr ar Gefntelych, ym mhlwyf Myddfai, a chafodd roesaw a magwraeth dda gan yr aelodau ; eithr nid arhosodd yno'n hir. Yr oedd poblogrwydd y Parch. Griffith Jones yn llenwi'r wlad, a phenderfynodd y llanc ei weled a'i glywed, a chymryd taith faith i'r perwyl hwnnw. Dyma fel yr edrydd ef ei hun yr hanes : " Myned a wnaethym gydag un arall ag oedd yn myned i wrando Mr. Griffith Jones i edrych beth a drefnai rhagluniaeth i mi ; daethum i Landeilo Fach (oddeutu 35 milltir) dydd Sadwrn o flaen pen y mis, lle y cyfarfum ag ef a Madam Bevan ; ac wedi iddo holi ychydig arnaf, dywedais wrtho fy meddwl, bod chwant arnaf os cawn y fraint i ddyfod ato ef i fod yn was iddo ; yr hwn a ddywedodd (er fy mawr orfoledd) nas gwyddai ef lai nas cawn ddyfod y Calangauaf. O ddeutu 15 oed yn y flwyddyn 1745, aethum i Landdowror gan ddywedyd fy mod yn foddlon i wasanaethu gydag ef am ddim os cawn aros gydag ef, a chefais yn ol fy nymuniad."

### Dechreu Pregethu.

Tra yng ngwasanaeth Griffith Jones daeth i'r llanc awydd cryf am bregethu, eithr ni roddodd ei feistr lawer o anogaeth iddo, a hynny'n ddiau am yr un rheswm ag

yr ataliodd Dewi Wyn o Eifion yntau gefnogaeth i'w was. Deallodd Dewi fod bachgen dibrofiad oedd was iddo â'i fryd ar yr "alwedigaeth nefol," ac un diwrnod aeth ato i'r maes a phregethodd iddo bregeth hyawdl i brofi y gallai dyn digrefydd fel ef wneuthur peth tebig iawn i bregethu, a dangosodd i'r gwas bwysiced oedd meddu sicrwydd fod Duw yn ei alw i'r gwaith. Dychrynwyd y bachgen, a diflannodd ei uchelgais a'i fympwy, ac ni feddyliodd mwy am bregethu. Arafwyd peth ar gamau John Thomas yntau gan gynghorion Griffith Jones, ond ni laddwyd yr awydd. Cyn hir daeth Howel Harris i gymdogaeth Llanddowror, a deallodd am fwriad y llanc, ac addawodd iddo le ac addysg yn ei ysgol yn Nhrefeca, "os gallai ofalu am ei fwyd ei hun." Wedi bod yn Llanddowror ddwy flynedd, ac ef yn ddeunaw oed, yn 1747 aeth i Drefeca, a bu yno oddeutu blwyddyn. Ar derfyn y flwyddyn aeth i gadw ysgol i blwyf Llanfigan, sir Frycheiniog, a thra yno dechreuodd bregethu. Ceir yn ei hunangofiant gyfeiriad at ei bregeth gyntaf: "Y lle cyntaf yr agorais fy ngenau i lefaru yn gyhoeddus, mewn ofn a'm hysbryd yn crynu o flaen cymmysg bobloedd yn mhlwyf Cantre, gerllaw Aberhonddu, mis Ionawr dechreu y flwyddyn 1750, ar y gair hwnw yn 8fed Ioan 36 adnod." O Lanfigen aeth i gadw ysgol tan Griffith Jones yn Llansadwrn, ac yn 1752 symudodd i'r Groeswen, ym Morgannwg, i gadw Ysgol Saesneg. Yn 1756 a 1757 cadwai Ysgol yn St. Lawrence, sir Benfro, ac yn ddiweddarach bu am beth amser wrth yr un gorchwyl yn Llwynhendy, sir Gaerfyrddin.

Pregethai lawer yn ystod y blynyddoedd y bu'n ysgolfeistr, a chymerai deithiau maith trwy Ogledd a De. Anfonwyd ef yn 1753 gan y Gymdeithasfa Fethodistaidd ar daith trwy'r Gogledd,[1] a gwybu lawer ar y daith hon am flinfyd cenhadwr mewn oes â'i meddwl a'i moes yn llygredig. Triniwyd ef yn arw ym Machynlleth, Pennal,

[1] Ymunodd â'r Methodistiaid pan ymadawodd â Griffith Jones am Drefeca.

a Chaernarfon a lleoedd eraill, eithr fel y diwygwyr o'i flaen teimlai'n llawen yn ei orthrymder am y bendithid ei lafur. Yn hanes un o'i deithiau yn y Deheudir sonia am ymosod ffyrnig a fu arno gan brif awdurdodau pentref Llangatwg, Crughywel: "Daethym i'r Ffrwddog, yn agos i Grug Hywel, lle'r oedd oedfa wedi ei chyhoeddi i mi. Gŵr bonheddig, *Esquire*, o bentref Llangatwg, a'r Tafarnwr, Offeiriad, a'r Clochydd, a ddaethant gyda'u gilydd o'r tafarn i'm rhwystro i lefaru. Y gwr bonheddig ddaeth gyntaf i'm cyfarfod gan fy ngholeri, a gofyn i mi, 'Pwy roddodd i chwi awdurdod i ddyfod oddeutu'r wlad i gynghori?' Minau a atebais, 'Syr, onid oes gorchymyn i hynny yn y Bibl? ac heblaw hynny, y mae gair fel hyn, 'Am hynny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw mab y Dyn.' Ar hynny rhoddodd i mi ergyd â'i law ar fy nghern; wedi hynny aethant yn eu hol i'r tafarn, gan ymladd a'u gilydd cyn ymadael."

## "Y Ffeirad Coch."

Cymeriad amlwg yn hanes Morgannwg ydyw'r "Ffeirad Coch." Dywedir ei fod yn yfwr trwm ac yn heliwr cadarn. Ficer Ystrad Fodwg, Cwm Rhondda, ydoedd, a hynny cyn torri deri mawr y dyffryn i wneuthur llongau rhyfel Prydain, a chyn son am suddo pwll i geisio glo i yrru'r llynges sydd heddyw'n peri dychryn i genhedloedd y byd. Yn ol yr hanes a geir, yr oedd cryn amrywiaeth ym mywyd y "Ffeirad Coch." Enwogodd ef ei hun fel yfwr diod gadarn, ac fel heliwr a chwaraewr, ac yn ychwanegol at y campau hyn gofalai fedyddio plant a chladdu meirw'r plwyf. Bu farw'n feddw trwy gwymp oddiar ei geffyl tros graig serth ar gyfyl y Tyle Coch, wrth ddychwelyd o Glyn Corrwg a hi yn nos dywyll. Dyna'r hanes; eithr myn rhai ameu'i gywirdeb, gan fwrw bod y "Ffeirad Coch" yn gymeriad glân, ac yn gystal gweinidog i Iesu Grist ag i haeddu ei ystyried yn ddiwygiwr crefyddol a chymdeithasol. Ysgrifennodd y diweddar Ganon Lewis,

Ystrad Fodwg, nifer o ysgrifau i geisio profi'r cam a gaiff y " Ffeirad " gan draddodiad a hanes. Yn ol y Canon, dyn gonest a sobr ydoedd, a hynod ofalus am ddyletswyddau'r offeiriadaeth.[1] Eithr ofer ceisio ei wyngalchu, oblegid ceir ei gyfoeswyr yn cadarnhau yr hyn a ystyria'r Canon yn draddodiad disail. Ar un o'i deithiau pregethu daeth John Thomas i gyffyrddiad â'r " Ffeirad Coch," ac fel hyn yr edrydd ef yr hanes : " Amser arall wrth eglwys yr Ystrad yn swydd Forganwg, lle yr oedd yr un fath daplas, ac amryw wedi cyrchu ynghyd sefais i fyny yn ochr gwal y fonwent, yna y pêlwyr a'r dawnswyr a adawsant a'i gwaith ac a ddaethant yr ochr arall i'r wal i wrando, ffidleriaid a phawb. Yna'r offeiriad yr hwn oedd gyda hwynt yn y fonwent, wedi colli ei gwmpeini a ddywedodd wrth y ffidleriaid, os ydych yn disgwyl cael eich talu ewch at eich gwaith, a chwithau sydd yn llefaru ewch oddiwrth y fonwent, y tir cysegredig ; yna symudais i ben y dommen yr ochr arall i'r heol, lle y lleferais er tystiolaeth iddynt hwy ; a'r bobl wrth orchymyn yr offeiriad wedi myned yn eu hol i ddawnsio, ac yntau gyda hwy ar a wn i ; anfonais genad ato i geisio ganddo i ddyfod a gadael i mi chwedleua gair ag ef ; efe a ddaeth ran o'r ffordd, ac yna gan euogrwydd a drodd yn wyllt yn ei ol, gan ddywedyd, ' Beth sydd a fyno â mi ?' O, ddyn truenus, dall yn tywys y dall ! Clywais yn ol hyn iddo ef farw fel y bu fyw, yn ei ynfydrwydd ; syrthiodd yn feddw oddi ar ei geffyl fel y torodd ei wddf, ac y bu farw."[2]

### Yr Emynydd yn ymuno â'r Annibynwyr.

Yn y flwyddyn 1761, ymadawodd John Thomas â'r Methodistiaid, ac ymunodd â'r Annibynwyr yn Rhydymaerdy, Morgannwg. Er yn caru " sêl a bywiogrwydd " y Methodistiaid, ac yn ofni " claerineb y Dissenters," oherwydd y credai fod yr olaf " o ran dysgyblaeth yn ol gair Duw, ac yn nes at y drefn apostolaidd dan y Testa-

[1] *Y Geninen*, 1913, 1914. [2] *Rhad Ras, neu Lyfr Profiad*, John Thomas.

ment Newydd na'r Methodistiaid" ymunodd â hwy. Yn yr un flwyddyn derbyniwyd ef i Athrofa'r Fenni, a bu yno am bedair blynedd. Cafodd alwad i weinidogaethu yng Nghaebach a Rhaeadr Gwy yn 1766, ac ar y 23 o Ebrill, 1767, ordeiniwyd ef yn weinidog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan dri gweinidog a barha'n enwog hyd heddyw, sef Edmwnd Jones, Pontypwl, Isaac Price, Llanwrtyd, a Richard Tibbott, Llanbrynmair. Aeth y gweinidog ieuanc yn boblogaidd ar unwaith, a dywed ef ei hun i ddiwygiad mawr "tebyg i ddydd y Pentecost, dori allan yn y Caebach oddeutu 1769, a pharhaodd tros y flwyddyn 1772, nes oedd son am lwyddiant y Caebach, gerllaw ffynonnau Llandrindod, trwy holl Gymru." Yn 1778, ymryddhaodd John Thomas o bob gofal bugeiliol i'r diben o gysegru y cwbl o'i amser a'i nerth i efengylu yn Sir Faesyfed, ac am yr un mlynedd ar bymtheg dilynol rhoddodd ei oreu i'r hen sir mewn pregethu a sefydlu eglwysi. Yn 1794 symudodd i Langathen, ac oddi yno i Abergwili, i gadw Ysgol a phregethu.[1] Daliwyd ef gan lesgedd yn 1803, ac ni theithiodd mwyach, a therfynodd ei oes lafurus yn nhref Caerfyrddin.

Rhoddais fwy o ofod i hanes John Thomas nag i eiddo emynwyr gwell nag ef oherwydd i fwyafrif haneswyr crefydd yng Nghymru anwybyddu ei goffadwriaeth, ac na wna'r gweddill ond cyfeiriadau prin ato. Yr oedd yn ddyn gwerthfawr yn ei ddydd, a llafuriodd yn ddiorffwys. Sefydlodd lawer o eglwysi, a bu'n gyfrwng i achub cannoedd o eneidiau.

### Ei Waith Llenyddol.

Er cymaint gofal a llafur John Thomas fel pregethwr, awyddai mor fawr les gwerin ei oes fel y cyfieithodd wyth o fân draethodau, ac y cyhoeddodd saith o rai gwreiddiol, ynghydag amryw farwnadau. Canodd goffa Howel Harris, Dafydd Jones o Gaio, Peter Williams, a llawer eraill.

[1] *Hist. of Prot. Nonconformity in Wales*, Thomas Rees, D.D.

Y mae'r marwnadau hyn yn werthfawr iawn, nid yn gymaint ar gyfrif gwerth llenyddol, eithr ar gyfrif y goleuni a daflant ar fywyd personau a nodwedd foesol oes y tadau. I'w farwnad ef yn unig yr ydym yn ddyledus am rai o brif ffeithiau bywyd yr emynydd melys Dafydd Jones o Gaio.

Ymddengys mai'r ddau Sais a apeliai gryfaf at John Thomas ydoedd John Bunyan a W. Romaine, oblegid eu gwaith hwy, gydag un eithriad, a gyfieithodd. Traethodau bychain ydyw'r cwbl o'r rhain, ar destynau fel "Crist yn Iachawdwr Cyflawn," "Y Ddinas Sanctaidd, neu'r Jerusalem Newydd," "Gwrthodedigaeth yn Brofedig," etc. Ni wn ddim am gywirdeb y cyfieithiadau hyn am na welais y gwreiddiol, ond y maent mewn Cymraeg gweddol, ac yn ddigon syml i'r werin eu deall.

Ei waith gwreiddiol hwyaf a mwyaf diddorol mewn rhyddiaith, [ar wahan i "Rhad Ras," ydyw "Llythyr o Annerch at Hen Bobl a Chanol Oedran; ynghyd a Sen i'r Sosiniaid; neu Alwad i'r Winllan ar yr Unfed awr ar Ddeg." Argraffwyd hwn gan J. Daniel, Caerfyrddin, rywbryd ar ol 1791. Nid oes ddyddiad ar y llyfr, eithr ar dud. 9, sonnir am yr Arglwyddes Huntingdon fel wedi marw, a bu hi farw yn 1791. Yn y llyfr ceir prawf o awydd angerddol yr awdur am les moesol ei gyd-ddynion; yr oedd "ei air ef" yn llosgi fel tân yn ei galon. Ar ddiwedd y llyfr y mae deg emyn o waith yr awdur, ac yn eu plith un sy'n adnabyddus i bawb:

Dewch blant bychain, braf yw'ch gweled,
Ar y drydedd awr o'ch dydd, etc.

Cyhoeddodd hefyd "Lythyr o annerch at Ieuengctyd Cymru" yn 1777, a rhai pregethau o bryd i gilydd; eithr y mwyaf diddorol o'i holl gyhoeddiadau rhyddieithol ydyw "Rhad Ras," etc.

### Emynau'r Awdur.

Er bod yr emynau i blant a phobl ieuanc ar ddiwedd y "Llythyr Annerch at Hen Bobl," etc., wedi eu cyfansoddi

mewn iaith ac arddull syml, nid ydynt o werth mawr, ac nid oes fwy nag un wedi bod o wasanaeth i gynulleidfaoedd Cymru. Eto, gweddus ydyw cofio mai John Thomas ydoedd y cyntaf yng Nghymru i geisio cyfansoddi emynau i blant. Gwnaeth Dr. Watts hynny yn Lloegr, a cheisiodd Dafydd Jones o Gaio eu cyfieithu i'r Gymraeg, ond prin y llwyddodd i wneuthur hynny'n effeithiol. Felly, nid i Bantycelyn, Dafydd Jones, Morgan Rhys, na Dafydd William, y perthyn yr anrhydedd o geisio cyfarfod angen plant Cymru trwy gyfansoddi emynau iddynt, eithr i John Thomas. Y mae'r un a ganlyn yn enghraifft deg o'i emynau i blant :

Nid yw y goron heb y groes,
Na'r melys heb y chwerw loes ;
Pwy byna'n dduwiol fo is nen,
Fe dyn elynion am ei ben.

Ond gwell yw dioddef gyda'r Oen,
Na dioddef byth dragwyddol boen,
Am ddewis byw mewn pechod trist
A gwrthod derbyn Iesu Grist.

Cyfrifodd Moses yn fwy braint,
Gael dioddef adfyd gyda'r saint,
Na bod mewn pechod yma'n byw,
Ymhlith y rhai nid ofnant Dduw.

Am hyn ieuenctyd, fawr a mân,
O Sodom aethlyd ffowch yn lân ;
Yn awr, ym mlodau'ch dyddiau rhowch,
Eich hun i'r Arglwydd, nac arhowch.

Ymlaen, ymlaen, i'r creigydd byw,
I Soar fry, lle mae eich Duw,
I ganu Haleliwia i'r Oen,
A'ch cadwodd rhag tragwyddol boen.

Os plant a ddaw i garu'r Oen,
Fu ar Galfaria'n dioddef poen,
Babanod bach, os hoffant Ef,
Gant ŵg y byd, ond gwên y nef.

Y llyfr a rydd safle i'r awdur fel emynydd ydyw *Caniadau Sion*. Cyhoeddwyd hwn yn chwech o rannau bychain yn y blynyddoedd 1759, 1759, 1762, 1764, 1770, 1786. Yn y flwyddyn 1788 cyhoeddwyd y chwe rhan yn un llyfr tan yr enw *Caniadau Sion, neu Hymnau Ysgrythyrol a Phrofiadol i'w canu yn Nghynulleidfaoedd y Saint, ynghyd a Chwanegiad o rai Marwnadau ac Odlau*. Yn ychwanegol at eiddo'r chwe rhan, y mae yn y llyfr rai emynau newydd na fu'n argraffedig o'r blaen. Dywed yr awdur yn ei ragymadrodd iddo gyfansoddi'r emynau " nid yn unig pan yr oeddwn dan brofiad o lewyrch ei wyneb, ac yn teimlo ychydig o hwyl nefol yn fy enaid, ond hefyd dan amrywiol brofedigaethau, pan yr oedd gelynion yn ymosod arnaf mewn amryw ffyrdd." Y mae yn y llyfr 177 o emynau, a rhai ohonynt yn rhagorol, amryw yn dda, a'r gweddill yn wael iawn. Bardd bach ydoedd John Thomas, a phan ymroddai i emynu â'i gefn ar y nefoedd nid oedd fawr graen ar ei waith.

### Nodweddion yr Emynau.

Y mae'n sicr i'r awdur gyfansoddi llawer pan nad ydoedd " dan brofiad o lewyrch ei wyneb, ac yn teimlo ychydig o hwyl nefol yn yr enaid," oblegid y mae ganddo rai pethau baledaidd a dichwaeth iawn. Ar ddiwedd "Rhad Ras," etc., ceir chwe emyn, ac yn eu plith rigwm tlawd " i ei ganu wrth godi'r elor a'i harwedd ymaith,"—

Ffarwel gymmdogion call a ffol,
'Rwyf yn eich gadael bawb ar ol ;
O'r tŷ rwy'n myned tua'r bedd,
Ar fyr canlynwch fi'r un wedd.

Fel mae fy nghorph ar 'sgwyddau gwyr,
Cewch chwithau'ch cario cyn bo hir ;
O'r tŷ i'r bedd, i maes o law,
I'ch cuddio gan y gaib a'r rhaw.

Diau bod yr emynydd yn lled bell oddi wrth yr Ysbryd Glân pan ganai'i emyn i " Ddedwyddwch Gwraig yr Oen." Campwaith a fuasai dim mwy daearol tan yr enw emyn :

Ar fyr ceir gweld y wraig sy'n glaf,
Yn holliach braf heb fethiant,
Ynghol ei phriod, Crist ei phen,
Yn llawen mewn gogoniant.

Y briodasferch fydd pryd hyn,
I gyd yn wynn o drwsiad,
A choron ddisglaer ar ei phen,
Yn llawen gyda'i chariad.

O'r un drâs yw ei emyn (?) i " Gwymp Babilon," a "Llwydd yr Efengyl " :

Pryd hyn daw'r hen Fahomet,
O'i goffin dur i lawr ;
Ac yntau'r Pab o Rufain,
A gwymp o'i gadair fawr ;

Iddewon a chenhedloedd,
O eitha cyrrau'r byd,
Arddelant Iesu ar gyhoedd,
Yn Frenin o unfryd.

Y mae'r uchod ymhlith pethau salaf yr emynydd, ac yn ffodus, gorweddant yn farw mewn hen lyfrau melynddu, i beidio ag atgyfodi byth. Felly, ni flinant ni, ac ofer ymdrin ymhellach â hwy. John Thomas y prydydd bach a'u gwnaeth ; eithr y mae gennym bethau gwell, ac anhraethol well, wedi eu cynhyrchu gan Ysbryd Duw trwy John Thomas y sant. Ymhlith ei emynau goreu ac adnabyddus y mae :

'Rwyf yma dan y tonnau
  Yn gruddfan llawer awr, etc.

Nid yw eto ond dechreu gwawrio,
  Yr haul a g'od yn uwch i'r lan, etc.

Beth yw'r ofn sy yn fy nghalon,
  Am drallodion eto i ddod, etc.

Chwi bererinion ar eich taith,
Caed pawb eich nabod wrth eich gwaith, etc.

Rho i ni beunydd anwyl Arglwydd,
  Nerth o'r newydd fel bo'r dydd, etc.

'Rwyt ti, O Arglwydd, ym mhob man,
Yn codi'r gweiniaid tlawd i'r lan, etc., etc.

Yn ol d'addewid Iesu cu,
I fod lle byddo dau neu dri, etc.

O Arglwydd Dduw y bywyd mawr,
Dy fendith dyro yma i lawr, etc.

Ni ddaw 'nghyfeillion mwya'n hedd,
I'm hebrwng ond hyd lan y bedd, etc.

Dewch blant bychain, braf yw'ch gweled,
  Ar y drydedd awr o'ch dydd, etc.

Pan y delo'r dyddiau dedwydd,
  I deyrnasoedd daear lawr, etc.

Dyma'r pryd y derfydd enwau
  Gwag broffeswyr ar y llawr, etc.

Ei nabod ef yn iawn
  Yw'r bywyd llawn o hedd, etc.

Ac am fod Iesu'n fyw,
  Byw hefyd fydd ei saint, etc.

Deued yr awelon hyfryd,
  Effaith ysbryd gras i lawr, etc.

Y mae gan John Thomas lawer o emynau nad ydynt yng *Nghaniadau Sion*, ond ychydig ohonynt sy'n adnabyddus. Ceir pum emyn ar ddiwedd ei gyfieithiad o *Pererindod, sef Hanes y Parchedig Mr. J. Hart*. Nid oes yr un o'r rhain yn arferedig heddyw, ac er eu bod oll yn gywir o ran syniadaeth, ac yn ddidramgwydd eu ffigyrau, nid oes ynddynt y naws farddonol a'r eneiniad ysbrydol a'u gwnai o ddefnydd i'r eglwysi. Ar ddiwedd llyfr arall a gyfieithodd, sef *Gwybodaeth o iechydwriaeth yn werthfawr yn angau*, gan W. Romaine, M.A., y mae chwech emyn a briodolwyd gan rai i Williams, Pantycelyn, ond nid ydynt yn argraffiad 1811 o Weithiau Williams, nac yn argraffiad Cynhafal. Ni wn ar ba sail y'u priodolir i Williams. Prawf eu nodwedd nad ef a'u piau. Y mae'n lled debig mai eiddo John Thomas ydynt, oblegid dygant nodau ei waith adnabyddus.

Nid oedd gan John Thomas awen gref; un fach hoyw ydoedd, a rhoddodd lawn gormod o waith iddi. Pe gwyddai fesur ei nerth, a'i gyfyngu, ceid mwy o'i gynhyrchion yn fyw heddyw. Fel yr hen emynwyr i gyd yr oedd yn Galfin cryf o ran credo, a cheir sawr ei gred ar rai o'i emynau. Cynhyrchodd ddegau o emynau eiddil a gwelw, eithr cynhyrchodd hefyd lawer o rai gwir dda a fydd byw byth. Nid doeth fyddai ei gymharu â Dafydd Jones, Morgan Rhys a Dafydd William; ni pherthyn i'w dosbarth hwy. Er hynny, gweithiodd yn galed a chanodd yn dda trwy'r cwbl o'i fywyd helbulus.

## II.—BENJAMIN FRANCIS.

Y mae'r hen air yn wir fynychaf, "Anodd dwyn dyn oddiar ei deulu," a thrwy inni ymdrin ychydig ag Enoch Francis bydd yn hawddach cyfrif am ddawn a chymeriad ei fab Benjamin. Yn wir, ar wahan i'r mab, haedda'r tad ei hun gyfrol o goffa, oblegid yr oedd yn ddyn eithriadol yn ei ddydd. Nid oes, ac ni fydd byth, hanes teilwng o enwad y Bedyddwyr yng Nghymru heb fod i Enoch Francis le mawr ac amlwg ynddo.

Mab Pantyllaethdy, ym mhlwyf Llanllwni, yng Nghaerfyrddin, ydoedd Enoch Francis, a aned yn y flwyddyn 1688 neu 1689.[1] Yr oedd yn fachgen eithriadol ar gyfrif talent a daioni, a dechreuodd bregethu pan yn bedair ar bymtheg oed. Enillodd sylw a chymeradwyaeth ar unwaith, a llithrodd yn esmwyth i'r weinidogaeth yng nghymdogaeth ei gartref heb gynhorthwy addysg athrofaol. Adnabyddid ef yn hir onid ar hyd ei oes fel Enoch Francis, Rhosgoch, a thua therfyn ei oes, onid wedi ei farw, y cysylltwyd ei enw â Chastell Newydd Emlyn, er iddo am flynyddoedd, ac hyd ddiwedd ei fywyd, weinidogaethu i'r Eglwys yng Nghastell Newydd. Yr oedd yn un o bregethwyr mwyaf ei oes,—" fel Seraff disglaer yn goleuo'r holl wlad." Arferai ymweled yn flynyddol ag eglwysi'r Bedyddwyr yn y gwahanol siroedd, i'r diben o'u deffroi a'u hadeiladu, a chymaint oedd ei ddylanwad a'i enwogrwydd oni chaffai alwadau parhaus i addoldai enwadau eraill. Yr oedd i Enoch Francis lawer o gydlafurwyr talentog a ffyddlon yn siroedd y Deheudir, eithr ystyrrid ef yn rhagori arnynt oll fel pregethwr a threfnydd. Meddai allu arbennig i sefydlu ac adeiladu eglwysi, a bendithiwyd ef â dawn i drin a dofi ysbryd cwerylon. Am y rhesymau hyn yn fwyaf arbennig yr ystyrid ef yn dywysog ymhlith gweinidogion ei enwad. Eithr y mae iddo safle barchus fel diwinydd hefyd.

Yn ei amser ef aflonyddwyd llawer ar eglwysi a gweinidogion y Deheudir gan y ddadl Arminaidd a ddechreuodd yn Hengoed. Ar gyffiniau siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi bu ymladd caled. Cynhyrfwyd yr eglwysi i'w gwaelod, a drygwyd llawer ar amryw ohonynt. Anodd a fuasai i un o allu a safle Enoch Francis gadw o faes brwydr bynciol cyn boethed, a dywed Joshua Thomas y gorfodwyd ef oherwydd cynhyrfu a drygu'r Eglwysi gymaint i fyfyrio'r pynciau'n fanwl a diwyd. Cymhwysodd ef ei hun yn fuan i arwain yn y frwydr. Heblaw traddodi

[1] *Hanes y Bedyddwyr*, gan Joshua Thomas. Arg. Pontypridd, 1885, tud. 381.

pregethau ac areithiau i amddiffyn yr ochr Galfinaidd, cyhoeddodd lyfr yn 1733 o 214 o dudalennau, tan yr enw *Gair yn ei Bryd*, etc. Cafodd y llyfr gymeradwyaeth fawr a chylchrediad eang. Er hyn, y mae'n eglur, na cheid ynddo lawer o elfennau'r ymladdwr. Mab tangnefedd ydoedd ef. "Yr oedd ynddo dalent neilltuol i feithrin cariad a heddwch mewn teuluoedd, mewn eglwysi, a rhwng gwahanol enwadau. Cariad, tangnefedd, ac undeb oeddynt elfennau arbennig ei weinidogaeth a'i gyfeillach. Heddwch a llawenydd trwy waed Crist oeddynt ei bynciau anwylaf."

Prawf hanes claddu Enoch Francis y cerid ef yn fawr gan yr eglwysi, ac y perchid ef gan yr holl wlad. Yn Ionawr, 1739–40, aeth i weled hynt eglwys Llangloffan, ac ar ei daith pregethodd yn Abergwaen, a hon fu ei bregeth olaf. Tarawyd ef yn glaf pan yn pregethu, ac wedi rhai dyddiau o gystudd bu farw. Buasai farw ei wraig rai misoedd yn gynt, a chladdesid hi yng Nghilfowyr, ac yno y claddwyd yntau. Er fod y pellter o Abergwaun i Gilfowyr yn agos i ugain milltir, cludwyd y corff ar elor ar ysgwyddau yr holl ffordd. Teithiwyd trwy ddeg plwyf, a chymaint oedd awydd y dyrfa fawr am yr anrhydedd o gario'r cymwynaswr i "dŷ ei hir gartref" fel y trefnwyd nad oedd neb i gael y fraint ond yn y plwyf y preswyliai'r cludydd ynddo.[1]

### NODWEDDAU'R TAD YN Y MAB.

Na feier ar faint y gofod a roddwyd i'r tad. Teithiodd George Borrow gynt yn ol ymhell, bell, i adnabod afon Hafren, a mynnodd yfed o'r ffynnon fach lle tardd.[2] Dywedir y rhed talent mewn teulu, eithr na wna athrylith hynny. Nid yw talent ond synnwyr cyffredin anghyffredin, ys dywedai rhywun wrth gladdu Mynyddog. Y mae'r naill fel bryniau lluosog Cymru, a'r llall fel Aran Mawddwy

[1] *Hanes y Bedyddwyr*, Joshua Thomas, tud. 381.

[2] *Wild Wales*, by George Borrow, p. 495.

neu'r Wyddfa. Peth cyffredin ac anamlwg i fesur yw talent, eithr peth prin ac amlwg yw athrylith. Y mae dyn gwir athrylithgar yn byw wrtho'i hun, ac i fesur mwy nag eraill, arno'i hun, ar hyd yr oesoedd. Cronna ynddo ynni ei dylwyth, yn ol a blaen, am genedlaethau. Hysbydda fawredd meddwl y cwbl. Rhaid cael llawer i wneuthur mynydd mawr fel yr Wyddfa. Petasai Enoch Francis yn athrylithgar, y mae'n bur debig na cheid hyd yn oed talent yn ei blant. Dyna'r rheol. Talent ac nid athrylith a red mewn teulu.

Wedi adnabod Enoch Francis nid oes ym mywyd ei fab Benjamin ond ychydig sy'n anodd ei esbonio. Dywed Joshua Thomas am y mab,—" Y mae mor adnabyddus am ei dalent gweinidogaethol, ei waith a'i ddefnyddioldeb, fel nad oes angen ychwanegu dim yma ar y pen hynny ; oddieithr i ni nodi ei fod yn tebygu yn fawr i'w dad o ran ei dymer, ei dalent, a'i dueddiadau."

Benjamin Francis oedd yr ieuangaf o'r plant, a ganwyd ef ym Mhengelli Fawr, ger Castell Newydd Emlyn, yn 1734. Ychydig a wybu erioed am bechod trwy brofiad, os gwybu ddim. Tyfodd yn enaid a chorff yn iach a chryf megis Samuel, ac nid hawdd tyfu felly i un a adawyd yn amddifad o fam a thad pan yn chwech oed. Ceir prawf o gywirdeb geiriau'r Salmydd weithiau yng Nghymru,— " Ni welais y cyfiawn wedi ei adael, na'i hâd yn cardota bara." Gofalodd Rhagluniaeth trwy berthynasau a chyfeillion na ddaethai cam i blant Enoch Francis. Pan yn bymtheg oed derbyniwyd Benjamin trwy fedydd yn aelod eglwysig, ac fel ei dad, dechreuodd bregethu pan yn bedair ar bymtheg, a chyn bod yn ugain aeth i Athrofa Broadmead, Bristol. Bu yn yr athrofa am bedair blynedd, a chasglodd lawer o wybodaeth yno. Prin yw Saesneg ffiniau siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi heddyw o'u cymharu â rhai ardaloedd yng Nghymru, eithr yr oedd yn llawer prinnach yn nyddiau maboed Benjamin Francis, ac aeth y llanc i'r coleg heb ddigon o Saesneg i ofyn bendith ar ei fwyd. Eithr ar derfyn y pedair blynedd medrai

ddigon ar yr iaith honno i wasanaethu eglwys Saesneg yn Sodbury, ac arhosodd yno am beth amser.

### Ymsefydlu yn Horsley.

Cyn diwedd y flwyddyn 1757, gadawodd Francis Sodbury am Horsley, yn sir Gaerloyw, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yr eglwys yno yn ystod y flwyddyn ddilynol. Dyma faes llafur ei fywyd, a gweithiodd ef yn llwyr a chydag egni mawr hyd ei farw.

Cafodd yr eglwys mewn cyflwr drwg iawn. Nid oedd rhif yr aelodau ond trigain a deg, ac yr oeddynt oll cyn dloted fel na allent addo cadw eu gweinidog nepell o byrth angen a newyn. Nid oedd ei gyflog ond ugain punt y flwyddyn. Nid â Cymro ers rhawg i fendithio Saeson oni chaiff ragor o fêl ar ei fara, eithr yn nyddiau'n gwrthrych ychydig a gai fêl, a gweithiai llawer un ar fara sych a hwnnw'n brin fynychaf. Ni ddigalonnwyd Francis gan amgylchiadau. Aethai i Horsley i wneuthur ewyllys ei Feistr, a rhan o'r ewyllys honno ydoedd dysgu bod yn fodlon ymha gyflwr bynnag y byddai. Deuthai profiad Paul yn eiddo yntau,—" Ymhob lle ac ymhob peth y'm haddysgwyd i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder." Clywodd yr Efengylydd ieuanc orchymyn y proffwyd, " Ymnertha a bydd ŵr." Cynhyddodd y gynulleidfa a'r eglwys mor gyflym fel y bu raid helaethu'r capel ymhen tair blynedd, ac aeth sôn am dalentau ac ymroad a llwyddiant gweinidog Horsley led-led y deyrnas. Gelwid am ei wasanaeth o bob cyfeiriad. Cafodd amryw wahoddiadau taer i ymsefydlu yn Llundain. Ceisiodd eglwys Carter Lane ei sicrhau fel ei gweinidog, a chymhellwyd ef gan amryw o brif weinidogion yr enwad i dderbyn yr alwad, ond gwrthod a wnaeth, a suddo'n ddyfnach i serch yr eglwys yn Horsley. Parhaodd y gynulleidfa i gynhyddu, ac yn 1774, dwy flynedd ar bymtheg wedi dyfod Francis i'r lle, helaethwyd y capel eilwaith. Ni fu unwaith drai yn y llwyddiant, a chyn huno o'r gweithiwr ffyddlon gwel-

odd helaethu'r capel y trydydd tro, ac agorwyd ef yr un dydd ag y rhoddwyd yr hen weinidog i orffwys yn erw Duw wedi llafur caled a hir. Ymgasglai'r aelodau a'r gwrandawyr o bymtheg plwyf,—amryw ddeng milltir o bellter, ac yn ystod ei weinidogaeth derbyniodd Francis yn Horsley yn unig 450 o aelodau.

### Cylch eang ei lafur.

Ni chyfyngodd Mr. Francis ei wasanaeth i Horsley, eithr gweithiodd yn effeithiol mewn amryw siroedd. Fel ei dad, pregethai yntau ymhell ac agos. Teithiodd filoedd o filltiroedd i efengylu trwy siroedd gorllewin Lloegr. Pregethai'r Saboth i'r eglwys yn Horsley, ac yna, ar lasiad y dydd trannoeth cychwynnai i'w daith ; pregethai amryw weithiau yn y dydd, a dychwelai nos Wener wedi teithio'n aml dros gan milltir. Sefydlodd lawer o eglwysi, ac adeiladodd amryw gapeli yn y broydd sy'n cylchynnu Horsley, a chadwodd ei lygaid arnynt i'w nerthu am gyfnod mawr. Ef a sefydlodd yr eglwys ac a adeiladodd y capel ym Minchin Hampston, rhyw dair milltir o Horsley. Pregethai yno'n rheolaidd, a thraddodai ddarlith fisol i'r gynulleidfa am bymtheg mlynedd ar hugain. Traddodai'r ddarlith fisol mewn dau le arall hefyd, ac yn un ohonynt, Waton-under-Edge, daliodd i wneuthur hynny am ddeng mlynedd ar hugain. Cynhwysai cylch ei lafur leoedd cyn belled oddi wrth ei gilydd a'r Werddon, Cornwall a Chymru. Pregethodd ugeiniau o weithiau yn Saesneg a Chymraeg yng Nghymru.

### Ei gariad at Gymru.

Er gadael Cymru cyn bod yn ugain oed, a threulio tros bum mlynedd a deugain i siarad a phregethu yn yr iaith Saesneg, ni oerodd ei serch at ddim Cymreig, ac ni fagodd ei dafod rwd. Gwyddai hanes crefyddol Cymru fel petai'n byw ynddi. Hoffai fod yn bresennol yn ei chymanfaoedd, a phregethai mewn Cymraeg gloyw heb

bluen ar ei dafod. Dywed yn ei ragymadrodd i un o'i lyfrau,—" Er i mi gael fy symud trwy ragluniaeth, yn lled ieuanc, i'r rhan hon o'r Ynys, eto profi yr ydwyf ryw serch neilltuol at wlad fy ngenedigaeth, ac at yr iaith Frytanaidd. Ac er nad yw fy amrywiol amgylchiadau yn caniatau i mi ymweled ond yn anfynych iawn â neb o'm cyfeillion crefyddol yng Nghymru, hyfryd gennyf glywed fod yr efengyl mor llwyddiannus a chrefydd mor flodeuog mewn amryw rannau o'r wlad. Pan y mae broydd a bryniau Cymru yn dadseinio mor beraidd sain cân a moliant, da fyddai gennyf uno â'r cantorion duwiol yn y gwaith a'r hyfrydwch nefol o foliannu Arglwydd y gogoniant."

Yr oedd Benjamin Francis yn fardd da. Canai ar hyd ei oes, a chanai heb gymorth ysbrydiaeth lenyddol y wlad y'i ganed ynddi, ac heb unrhyw wobr yn y golwg. Diau pe cawsai awyrgylch amgenach yr esgynasai i safle anrhydeddus ymhlith beirdd Cymru. Cyfansoddodd lawer yn Saesneg, eithr barddoniaeth Gymraeg a'i swynai fwyaf. Ei dystiolaeth ef ei hun ydyw,—" Y mae gennyf hyfrydwch anorchfygol mewn barddoniaeth Gymreig."

Yr oedd yn ysgolhaig gwych, ac wedi graddio'n M.A. Gweithiodd yn galed a llwyddiannus trwy ei fywyd, a gwnaeth lawer o waith a erys yn hir, a pheth a erys byth. Priododd ddwywaith, a chafodd dorf o blant, a gwelodd gladdu deg ohonynt. Bu farw mewn hyder tawel Rhagfyr 14, 1799, a chladdwyd ef ym mynwent yr eglwys y bu'n weinidog iddi am ddwy a deugain o flynyddoedd. Gorffwysed yn esmwyth, a pharhaed ei emynau gwerthfawr i fendithio'r genedl a garodd gymaint.

### Barddoniaeth yr Awdur.

Cyfansoddodd Benjamin Francis amryw fân lyfrau mewn rhyddiaith, yn Saesneg a Chymraeg, ond cyn belled ag y gwyddys nid oes fawr o werth mewn dim o'i eiddo ag eithrio'i farddoniaeth.

O safle llawer o feirniadaeth yr oes hon, bardd egwan ydoedd, heb egni a beiddgarwch i dramwy'r dyfnderoedd tywyll, ac esgyn trwy'r cymylau, neu'n hytrach, i'r cymylau, i greu bydoedd newydd a dieithr. Yn ddiweddar y ganed beirdd y gyfriniaeth gymysgryw sy'n canu am "Fynydd fy Mod," a "Dirgelwch Dirgelwch." Fel holl feirdd ei oes, canai ef yn syml a dealladwy, ac yn wahanol i rai ohonynt, canai'n gywir a gorffenedig.

Yn Saesneg y cyfansoddodd ei gân hwyaf, a chyhoeddwyd hi yn 1770 tan yr enw *The Conflagration, A Poem of the Last Day.* Argraffwyd hi gan William Pine, ym Mryste, a chaed adargraffiad ohoni yn yr un swyddfa yn 1786. Rhennir y gân yn bedair rhan, ac y mae ynddi 253 o benillion pedair llinell. Yn y rhan gyntaf darlunir yr arwyddion sydd i ragflaenu'r dydd,—dedwyddwch y saint yn yr adgyfodiad, a gofid a dychryn yr annuwiolion. Yn yr ail ran disgrifir y nefoedd newydd, y ddaear newydd, a'r Jerusalem newydd. Disgrifir rhwymo'r hen ddraig tros fil o flynyddoedd, a'i rhyfel â Michael yr archangel. Yn y drydedd ran darlunir gollwng Satan o'i garchar i'w farnu,—barn gyffredinol ar ddynion yn ol eu gweithredoedd—yr hen ddraig yn ymosod ar y saint—tân yn disgyn o'r nef i ysu'r ddraig a'i llu. Yn y bedwaredd ran dysgir y cydnebydd pawb gyfiawnder y farn. Dilyna'r awdur yn lled fanwl yr hanes Ysgrythyrol, ac nid oes yn y gân lawer mwy nag aralleiriad o'r darluniau Beiblaidd o'r farn ddiweddaf. Ond llwydda'r bardd i ddywedyd yr hanes yn effeithiol iawn. Y mae'r iaith yn gref a glân, ac amryw o'r disgrifiadau yn hynod frawychus. Yr oedd llawer o'r arlunydd yn Benjamin Francis, a meddai allu mawr i ddisgrifio. Ni feddai grebwyll Williams a Morgan Rhys, eithr yr oedd cyn gryfed ei ddarfelydd â hwythau. Er cystal iaith caneuon ac emynau Cymraeg yr awdur, credaf ei fod yn fwy o feistr ar yr iaith Saesneg, ac fod yn hawddach iddo gyfansoddi'n dda yn yr iaith honno. Cyfieithiwyd y gân am y "Farn Ddiweddaf" i'r Gymraeg

gan un M. Williams, ond nid yw'r cyfieithiad yn deilwng o'r gwreiddiol mewn nac iaith nac ynni.

### Yr Emynau.

Cyfansoddodd Francis lawer o emynau Saesneg, ac y mae rhai ohonynt yn parhau'n boblogaidd :

Before Thy throne, eternal King, etc.
My gracious Redeemer I love, etc.
Glory to the Eternal King, etc.
Praise the Saviour, all ye nations, etc.
Hark ! the voice of love and mercy, etc.

Prawf yr emynau hyn ac eraill y canai'n rhwydd a swynol yn iaith gwlad ei alltudiaeth, ond barddoniaeth Gymraeg a'i swynai fwyaf. Yr oedd ei galon yng Nghymru, fel eiddo Goronwy gynt, ac mewn emyn Cymraeg yr hoffai fynegi ei brofiad o grefydd. Cyhoeddwyd ei lyfr emynau cyntaf yn 1774, tan yr enw "*Aleluia*," etc. Y mae'r wyneb-ddalen fel hyn :

Aleluia,
neu
Hymnau,
Perthynol i
Addoliad Cyhoeddus
gan
Benjamin Francis.

---

Barn. v. 3. " Canaf fawl i Arglwydd Dduw Israel."
I. Cor. xiv. 15. " Canaf a'r Ysbryd, a chanaf a'r deall hefyd."

---

Caerfyrddin : Argraffwyd dros yr Awdwr gan J. Ross.
1774.

Yn y flwyddyn 1786, cyhoeddwyd *Aleluia, Yr Ail Lyfr*, gan J. Daniel, Caerfyrddin, ac yn 1802 adargraffwyd y Llyfr Cyntaf gan T. Williams, Dolgellau, tan yr enw *Caniadau Preswylwyr y Graig, neu Hymnau dewisol ar Destynau Efengylaidd.* Ceir 104 o emynau yn *Aleluia* 1774, a 94 yn llyfr 1786. Felly, y mae gennym, o leiaf, ddau cant namyn dau o emynau Benjamin Francis.

*Cynllun ac Amcan yr Awdur.*

Ei amcan a benderfynai ei gynllun, ac yn hytrach nag ymboeni i'w hegluro, a methu, caiff ef ei hun wneuthur hynny yn ei ragymadrodd i'w lyfr cyntaf :

> " Er mwyn chwanegu budd a chysur ysbrydol gwir addolwyr yr Arglwydd, mi anturiais gyfansoddi rhai Hymnau perthynol i addoliad cyhoeddus, gan amcanu eu haddasu at amryw achosion ; ac er nad yw eu rhifedi yn fwy, gobeithio y ceir un, neu chwaneg, yn agos at bob achos pwysfawr a chyffredin.
>
> Cyfansoddais y rhan fwyaf o'r Hymnau canlynol ar y mesurau mwyaf cyffredin, fel y gallai'r neb nad yw adnabyddus â mesurau anghyffredin uno yn yr addoliad ; ond er mwyn eraill, mi a gyfansoddais rai ar fesurau anghyffredin. Mi amcenais eu gosod i lawr mewn trefn, a'r rhai sydd ar yr un achos yn canlyn eu gilydd er mwyn cwrdd â'r hymn a chwenychir ei chael yn fwy hawdd. Tybiwn mai gwell a fyddai rhoddi allan ddwy linell ar unwaith, er mwyn cael yr ystyr yn fwy cyflawn, yn gystal ag er mwyn achub amser. Dymunaf ar Dduw eu canlyn â'i fendith, er clod i'w enw ei hun, ac er budd parhaus i eneidiau dynion."

Gwelir bod cymhellion yr awdur i gyfansoddi a chyhoeddi ei emynau yn deilwng o'i gymeriad santaidd, ei safle fel gweinidog, a'i deimlad gwladgar fel Cymro. Lles ei genedl, a llwydd crefydd ysbrydol sy'n cyfrif am gymaint o gynnyrch ei awen mewn Cymraeg. Dywed

yn rhagymadrodd ei ail lyfr bod ganddo awydd cryf "i fod o ryw fudd i'r Cymry," a gobeithia y bydd ei "ymegnïad presennol dros y gwirionedd, a llwyddiant crefydd mewn barn, profiad a buchedd, nid yn unig yn dderbyniol, ond o lesâd parhaus i lawer, wynebau pa rai ni chaf eu gweld hyd fore yr adgyfodiad."

Ymhlith ei emynau mwyaf poblogaidd y mae:

Gwnaeth mwyn Dywysog hedd,
A llaw anfeidrol hael, etc.

O mor werthfawr yw'r gair perffaith, etc.

Dilynaf fy Mugail o'm bodd, etc.

Pa dafod, neu pa ddawn
A fedd angylaidd lu, etc.

O Arglwydd Dduw, bywha dy waith, etc.

O mor felys yw'r Efengyl, etc.

Mae Eglwys Dduw fel dinas wych, etc.

Mor deg yw'th babell Di, o Dduw, etc.

Sancteiddiodd Duw y seithfed dydd, etc.

Mor hardd, mor deg, mor hyfryd yw
Dy babell sanctaidd Di, o Dduw, etc.

*Nodweddion yr Emynau.*

Y mae emynau Benjamin Francis yn hynod gelfydd, ac yn fwy celfydd nag eiddo neb o'i gyfoeswyr. Ni cheir ynddynt dor mesur na gwall acen neu odl. Y mae'r iaith yn syml a lled lân, y ffigyrau a'r cymariaethau yn naturiol ac effeithiol, a phob emyn yn orffenedig. Pa farn bynnag a fwrir ar yr awdur, ni ellir ei gyhuddo o ddiffyg gallu a gofal parthed gwisg ei emynau. Rhagora o ran celfyddyd ar bawb o'r hen emynwyr.

Un nodwedd amlwg yn yr emynau ydyw cynghanedd. Ystyriai'r awdur gynghanedd yn addurn gwerthfawr onid hanfodol i emyn. Nid ar ddamwain y cynganeddodd,

eithr o fwriad, oblegid dywed "Amcenais i wneuthur dewisiad o ddefnyddiau neilltuol, angenrheidiol ac addas, ac o iaith bur, gynwysfawr, a chynganeddol, nid yn unig er mwyn dyrchafu barddoniaeth ddwyfol yn yr iaith Frytanaidd, ond er mwyn addasu fy Hymnau, ym mhob ystyriaeth, at y diben o foliannu Duw, a chyfranu hyfrydwch a budd i'r addolwyr duwiol a deallus." Ychwanegir peth at werth emyn gan gynghanedd, yn arbennig y gynghanedd sain, fel y profir gan emynau Pedr Fardd, ac eraill. Ond y drwg ydyw i Benjamin Francis geisio gwthio cynganeddion eraill i rai o'i emynau, ac yntau heb fedru llawer ar gynghanedd. Nid yw'n debig y gwyddai ddigon i wybod ei amherffeithrwydd, oblegid canodd ryw fath ar gywyddau! Nid oedd yn sicr o ddim ond y gynghanedd sain, fel y profir gan ddyfyniad o'i gywydd i'r Parch. Joshua Thomas, ar ddechreu *Hanes y Bedyddwyr* :[1]

Boed rhwydd-iaith byth i'r awdwr,
Mawr a maith oedd gwaith y gwr ;
Ymboenodd ynddo beunydd,
O'i lwyr fryd da, lawer dydd,
Er cofio enwau'r cyfion
Sy' mynwes yr hanes hon.
B'ai bendith, fel gwlith a glaw,
'Nol dy 'wyllys, yn deilliaw
O'r nef ar dy lafur 'nawr,
Hyd derfyn amser dirfawr.

Pe'n byw yng Nghymru tan ddylanwad y beirdd a swyn yr Eisteddfod, diau y deuai'r awdur heb drafferth fawr yn feistr ar gelf gain y gynghanedd. Y mae'n syndod iddo gadw'i galon mor gynnes a'i dafod mor lân ac yntau'n alltud o'i wlad.

Dichon nad oes ymhlith ein hemynwyr neb yn llai gwreiddiol na Benjamin Francis. Cafodd y swm mwyaf o'i ddeunydd, a llawer o'i ymadroddion hefyd, o'r Ys-

[1] Argraffiad 1778.

grythur, ac ni ellir ystyried ambell emyn ond aralleiriad o rannau o'r Beibl. Eithr gwell hyn na chanu profiad tlawd ac oer, neu nyddu syniadau a damcaniaethau diwinyddol amrwd. Cydnebydd yr awdur ei fod yn ddyledus hefyd i emynwyr Saesneg,—"Rhai o'r drychfeddyliau, yn ambell un o'r Hymnau yn y Llyfr hwn, ac hefyd yn y Llyfr cyntaf a gymmerais o rai Hymnau Saesneg." Prin y dylid ei feio am hyn, oblegid ei brif amcan yn y cwbl a wnaeth ydoedd "bod o ryw fudd i'r Cymry, a llwyddo crefydd."

Troi llawer o gwmpas y Groes y mae mwyafrif emynwyr y ddeunawfed ganrif. Cân Williams, Dafydd Jones a Morgan Rhys lawer am y cwymp, pechod, perigl a chosb, ond dyna'u ffordd at y Groes a Gwaredwr. Teithia Benjamin Francis yntau yr un llwybr, eithr hoffa droi'n amlach na hwy i'r Cysegr, ac erys yn hir ynddo :

Mor deg yw'th bebyll Di, O Dduw, etc.

Mor hardd, mor deg, mor hyfryd yw
Dy babell Sanctaidd Di, O Dduw, etc.

Canodd hefyd lawer am yr Eglwys a'r Saboth :

Mae Eglwys Dduw, fel dinas wych,
Yn deg i edrych arni, etc.

Boed cariad brawdol, cywir, brwd, etc.

Sancteiddiodd Duw y seithfed dydd
I ni gael budd ysbrydol, etc.

Hwn ydyw'r dydd a wnaeth ein Duw,
A gwerthfawr ydyw'r oriau, etc.

Cyll emynau Francis o'u cymharu â'u gwell mewn eneiniad. Nid oes ynddynt naws farddonol a gwres ysbrydol emynau'r dosbarth blaenaf o emynwyr. Y maent yn fwy dianaf a chyson na llawer, eithr y maent yn rhy ddof a diegni i fod yn gyfartal o ran gwerth ag amryw llai perffaith eu gwisg. Dichon mai'r prif reswm am hyn ydyw

iddo dreulio'i oes mewn awyrgylch grefyddol oer ymhlith Saeson ffurfiol. Ond er y diffyg hwn, y mae gan Benjamin Francis lawer o emynau da, a rhai campus, ac ni raid petruso ei osod ar flaen rhenc yr ail ddosbarth o emynwyr Cymru.

## III.—THOMAS WILLIAMS, BETHESDA'R FRO.

Cychwynodd yr emynydd hwn ei yrfa yn y ddeunawfed ganrif, a theithiodd ymhell i'r bedwaredd ar bymtheg. Una ei oes ddwy ganrif, a cheir llawer o nodweddion y naill a'r llall yn ei ysbryd a'i waith. Ganwyd ef o'r newydd yn awyrgylch clir a chynnes Diwygiad y ddeunawfed ganrif, a thyfodd yn gyflym a chryf yn sŵn moliant a gorfoledd gwlad yn ymwroli fel un yn gweled yr Anweledig. Eithr bu'r emynydd fyw i weled cymylau'n casglu, ac i deimlo ias Hydref. Gwelodd y dail crin, ac ambell bren uchel a'i freichiau'n noeth yn y gwynt. Daeth yr adweithiad, a chlywodd yntau ganwaith ganu emyn Pantycelyn gan blant y Diwygiad â meddwl prudd a chalon hiraethus :

> P'le mae'r hen awelon hyfryd
>   Deimlais gynt wrth daro i maes ?
> P'le mae'r hen brofiadau melys
>   Gefais gynt wrth orsedd gras ?
> P'le mae'r sêl a'r cariad cyntaf ?
>   P'le mae'r mawl a dyblu'r gân ?
> P'le mae'r swn seraffaidd nefol
>   Oedd yn denu 'mryd yn lân ?

Nid oedd yr awelon mor aml a nwyfus, na'r profiadau cyn felysed a chynt. Ni losgai'r cariad mor angherddol, ac nid oedd ynni ysbryd i ddyblu'r gân fel yn nyddiau gwyn y Diwygiad. Deuthai tro ar fyd yr Eglwys, ac o ffurfafen gymylog, rhwng cafodau, y gwenai haul i'w bywyd. Er hyn i gyd cadwodd Thomas William ddigon o wres a goleuni haf yr hen ganrif yn ei galon i'w gynnal

i ganu'n hwyliog a pheraidd ar foreuau oer a nosau tywyll hydref a gaeaf y ganrif newydd. Canodd brofiad gwan a mawl cloff yr adweithiad, eithr naws a thinc y Diwygiad gwresog a geir yn ei emynau goreu. Yng nghwmni Dafydd Jones, Morgan Rhys, a Phantycelyn y dysgodd ganu, ac ni chollodd y ddawn hyd ei fedd.

Parhaodd y Diwygiad am fwy nag un genhedlaeth, ac yr oedd tair gradd yn ei ddatblygiad. Cychwynnodd gyda Gruffydd Jones, Llanddowror, a'i gynorthwywyr, yn dysgu a goleuo gwerin ddall—paratoi'r ffordd i wirionedd dwyfol deithio'n ddirwystr i gydwybod cenedl. Yna daeth meibion y daran, Howell Harris a Daniel Rowlands, â thân a daeargryn, i gynhyrchu'r deffroad. Yn eu dilyn hwy wele Charles o'r Bala a llu eraill yn gwneuthur trefn a dosbarth,—yn cyfeirio ffrydiau ynni bywyd y deffroad i'r rhydwelïau priodol i lesoli gwlad a gogoneddu Duw. Ceir holl nodweddion y Diwygiad yn emynau Thomas William i fesur llawnach nag yn eiddo unrhyw emynydd arall.

Ai fel llew ynteu fel oen y daeth Mawrth, 1761, i mewn? Anodd ateb heddyw, ond gwyddys i Thomas William ac yntau weled goleu dydd yr un pryd. Ganwyd yr emynydd Mawrth 1, 1761. Preswyl ei rieni, Richard a Margaret William, ar y pryd oedd Trerhedyn, ym mhlwyf Pendeulwyn, yn ymyl Pontfaen ym Morgannwg. Yr oedd y tad yn amaethwr medrus a chyfoethog, yn meddu digon o synnwyr a chydwybod i deimlo diddordeb mewn pethau pwysicach na thrin tir a chynhilo arian, a hawdd credu bod y mab yn nodedig o ddifrifol a meddylgar:

> Ysbys y dengys y dyn
> O ba radd y bo'i wreiddyn.

Ni wybu'r bachgen am wagedd bore oes gyda'i feddyliau gwamal a'i lwybrau cam, oblegid tystia yn un o'i ganeuon iddo dderbyn crefydd pan yn ddeg oed:

> Yn ddeng mlwydd oed ces alwad boreu
> I'r Winllan ar y drydedd awr.

Dyled yr Emynydd i David Jones, Llangan.

Y mae mor anodd cau Jones, Llangan, o fywyd yr emynydd ag ydoedd iddo yntau ei gau o'i gof. Efengylydd Llangan oedd yr haul a ddefnyddiwyd gan Dduw i agor y blodeuyn ar " y drydedd awr " :

Un o'r mannau (byth mi gofia) gwelais i e' gynta' gyd,
Yn cyhoeddi gair y cymod i golledig anwir fyd.

Ganed David Jones ar doriad gwawr ysbrydol y genedl, blwyddyn gyntaf y Diwygiad. Daeth yma gyda'r dydd, agorodd ei lygaid yn y goleuni newydd yn 1735, ym mhlwyf Llanllwyni, Sir Gaerfyrddin, a chaeodd hwy yn yr un goleuni yn 1810, ym Manorowen, Sir Benfro. Ni ddaeth nos i'w hanes unwaith. " Byw yng nghanol y goleuni " fu ei fywyd. Nid yw hyn yn golygu nad oedd ynddo brofiad tanllyd, yr hwn a wnaed er ei brofi. Cafodd dwysged o brofedigaethau. Gorffennodd ei addysg yn athrofa Caerfyrddin, ac aeth oddiyno yn gurad i Llanafanfawr, Brycheiniog. Bu wrth yr un gwaith hefyd yn Lleyn am beth amser, ac yn 1760 gwasanaethai blwyfi Trefethin a Chaldicot, ym Mynwy. Yn y lle hwn y dechreuodd gelynion ymosod arno. Dywedir yr hawliai uwchafiaid Trefethin ar y pryd i'r curad fod yn oferddyn gwamal, ac nid oedd ond curad annuwiol a enillai eu ffafr. Yr oedd David Jones yn rhy dduwiol i'r plwyf, a symudwyd ef i Loegr ; ond yr oedd ei fywyd pur a'i bregethu efengylaidd yn creu gelynion a gorthrymderau ym mhob man. Pe gwyddem hanes y tadau'n well, caem esboniad ar lawer hen emyn a gondemnir yn ddiarbed heddyw am gynnwys yr hyn y tybir sydd yn amhosibl i brofiad dyn da. Canai Morgan Rhys brofiad crefyddwyr mwyaf ysbrydol ei ddydd, a chanai ein profiad ninnau hefyd pe baem mor ysbrydol a hwy, yn yr hen emyn a felltithir gan rai fel ffieiddbeth anghristnogol :

Beth sydd i mi yn y byd ;
Gorthrymderau mawr o hyd, etc.

Trwy ddylanwad Iarlles Huntingdon, cafodd Jones yn 1768 bersoniaeth Llangan, ym Morgannwg. Buan y gwelodd yr ymogoneddai'r plwyf ym miri mawr gwylmabsant, gorchest-gamp, ymladd, a phob direidi gwaeth a hyllach na'i gilydd. Ond ni allai ysgafnder a rhyfyg barhau'n hir yn yr un ardal â dyn mor ysbrydol ac hunanaberthol â David Jones. Yr oedd tân Duw yn ei galon a min yr Ysbryd ar ei bregethau. Llanwyd yr Eglwys, cyrchai'r bobl o bellterau i'w wrando, a gweddnewidiwyd yr holl blwyf. Yr oedd Jones, Llangan, yn un o bregethwyr mawr ei oes. Dyma air Pantycelyn am dano :

Tawdd y cerrig â'i ireidd-dra,
  A thrwy rym ei 'fengyl fwyn
Gwna i'r derw mwyaf caled
  Blygu'n ystwyth fel y brwyn.

Yn Llangan trwy bregethu Jones y daeth yr " alwad fore " i'r bachgen Thomas William. Clywodd y llanc y llais ac ufuddhaodd. Bu gweinidogaeth yr offeiriad ieuanc yn fendith amhrisiadwy iddo, ac nid rhyfedd y teimlai " byth mi gofia." Ar farwolaeth yr Efengylydd gollyngodd yr emynydd " Ddeigryn " yn cynnwys ugain pennill, a dyma ddau ohonynt :

Un o'r mannau (byth mi gofia)
  Gwelais i e' gynta' gyd,
Yn cyhoeddi gair y cymod,
  I golledig anwir fyd ;
Iesu'n marw, Iesu'n eiriol,
  Diwedd byd a boreu'r farn,
Oedd ei araith o flaen cannoedd,
  Wrth hen ysgol Tal-y-Carn.

Dyddiau hyfryd oedd y rheiny,
  Pan oedd Rowlands uchel-ddysg,
Peter ffyddlon, William Williams,
  Llwyd a Morys yn ein mysg ;

Jones fel angel yn Llanganna,
  Yn utganu'r utgorn mawr,
Nes bae'r dorf mewn twym serchiadau,
  Yn dyrchafu uwch y llawr.

Er mai yn Eglwys Loegr, a than ddylanwad gweinidogaeth offeiriad y cafodd Thomas William grefydd, ac y'i cysegrodd ei hun i wasanaeth Duw, ymaelododd yn Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrehill. Ymddengys i'r bachgen gael llawn cymaint onid mwy o anhawster i fynd yn aelod yn eglwys Trehill ag a gafodd i fyned trwy'r porth cyfyng o dywyllwch i oleuni. Yn y gyfeillach y noson y ceisiodd am le yn eu plith, holwyd ef yn fanwl gan ryw bregethwr neu flaenor annoeth a hunanol. Bu'r holi'n galed a hir, a chan na chaed atebion boddhaol, gorchmynnodd y gŵr mawr i rywun ymaflyd yn ysgwydd y bychan a'i droi dros y drws hyd oni ddeuai'n gallach. Troi llanc i'r byd i gasglu gwybodaeth o bethau ysbrydol! Ni siomwyd y bachgen. Ceisiodd ei le drachefn a chafodd ef. Tyfodd yn gyflym a chryf fel cedrwydden, a blodeuodd fel y balmwydden. Daeth yn ddyn o feddwl grymus a threiddgar, ac ystyrrid ef yn ehangach a llwyrach ei wybodaeth na neb arall yn yr ardal. Yn 1790, Gorffennaf 10, ymunodd mewn priodas â Jane Morgan, o Brewis, yn agos i Lanilltud Fawr, ac aeth i fyw i Ffonnwn, ym mhlwyf Penmarc. Ni fu'r uniad hwn yn anfantais iddo fel dyn i'r cyhoedd, bu'n hytrach yn achlysur cynnydd ei ddefnyddioldeb.

## Yn ymadael â'r Methodistiaid.

Am yr ugain mlynedd cyntaf o'i fywyd crefyddol bu Thomas William yn llafurus a dedwydd gyda'r Methodistiaid, ond cododd helynt mawr ynglŷn â chredo'r Parch. Peter Williams, a bu ymddygiad y Sasiwn tuag at y gŵr da hwnnw yn achlysur i'r emynydd gefnu ar y Cyfundeb.

Y mae a fynno ambell berson neu ddigwyddiad gymaint â rhoddi cyfeiriad i fywyd dyn fel na ellir cyfrif am y cyf-

ryw fywyd yn llawn heb hanes yr hyn a fu'n ei ffurfio. Y mae hyn yn wir am Peter Williams yn ei berthynas â Thomas William. Dichon hefyd y bydd gair o hanes y gŵr mawr hwn yn newydd i rai darllenwyr.

Yr oedd y Parch. Peter Williams yn un o ddynion enwocaf ei oes, ac ymhlith y mwyaf llafurus a gwasanaethgar a fagwyd erioed yn ein gwlad. Yr oedd yn ddiwinydd, yn llenor, ac yn bregethwr rhagorol. Ganwyd ef fis cyntaf y flwyddyn 1722 ar y 7, mewn amaethdy o'r enw y Morfa, yn agos i Lacharn, yng Nghaerfyrddin. Y mae'n debygol fod ei dad yn ŵr cefnog a pharchus, eithr ychydig sonia ef am dano. Fel y mwyafrif o enwogion y byd, i'w fam yr oedd ei ddyled fwyaf ef. Dygai hi ef pan yn blentyn bach trwy ddrycin nosau gaeafol i wrando pregethu mwyn y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror, ac yng ngwyll moesol yr oes gwnaeth a allai i ddwyn goleuni y byd a ddaw i'w galon. Cafodd well addysg fydol na phlant amaethwyr cyffredin y dyddiau hynny, ac wedi cwrs yr addysg elfennol treuliodd dair blynedd yn Ysgol Rydd Caerfyrddin. Ychydig cyn gadael yr ysgol clywodd yr hyawdl George Whitfield ym Mhen y Pistyll, Heol Awst, Caerfyrddin, yn pregethu am "bechod gwreiddiol, y geni drachefn, a chyfiawnhad trwy ffydd." Dyma oedfa fawr bywyd Peter Williams. "Yr oedd y pregethwr yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo, ac aeth ei eiriau megis saethau i'm calon i, cefais fy nharo yn y fath fodd nes yr oeddwn yn crynu trwy bob aelod, a gwnaethpwyd fi, o ryfedd drugaredd, trwy ras, yn ddyn arall, yn greadur newydd." Wedi rhai blynyddoedd yn gurad Eglwys Loegr ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1746, pan yn bedair ar hugain oed.

Yng Nghaerfyrddin cyhoeddwyd yn 1770, "Y Beibl Sanctaidd, sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Nodiadau a Sylwadau ar bob Pennod, gan Peter Williams." Ymddengys yn ol *Enwogion y Ffydd* mai dyma'r tro cyntaf i'r Beibl gael ei argraffu yng Nghymru, a'r tro cyntaf hefyd y cyhoeddwyd esboniad arno yn y Gymraeg. Ysgrif-

ennodd a chyhoeddodd yr awdur lawer iawn o lyfrau da eraill. Dywed *Methodistiaeth Cymru* iddo ymdrechu mwy na neb arall o'i gydoeswyr Methodistaidd i leshau ei genedl trwy'r argraffwasg. Ond y mae Beibl Peter Williams yn fwy adnabyddus na dim arall o'i waith. Hwn a'i hanfarwolodd, a hwn hefyd a achlysurodd ystorm fawr ei fywyd.

Ymhen rhai blynyddoedd wedi cyhoeddi "Y Beibl" barnai brodyr ymyrgar yn y Cyfundeb y gwelent gyfeiliornad dybryd ar athrawiaeth y Drindod yn nodiadau Williams ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan, a chyhuddwyd ef o ddysgu Sabeliaeth. Blin fu'r dadleu a'r ymryson am o leiaf ugain mlynedd. Cedwid yr ymosodwyr dan law gan Daniel Rowlands a Williams Pantycelyn. Yr oedd y ddau hyn yn drech na byddin, a gwyddent hwy am gywirdeb Peter Williams a'i werth i'r Cyfundeb. Ond bu Rowlands farw yn 1780 a Williams yn 1791, a chyn pen blwyddyn wedi marw Pantycelyn, rhuthrwyd ar yr hen esboniwr llafurus, ac esgymunwyd ef yn Sasiwn Llandeilo yn y flwyddyn 1792, ac efe yn 70 mlwydd oed, ac wedi llafurio yn y Cyfundeb am dros 46 o flynyddoedd. Ceisiodd Peter Williams ei le yn ol, eithr anwybyddwyd ei gais. Ymhen pedair blynedd, ar yr 8 o Awst, 1796, derbyniwyd yr hen weinidog o ymchwydd yr ystorm i dŷ tawel ei Dad. Huna'n esmwyth ers tros gan mlynedd ym mynwent Llandefeiliog, Sir Gaerfyrddin, ond daw "Beibl Peter Williams" o hyd i'r bwrdd crwn, ger y tân, fin nos gaeaf trwy Ogledd a De.

Ymdrinir â'r diarddeliad gan bob hanesydd Eglwysig Cymreig, a dysg y mwyafrif mawr i'r Cyfundeb Methodistaidd ymddwyn yn eithriadol o angharedig onid yn erlidgar at yr hen weinidog ar derfyn oes faith o ddefnyddioldeb. Dyna hefyd farn llawer o rai meddylgar a da a gydoesai ag ef. Ceir tystiolaeth Thomas William am yr helynt yn ei farwnad a gyhoeddwyd yn fuan wedi marw'r efengylydd. Wele ddau bennill ohoni :

Buost nôd i saethau rhagfarn, er cadarned oedd dy ddawn,
Cyfeiliornus y'th gyfrifid, pan y byddit ar yr iawn ;
Duw'n Iachawdwr i bechadur, oedd dy destyn ym mhob man.
Ac er hynny fe'i cyfrifid megys rhyw athrawiaeth wan.

Am wrthod credo Athanasius, fel gwnaeth gwŷr o ddoniau maith,
Siglwyd *urn* yr hen Sabelius yn dy wyneb lawer gwaith ;
Cyffes ffydd a llunio credo, gwneud erthyglau mawr eu clod,
Magu 'mryson, rhanu eglwysi, fu effeithiau rhain erioed.

"Magu 'mryson a rhanu eglwysi" fu rhai o effeithiau diarddel Peter Williams hefyd. Bu ymbleidio a therfysg mawr yn eglwys Aberthyn, ger Pontfaen, ac ymrannodd yr eglwys. Ymneilltuodd pleidwyr Peter Williams, a Thomas William yn eu plith, a ffurfiwyd eglwys mewn tŷ annedd ym Mrittwn, gerllaw Aberddawen. Rhywbryd yn ystod 1797 sefydlwyd cangen ym mhentref Aberthyn yn gyfle i aelodau a drigai yn yr ardaloedd cylchynol. Hyd 1806 parhawyd i addoli ym Mrittwn, pryd y sicrhawyd tir yn ymyl y Fisher's Bridge, ym mhlwyf Llanilltud Fawr, ac adeiladwyd arno gapel Bethesda. Agorwyd y capel ym Mehefin, 1806. Hyd y flwyddyn 1814 ni pherthynai'r eglwys i unrhyw enwad, eithr yn y flwyddyn honno, yng Nghymanfa Maendy, derbyniwyd hi'n ffurfiol i enwad yr Annibynwyr. Dewiswyd Thomas William yn weinidog i'r eglwys, a pharhaodd i weinidogaethu ynddi hyd ei farw. Treuliodd ran olaf ei oes yn Nhrefflemin, ac yno, yn bedwar ugain mlwydd oed, yr hunodd mewn hedd mawr Tachwedd 23, 1844.

Yr oedd yn ddyn o feddwl cryf anarferol, yn eang iawn ei wybodaeth, ac yn fardd gwlad da dros ben. Pregethai'n efengylaidd a grymus, a bendithiwyd cannoedd trwyddo· Gwelais dros ddau gant o'i bregethau yn ei lawysgrif, a darllenais amryw ohonynt.[1] Y maent yn feddylgar, yn drefnus, ac yn goeth. Nid arbedai na thraul na thrafferth

[1] Yn Llyfrgell Gymraeg Caerdydd.

i egluro'r gwirionedd, a rhoddai i eglwys Bethesda'r Fro fwyd cryf ac iach. Gan ei fod yn amaethwr cefnog, ni dderbyniai gyflog am ei waith fel gweinidog. Bernir iddo ddrygu'r eglwys trwy hyn, oblegid collodd ei chydwybod i gyfrannu at bob achos da, a dywed Dr. Thomas Rees yn ei gofiant byr i'r emynydd fod eglwys heb gyfrannu fel eglwys heb weddi. Dyna helynt rhawd Thomas William.

## Ei Ganeuon.

Heb ganiatad na Gorsedd nac Eisteddfod mynnodd awen Thomas William " dragwyddol heol." Canodd yr emyn, y gân benrhydd, ac ambell faled grefyddol. Ni chyfansoddodd gywydd nac hyd yn oed englyn erioed, ac ni fu cyn ffoled â Maesyplwm ac eraill â cheisio gwthio cynghanedd i'w gyfansoddiadau, er bod archoffeiriaid y gynghanedd yn cydoesi ag ef. Wyth mlynedd cyn ei eni y tawodd Goronwy yn y tywod, ac wyth mlynedd wedi ei eni cafwyd Bardd Nantglyn i ddysgu cywion barddol ei oes i adnabod tinciadau cydseiniaid ac i'w pigo'n drefnus. Yn cydoesi ag ef hefyd yr oedd Dafydd Ionawr, a dreuliodd ei oes i ganu ei " gampwaith, y mydrwaith mawr "—cywydd y Drindod, a gwelodd eni a chladdu y bardd a drechwyd (fel y mae'n rhyfedd son) gan y Dryw wrth ganu am y gweithiwr yn

> Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
> Rhoi angen un rhwng y naw.

Eithr nid oedd gan na ffydd na rheol farddol afael ar Thomas William. Canodd er mwyn crefydd ac nid er mwyn barddoniaeth, a chyrhaeddodd ei amcan yn ei gân rydd werinaidd ei hiaith.

Cyhoeddwyd ar wahanol brydiau amryw lyfrau a llyfrynnau i'r awdur. Y cyntaf oll ydyw *Llais y Durtur yn y Wlad.* Y mae wyneb-ddalen y copi a welais i ar goll, ond ymddengys oddiwrth y rhagymadrodd ei gyhoeddi yn y

flwyddyn 1812. I'r diben o weled mor ddirodres oedd rhai awduron llyfrau yn y dyddiau gynt rhoddir yma Ragair *Llais y Durtur :*

" *At y Darllenyddion.*

" Yn enwedig atoch chwi fy mrodyr yn yr Arglwydd, a'm plant yn yr Efengyl, aelodau yr Eglwys yn cyfarfod yn Bethesda.

Hir y darfu i chwi ddymuno arnaf am gael rhyw gyfran o'm gwaith prydyddawl o'r argraph-wasg; hir y darfu i minau gadw hyny oddiwrthych, gydag esgus Ffelix,—' Pan gaffwyf amser cyfaddas.' P'odd bynag, o'r diwedd, wele hyn o bigion yn dyfod atoch, wedi cael eu casglu o'm papurau aniben.

Gan nad yw'r Hymnau a'r Caniadau canlynol ond cynifer o destynau o'r Ysgrythyr wedi eu troi ar fesur cerdd, tybiais eu galw yn *Llais y Durtur yn y Wlad.*

Nid ydwyf yn disgwyl dim amgen na gogan gan rai am hyn, na dim gwell tâl na'm beio am hyn o orchwyl; ond pa dderbyniad bynag a gaiff fy myfyrdodau gwael hyn gan eraill, mae yn hyderus genyf na byddant anghymeradwy genych chwi. Yn gwybod eich bod wedi cymeradwyo fy llafur gwael yn eich plith, er ys agos i ugain mlynedd a aeth heibio, yr hwn lafur nid ydoedd ddim amgen na chasglu yr hyn a allwn o gerrig llyfnion o afon Gair Duw a'i cyfeirio at y neb a fynnai Efe; er eich mwyn chwi y mae hyn eto; ac fel y mae, derbyniwch, a mawr lles i chwi o hono; ac os caiff neb arall ddim diddanwch neu bleser a dalo, yn eich cysgod, y mae iddynt gant groesaw. Distewaf, gan gofio'r ddihareb, mai nid gweddus porth mawr o flaen adeilad fechan. Dymunaf heddwch i'r byd, llwyddiant i'r Eglwys, gras i bawb i ofni Duw, ac i gilio oddiwrth ddrwg. Amen."

Y mae yn *Llais y Durtur yn y Wlad* drigain namyn un o'r hyn a elwir gan yr awdur yn Emynau a Chaniadau,

eithr nid oes ynddo fwy na dau emyn sy'n arferedig heddyw, ac ofnaf na ellid trwy naddu a chaboli gymhwyso onid ychydig iawn ohonynt i wasanaeth addoliad cyhoeddus. Yn wir, y mae cannoedd o benillion yn crwydro'n amddifad a digysur trwy lenyddiaeth ein dyddiau ni a wnaethai well emynau na dim sydd yn y llyfr hwn. Gellid yn hawdd alw y mwyafrif mawr o'r trigain namyn un yn ganeuon, oblegid y maent o ran mesur ac ansawdd yn anaddas fel emynau, ac oherwydd hyn sylwir ar y llyfr dan y pennawd *Caneuon*. Y mae ynddo dri emyn adnabyddus a arferir weithiau yn yr oes hon, sef un o eiddo Thomas William, a dau gyfieithiad. Dywedir gair am danynt cyn disgyn ar y *Caneuon*.

Fel y gwelir yn y rhagymadrodd i'r llyfr, y mae'r Cyfansoddiadau'n seiliedig ar rannau o'r Ysgrythyr, megis "Adgyfodiad Crist, sail adgyfodiad y saint,—'A Duw'r heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddiwrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol' (Heb. xiii. 20)":

'Rwy'n aros wrth ochor y dwr,
  Bron mynd o'r anialwch yn lân,
Fy ngobaith yw concgwest y Gŵr
  A rydiodd yr afon o'm bla'n;
(Mae i'n oleu fe rwygwyd y llen),
  Fe gododd ein Harglwydd i'r lan,
Mae'n siccir os cododd y pen,
  Y co'd yr aelodau'n y man.

Bu cyfnewidwyr emynau mor lawdrwm ar hwn oni newidiwyd pob llinell ond un ynddo, ac y mae ystyr yr emyn gwreiddiol wedi ei golli bron yn llwyr. Bwriad yr mynydd ydoedd dysgu fod adgyfodiad Crist yn sail adgyfodiad y saint. Ni ellir gwadu nad ydyw pedair llinell olaf yr emyn diwygiedig yn rhagori llawer iawn ar eiddo'r gwreiddiol, ond ni ddylid eu priodoli i Thomas William, oblegid ni chanodd ef air ohonynt. Gormod

camp i'r hen awdur fyddai adnabod fel ei eiddo y pennill hwn :

'Rwy'n nesu at ochor y dŵr
  Bron gadael yr anial yn lân ;
Fy ngobaith yw concwest y Gŵr
  A rydiodd yr afon o' mlaen !
Fe dreiglwyd y maen oedd dan sêl,
  Cyfododd y Cadarn i'r lan !
Mi 'caraf, a deued a ddêl,
  Mae'n Gyfaill i'r truan a'r gwan.

Y ddau gyfieithiad ydyw, y naill o " The God of Abraham Praise," gan y Parch. T. Oliver, i'r Gymraeg, a'r llall o " Dewch, dewch, o fawr i fân " o'r Gymraeg i'r Saesneg. Wele'r olaf fel y'i ceir yn *Llais y Durtur* " :

Dewch, dewch o fawr i fân,
Cyn delo'r diluw tân,
  I'r arch mewn pryd ;
Fe lysg y byd yn lân ;
O ddinas distryw brysiwch, ffowch,
Ar y gwastadedd na ymdrowch,
  I Sanctaidd fynydd Seion,
O ddynion pa'm na ddowch.

Come, come ye low and high,
The great deluge is nigh,
  The world shall burn ;
To Jesus turn and fly ;
Arise, arise, come haste away,
On Sodom's plain no longer stay ;
  To Zion's holy mountain,
Come, come, without delay.

Diau y gellid gwella'r cyfieithiad, ond sicrheir ynddo'n llawn ysgogiad buan ac ysbryd brawychus y gwreiddiol. Ni wyddys pwy yw'r awdur.[1] Nid Thomas William

[1] Dywed y Parch. T. Shankland, M.A., mai un o'r enw Owen Roberts ydyw awdur y pennill gwreiddiol.

ydyw, oblegid sieryd ef am dano fel hen emyn. Y mae'n sicrach fyth nad y Parch. Roger Edwards, yr Wyddgrug, piau ef fel y dysg Casgliad Thomas Gee a Llyfr Emynau'r Wesleaid, oblegid cyhoeddwyd y cyfieithiad pan nad oedd Roger Edwards onid blwydd oed. Gorchwyl anodd ydyw penderfynu awduraeth llawer o emynau, eithr trwy ofal a thrafferth gellid gwella cryn dipyn ar ein Casgliadau yn y pwnc hwn. Nid diogel dilyn y Casgliadau a arferir heddyw, ond o wneuthur hynny, y cywiraf o lawer ydyw *Emyniadur yr Eglwys* tan olygiaeth Esgob Lloyd, er nad yw hwnnw'n ddifai. I gael sicrwydd ar bwnc yr awduraeth rhaid chwilio'r llyfrau a gyhoeddwyd gan yr hen emynwyr eu hunain.

### Marwnad John Williams, St. Athan.

Y mae gan Thomas William gân alarus " a gyfansoddwyd ymhen ugain o fisoedd wedi claddu fy hen hawddgar gyfaill, Mr. John Williams, o St. Athan, wrth fynd heibio i'r tŷ lle buasai yn byw." Yr oedd y ddau'n gyfeillion mawr, yn aelodau o eglwys y Methodistiaid yn Nhrehill, ac euthant ill dau allan adeg diarddel Peter Williams. Bu John Williams yn aelod ffyddlon a llafurus yn Brittwn, ac wedi hynny ym Methesda hyd derfyn ei oes, a dywedir mai ef a Thomas William oedd prif alluoedd yr eglwys,—dynion mawr eu meddwl, eu gwybodaeth, a'u dylanwad. Yr oedd John Williams yntau'n fardd gweddol ac yn emynydd peraidd iawn, ac y mae hyn, at resymau eraill, yn cyfrif am y cyfeillgarwch cynnes rhyngddo â Thomas William. Cyhoeddodd ddau lyfryn o farddoniaeth, sef *Halsing*,[1] neu Gân newydd ar Ddydd Nadolig, yn 1781, a *Cân Ddiddarfod*, 1793; eithr cyhoeddasid ef naw mlynedd yn gynt, yn y flwyddyn 1784, mewn llyfryn o'r enw *Llythyr oddi wrth Dafydd ab Ioan y Pererin at Ioan ap Gwilym y Prydydd, yn rhoddi Byrr Hanes*

[1] Dywed *Llyfryddiaeth y Cymry* mai llygriad o " Alsain," cyfystyr â charol Nadolig, ydyw " Halsing."

*o Fywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. Christopher Basset, Athraw yn y Celfyddydau, o Aberddawen, yn Sir Forganwg, etc.*" Argraffwyd hwn yn Nhrefecca, yn 1784. Uwchben yr emyn ceir y geiriau,—"Mr. Basset ar ei Daith, rai misoedd cyn ei Farwolaeth a alwodd wrth Ddrws Ioan ap Gwilym, ac a Ddymunodd arno adael i'w Awen redeg ar y Geiriau Gwerth-fawr yn Esaia lxiii. 1, 2, 3, etc." Dafydd ab Ioan ydoedd y Parch. David Jones, Llangan, ac enw barddol John Williams ydoedd Ioan ap Gwilym. Curad ieuanc duwiol a phoblogaidd ydoedd Mr. Basset.

Y mae yn *Can Ddiddarfod* ddeg cerdd, a rhai ohonynt yn emynau. Yr olaf yn y llyfr ydyw'r hen emyn am yr "Amser prysur bwyso," etc. Dyma ef fel y daeth o feddwl a llaw yr awdur :

*Udgorn Floedd.*

Daw amser prysur bwyso
  Ar grefydd cyn bo hir,
Ceir gweld pwy sydd â sylwedd,
  A phwy sydd heb y gwir ;
Fy Nuw ! rho i mi weled,
  A oes arnaf ol dy law,
Can's dyna'r nôd a'r argraph
  Arddelir ddydd a ddaw.

Cyfansoddodd Ioan ap Gwilym amryw ganeuon ynglŷn â'r cyhuddiad yn erbyn y Parch. Peter Williams, a dengys y cwbl o'i waith feddwl cryf a diwylliedig. Nid yw ei emynau'n llawer, ac ychydig ohonynt a arferir heddyw, ond y maent yn llai anafus nag eiddo'i gyfoeswyr, a daw yn nes na neb ohonynt at orgraff newydd ein dyddiau ni.

Dyma gŵyn Thomas William wrth fynd heibio'r tŷ lle y buasai byw'r emynydd o St. Athan :

Ai hon yw'r anedd hono bu Williams ynthi'n byw ?
Er gwybod prin 'rwy'n credu mai'r anedd hyny yw ;
Mae'r myrtwydd mân a'r tulip, a'r lili gwyn ei gwawr,
A muriau'r tŷ'n mynegu mai eraill sy' yma 'nawr.

Hawddfyd i'r oriau hirfaith dreuliasom ganwaith, gwn,
Myfi a'm hen gydymaith dan dô yr hen dŷ hwn ;
O'm golwg, trwm yw'r galon, fe'i mudwyd, dacw'r fan,
Mae'i dŷ e'n awr wrth ochr hen furiau llwyd y llan.

Mewn hiraeth mi âf heibio i'r tŷ lle'r oeddyt ti,
Ac mi ddo 'nol drachefn a hiraeth gyda mi ;
Mewn misoedd bedwar ugain un gronyn llai nid yw,[1]
Fy nghyfaill fydd mae'n debyg byth bellach tra fo'i byw,

Efe oedd ganwyll hawddgar, llewyrchu'r oedd mor llon.
A minau fum dros amser yn hyfryd ger ei fron ;
Ond ana'l Duw a'i t'rawodd o'r llusern bridd i mâs,
Esgynodd fry, a'r llusern i lawr i'r ddaear lâs.

O foreu'r adgyfodiad yn fuan brysied, troed
Olwynion dy gerbydau'n fwy cyflym nac erioed,
I agor beddau'r seintiau, a'u hyfryd ddwyn i mâ's,
Fu cyd yn garcharorion tan gloeon angau glâs.

Heblaw gwasanaethu i ddangos parch dwfn Thomas William i goffadwriaeth ei gyfaill, a'i hiraeth hir am dano, dysg y gân hefyd fod gan awdur " Daw amser prysur bwyso " gymeriad glân yn llewyrchu fel y goleuni.

Y mae testunau a nodwedd caneuon *Llais y Durtur yn y Wlad* yn amrywio cryn lawer. Weithiau y mae'r awdur yn obeithiol a gwrol, a phryd arall yn brudd ac ofnus. O'i anterth ymlaen hyd y terfyn y mae'n hyderus a thanbaid. Eithr yn y llyfr hwn, ei gyntaf, tuedda fynychaf at y prudd. Fel pob emynydd Cymreig yn ei ddyddiau helbulus ef ar grefydd, sonia lawer am flinderau bywyd, ac aiff yn aml i lan yr afon fel pe i gynefino a'i sŵn, ac i sbïo hynt y " lan brydferth draw." Eithr tybiaf iddo golli ofn " grym y dŵr, a'i thonnog genlli " yn ei lyfr cyntaf. Y mae'r gân gyntaf, yr hon a rydd enw i'r llyfr, yn broffwydol a hoyw. Fel y nodwyd eisoes, seiliai'r awdur ei Ganeuon a'i Emynau ar rannau o'r Ysgrythyr :—

[1] " Ymhen ugain o fisoedd " sydd yn y pennawd i'r gân.

Cân I. "*Llais y Durtur.*"

"Haf yr Efengyl, neu alwad yr Iuddewon a chyflawnder y Cenhedloedd yn dyfod i mewn,—'Wele y gaeaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith; clywyd llais y durtur yn ein gwlad" (Can. ii. 11, 12).

Mae llais y durtur yn ein bro,
Y Gauaf du aeth heibio, do;
Fe gododd haul cyfiawnder gwell,
Y storm a'r g'law aeth draw y'mhell.

Mae'r Gaua' Iuddewig wedi ffoi,
Y tymhor trist sydd wedi troi;
Pan ddelo'r haul sydd eto 'mhell,
Yn uwch i'r lan hi ddaw yn well.

Euphrates fawr a'i ffrydiau saith,
Fe hyllt, fe sych ei dyfroedd maith;
Brenhinoedd hen y dwyrain draw,
I'w gwlad E'i hun trwy'r nos a ddaw.

Niwl a chysgodau'r cyfnos ffowch,
Olwynion cerbyd amser trowch;
A doed teyrnasoedd yr holl fyd,
Yn eiddo'n Harglwydd oll eu gyd.

Dichon mai un o'r caneuon tyneraf a gyfansoddodd Thomas William ydyw "Cwyn yr Unig ac Och'neidiau Hiraeth," ar ol ei wraig. Bu ef yn ffodus rhagor emynydd Llandeilo Fach. Gwraig ragorol ydoedd Jane William. Collwyd hi yn drigain ac wyth oed, Hydref, 1827. Y mae prif lyfr yr awdur, *Dyfroedd Bethesda*, yn ddwy ran, a'r olaf yn ganeuon. Rhoddir yma ddyfyniad o un a ddengys gyflwr a chymeriad yr hen bregethwr meddylgar a'r prydydd cartrefol tua diwedd ei daith. Testun y gân olaf yn y llyfr ydyw "Oedran, Profiad, a Deisyfiad yr Awdwr":

Ei Oedran :

Mae fy nydd yn mron terfynu,
  Nos sy'n nesu'n agos iawn ;
Mae chwech deg a thair o mlwyddau
  Wedi'u rhifo maes yn llawn ;
Yn ddeg mlwydd oed ces alwad boreu
  I'r Winllan ar y drydedd awr ;
Er diffrwythed y bum yno,
  Eto heb fy nhori lawr.

Ei Brofiad :

Eiddil ydwyf, gwan, digalon,
  Llawn o gymysg bron ei gyd ;
Chwant ymddatod, ofn marw,
  Mynd i'r bedd, a gado'r byd ;
O na chawn brofiadol deimlo
  Grym maddeuol nefol ras,
Cryf awelon perffaith gariad
  Fwrw f' ofnau gyd i mâ's.

Ei ddeisyfiad :

Arglwydd grasol rwy'n deisyfu
  Cael rhoi fynu'r ola' ffun,
Dan weddïo, bydd drugarog
  Wrth bechadur gwael ei lun ;
Rhad drugaredd y dydd hwnw,
  Pan bwy'n marw, dyna gyd,
Yw fy ngobaith unig yno,
  Wrth anturio'r bythol fyd.

Nid oes llawer o werth barddonol a llenyddol yng nghaneuon Thomas William mwy na'r rhelyw o'r hen emynwyr, ond y mae'n fantais ei weled ar ei waethaf. Bid sicr, dylid ei farnu yn ei oreu, ac y mae hwnnw yn ei emynau.

EMYNAU'R AWDUR.

Dywed y Parch. Thomas Rees, D.D., Abertawe, yn ei gofiant byr i'r emynydd sy'n rhagflaenu ei waith bardd-

onol, na ddigwyddodd ef weled dim yn yr iaith Gymraeg ond cyfansoddiadau goreu Williams, Pantycelyn, yn rhagori ar gyfansoddiadau Thomas William o ran tynerwch, profiad ac addaster i doddi calon y darllenydd. Yn hytrach na chredu y llywodraethid Dr. Rees gan ragfarn, gwell gennym gredu na ddigwyddodd weled cyfansoddiadau Dafydd Jones o Gaio, Morgan Rhys, Dafydd William, Llandeilo Fach, Ann Griffiths, Pedr Fardd, a Ieuan Glan Geirionydd. Eto, er nad ydyw bardd Bethesda'r Fro yn rhagori ar y rhain yn y ddawn " i doddi calon y darllenydd," y mae iddo safle anrhydeddus yn eu plith, a rhagora ar amryw ohonynt mewn rhai pethau, eithr nid mewn tynerwch a phrofiad.

Cyhoeddwyd llyfr emynau cyntaf Thomas William tan yr enw *Perl mewn Adfyd* yn 1814. Fel y nodwyd eisoes, ystyriaf *Llais y Durtur yn y Wlad*, a gyhoeddwyd yn 1812, yn fwy o ganeuon nac o emynau. Dyma wyneb-ddalen y *Perl mewn Adfyd :*

> " Perl mewn Adfyd, neu Ffynhonnau yn Nyffryn Bacca, sef Hymnau a ganwyd ar amrywiol destunau o'r Ysgrythyr Sanctaidd, wrth fynd trwy lyn gwylofain tua'r breswylfa lonydd. Gan Thomas William, gweinidog yr Ymneillduwyr, yn Bethesda, Swydd Morganwg.
>
> Pe rhon a gorfod ar y rhai'n,
> 'Rhyd glyn gwylofain dramwy,
> Gosodant ffynnon iddynt hwy,
> A'r gwlaw a'i lleinw fwy fwy.—*Ed. Prys.*
>
> Merthyr Tydfil, Argraphwyd dros yr Awdwr, gan W. Williams, 1814."

Nid oes onid dwy flynedd rhwng cyhoeddi *Llais y Durtur* a'r *Perl mewn Adfyd*, eithr y mae'n fwy na thebyg fod llawer dwy rhwng cyfansoddi'r ddau lyfr, oblegid gwahaniaethant yn fawr mewn gwerth llenyddol yn ogystal ag mewn profiad. Ceir gwall odl, tor mesur, a darnio

geiriau'n aml yn y cyntaf. Nid yw pob ffigyr mor addas ag y dylai fod, ac aiff y meddwl yn rhy gloff i deithio hyd ddiwedd y gân weithiau. Ond yn y *Perl* collir amryw o'r gwallau hyn, a cheir yn eu lle naturioldeb, glendid iaith, a chwaeth bur. Y mae yn yr ail lyfr hefyd lai o'r prudd a'r ofnus sydd yn y cyntaf, ac ychydig o ôl yr " wylofain " sydd yn y caneuon a geir ar yr emynau. Y mae'r mwyafrif o'r emynau yn nwyfus a chalonnog gan obaith.

Ceir yn y *Perl mewn Adfyd* un a deugain o emynau, ac er nad oes llawer ohonynt yn yr emyn-lyfrau a arferir heddyw, y mae amryw allan ar ryw gyfrif heblaw diffyg teilyngdod. Y mae emynau na ellir eu canu ond yn awyr gynnes diwygiadau. Gwyddys am amryw y byddai'n wrthun eu cynnyg ar fore gaeaf mewn oedfa fach oer ei hysbryd. Meddylier am *Ffynnon Jacob* ar adeg felly. Fe rewai'n un telpyn digon cadarn i'r cynhulliad trymaf ei fydolrwydd lithro trosti. Eithr ar foreuau hafaidd, yng ngwên haul, a gwres ysbrydol yn llenwi awyrgylch yr oedfeuon yn Niwygiad 1904, ceid hwyl anarferol ar ganu " Ffynnon Jacob." Dïau pe trefnid llyfr emynau yn ystod diwygiad grymus y byddai'n wahanol iawn i'r rhai sydd gennym, eithr annoeth fyddai gwneuthur hynny gan nad cynefin yr eglwys ydyw gwres mawr a goleuni tanbaid. Un o emynau'r *Perl mewn Adfyd* ydyw " Ffynnon Jacob," a chan nad ydyw mewn unrhyw gasgliad enwadol o emynau rhoddir ef yn yr ysgrif hon :

*Ffynnon Jacob, Ioan iv.* 6.

Y gŵr ar ffynnon Jacob
  Eisteddodd gynt i lawr,
Dramwyodd trwy Samaria,
  Mae'n tramwy yma 'nawr ;
'Roedd syched arno yno,
  Am dan eu hachub hwy,
Mae syched arno eto,
  Am achub llawer mwy.

Goleua'n meddwl ninnau,
  I weld dy ddawn o Dduw,
A phwy sy'n galw arnom
  I yfed dyfroedd byw ;
A gadael ein pydewau,
  A'u dwfr lestri'u hun,
I yfed dyfroedd gloywon
  O ffynnon Mab y dyn.

Efe yw dwr y bywyd,
  A'i hyfo, gwynfyd hwy,
Traid o bydewau eraill
  Ymofyn dwfr mwy ;
Bydd dwfr ffynnon Beth'lem,
  I'r rhai y daeth i'w rhan,
Yn ffynnon o ddwr bywiol,
  Yn tarddu byth i'r lân.

Ni wyddys pa un ai Thomas William ynte'r argraffydd sy'n gyfrifol am y geiriau " Am dan " yn y pennill cyntaf, a " Traid " yn yr olaf. Efallai yr arferid y geiriau yn iaith lafar Bro Morgannwg am " am gael " ac " ni raid." Ofer i neb mewn gwaed oer geisio beirniadu'r hen emyn. Byddai hynny'n hyfdra onid yn rhyfyg wedi hwyl y diwygiad. Daw tro ar fyd yr eglwys eto, a chyneuir tân, lleferir â'r genau, ac ymlidir ymaith bob beirniadu anffafriol mewn afiaeth ysbrydol. Ac onid oes le i " Ffynnon Jacob " ymhlith urddasolion ein llyfrau emynau, ceir rhywun o hyd ymhob Diwygiad crefyddol mawr i arwain etifeddion newydd yn eu hoen i orfoleddu gerllaw'r " Ffynnon " ac i yfed o'i dyfroedd gloyw.

Ymhlith emynau'r *Perl* ceir amryw sy'n boblogaidd, megis :

O'th flaen, o Dduw, rwy'n dyfod,
  Gan sefyll o hir-bell, etc.

Mi glywais gynt fod Iesu,
  A'i fod E' felly 'nawr, etc.

O! pryn y gwir, fy enaid pryn,
Na werth ar un amodau, etc.

Gobaith yw angor f'enaid drud,
Wrth groesi cefnfor garw'r byd, etc.

" *Dyfroedd Bethesda.*"

Prif lyfr yr awdur ydyw *Dyfroedd Bethesda*, a gyhoeddwyd yn 1824. Mae'n debyg mai enw'r capel yr addolai ynddo a awgrymodd enw'r llyfr yn ogystal a thestun yr emyn cyntaf ynddo. Y mae'r llyfr yn ddwy ran, y gyntaf yn emynau, a'r olaf yn ddeg o ganeuon ar wahanol destunau. Llyfr prin ydyw, ac anodd rhoddi llaw arno. Dyma wyneb-ddalen yr un a geir yn Llyfrgell Caerdydd :

DYFROEDD BETHESDA

*Yn Ddwy Rhan*
Yn gyntaf,
*Hymnau.*
ar amryw Destynau.
Yn ail
*Caniadau*
ar amryw Ystyriaethau

---

Gan *Thomas William,*
*Bethesda.*

---

Yr ail argraffiad, wedi ei ddiwygio a'i helaethu.

---

Col. iii. 16.
" Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth yn mhob doethineb gan ddysgu, a rhybuddio bawb eu gilydd, mewn Salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol, gan ganu trwy ras yn eich calonau i'r Arglwydd."

Caerdydd : Argraffwyd gan R. Lloyd, 1824.

Cyflwynwyd y *Perl mewn Adfyd* i eglwys Bethesda, ond y mae'n amlwg y bwriedai'r emynydd i Gymru gyfan yfed o *Ddyfroedd Bethesda*, oblegid ar ei ddechreu ceir y pennill hwn :

Doed Morganwg, deued Mynwy,
  Penfro, Arfon, Fflint a Môn,
Doed Maesyfed a Brycheiniog,
  Doed Caerfyrddin fawr ei sôn,
Aberteifi a Meirionydd,
  Dinbych a Threfaldwyn lâs,—
Dewch a chroeso i brofi dyfroedd
  O Bethesda ddaeth i mâ's.

Gelwir hwn yn " ail argraffiad, wedi ei ddiwygio a'i helaethu," eithr i fod yn fanwl a chywir, nid ail argraffiad mohono. Gelwir ef felly am y cynnwys emynau goreu'r *Perl mewn Adfyd*, a gyhoeddwyd ddeng mlynedd yn gynt. Y mae yn *Dyfroedd Bethesda* gant ac wyth o emynau ; mwy na chymaint arall ag sydd yn y *Perl*, ac yn ol yr awdur gadawyd allan lawer o emynau'r *Perl.* Yn y rhagymadrodd i *Dyfroedd Bethesda* dywedir,—" Fe argraffwyd amryw o'r hymnau a'r caniadau yma o gylch deuddeg mlynedd a aeth heibio, llawer yn ymofyn am danynt, heb un i'w gael, a barodd i mi eu hail argraffu, er nad prin y gellir yn addas ei alw yn ail argraffiad, am fod llawer o'r cyntaf wedi ei adael allan, a llawer wedi eu diwygio, a llawer wedi eu hychwanegu."

Y mae bron bob peth o eiddo'r emynydd gwerth ei gadw, yn emynau a chaneuon, yn y llyfr hwn. Diogelir ynddo bopeth gwerthfawr oedd yn ei lyfrau cyntaf, ac ychwanegir degau o emynau gwir dda. I fwrw barn ar Thomas William fel awdur ni raid myned trwy ei holl lyfrynnau, oblegid pa werth bynnag sydd yn eu goreu hwy, y mae goreu'r emynydd yn fwy a gwell, a cheir ef yn y llyfr hwn. Prin hefyd y ceir syniad cywir a llawn am y dyn oddiwrth ei emynau poblogaidd yn y gwahanol gasgliadau a ddefnyddir gan yr eglwysi. Er eu bod oll

yn dda, ychydig ydynt o'u cymharu â'r nifer a gyhoeddwyd ganddo ef. Y mae rhai hefyd wedi eu cyfnewid, er nad mor helaeth ag eiddo'r mwyafrif o emynwyr mawr y Diwygiad. I benderfynu neilltuolion meddwl a chymeriad yr awdur a'i le ymhlith emynwyr ei oes, rhaid ei adnabod yn ei brif lyfr. Ceir yn *Nyfroedd Bethesda* rymuster meddwl, dyfnder teimlad, a gwroldeb ysbrydol a brawf fod yr emynydd yn ddyn anghyffredin.

*Nodweddion ei Emynau.*

Dywedir weithiau mai emynydd Natur oedd Williams Pantycelyn, ac y ceir bron bob agwedd ar Natur yng Nghymru yn ei Emynau. Cerdda'r llwybr cul a'r dyfnder mawr islaw. O'i lwybr gwêl y mynyddoedd pell. Gwylia'r ystorm yn casglu ei nerthoedd. Dwg y daran ddychryn byd a ddaw i'w enaid, a gwêl hefyd beidio'r glaw a chilio'r cymylau. Profodd oerni nos gaeaf ar y mynydd llwm, a rhodiodd trwy feillion ar lan afon fore haf yn y dyffryn. Eithr oni ellir dywedyd hyn oll am fwyafrif emynwyr goreu Cymru? Nid gorchwyl hawdd fyddai i unrhyw brydydd cynefin o'i febyd â mynyddoedd, dyffrynnoedd, ac afonydd lluosog, gau allan o'i emynau ddarluniau o Natur. Prin y dylid ystyried hoffter o Natur yn neilltuolrwydd unrhyw emynydd Cymreig, oherwydd y mae'n gyffredin i'r mwyafrif ohonynt. Dymuna Thomas William yntau gopa'r bryn "i weled ardaloedd sydd well," ac hiraetha am weled y Gŵr a " rydiodd yr afon o'i flaen."

Y mae'n ddiddadl fod Williams Pantycelyn ar ei ben ei hun fel emynydd, a hynny'n fwyaf arbennig oherwydd rhif ei emynau da. Nid oes ganddo well emynau na rhai o'i gydoeswyr, eithr y mae ganddo fwy o rai da. Ni thybiaf y rhyfygir dim wrth osod Thomas William ymhlith y sawl sydd yn ymyl Pantycelyn. Dichon y gellir dywedyd fod mwy o asbri grymus a gwresog yn emynau Dafydd Jones, Dafydd William a Morgan Rhys, nag sydd yn eiddo Thomas William. Canai ef tan y cwmwl, a'r hin yn oer weithiau, a hwythau tan awyr las yng ngwres mawr y

Diwygiad. Onid esgynnai mor uchel i'r glesni glân, ni ddisgynnai chwaith i'r gors a'r llaid. O safle lenyddol mae'n rhagori ar bob emynydd a euthai o'i flaen. Chwilier ei emynau a cheir ei feddyliau'n eglur mewn iaith lân. Ni chymysga ffigyrau, ac y mae pob ffigyr yn addas. Cana'n ddirodres a choeth, a glŷn wrth ei bwnc trwy'i emynau hiraf. Y mae'n gyfartal â'r goreu mewn naws ysbrydol a naturioldeb, ac yn rhagori arnynt oll mewn glendid llenyddol. Ystyrrir emynydd Bethesda'r Fro yn un o gymwynaswyr mawr y genedl Gymreig, ac yn hawlio lle ymhlith ei phrif emynwyr.

## IV.—EDWARD JONES, MAES Y PLWM.

Un o feibion y ddeunawfed ganrif ydoedd Edward Jones yntau. Mawr yw dyled Cymru i'r ganrif honno, ac fe gynhydda'i dyled o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn ein horiau hamdden, a'n gwaed yn oer, cyfaddefwn ragoriaeth cynnyrch meddwl cenhedloedd eraill ar eiddo'n cenedl ni. Y mae cysgod yr estron yn drwm ar ein cyfundrefnau diwinyddol. Ni chymerwn arnom fod yn bobl wyddonol. Cyn belled ag y gwyddys ein hunig arlunydd o'r gradd flaenaf ydyw Richard Wilson, o Benegoes. A dysg hanes yr Eisteddfod y perthyn hufen cerddoriaeth i genhedloedd eraill. Yn nheml barddoniaeth y byd y mynnwn ni safle uchel. Y mae Dafydd ap Gwilym, Goronwy, Islwyn, Ceiriog, ac eraill yn feirdd gwych; ac eto, ychydig o rai pwyllus a geir i ddadleu dros gyfartaledd hyd yn oed mewn barddoniaeth. Yr unig beth, hwyrach, y gall Cymru ymffrostio llawer ynddo yng nghymanfa cenhedloedd y byd ydyw ei hemynyddiaeth. Nid oes well, os hafal, emynau yn perthyn i unrhyw genedl, a chanrif fawr ein hemynyddiaeth ydyw y ddeunawfed.

Hyd rhawd Maes y Plwm ydoedd saith deg a phump o flynyddoedd. Ganed ef mewn tyddyn o'r enw Tan y Waen, Prion, ym mhlwyf Llanrhaeadr yng Nghymeirch, Sir Ddinbych, Mawrth 19, 1761, a bu farw yng Nghilcain

Rhagfyr 27, 1836. Daeth yma yn y mis yr enfyn gaeaf mewn corwyntoedd ei ddognau olaf o erwinder i fywyd gwlad, ac ymadawodd yn swn canu ei garolau a sonia am nefoedd yn anfon ei goreu i fywyd byd cyfan. Ni thrafferthodd ei rieni, John a Margaret Jones, ond ychydig ynglŷn ag addysgu'r bachgen yn fydol na chrefyddol. Yr oedd y tad yn ddyn meddylgar a thyner, a'i unig fachgen yn annwyl iawn ganddo. Ond ar ei wely marw, a'i fab yn ymyl deg oed, y sylweddolodd ei rwymedigaeth i ofalu am ddiwylliant meddwl a chalon yr hogyn, ac â'i anadl olaf dymuno â thaerni am i'r fam roddi iddo gyfleusterau addysg, ac yn arbennig addysg grefyddol; gwnaeth hithau yn ol ei ddymuniad. Bu am dymor byr tan addysg gyda Mr. Lloyd, gweinidog yr Annibynwyr, a gadwai ysgol yn ei gapel yn Ninbych, ac ymhen blynyddoedd, pan oddeutu dwy ar hugain oed, aeth am beth amser i ysgol yng Nghaerlleon. Cafodd ddigon o addysg i godi syched arno am ragor, a thrwy hunanymdrech diogelodd iddo'i hun wybodaeth eang a chryn lawer o ddiwylliant. Dygid ef pan yn ieuanc gan ei fam i gyrddau'r Methodistiaid Calfinaidd i wrando rhai o bregethwyr mwyaf pob oes. Daeth o hyd hefyd i hanes awdur *Taith y Pererin*, ac effeithiodd darllen y llyfr deimladau rhyfedd ynddo. Ymunodd fel aelod â'r Methodistiaid nos Fawrth y Pasg, 1787, ac ni throdd ei gefn ar yr eglwys na'i grefydd byth. Gwelir mai'r galluoedd amlwg yn ffurfiad cymeriad Edward Jones hyd yma ydoedd Ysgol Capel yr Annibynwyr, Cofiant John Bunyan, a phregethu'r Methodistiaid. Dylai nerthoedd tri enwad wneuthur dyn lled dda ohono.

Pan yn bedair ar hugain oed ymbriododd â Jane Pierce, o Blwyf Llanrhaeadr, a phreswylient ym Mryn y Gwynt Isaf. Claddodd ei wraig ymhen naw mlynedd, ac ymbriododd eilwaith â Margaret Roberts, Tŷ Mawr, Green, Dinbych. Cafodd ddau ar bymtheg o blant, pedwar o'r wraig gyntaf, a thri ar ddeg o'r ail. Yn 1801 aeth i fyw i Faes y Plwm, a chartrefodd yn yr hen amaethdy bedair blynedd ar hugain,—cyfnod digon hir i'r enw lynu wrtho

am byth. Yn 1825 gadawodd Faes y Plwm i'w fab Edward, ac aeth yntau i fyw i Lyn y Pandy, yn sir Fflint. Symudodd oddi yno drachefn yn 1829 i Gilcain, ac ni symudodd mwyach. Yno y bu farw.

Yr oedd Edward Jones yn ddyn deallus a medrus, a throai ei law at lawer gorchwyl. Medrai drin tir a magu ych, trefnu ffigyrau mewn cyllidfa, a thywys y meddwl ieuanc a diwybod. Yn ystod ei drigias ym Maes y Plwm cadwai ysgol weithiau, a phryd arall gweithiai yn y *Custom House* yn Lerpwl. Bu am beth amser yn cadw ysgol yng Nghapel yr Annibynwyr yn Ninbych, a gwnaeth yr un gorchwyl yng Nghapel y Methodistiaid yn Llyn y Pandy hefyd. Yn 1805 aeth i Gaerlleon i arolygu'r argraffiad Cymraeg o Feibl y Parch. Samuel Clarke, ac arhosodd yno flwyddyn.

Ymddengys mai simsan braidd ydoedd rhan gyntaf gyrfa Edward Jones, ac yr edrychai arweinwyr craff a manwl y Corff â pheth cilwg arno, ond gwnaeth crefydd ddyn newydd ohono, a chyn hir canfuwyd fod ei wybodaeth a'i sefydlowgrwydd a'i dduwioldeb yn hawlio ei osod ymhlith y blaenoriaid; a dyn eithriadol oedd Blaenor Methodus y dyddiau hynny.

### Ei Waith Barddonol.

Y mae holl waith yr awdur yn farddoniaeth, neu ar ffurf barddoniaeth. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ganddo ef ei hun tan yr enw "*Hymnau, etc., ar Amryw Destynau ac Achosion. . .* Dinbych, Argraffwyd gan T. Gee, Pris 6d. 1810." Gwelir oddiwrth y Rhagymadrodd i'r llyfr dynered cydwybod yr awdur ac mor ddirodres ydoedd:—

"Fy Mrodyr Anwyl,

Dyma'r tro cyntaf i mi eich annerch ag un math o waith argraffedig; ac yr wyf yn sicr na buaswn yn eich annerch yn bresennol, oni bai taerineb ac anogaeth fy nghyfeillion cartrefol a phelledig. Oblegid er pan ddechreuais ganu, hyd yma, ni fwriedais argraffu dim yn fy oes, ond fel y'm hanogwyd. . . .

Nid ydwyf o'm rhan fy hun yn barnu fy ngwaith yn werth ei argraffu, ond gadawaf i eraill farnu. . . .

Mi welais amryw benillion o'm gwaith wedi eu hargraffu gan eraill; y rhai hyny hefyd a roddais i mewn yma, gan dybio na farna neb fy mod yn gwneud yn anweddaidd."

Nid oes yn y llyfr ond tri ar ddeg ar hugain o emynau a thair cân. Eithr y mae'r rhan fwyaf o emynau poblogaidd Maes y Plwm ynddo, megis:

Llond y nefoedd, llond y byd, etc.

Mae'r Tad yn anfon gweision gwych, etc.

Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw, etc.

Pob seraff, pob sant, etc.

Yn Sion mae cyfraith ragorol, etc.

Yr ym yn disgwyl yn y man
Ryw fore anarferol, etc.

Nefola fy meddyliau, etc.

Yn 1820, cyhoeddwyd "Hymnau ar Amryw Destynau ac Achosion, a'r rhan fwyaf ar y Mesurau neu y Tonau a arferir yn gyffredin. At hyn yr ychwanegir Marwnadau, sef un am y Parch. Thomas Charles, A.B., Bala, a'r llall am ei Fawrhydi George III. Hefyd Carolau a Chaniadau . . . Aberystwyth. . . Samuel Williams. . . . 1820."

Y mae yn y llyfr hwn dri a deugain o Emynau, dwy Farwnad, chwe Carol, a phedair Cân.

Yn 1829 argraffwyd "Hymnau, etc., ar Amryw Destynau ac Achosion. . . Rhuthin. . . Gwasg Taliesin, gan Robert Jones, Pris 6d. 1829." Adargraffiad o "Hymnau, etc., 1810, yw'r llyfr hwn. Eithr y mae emynau 5, 13, 15, 25, 26, 30, 31, 32, a'r penillion a wnaed i'w canu wrth gladdu Dafydd Roberts, o Green, Dinbych," a geir yn Arg. 1810, wedi eu gadael allan. Ni wahaniaethant fawr mewn dim arall.

Y nesaf i'w gyhoeddi ydoedd " Gwialen i Gefn yr Ynfyd, sef Cân i'r enllibiwr a feiddiodd waradwyddo yr Athrawiaeth Galfinaidd, yr hon sydd yn ol duwioldeb. . . . Argraffwyd dros yr awdur gan E. a J. Lloyd, Wyddgrug, 1831."

Cyhoeddwyd yr uchod yn ystod oes yr awdur, ac yna daeth " Cofiant, ynghyd a Gweddillion Caniadau . . . Edward Jones . . . gan ei feibion, John a Daniel Jones. . . . Wyddgrug. . . H. ac O. Jones. . .MDCCCXXXIX." Yr argraffiad diweddaf hyd yma o waith yr awdur ydyw " Caniadau Maes y Plwm . . . Treffynnon. . . . P. M. Evans, MDCCCLVII."

Dywed cyhoeddwr y *Caniadau* yn ei ragymadrodd, " Y mae y cyfan a gyhoeddwyd yn flaenorol gan yr awdwr ei hunan, a chan ei feibion ar ei ol, wedi eu cyfleu ynddo." Nid yw hyn yn gwbl gywir, oblegid ni cheir yn y llyfr y gân " Gwialen ar Gefn yr Ynfyd."

Y mae'n debig na farnai y gân hon yn un " gyfaddas a theilwng i'w chadw a'i throsglwyddo i oesoedd y dyfodol." Prin yr oedd hyn yn deg, oblegid yr oedd y gân yn boblogaidd trwy'r holl wlad pan gyhoeddwyd hi, a gwnaeth waith mawr ac effeithiol, yn ol y Dr. Owen Thomas yn ei gofiant i'r Parch. John Jones, Talsarn. Ac heblaw hyn, ceir trwy'r gân hon gipolwg ar ochr i feddwl ac ysbryd yr awdur nas cynrychiolir yn ei emynau a'i garolau. Math ar gerdd duchan filain ac eithafol ydyw, a dengys mor fustlaidd yr aethai ysbryd yr hen brydydd a ganasai brofiad addfwyn saint yn ei emynau. Pair hanes inni gredu fod Maes y Plwm yn ddyn serchus wrth natur, yn dduwiol trwy ras, ac yn ddiddan dros ben mewn cwmni, ac eto dyma gân a'i chwerwder a'i dig mewn iaith gywrain a brathog yn ddigyffelyb. Dywedir y deffry rhyfel yr anwar a gysga'n dawel ym mywyd rhai llwythau a ddychwelwyd at Gristionogaeth yn Affrica, ac y gorymdeithiant dan ganu eu hen ganeuon paganaidd. Mewn rhyfel yr oedd Maes y Plwm,—y ddadl fawr rhwng y Calfiniaid a'r Arminiaid, a deffrowyd y drwg a'r chwerw a gysgai yn nyfnder ei ysbryd.

Achlysur y gân ydoedd cyhoeddi llyfryn o'r enw *Lladmerydd* gan y Parch. Edward Jones, gweinidog Wesleaidd, a breswyliai ar y pryd yn Llanidloes. Cynhwysai'r *Lladmerydd* nodiadau eglurhaol ar Dabl yn dangos "trefn yr achosion o Iachawdwriaeth a Damnedigaeth, yn ol Gair Duw." Nid oedd y Dabl, medd y Doctor Owen Thomas, ond cyfieithiad o daflen a geid yng ngwaith Perkins, a ragflaena ei draethawd, "A Golden Chain; or description of Theologie, containing the order of the causes of Salvation and Damnation, according to God's Word." Dysgai'r Parch. Edward Jones i un o bregethwyr y Methodistiaid wneuthur copïau o'r daflen a'u gwerthu. Mynnai Maes y Plwm a'i blaid y gwneid cam â hwy gan y *Lladmerydd*, na chredent ac na ddysgent y Galfiniaeth a eglurid yn y Dabl. Cynhyrfwyd holl ysbryd yr hen brydydd, a chanodd ei gân o ogan a gwawd. Dyma enghraifft o'r pum pennill a thrigain sydd ynddi:

Clywch hanes yr Achwynwr, cyhuddwr dwndwr dig,
Sydd wedi bwrw'i boerion yn boethion trwy ei big;
Trwy'r big mae'n chwithig chw'thu llid teulu pygddu'r pwll,
Sydd wedi llynnio'n llonydd yn ei ymmenydd mwll.

Ei safn yw cafn y cyfnos, sy'n dangos ei hen dwyll;
Mae'n eglur wrth ei Dablen nad ydyw'n perchen pwyll;
Ei waith a'i araith oeraidd, llysnafaidd, ciaidd, câs,
Addefa'i fod i ddiafol yn hollol weddol wâs.

Mi ddwedaf hyn i'r Armin, er gwaetha'i fin a'i faw,
Nid wrth ei arch na'i orchwyl er disgwyl chwaith y daw;
Fe lwngc y fwyn Galfiniaeth Arminiaeth yn y man,
Fel gwartheg culion Phar'o ar ol hir wingo'n wan.

Ac felly'r main Arminian, Wesleyan benwan bwngc,
Hen ddyfais mawrgais Morgan, sydd druan yn ei drwngc;
Athrawiaeth a gollfarnwyd, sef a gondemniwyd yw;
Yn Idloes mae'n anadlu am godi i fyny'n fyw.

Fe ddwedodd yr Arminiad nad dim anghariad oedd
Yn ennyn ei wenwynig, fileinig, flysig floedd ;
Ond pwy a goeliai gelwydd creadur sydd a'i sail,
Neu ddewryn llwyr mor ddiras, ar domen gâs o ddail.

Bedyddwyr, bywyd diddig, a phwysig deulu'r ffydd,
A phawb o nodd Trefnyddion, ar lwybrau Seion sydd,
A theulu Eglwys Loegr, neu dyner ſwynber fam,
Sydd oll gan ormes Armin yn goddef cym'un cam.

### Ei Ganeuon Eraill.

Yr oedd Twm o'r Nant a Maes y Plwm yn gryn gyfeillion, a llawer o debygrwydd yn neilltuolion eu hawen, yn ogystal ag yn eu tymheredd a'u tueddiadau naturiol. Dywedir i Faes y Plwm yn ei ddyddiau bore cyn ei droi, fel Twm, ganu llawer o ganeuon ysmala a gwageddus, ond â Twm yn aros yng nghwmni'r anterliwt a'r gân ddigrif, dyrchafwyd Maes y Plwm i gwmni'r garol a'r emyn.

Y mae holl ganeuon argraffedig yr awdur ar destunau moesol ac ysgrythyrol, rhai yn bur dda, a'r mwyafrif yn gelfydd a chywrain. Nid yw'n debig y swynwyd llawer arno gan yr Eisteddfod a chystadlu ; o gyfeiriadau eraill y deuthai ei ysbrydiaeth i ganu. Cyn belled ag y gwyddys, unwaith y cystadleuodd, sef yn Eisteddfod Trallwm, yn 1824. Y testun ydoedd " Cân ar Ffolineb Swyngyfaredd, a phob ofergoelion eraill," ac er bod beirdd fel Cawrdaf a Bardd Nantglyn yn yr ymdrech, Maes y Plwm a orfu. Y mae'r gân hon yn ddifyr i'w darllen, nid yn gymaint oherwydd ei meddyliau, eithr oherwydd ei chelfyddyd.

Canodd lawer o gynghorion i ieuenctid ac i broffeswyr crefydd, ac ystyrid ef yn llaw fedrus ar y garol. Y mae yn y *Caniadau* naw carol, a phob un yn faith. Dyma ddau bennill yn enghraifft o gynnwys y Carolau :

Mesur : *Difyrwch Gwyr y Gogledd.*

Clywch lais ac uchel lef,
Tôn telynorion nef,
I'r baban byw,

Oen Duw, pan aned ef,
Yn seinio islaw'r ser
Nadolig bwysig bêr,
Gân beraidd flas,
Tôn addas foliant Nêr;
O'r llu nefolaidd weddaidd wawr
Fu'n gweld eu Brenin, fyddin fawr,
Yn sugno bronau'i blentyn
Sef llwchyn gwael y llawr;
Ac wrth weld hwnw a'i enw Ior,
A'i air amgylchai ymylau'r môr,
Yn gwisgo'r natur ddynol,
Fe ganai'r nefol gôr.

Gweld Barnwr mawr y byd,
Y Gair gan Fair yn fud,
Y Gŵr a'i gwnaeth,
Yn cael magwraeth cy'd,—
Ei fagu i drechu draig
Ar rinwedd bronau gwraig,
Troi'r llwch yn llaeth,
Er cryf fagwraeth Craig,—
Fe synai'r nefol, lesol lu,
Am wisgo'n Brenin yn y bru
Mewn corff o bridd daearol,
Y natur ddynol ddu;
Ar y rhyfeddod hynod hyn,
Mae'r nefol gwmni'n sylwi'n syn,
Sef geni, marw, a chladdu
Duw'n mysg ei deulu'n dŷn.

LLYFR LLAWYSGRIF YR AWDUR.

Yr oedd Edward Jones yn 59 mlwydd oed pan gyhoeddodd y rhan gyntaf o'i waith yn 1810, eithr cyfansoddwyd amryw o'r emynau sydd yn y llyfr, a rhai o'r carolau sydd yn yr ail lyfr (1820) cyn ei fod yn 28 oed, oblegid ceir hwy, neu rannau ohonynt, mewn Llyfr Llawysgrif

o eiddo'r awdur sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ar wyneb-ddalen y Llyfr Llawysgrif y mae:

"Edward Jones, o Fryn y Gwynt isa, yw perchennog y Llyfr ymma. Gorphenaf 29. 1789."

Gwahaniaetha emynau a charolau'r Llyfr Llawysgrif gryn lawer oddi wrth y rhai a argraffwyd dros yr awdur, ac yn *Caniadau Maes y Plwm*. Diau mai'r awdur ei hun sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth, a diddorol fydd sylwi ar y cyfnewid a fu yn ystod y deng mlynedd ar hugain rhwng y cyfansoddi a'r cyhoeddi.

Y mae amryw o'r carolau a argraffwyd, neu rannau o honynt, yn y Llyfr Llawysgrif, eithr ni wahaniaethant lawer onid mewn geiriau, ond ceir gwahaniaeth mawr yn yr emynau. Yn y *Caniadau* ceir deuddeg pennill yn emyn "Yn Sion mae Cyfraith ragorol," etc., eithr nid oes ond chwech yn y Llyfr Llawysgrif. Gwahaniaetha'r ddau hefyd lawer o ran trefn a chynnwys. Wythfed pennill emyn y *Caniadau* ydyw'r cyntaf yn y Llyfr Llawysgrif, ac y mae fel hyn:

Rhyfeddod gweld Hanfod pob Hanfod,
O syndod lle rhoddodd ei serch,
Yn sugno [Ym mru] ei greadur ei hunan,
Ac hefyd [Ai eni fo] yn Faban yw ferch;
Yr hwn nas galle'r nefoedd ei gynnwys,
Fŷ naw mis dan wregis y wraig,
Cael ei eni a'i fagu in 'i'n fugel,
Cyn myned i ryfel a'r Ddraig.

Bu cyfnewid mawr hefyd yn y pennill a ganlyn o'r un emyn:

Mi fum wrth borth uffern yn curo,
*'N dymuno* cael myned i mewn,
*Nes dwedyd o'r* Gwr a'r agoriad,
Ei bod *wedi chauad* na chawn;
*O'r amser tra bum yno'n sefyll,*
*Fe agorodd i eraill mi wn,*
*Pwy wel arnai fai am ei garu,*
*'Does gyfaill . . . . . . . fel hwn.*

Y mae naw pennill yn emyn "Y Cyfamod Gras," yn y *Caniadau*,[1] eithr nid oes onid pedwar yn y Llyfr Llawysgrif, ac y mae'r trydydd a'r pedwerydd heb fod yn yr emyn argraffedig :

Trwy gamwedd un daeth barn ar bob dyn byw,
Rhoes Adda ei had, oll dan gondemniad Duw,
Felly'r un modd, trwy Iesu y deuodd dawn
I gyfiawnhad, ceiff llu adferiad llawn.

Crist yw ein gwledd, ein hedd a'n cyfiawnhad,
Ffordd fywiol rwydd i'n dwyn i wydd ei dad ;
Ei arogl ef sy'n llenwi'r nef yn llawn,
Pereiddio mae weddiau ffiaidd iawn.

Sylwer hefyd mor wahanol i'r penillion argraffedig ydyw'r rhai a ganlyn o'r Llyfr Llawysgrif :

Cyfamod llawn, da, uniawn, ydyw oll,
Ei setlo wnaed a'i selio a gwaed heb goll,
Ac felly bu ein Meichiau'n gwaedu'n gaeth,
Dros rai fel ni, a'r nef boddloni wnaeth.

Fe syrthiodd Pen cyfamod Eden, do,
Bu hwnnw'n grwn, ond drylliwyd hwn ryw dro ;
Fe bery'r ail a'i gadarn sail yn syth,
Tu draw i'r lan ac ni syrth ei ef byth.

Tra safo'n siwr y Pen amodwr mawr,
Y plant nid a, byth, Haleluia i lawr ;
Er mynd i'r bedd a'u gwedd yn ddigon gwael,
Dwed wrth eu llwch, dowch, codwch, rhaid eich cael.

[1] Hyd y gwelais i y mae'r emynau yn y *Caniadau* fel y maent yn argraffiadau 1810 ac 1820.

Ceir hefyd yn y Llyfr Llawysgrif un pennill nas ceir yn emyn " Mawl am Geidwad,"—" Pob Seraph, pob sant," etc., yn y *Caniadau* (td. 59):

> Crist Iesu 'dyw'n gwledd,
> Ein haberth a'n hedd,
> A'n sail am ogoniant i gyd ;
> Ein cysgod a'n cân,
> Mewn dwr ac mewn tân,
> Gwnaed uffern ei hamcan o hyd.

## Ei Emynau.

Gŵyr Cymru benbaladr, Ogledd a De, am Edward Jones, Maes y Plwm, a dywed y Parch. Owen Jones, fod rhywbeth yn ei waith a'i gwna'n anfarwol.[1] Ar beth, tybed, y gorffwys anfarwoldeb yr hen brydydd ? Nid ar ei ganeuon moesol na'i farwnadau, oblegid ni ellir, er trugaredd lawer, eu gosod hwy yng nghwmni goreuon yr ail ddosbarth ; ac er rhagored ei garolau, prin yw nifer hyd yn oed y llenorion sy'n eu darllen yn awr. Nid ar y gân " Gwialen i Gefn yr Ynfyd " chwaith, oblegid anwybyddwyd hi gan gyhoeddwr y *Caniadau* yn 1857. Beth a'i ceidw'n fyw, tybed ? Dywed Charles Ashton mai fel emynydd y mae fwyaf adnabyddus yn yr oes hon.[2] Felly, rhaid myned i'w emynau am achos ei anfarwoldeb ; eithr er chwilio anodd dyfod o hyd iddo. Cyfansoddodd yr awdur 171 o emynau, ond ychydig ohonynt sy'n adnabyddus. Yn wir, y mae mwy o eiddo emynwyr a ystyrrir yn y trydydd dosbarth yn adnabyddus nag sydd o'i eiddo ef. O'r 171 ni arferir dros ddeg ers cenhedlaeth neu ragor. Rhif ei emynau yn llyfrau emynau enwadau Cymru yn bresennol ydyw,—*Emyniadur yr Eglwys*, 2 ; llyfr y Wesleaid, 2 ; llyfr y Methodistiaid, 6 ; llyfr y Bedyddwyr, 7 ; llyfr yr Annibynwyr, 8. Y mae'n amlwg nad ydyw hyd yn oed emynau Maes y Plwm

[1] *Cymru*, Y Parch. Owen Jones.

[2] *Hanes Llenyddiaeth Cymru*, Charles Ashton.

yn boblogaidd, neu o'r hyn lleiaf, nad oes ond ychydig ohonynt felly. Y mae ychydig, ac arnynt hwy y dibynna'i anfarwoldeb. Dyma hwy :

Llond y nefoedd, llond y byd, etc.
Cyfamod hedd, cyfamod cadarn, etc.
Yn Sion mae cyfraith ragorol, etc.
Mae'r Tad yn anfon gweision gwych, etc.
Pob seraph, pob sant, etc.
Nefola fy meddyliau, a'm geiriau oll i gyd, etc.

Gwelir nad oes ond un ran o ddwy ar bymtheg o'r emynau yn adnabyddus,—deg ar arfer, a'r gweddill yn gorwedd yn farw mewn hen lyfrau. Ymhle mae'r drwg ? Troer i'r emynau ac fe'i ceir yno.

1. Nid oes ynddynt ddigon o ddwyster a gwres profiad ysbrydol i'w gwneuthur yn gyfryngau mawl saint pob oes. Cymharer hwy o ran naws ysbrydol ag eiddo emynwyr goreu'r ddeunawfed ganrif, megis Pantycelyn, Morgan Rhys, Dafydd Jones a Dafydd William. Canu eu crefydd a wnaent hwy, a chanai Maes y Plwm *am* grefydd. Gwres a thynerwch calon yn profi pethau ysbrydol a geir yn eu hemynau hwy, eithr grym a goleuni meddwl yn gwybod pethau crefydd a geir yn eiddo Maes y Plwm. Ni fwrir nad oes gan yr awdur ambell emyn a rydd ddatganiad i brofiad ysbrydol byw a chynnes, ond eithriadau prin ydynt. Gwybodaeth eang am grefydd a grymuster meddwl ydyw pethau amlycaf ei holl emynau, a'r pethau hyn yw'r rheswm am werth a phoblogrwydd ei ddau brif emyn :

Llond y nefoedd, llond y byd, etc.
Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw, etc.

2. Y mae'r emynau yn rhy ddiwinyddol i fod yn anfarwol. Peth dros amser yw llawer o ddiwinyddiaeth yr Eglwys. Y mae athrawiaeth yn datblygu a newid, ac felly

nid yw syniadau diwinyddol pob cenhedlaeth o angenrheidrwydd yr un. I fod o ddefnydd i grefyddwyr pob oes y mae'n rhaid i emyn gynnwys profiad ysbrydol o grefydd. Y mae hwnnw yr un ymhob gwlad trwy'r oesoedd. Calfin cryf oedd Edward Jones, a gwthiai'i amcan-dybiau diwinyddol i lawer iawn o'i emynau. Dichon mai hyn ydoedd y prif reswm am ei boblogrwydd fel emynydd yn ystod ei fywyd,—blynyddoedd y dadleu mawr. Canai mewn amser cynhyrfus a brwd ; ond ofer disgwyl i emynau fel y rhain barhau'n boblogaidd byth gan eglwys gwlad gyfan :

Cyfamod pur, ni n'wdir yn y ne',
I ddamnio'r plant, os llithrant hwy o'u lle ;
Fe saif ei dir, ni syflir byth mo'r sail ;
Mae'n amod hedd, ar rinwedd Adda'r ail.

'Does bwlch yn hwn, fel modrwy'n grwn y mae,
A'i glwm mor glos, heb os, nac oni bae ;
Nid all y plant ddim gwerthu eu meddiant mwy ;
Mae gan Dduw gylch, a'u deil, o'u hamgylch hwy.

Mae'r etholedig ryw
Yn rhwymyn Duw bob rhai ;
Sef rhwymyn cariad gwastad, gwir ;
Yn gywir, sicr, sai'.

Nid beiau'r plant ychwaith,
Na'u holl amheuaeth hwy,
Oddiwrth eu Llywydd a'u pella,
Nac a'u symuda hwy.

Er dued, er tloted, er noethed y'm ni,
Fe werthwyd cyfiawnder, Grist tyner, gen't ti ;
Ond i ni gael hono i'w gwisgo rhag gwarth,
Diflana'n pechodau o'n teiau fel tarth.

Beth bynnag a ddywedir am gywirdeb neu anghywirdeb syniadau y penillion hyn a llawer cyffelyb iddynt o eiddo'r

awdur, nid oes neb a faidd ddywedyd y credir hwy gan grefyddwyr Cymru'n gyffredinol.

3. Y mae'r gynghanedd, hwyrach, wedi niweidio'r emynau lawn cymaint onid mwy na dim arall. Nid oes ddadl na all llaw gelfydd wella emyn trwy gyffyrddiadau cynganeddol ysgeifn, fel y gwna Pedr Fardd, ond y mae Maes y Plwm wedi beichio'n drwm rai o'i emynau â chynganeddion cwbl dialw am danynt. Abertha'n aml iaith a synnwyr, a gwna lawer emyn yn gymysglyd ac anodd ei ganu. Er enghraifft :

Ti hili 'mwrdd, yn hael, er maint,
  Digofaint uffern gyfan,
Ac wele, dodaist olew da
  I *'nghopa*—llond fy nghwpan.

  Nid uchder pŵer pell,
  Na dyfnder dichell dwys,
  A dyr hen rwymyn da
  Y cariad pura' pwys,
Sef cariad nefol, dwyfol dân,
Wnaeth Duw â hwynt,—mae'n ddiwahan.

Y mae'n rhyfedd i un a hoffai'r gynghanedd mor fawr' ac a aberthai gymaint trosti, fodloni ar wybodaeth amherffaith ohoni. Prawf yr ychydig benillion yn y mesurau caeth a geir yn ei lyfrau nad oedd yn feistr ar y gelf gain. Dywedir i gyfeillion crefyddol yn y Corff gynghori'r prydydd i "ymwrthod â'r gynghanedd, a chyfansoddi ar fesurau hawdd i'r werin eu darllen a'u deall." Gresyn na wnaethai yn ol y cyngor neu ynteu fynnu meistroli'r gelf.

Yr oedd Edward Jones, Maes y Plwm, yn brydydd defnyddiol yn ei ddydd, eithr nid ydyw'n amlwg heddyw ym mhlith yr emynwyr mawr.

PENNOD VI.

# ROBERT AP GWILYM DDU O EIFION.

AM yr emynydd hwn dywed bardd o fri a gydoesai ag ef, mewn traethawd beirniadol ar ei waith yn *Nhraethodydd* 1852, "Edrychid arno fel darn o broffwyd gan y werinos; a rhyfeddid ei alluoedd gan fawrion ac eraill; ac, yn enwedig, gan y beirdd." Yr oedd yng ngwlad y Bardd Du y dyddiau hynny gnwd o feirdd cyn gyfoethoced a chyn aeddfeted ag a welodd Cymru mewn unrhyw gyfnod o'i hanes; yn yr un maes ag yntau ceid Dafydd Ddu Eryri, Gutyn Peris, Dewi Wyn, Sion Wyn o Eifion, Eben Fardd, ac eraill; a "rhyfeddid ei alluoedd, . . . yn enwedig gan y beirdd."

Enw priodol y bardd ydoedd Robert Williams, a ganed ef yn y Betws Fawr, ym mhlwyf Llanystumdwy, Eifionydd, yn y flwyddyn 1767, ac yno y treuliodd ei oes faith hyd o fewn ychydig flynyddoedd i'w diwedd, yn amaethu a phrydyddu, ac yn rhyfeddu a moli ei alluoedd fel bardd. Unig blentyn ei rieni ydoedd, a magwyd ef yng nghanol llawnder. Ni wybu o'i grud i'w fedd am brinder pethau'r byd. Bu farw ym Mynachty Bach, yn Haf 1850, yn dair a phedwar ugain mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Abererch, ger Pwllheli. Prin iawn ydoedd cyfleusterau addysg yn Eifionydd ym more oes Robert ap Gwilym Ddu; ond gan mai unig blentyn amaethwr cefnog ydoedd, cafodd ef fanteision goreu'r ardal, a llwyddodd yntau i gyrraedd gradd uwch mewn dysgeidiaeth Saesneg a Chymraeg na'r mwyafrif o'i gyfoedion. Datblygodd ei feddwl yn gyflym, ac ystyrrid ef yn ddarllenwr mawr a myfyriwr dygn pan yn hogyn, a dywedir y ceid yn y bachgen broffwydoliaeth o'r awenydd aeddfed, cywir ei farn a phraff ei feddwl.

Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn hen lanc di-daro a digŵyn, ac efelychwyd ef yn hyn gan ei gyfaill Dewi Wyn o Eifion. "Hen Lanc y Betws" y gelwid Robert Williams gan ei holl gydnabod; ond Dewi a barhaodd yn ffyddlon hyd y diwedd; daliodd ef i deithio'n unig, ac annibynnol fel yr Wyddfa hyd ei fedd. Ni fwriwn fod a fynno hen lancyddiaeth lawer ag athrylith a safle'r ddau fel beirdd, ond dichon iddynt hwy, fel eraill, ganu'n well i serch am na roddwyd prawf arno. Nid oedd y Bardd Du fel dynion eraill mewn dim. Synnodd y wlad trwy sefyll yn sydyn ac annisgwyliadwy ar oriwaered ei fywyd unig, wedi colli ei ben a'i galon gyda rhyw eneth hawddgar a ddeuthai o Ddolgellau i'r Plas Hen, a phriododd hi'n ddiymdroi. Buont fyw am flynyddoedd yn gymorth i'w gilydd ac yn eithaf dedwydd, a ganwyd iddynt un plentyn,—geneth a dyfodd i fyny'n ddeallus a dysgedig. Yr oedd y ferch fel byw llygad y bardd, a hanner addolai hi; ond daeth angau, trwy'r darfodedigaeth, a dygodd hi ymaith yn ddwy flwydd ar bymtheg oed. Dyma brofedigaeth fawr oes y bardd. Plentyn ei henaint ac eilun ei galon ydoedd, ac ni fu ef byth yr un un wedi ei cholli. Y peth goreu a gyfansoddodd wedi hyn ydoedd ei awdl fer yn datgan ei hiraeth llethol amdani. Nid oes llawer o farwnadau yn y byd a gynhwysa gymaint o deimlad galarus a marwnad Robert ap Gwilym Ddu i'w unig ferch:

Och! gur, pwy fesur, pa faint
Yw 'nghwyn mewn ing a henaint!
At bwy tro'f yn fy ngofid,
A chael lle i ochel llid?
Angeu arfog, miniog mawr,
Ar ei gadfarch ergydfawr,
Wele yma carlamodd,
A'i rym ar egni a rodd;
Torodd i lawr, drwy fawr feth,
Ein diddig, unig eneth.

. . .

Y fi, lwydfardd, wyf ledfyw,
Mawr ei boen, rhwng marw a byw,
Dirdynwyd ni'n dra dinam,
Oerodd gwres mynwes ei mham ;
Wylo yr ŷm lawer awr,
Diau wylwn hyd elawr ;
Ow ! Sian fach, mae'n syn fod
Ein t'wysen mewn tŷ isod.

Chwilia amdani, a chaiff loes i'w fron wrth gael ei phethau :

Ymholais, crwydrais, mewn cri,—och alar !
Hir chwiliais am dani ;
Chwilio'r celloedd oedd eiddi,
A chwilio heb ei chael hi.

Gwywais o geudeb wel'd ei gwisgiadau,
Llanwai y meddwl o'i llun a'i moddau.
Dychmygion gweigion yn gwau—a'm twyllodd,
Hynod amharodd fy ngwan dymherau.

Dyma ddisgrifiad diguro o'r hen glefyd adnabyddus y darfodedigaeth :

Y peswch marwol, pwysig,
Fu'n erlyn i'w derfyn dig ;
Poethi ac oeri i gyd,
A'i blinodd, bob ail enyd ;
Chwys afiach, a chÂs ofid,
A'i grudd fach dan gryfach gwrid ;
Pob arwyddion, coelion, caeth,
A welid o'i marwolaeth.
Llawer dengwaith, drymwaith dro,
Tra sylwn,—tro'is i wylo.
Byr oedd hyd ei bywyd bach,
Oes fer,—ow ! be sy fyrach ?

### Darlun y Bardd.

Dyn a golwg anghyffredin arno oedd y Bardd Du—anghyffredin i un o'i allu a'i ddiwylliant ef. Gallesid

disgwyl i feddwl mor odidog osod peth o'i ddelw ar y corff, ac yn arbennig y pen a'r wyneb ; eithr corff mawr, swrth a gwasgarog oedd ganddo, ac er cryfed ei athrylith, methodd â thorri trwy linellau garw'r wyneb. Ni ddatguddiai'r meddwl mawr ei hun ond yn y llygaid yn unig. Dyn musgrell, o dymer araf ydoedd, yn ymddangos yn aml mewn cwmni fel pe'n rhy drwm a diynni i siarad dim ond pethau dibwys a phlentynnaidd. Ar gip, wrth fynd heibio, tybid mai gwladwr o radd isel, yn cymdeithasu llawer ag anifeiliaid ei faes ydoedd. Eithr tystia'r llu enwogion a dynnai i'r Betws Fawr nad " wrth ei big mae adnabod cyffylog." Dyma ddarlun ohono gan un cyfarwydd ag ef a'i ffyrdd,—" Dyn amrosgo o ran ei ffurf ydoedd. Talcen llydan, a gwallt afluniaidd, llygaid gloewon yn picio o'i ben, bochgernau esgyrnlawn, a gwefusau trwchus, yn gwarchod genau lled fawr ; gên gref yn dynodi cryn lawer o benderfyniad ; gwisgiad gwladaidd, a cherddediad araf a thrwsgwl. Llawer gwaith y clywid ei gymydog Dewi Wyn yn dywedyd, 'Rhyw horwth o ddyn yw Robert y Betws.' Ond os creffid arno pan y byddai yn siarad ar ryw bwnc diddorol, gallesid gweled tân athrylith yn gwreichioni o'i lygaid ; a gallasai y dyn mwyaf dyeithr ddeall ei fod yn mhresenoldeb dyn llawer mwy na'r cyffredin."[1] Pwy a ddisgwyliai gael un o feddyliau mwyaf barddonol a diwylliedig Cymru mewn gwisg mor gyffredin—tlysni digymysg mewn hacrwch dieithr !

## Dylanwad Golygfeydd.

Diau fod a fynno golygfeydd natur rywbeth â meddwl a thymheredd llenor a bardd. Dysg rhai fod a wnelont lawer â phenderfynu nodwedd a chyfeiriad y meddyliau mwyaf. Pe gwir hyn, byddai'n hawdd cyfrif am rai o nodweddau Robert ab Gwilym Ddu. Anaml y ceir tyddyn a'i amgylchoedd mor farddonol a'r Betws Fawr yn

[1] *Y Gwyddoniadur*, Cyf. x.

Eifion. O'r buarth gwelir yr Wyddfa, Cader Idris, y ddau Foelwyn, Carnfadryn, Castell Harlech, Castell Cricieth, a'r môr mawr. Yma y ganed y bardd, ac yma hefyd y treuliodd ei oes faith. Gwelodd yr Wyddfa yn casglu ystormydd ac yn eu hyrddio i'r gwastadeddau. Clywodd y taranau'n ergydio o glogwyn i glogwyn, a gwelodd hefyd

Fod gwg tywysogion fel melltith yn ddu
  Ar furiau y cestyll yn aros,
Yn dyst o gamwri y dyddiau a fu,
  A chynni y wlad yn ei chyfnos.

### Cynhulliad y Beirdd.

Gresyn na fai rhai o arferion yr hen feirdd wedi byw hyd oes y bardd newydd. Ni fynnem er dim i'r cwbl aros, oblegid yr oedd i'r hen feirdd arferion a'u niweidiai hwy a'u gwlad; ond yr oedd iddynt eraill a swyn mawr ynddynt. Nid yr Eisteddfod ydoedd yr unig fan cyfarfod gynt. Ceid aml i noson ddifyr i nyddu englyn, canu'r delyn, a sôn am broffwydi mawr Cymru yn "yr hen amser gynt." Ymhyfrydai'r Bardd Du yng nghwmni gwir feirdd, a phob Nadolig mynnai gyfarfod ohonynt yn y Betws Fawr. Llawer gwaith y bu Dafydd Ddu Eryri, Dewi Wyn, Gutyn Peris, Cawrdaf, Gwilym Padarn, Owen Williams (Waen Fawr), Ellis Owen (Cefn y Meysydd), Eben Fardd, Nicander, Ioan Madog, a Chaledfryn yn mwynhau ei gyfeillach wrth fwrdd danteithiol. Beth pe llefarai'r hen dyddyn am y meddyliau gloyw, y watwareg lem, a'r hwyl ddifyr fu gynt rhwng ei furiau cedyrn?

Er mai hoff gan ein gwrthrych yr holl wir feirdd, ychydig ohonynt a folai. Yr oedd i Dafydd ap Gwilym le mawr a chynnes yn ei galon, eithr soniai fwy am Goronwy; ac o'r beirdd byw, rhoddai glod weithiau i Dafydd Ddu Eryri, ond gwaith Dewi Wyn a'i waith ei hun a ganmolai'n ddiatal. Hwyrach nad âi'r hen fardd ymhell bell o'i le wrth gyfyngu ei ffafr a'i ganmoliaeth i Dewi. Ystyrrid

ef y pryd hwnnw, ac ystyrrir ef heddyw, yn rheng flaenaf y prif feirdd. Dywedodd Islwyn am dano, "Uchelfardd Eifion, *genius* mwyaf hil Gomer yn ol fy marn i."

## Dewi Wyn o Eifion.

Ganwyd Dafydd Owen (*Dewi Wyn o Eifion*) yn y Gaerwen, amaethdy ym mhlwyf Llanystumdwy, Eifionydd, Mehefin 1784, ac er treulio deng mlynedd gyda'i frawd ym Mhwllheli, dychwelodd i'r Gaerwen, ac yno y bu farw Ionawr 17, 1841.

Cafodd Dewi ysgol dda,—llawer gwell na'r cyffredin, ac wedi gadael yr ysgol i amaethu'r Gaerwen, parhaodd i efrydu rhifyddiaeth, cerddoriaeth, a hanes; ond barddoniaeth a gafodd fwyaf o'i sylw, ac fel amaethwr a bardd y treuliodd ei oes. Casglodd lawer o gyfoeth y byd iddo'i hun trwy amaethu, ond fel bardd cyfrannodd olud gwell ac anfarwol i'w genedl. Yr oedd nerth cawraidd i'w feddwl, a thaflai allan feddyliau mawr a disglair a synnai'r holl wlad. Dysg y beirniaid y cyll Dewi mewn cynllun,—mai prif ddiffyg, os nad unig ddiffyg, ei gyfansoddiadau maith ydyw cynllun gwael, neu ddim cynllun o gwbl; ond dysg eraill fod iddo gynllun da, eithr ei fod mor eang fel na wêl y llenor bach a chyffredin ef. Y mae dwy farn ar hyn, eithr dim ond un ar ei safle ym myd barddoniaeth. Anffodus fu fel cystadleuydd. Yn 1803, aeth Gutyn Peris â'r wobr am "Goffadwriaeth Goronwy Owain," ac nid rhyfedd iddo fethu'r prif nôd y tro hwn, oblegid prin yr oedd yn bedair ar bymtheg oed. Yn 1805, ac ef yn un ar hugain oed, enillodd wobr y Gwyneddigion am ei awdl faith a chywrain ar "Molawd Ynys Prydain." Yn Eisteddfod Tremadog yn 1811 dyfarnwyd ei awdl ar "Amaethyddiaeth" yn oreu, ond oherwydd rhyw reswm anhysbys ni chafodd y wobr. Ond y peth hynotaf yn hanes y bardd ydoedd *cam* digywilydd Eisteddfod Dinbych yn 1819. Yr oedd pymtheg awdl yn y gystadleuaeth ar "Elusengarwch," a rhoddwyd y wobr i offeiriad o'r enw

Edward Hughes, M.A. (*Y Dryw*). Bernid y pryd hwnnw, a bernir byth wedyn, i Dewi Wyn gael cam dybryd. Er fod Mr. Hughes yn fardd pur dda, nid oedd ond megis dryw bach yn ymyl eryr o'i gymharu â Dewi. Syrth y gwarth am y cam a wnaed ar ddau o'r tri beirniaid, sef y Dr. W. O. Pugh a Bardd Nantglyn. Yr oedd y trydydd, Dewi Silin, Ficer Llansilin, yn bleidiol i Dewi Wyn. Dywedir i Fardd Nantglyn ddioddef llawer hyd ei fedd oherwydd y camwri y bu'n gyfrannog ohono,—collodd ymddiried a pharch ei genedl. Erys beirniadaeth Dinbych yn warth cyn ddued â melltith ym myd llên Cymru tra rhed y dŵr. Digalonnodd Dewi Wyn, a chefnodd am byth ar yr Eisteddfod.

Daeth gorthrwm pruddglwyf arswydus i dywyllu terfyn oes Bardd Eifion. Am bedair blynedd cyn ei farw cymylid ei feddwl cawraidd ac ysblennydd gan deimladau gofidus ac anobaith dygn. Soniai'n barhaus wrth ei gyfeillion ac eraill am boenau dieithr a lanwai ei gorff a'i feddwl, ac ni cheid ef i sôn am odid ddim arall. Ymweloddd â phrif feddygon Llundain, Dublin, a mannau eraill, i geisio gwellhad, ond i ddim pwrpas, a phan yn Llundain canodd iddo'i hun yn ei glefyd :

Y fi nid ydwyf ond adyn,—ys truan
A distrywiol bryfyn ;
Ow ! Dafydd, Ow ! nid wyf ddyn,
Nid wyf fardd, ond ei furddyn.

Cymdeithasai lawer yn y cyfnod poenus hwn â gweinidogion yr Efengyl a phersonau eraill o duedd grefyddol, a defnyddiai holl rym ei feddwl mawr i ddisgrifio ei ddioddefiadau llym a'i anobaith du. Gofidiai'n alaethus am na wneuthai ddefnydd gwell o'i fanteision a'i ddoniau. Trais y pruddglwyf a'i llethai, ac nid drwg ei galon, na diffrwythter ei fywyd. Meddyliai'n fil gwaeth amdano'i hun nag y gwnai neb arall, a phan ddywedodd unwaith yn ei glefyd :

Ys, arweiniais, ar unwaith,—oes Esau,
A Belsasar ddiffaith,
Ac i Demas cydymaith,—wyf hafal,
I Saul, a Nabal, dan sêl anobaith,

atebodd Robert ab Gwilym Ddu ef :

Er cwyno lawer canwaith,—a gweled
Twyll y galon ddiffaith,
Ni fyn Duw, o fewn y daith,
Droi neb i dir anobaith.

Robert ab Gwilym Ddu ydoedd athro cyntaf Dewi Wyn mewn barddoniaeth, ac ef hefyd ydoedd ei brif gyfaill trwy ei holl fywyd. O ran credo yr oedd Dewi yn Fedyddiwr cadarn, a mynychai Capel y Beirdd yn gyson, ond ni dderbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys trwy fedydd hyd flwyddyn olaf ei fywyd.

### Christmas Evans.

Yr oedd i R. ap Gwilym Ddu lawer o gyfeillion ymhlith y pregethwyr hefyd. Ymwelai Christmas Evans yn aml â Betws Fawr, a chaffai bob amser groeso mawr yno. Syniai'r bardd yn uchel am Christmas Evans fel dyn gwir dda a phregethwr poblogaidd, ac adroddai lawer o'i farddoniaeth wrtho, nid i'r diben o gael barn neu gymeradwyaeth yr hen bregethwr, ond i'w synnu â rhyfeddodau ei athrylith. Dywed Cynddelw mai unwaith erioed y bu ef yng nghymdeithas y bardd, a hynny yn 1845. Yn yr ymddiddan a fu rhyngddynt daeth enw Christmas Evans i'r bwrdd. Dywedai'r Bardd Du i'r pregethwr mawr alw yn y Betws unwaith, ac iddo yntau adrodd englynion ar "Swydd y Lefiaid" iddo ; hoffai Christmas hwy gymaint fel y mynnai gopi ohonynt. Ryw dro wedyn pregethai'r hen wron poblogaidd yng Nghymanfa Pwllheli, a'r bardd wrth risiau'r areithfa yn gwrando, ac yng nghanol yr hwyl fawr dyna englynion y "Lefiaid" allan fel ergydion o wn, a'r gynghanedd wedi ei llurgunio'n ddidru-

garedd, a'r hen fardd bron wedi ei lethu gan gywilydd yn ceisio lloches trwy graffu i'w het. Addefai fod y pregethwr yn cofio sylwedd yr englynion. "Wel," ebe Cynddelw, "fe allai nad oedd yn gwybod cynghanedd," ac atebodd yntau, "Nac oedd, y trolyn gwirion, ni wyddai fwy am gynghanedd nag a wyddai cynghanedd am dano yntau."[1]

## J. R. Jones, Ramoth.

O holl gyfeillion ein gwrthrych, hwyrach mai'r un a gafodd fwyaf o ddylanwad ar ei feddwl a'i fywyd ydoedd y dyn mawr a hynod J. R. Jones, Ramoth. Ni wyddys am neb a lwyddodd i osod cymaint o'i ddelw, yn ystod ei fywyd, ar ddau cyfartal eu hathrylith â Dewi Wyn a R. ab G. Ddu, â phroffwyd gonest Ramoth. Diwinyddiaeth J. R. Jones a geir yn holl waith y ddau fardd, ac er mai gwrando pregethwyr yr Hen Fedyddwyr yng Nghapel y Beirdd a wnaent, edmygent ac anwylent bregethwr Ramoth fel dyn mawr ei allu a'i ddaioni :

> Pwy i'n bro, pan ba'i raid,
> Uwch Sion mewn achos enaid ?—*R. ab G. Ddu.*

Dywedir i J. R. Jones fod yn athro mewn cerddoriaeth i'r Bardd Du, a thybir y cyfeirir at hynny yn awdl farwnad y bardd iddo :

> Mor dawel oedd ein helynt,
> Wrth ddysgu cyd ganu gynt ;
> Pybyr, a difyr ein dau,
> Lliosem, braidd, bob lleisiau ;
> Trin egwyddor peroriaeth,
> Ar oleu gerdd, reol gaeth ;
> Hwyr aros, lawer noson,
> I gyraedd dull gwraidd y dôn.

Ganed J. R. Jones Hydref 13, 1765, yn amaethdy Bryn Melyn, ym mhlwyf Llanuwchllyn, yn Sir Feirionydd.

[1] Cofiant J. R. Jones, Ramoth, gan y Parch. D. Williams, tud. 673.

Bu farw Mehefin 27, 1822, a gorwedd ei lwch ym mynwent Ramoth, Llanfrothen, lle y pregethodd am yn agos i 34 o flynyddoedd. Ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys y Bedyddwyr yn Ramoth yn y flwyddyn 1789, ac ystyrrid ef yn ŵr o gryn allu a dylanwad yn ei enwad. Daeth yn gydnabyddus â llyfrau Mr. Archibald McLean, gweinidog galluog yn Scotland, a pharwyd cyfnewidiad mawr yn ei syniadau gan ddysgeidiaeth newydd y gŵr hwnnw. Safle McLean ynglŷn â'r Eglwys ydoedd "Cadw pob peth a orchmynwyd, a hynny i'r manylrwydd mwyaf." Tystiolaeth J. R. Jones ei hun ydyw, "Yn 1795 cymerodd cryn gyfnewidiad le yn fy syniadau crefyddol ar lawer o byngciau pwysig, megys person a mabolaeth Crist, natur ffydd achubol, dylanwadau yr Ysbryd Glân, a dysgyblaeth a threfn yr Eglwys Gristionogol, etc. Moddion y cyfnewidiad hwn oedd ysgrifeniadau ein hanwyl frawd Mr. Archibald McLean, o Edinburgh, ynghyd â chyhoeddiadau eraill o eiddo ei gydlafurwyr yn Ysgotland."[1]

Yn niwedd y flwyddyn 1798 ymrannodd eglwys Ramoth. Aeth ychydig o'r aelodau allan, a sefydlodd y gweinidog, J. R. Jones, y gweddill yn eglwys yn yr enwad Bedyddiedig a arweinid gan McLean yn Scotland, a daeth gweinidog Ramoth yn broffwyd ac arweinydd y Bedyddwyr Albanaidd yng Ngogledd Cymru. Rhoddai dri rheswm dros gefnu ar yr hen Fedyddwyr,—"Llygredigaeth eu hathrawiaeth, Amhuredd yn eu Cymundeb, a'u Hanufudd-dod i lawer o orchymynion Crist." Neilltuolion y Bedyddwyr Albanaidd yng Ngogledd Cymru yn nyddiau J. R. Jones ydoedd, (1) Gwrthwynebu'r Ysgol Sabothol fel sefydliad. Credent mai gwaith i'w gyflawni ar ddyddiau'r wythnos, ac nid ar y Saboth, a gyflawnid ganddi. Ni sefydlwyd yr Ysgol ynglŷn â'r cyfundeb newydd. (2) Golchi traed ei gilydd. Dysgai J. R. Jones aelodau'r eglwysi i fod yn ddigon gostyngedig i olchi traed ei gilydd "pa bryd bynnag y byddai hynny yn angenrheidiol ac yn

[1] Cynddelw yn *Y Gwyddoniadur.*

wasanaethgar." (3) Gwrandawyr ac addoli. Gwaherddid i wrandawyr ran mewn addoli, yn enwedig canu mawl a gweddio'n gyhoeddus. Dysgai J. R. Jones nad oedd hawl gan neb ond yr ail anedig i foliannu Duw, a gofynnai, "Pa fodd y gall dyn ganu tra'r cortyn damniol am ei wddf?" (4) Arfer y Cusan Sanctaidd. "Anherchwch yr holl frodyr â chusan sancteiddiol," medd Paul, a chydymffurfiai y Bedyddwyr Albanaidd â'r gorchymyn. Iddynt hwy yr oedd y cusan yn arwydd o gymod a brawdgarwch, ac arferid ef ar achlysuron neilltuol yn debig fel yr ysgydwir dwylo gan grefyddwyr yn gyffredin. (5) Cariad wledd. Cynhelid hon yn awr ac eilwaith rhwng y cyfarfodydd cyhoeddus. Dywed J. R. Jones yn ei *Gyffes Ffydd*—"Yr ydym yn cadw *cariad wledd*, rhwng ein cyfarfodydd addoliad cyhoeddus, yr hyn sydd gynnwysedig mewn pryd o fwyd gwledig a chymedrol." (6) Swper yr Arglwydd. Gweinyddid y Cymun o Swper yr Arglwydd yn yr Eglwysi bob dydd cyntaf o'r wythnos. (7) Y Weinidogaeth. Penodai'r Eglwysi frodyr o'u plith i'w gwasanaethu fel Henuriaid, a phenodid weithiau fwy nag un i wasanaethu eglwys. Ni roddid cyflog benodol a sefydlog i'r gweinidogion hyn, ond estynnid iddynt roddion os byddai eu hamgylchiadau yn galw am hynny. Y mae'r holl neilltuolion y rhoddai J. R. Jones gymaint pwys arnynt, ag eithrio'r ddau olaf, wedi diflannu ers blynyddoedd o'r eglwysi Albanaidd.

Ymddengys oddiwrth y Cofiant gan y Parch. D. Williams, a thystiolaeth Cynddelw yn y *Gwyddoniadur*, fod J. R. Jones yn ddyn gwir fawr o ran galluoedd naturiol, cymeriad a dylanwad. Geiriau Cynddelw ydyw: "Yr oedd efe yn fyfyriwr diwyd a chaled; yn ddiwinydd treiddgar a galluog; yn eiddigeddus dros athrawiaeth rhad ras; yn llym, yn fanwl, a chydwybodol i'r llythyren dros gadw holl orchymynion ei Arglwydd; yn ddarllenwr mawr a chyffredinol; yn bregethwr o'r radd flaenaf; yn ieithwr dysgedig mewn Cymraeg, Saesneg, Lladinaeg, Groeg a Hebraeg." Y dyn rhyfedd hwn ydoedd un o

ddau brif gyfaill Robert ap Gwilym Ddu, a dylanwadodd lawer ar feddwl a gwaith y bardd.

### NODWEDDION Y DYN.

Unid cryfder a gwendid dyn mawr yn Robert ap Gwilym Ddu. Telid gwrogaeth gyffredinol iddo oherwydd ei gryfder, a dywedir na feddyliai neb yn llai ohono oherwydd ei wendid. Yr oedd iddo feddwl penderfynol, hunanhyder difesur, a barn anffaeledig ar bob pwnc. Ni ddadleuai â neb ar unrhyw fater, am nad oedd lle i ddadl ar ei farn ef. Traethai ei syniadau yn hy fel oracl, ac ni fynnai ei ameu ; er hynny, yr oedd yn fwyn hyd feddalwch, ac yn garedig hyd afradedd. Gwyddai lawer am hynafiaethau, diwinyddiaeth, cerddoriaeth, a barddoniaeth, a dichon mai swm a llwyredd ei wybodaeth a gyfrifai am ei hunan-hyder, a'r ffaith yr ystyrrid ef yn oracl gan y werin.

Dywedwyd eisoes y canmolai'r Bardd Du lawer ar Goronwy a'r Bardd Gwyn o Eifion ; ond ddaed y syniai am ei waith ei hun fel nad oedd fesur ar ei ganmoliaeth iddo. Safai mewn syndod gwynfydig uwchben ei alluoedd dihafal ei hun, a gwnâi hyn heb yr arwydd lleiaf o ymffrost na gwyleidd-dra. Dywed awdur y traethawd ar ei athrylith a'i waith yn *Nhraethodydd* Mehefin, 1858, " Ni ddigwyddodd i ni erioed gyfarfod ag un awdur a ganmolai ei waith ei hun mor ddifloesgni ag ef ; ac eto edrychai pobl heibio i'r peth fel peth oedd i fod ynddo ef ; ni feddyliai neb ddim gwaeth o hono, nac o'i waith, ar ol ei glywed yn son am ei ragoriaethau gyda'r fath hyder. Rhyfeddai ei alluoedd ei hun a'r cyrhaeddiadau oedd yn ei feddiant, a'r cyfryw oedd efe, drwy ei symledd, yn briodoli iddo ei hun. Soniai am ei ragoroldeb ei hun yn siriol, ac mor ddifeddwl, o ran ymddangosiad, a phe na buasai y pethau y soniai am danynt yn perthyn iddo ef."

Byddai'n anghyson iawn mewn rhai achosion, ond ofer ymdderu â gŵr anffaeledig. Yr oedd yn gymeriad glân a difrychau ; ond ni fynnai wneuthur proffes o grefydd

bersonol. Canai ar hyd ei oes yn foesol a phur, ac am grefydd a barddoniaeth y siaradai bob amser. Yr oedd wrth ei fodd yng nghwmni pregethwyr, a chaffai hwyl fawr i wrando a beirniadu eu pregethau ; eithr mud ydoedd pan sonnid am grefydd bersonol. Credai mor gryf mewn bedydd trwy drochi fel yr âi cyn belled a thaeru mai colledig fyddai pawb ond y crediniol a drochid ; ond er ei gred a'i sêl, ni throchwyd ef erioed, a bu farw yn 83 oed heb ymuno ag unrhyw eglwys. Os cywir barn yr hen brydydd pendant, pa fodd y gellir cyfrif am nodwedd ei waith, ac yn enwedig ei emynau ? A ddichon dyn drwg—" colledig" —ganu emynau anfarwol fel eiddo Robert ap Gwilym Ddu ? Mawr yw'r dirgelwch !

### NODWEDDION Y BARDD.

Yn y flwyddyn 1841, cyhoeddwyd casgliad o brif gyfansoddiadau'r awdur tan yr enw *Gardd Eifion*. Argraffwyd ef gan R. Jones, Dolgellau. Y mae'r llyfr bach hwn yn un gwir fawr, oblegid y mae'n farddoniaeth fyw a disglair o glawr i glawr—pob dernyn yn orffenedig, a'r gelfyddyd bron yn berffaith. Teimlai'r clodus Galedfryn " yn anrhydedd cael golygu Barddoniaeth yr enwog Robert ap Gwilym Ddu o Eifion," a dywed prif-fardd a beirniad manwl, mewn llythyr yr wythnos hon, fod *Gardd Eifion* y llyfr o farddoniaeth mwyaf diwastraff yn yr iaith. Canodd Hiraethog fel hyn i'r llyfr :

Addefir fod *Gardd Eifion*
Heb ei hail,—mae wyneb hon
Dan dwniad gwên heulwen hâ,
Un wedd ag Eden Adda,
Mwy ehelaeth doraeth da,
Gardd Eifion na Gardd Efa.

Y mae iaith y bardd yn lân a detholedig, ei feddyliau'n fawr a dyrchafol, a'i gelfyddyd yn gywrain a diguro. Nid oes ganddo lawer o fellt a tharanau, ac ni theithia hyd lwybrau cwmpasog a bron anhygyrch i fydoedd dieithr ;

y mae cyn dryloywed â goleuni, heb ddim o'r geiriau llanw a hoffid gymaint gan ei gyfoeswyr, ac ni wybu ef yn ei ddydd am y gyfriniaeth bygddu sy'n boblogaidd heddyw. Y pethau amlycaf yn ei waith ydyw naturiol-deb a chywreinrwydd. Y mae hefyd yn fyr, cryno a barddonol. Nid mwy naturiol llif afon ddirwystr na ffrydlif meddyliau gloyw y Bardd Du,—darllener ei "Gy-wydd ar lan Dwyfach," a'i awdl goffa i'w unig ferch, ac i gael cynghanedd gywrain cyn berffeithied â dim yn ei oes, darllener unrhyw ddernyn o'i waith. Mae'n syn i'r bardd gynhyrchu cyn lleied yn ei oes faith, â'i ofalon bydol cyn brinned, a'i hamdden i brydyddu'n llawer mwy nag eiddo beirdd yn gyffredin. Diau y gofalai fwy am ber-ffeithrwydd ei waith nag am ei swm, a hwyrach mai ei brif nôd ydoedd gwasgu llawer o feddwl a thlysni i le bychan. Beiai Dewi Wyn unwaith am gyfansoddi darnau maith, ac atebai Dewi, " Pe buasai chwithau yn gwneud eich darnau barddonol cyhyd ddwywaith, buasech gy-maint ddwywaith o ddyn." Dichon wedi'r cwbl, nad mater o ewyllys yn unig ydoedd byrdra cyfansoddiadau y Bardd Du. Y mae ambell un cryf iawn yn fyr ei anadl.

Ceir llawer o englynion y bardd, fel diarhebion, yng nghof y werin trwy Gymru gyfan. Anodd dethol gan mor dda ydyw'r cwbl. Meddylier am darawiadau sydyn, nerthol, os nad brawychus, rhai o'i feddargraffiadau :

Yr Ion, pan ddelo'r enyd—ar ddiwedd,
    O'r ddaear a'n cyfyd ;
  Bydd dorau beddau y byd
  Ar un gair yn agoryd.

Drwy'r llawr, pan darawo'r llef—a gwys gerdd
    Gosgorddau'r oleunef,
  Duw a'i hedryd i'w hadref,
  Mewn dim, ar ei amnaid ef.

Nid yn aml y gwisgir mewn iaith cyn gryfed, a chyn lleied ohoni, feddyliau mor ardderchog ag a geir yn yr englynion a ganlyn :

*Yr Iawn.*

Paham y gwneir cam â'r cymod,—neu'r Iawn,
A'i rinwedd dros bechod ?
Dywedwch faint y Duwdod,
Yr un faint yw'r Iawn i fod.

*Crist Ger Bron Pilat.*

Dros fai, nas haeddai, mae'n syn,—ei weled
Yn nwylaw Rhufeinddyn ;
A'i brofi gan wael bryfyn,
A barnu Duw ger bron dyn.

Cyn belled ag y gwyddys unwaith y bu'r bardd yn ymgeisydd am wobr Eisteddfod. Yn y flwyddyn 1819 anfonodd englyn i'r delyn i Eisteddfod Caerfyrddin ; ond Gwallter Mechain a wobrwywyd. Digiodd yntau'n aruthr, am y credai fod ei englyn ef yn rhagori,—digiodd, a chefnodd am byth ar yr Eisteddfod, a dywedir nad anfonodd linell byth wedyn i gystadleuaeth. Yn wahanol i holl feirdd ei oes, cynhyrchodd R. ap Gwilym Ddu farddoniaeth anfarwol heb gymhelliad tlws na chadair eisteddfod. Digiodd Dewi Wyn yntau oddeutu'r un adeg oherwydd gwobrwyo'r Dryw am awdl "Elusengarwch." Mawr fu'r helynt trwy'r Dywysogaeth y pryd hwnnw o weled dau offeiriad yn curo beirdd cyn enwoced â Dewi Wyn a R. ap G. Ddu. Cydnabyddai'r holl wlad y cam â Dewi, ac yr oedd amryw heblaw y Bardd Du ei hun yn barnu y gwnaed cam ag yntau hefyd. Dywed Pedr Fardd :

Englyn i'r Delyn wnai'r Du,
A gorchest oedd ei gyrchu ;
Eu rhwb arno rhoi beirniaid,
Yn Nghaerfyrddin blin fu'r blaid.

O annoeth fodd yn " wyth fawd,"
Wrth ethol yr aeth " wythawd,"
Gwylltio ar barch Gwallter bert,
A throi heibio waith Robert.

Yr oedd Gwallter Mechain yn llenor dysgedig a bardd mawr, ac ystyrrir ei englyn yn un rhagorol, a dichon fod beirniaid Eisteddfod Caerfyrddin yn berffaith onest pan yn ei ddyfarnu'n oreu; ond y mae llawer yn dibynnu ar beth a ddisgwylid i'r englyn fod; os disgrifiad o'r delyn fel offeryn cerdd ac nid effaith ei chanu ar ddynion, credaf y rhagora eiddo'r Bardd Du ar eiddo Gwallter. Dyma'r ddau englyn:

Plethiadau, tannau tynion—y Delyn
I'r dilêsg feddylion;
Odlau saint yw adlais hon—
Llais neu fawl llys nefolion.—
*Gwallter Mechain.*

Peiriant i gerddor parawd—areithfa
Yr wythfys a'r ddwyfawd;
Tery eithaf tri wythawd,
Eurllais gorph i arllwys gwawd.
*R. ap G. Ddu.*

EMYNAU.

Yn Rhan I. *Gardd Eifion*, ceir 56 o emynau, a dywedai Caledfryn y cenir rhai ohonynt hyd ganiad yr utgorn diweddaf. Y mae Robert ap Gwilym Ddu yn boblogaidd fel emynydd, ac y mae rhai o'i emynau wedi anfarwoli ei enw; ond pe na chanasai emyn erioed byddai'n anfarwol fel bardd. Er ei fod yn emynydd mawr—yn tynnu at y rheng flaenaf, yr oedd yn fwy o fardd. Y mae gennym ddigon o emynau cyfwerth â'i oreuon; ond nid llawer o ddim yn y mesurau caeth sy'n gyfartal â rhai o'i gywyddau, ac yn arbennig ei englynion. Beirdd bychain fel rheol ydyw prif emynwyr Cymru, a phob gwlad arall. Mae'n wir yr edrychid ar Ieuan Glan Geirionydd a Phedr Fardd,—dau o brif emynwyr y Gogledd—fel beirdd parchus iawn; ond y mae'n amheus a fuasent mor adnabyddus fel beirdd onibai am yr Eisteddfod, ac y mae'n sicr mai fel emynwyr yn unig y maent yn anfarwol. Yr

oedd y ddau hyn yn well emynwyr na'r Bardd Du, ond yr oedd ef yn fwy o fardd na'r un ohonynt. Credaf y cenir yn hir, os nad tra bo'r iaith, lawer o emynau amryw feirdd cenedlaethol sy'n fyw heddyw, eithr Robert ap Gwilym Ddu ydyw'r unig un o'r rhai a hunodd sy'n anfarwol fel bardd ac fel emynydd.

Yr oedd emynwyr mawr Cymru yn ddynion o feddwl ysbrydol, neu yn rhai a ganai dan ysbrydiaeth Diwygiadau; eithr ni proffesodd ein gwrthrych ysbrydolrwydd meddwl, ac ni phrofodd wres Diwygiad. Yn gyson â'i gredo ddiwinyddol ni allasai'r bardd ei ystyried ei hun yn dduwiol; ond y mae holl hanes ei fywyd a nodwedd ei waith yn peri mai anodd credu nad ydoedd, oblegid bardd y cysegr mewn modd arbennig ydoedd. Hoffai lannau Dwyfach, ond am bethau crefydd y soniai amlaf. Canodd am natur a chyfeillion, eithr canodd fwy am y Groes, yr Adgyfodiad a'r Nefoedd.

Hwyrach fod ei emynau at ei gilydd yn fwy gwrthrychol nag eiddo Emynwyr fel Williams, Ieuan Glan Geirionydd, ac Ann Griffiths. Hoffai ef ganu am ddoethineb Duw, gwaith a marw, adgyfodiad ac esgyniad Crist, ac am y Nefoedd yma a thudraw i'r bedd. Troai lawer o gwmpas Calfaria ar hyd ei oes. Gwelir hyn yn ei holl waith, ac yn enwedig yn ei emynau. Dyma rai o honynt:

Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw!
Ai'r unig ddyrchafedig Dduw,
Gwir wrthrych mawl seraffiaid gwych,
A welaf draw yn waelaf drych, etc.

O wele ar y Groes
  Yr hwn a roes foddlondeb, etc.

Gwel o enaid, rhwng gelynion,
  Ar y greulon chwerw groes, etc.

Tan boenau trymion angau trist,
Ar bren y groes bu'r anwyl Grist,
  Gorffenodd ei ryfeddol waith, etc.

Mae'r gwaed a redodd ar y Groes
O oes i oes i'w gofio, etc.

Yr Iawn a dalwyd ar y Groes,
Drwy ddioddef loes hyd angau, etc.

Dacw un mewn natur ddynol,
Heb un math o bechod gwreiddiol,
Eto'n farwol ar y pren, etc.

Y mae gan yr emynydd hefyd lawer o emynau yn cynnwys profiad a gweddi dyn da :

Mi ddymunwn fod heb bechod,
Ac yn rhydd oddiwrth fy sorod ;
Heb ddim llwgwr yn fy natur,
Nag i'm galw yn bechadur.

Cysegra ni â'th Ysbryd Glân,
Dod dduwiol anian ynom, etc.

Er chwerwed yw pob cwpan lawn,
Nid ydyw'n iawn bod hebddynt ;
Cawn weld y cyfan er lleshâd,
Mae gwin o gariad ynddynt, etc.

O Iesu ! gwel bechadur gwan,
Sy'n fynych dan ei ofnau ;
Cyflwyno wnaf yn awr i ti,
Fy ngweddi a'm gruddfanau, etc.

Cymdeithas hyfryd ydyw hon,
Sydd i'r duwiolion yma,
Ond myrdd helaethach fydd, heb len,
I'r saint ar ben eu gyrfa, etc.

Y mae holl emynau'r awdur yn dda, ond ei oreuon ydyw :

O Iesu ! gwel bechadur gwan, etc.

O frenin nef a daear lawr, etc.

Cysegra ni â'th Ysbryd Glân, etc.

Pa fodd y meiddiaf, yn fy oes, etc.

Wrth edrych ar y sail, etc.

Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw, etc.

Gogoniant byth i'r anwyl un,
Â dynodd golyn angau, etc.

Wele eto un yn rhagor
O flynyddau f'einioes frau, etc.

Mae achos llawenhau
Wrth gofio'r boreu cu, etc.

Mae'r gwaed a redodd ar y Groes
O oes i oes i'w gofio, etc.

Cysegrodd y bardd ei awen fawr i grefydd, a gellir canu pob emyn o'i eiddo ; y mae syniadaeth y cwbl yn addas i grefyddwyr pob oes, a cheir y " peth byw " a wna emyn yn anfarwol mewn llawer ohonynt. Afraid sôn am gelfyddyd yr emynau—nid oes cyfle i'r diwygwyr yma ; y mae'r corfannau a'r odlau'n gywir, yr iaith yn syml a glân, gydag ambell glec ysgafn o gynghanedd ddidramgwydd ynddi, a phob emyn yn orffenedig. Yr oedd yr awdur yn fardd mawr a dyn da. Bu ei fywyd yn fendith i gannoedd, ac erys ei waith i fendithio cenedlaethau. Credaf fod Robert ap Gwilym Ddu wedi uno yn y canu " iddo Ef " ers blynyddoedd.

## PENNOD VII.

# PEDR FARDD.

Pedr Fardd, pa awdwr fu
Mwy annwyl yn emynu ?
Sai ei glod ansigladwy ;
Bro Gwynedd ni fedd ei fwy.

CYFNOD prif emynwyr Gogledd Cymru ydoedd o 1767 hyd 1855. Ganwyd Robert ap Gwilym Ddu yn 1767, a bu farw Ieuan Glan Geirionydd yn 1855, a rhwng y ddau bwynt y ganed ac y bu farw Pedr Fardd ac Ann Griffiths. Y mae'r pedwar hyn yn anfarwol, ac anodd penderfynu pa un ohonynt yw'r mwyaf. Eithr cyn belled ag y mae a fynno iaith a chwaeth a chelfyddyd â'r pwnc, y mae tri ohonynt yn rhagori ar holl emynwyr y genedl, a cheir rhywbeth yn emynau Ann Griffiths a'i gesyd ar ei phen ei hun,—rhywbeth mor gyfrin ac ysbrydol fel yr ofnir ceisio'i chymharu â neb ond Pantycelyn.

Ceir rhai awduron wedi dyddiau'r Bardd Du a ddysg na fedd "Bro Gwynedd" emynydd cymaint â Phedr Fardd. Mesurwyd a phwyswyd ef yn fanwl ac fe'i gosodwyd ar flaen rhestr emynwyr y Gogledd. Dichon na cheid cwyn galed oherwydd hyn pe dyrchefid emynyddes Dolwar Fach uwchlaw cystadlu. Nid ydyw hi yn yr un dosbarth â neb.

Lleygwr syml, yn byw yn ei unfan, heb grwydro gwlad, nac esgyn i bulpud, ydoedd Pedr Fardd. Hwyrach bod hyn yn cyfrif i fesur am mai ychydig o'i hanes a ysgrifennwyd. Nid oes iddo gofiant, ac y mae nodiadau'r Geiriaduron Bywgraffyddol a'r Gwyddoniadur yn brin ac amwys. Cofnodir ei farw yn *Nhrysorfa* 1845, mewn pwt o ysgrif lac a weddai i un o aelodau mwyaf dinod y Cyfundeb Methodistaidd. Dyna dynged llawer gŵr mawr ; a

phwy a wyr nad dyna'r dynged oreu ; y mae pob dyn gwerth ei gofio yn creu cofiant iddo'i hun.

Gwyddys eni'r bardd Medi 17, 1775, mewn tŷ a elwid Tan yr Ogof, yn y Garn, Dolbenmaen, Sir Gaernarfon, a'i farw yn Liverpool, y Sul olaf o Ionawr, 1845. Enw ei dad ydoedd William Jones, neu William Jesus, ac adnabyddid ef oddiwrth y naill a'r llall, oherwydd ei fod yn fab i Jesus Jones. Gwehydd ydoedd William wrth ei grefft, ac yr oedd yn ddyn deallus o wybodaeth gyffredinol eangach a llwyrach na'r cyffredin yn ardal Dolbenmaen yn y dyddiau hynny. Symbylid ef i ddysgu eraill, fel ei fab ar ei ol, oblegid pan yn ŵr ieuanc cadwai ysgol nos yn ei dŷ yn Nhanyrogof. Yr oedd ynddo hefyd beth dawn ac ysfa prydydd. Adnabyddid ef yn ei ddydd fel bardd gwlad parod a defnyddiol, a chyfeiria Pedr at ei ddawn yn ei gywydd i Dewi Wyn a Robert ap Gwilym Ddu :

Rhyw anghelfydd brydydd brau
O Eifionydd wyf finnau ;
Fe'm ganwyd o fam gynil,
O fewn hon wyf un o'i hil.
A phrydydd hoff ei rodiad
Addfwyn o hon oedd fy nhad.

Y mae'r hyn sydd ar gadw o ffrwyth awen yr hen dad "hoff ei rodiad" yn profi ei fod yn fwy o grefyddwr nag o fardd. Yr oedd yn gymeriad disglair ac yn grefyddwr duwiol.

Symudasai cyn gorffen magu'r plant o Tanyrogof yn y Garn, i dŷ bychan o'r enw Tŵr Gwyn, ar dir Coedcaebach, ym mhlwyf Llangybi, ar gyfyl pentref o'r un enw, ac ymddengys fod dylanwad William Jones er daioni yn fawr yn y pentref hwnnw. Un tymor blinid ei ysbryd gan annuwioldeb y trigolion a'u meddwdod ar y Saboth, a chafodd gan ŵr y dafarn i ddodi'r pennill a ganlyn ar ddrws y seler :

Ni chewch wrth eich pleser fy seler y Suliau ;
'Rwy'n gwaeddi'n garedig am guddio'r 'goriadau,

Rhag ofn y daw drygfyd am ben fy holl drigfan
Oddieithr ymatal oddiwrth rhyw lymeitian ;
Mae ynof ryw swmbwl fod neb yn fy siamber
Yn meddwi nos Saboth mewn moddion ansyber ;
Mae blys yn fy nghalon o'm dwyfron mewn difri,
Gael tro mewn llawn gobaith ar bentref Llangybi.

Daeth cŵyn iddo dro arall oherwydd iaith fasw a rheglyd y pentrefwyr, a darbwyllodd yntau'r gôf i ddodi ar ddrws yr efail y pennill hwn :

Mewn chwedlau digrifwch arafwch yn 'r Efail,
Rhag bod uwch ben'r aelwyd mewn caethrwydd a'r
cythraul ;
Ymdaeru bryd arall mor angall a'r engan,
Am rywbeth mor ddyfal na thâl o werth hoelan ;
Mewn siarad yn ofer bydd llawer o'r llwon,
Yn graig o ynfydrwydd a geiriau go fudron ;
Gobeithiaf ceir dynion i fodlon sefydlu
Duwioldeb heb gaethder i'w weld ym mhob gweithdy.

Y peth goreu o waith William Jones sydd ar glawr ydyw " Galarnad Henaint," yn rhifyn cyntaf cyhoeddiad a elwid *Y Cymro*. Cyhoeddwyd hwn ym Mehefin, 1822, a thybir bod Pedr Fardd â llaw yn ei gychwyn a'i olygu. Cân dda iawn ydyw " Galarnad Henaint." Dechreua fel hyn :

Fel hyn 'rwy'n dehonglyd,
Heb boen na thrwy bennyd,
Am amser fy mywyd ar hyd bob yn rhan ;
Os medrwch chwi wrando,
Heb fod yn gofidio,
Mi redaf fi drosto'n lled drwstan.

Ar ddechreu 'moreuddydd
Mi flysiais awenydd ;
Nid oeddwn yn gelfydd, ei chynnydd ni ches ;
Oedd hawdd cael fy rhychor,
O gwyr llawer goror,
Ni fedrwn fwyn agor fy neges.

Yna aiff yn ei flaen i roddi " hanes ei henaint " :

Wrth dreulio fy nyddiau
Daeth pall i'm cyneddfau,
Gwanhaes fy synwyrau a lluniau fy llys ;
Y côf sydd yn methu,
A'm deall yn pylu,
Ac felly mae'n nheulu'n anhwylus.

Daeth achos yn fuan
Gael gwydrau efo'g oedran,
Ni welwn yn wiwlan neb allan o bell ;
Yr ydwyf yn ddibaid,
A hyn wrth angenrhaid,
Yn cario fy llygaid mewn llogell.

Y dannedd fu'n dynion
Sy'n braenu ac yn brinion,
Mewn difri, mae'm dwyfron yn gwynion i gyd ;
Gan faint yr amharu
Mae natur o 'neutu,
Fe'i gwelir yn gyrru at y gweryd.

Mae'r croen yn crebychu,
A pharod i fferu,
A'r henaint yn rhynu, rhaid tynu at y tân ;
A'r rhew-wynt o'r awyr
Fo'n nelu at fy nolur,
Mae'n eglur nad ellir mynd allan.

Y mae yn y gân 18 o benillion, a therfyna â'r ddau hyn :—

Fy medd yw y moddion
I wella f'archollion,
Iacha holl achosion trallodion yn llwyr,
Ei fath at y cleifion
Ni ddwg y meddygon,
Er cymaint eu swynion a'u synwyr.

Tu draw i'r Iorddonen
Cawn gyrff ar ol gorffen
Mor ddisglair a'r heulwen, heb gur pen nac aeth ;
Pan ddel Crist i'n galw
O'r bedd ar ei ddelw
Cawn wybod mawr elw marwolaeth.

Dichon nad oes pris uchel ar faint a nodwedd awen yr hen wr, ac nad esgynnodd yn uwch ym myd y beirdd na gradd rhigymwr ; er hynny diau fanteisio o Pedr ei fab lawer ar ysfa prydyddu aelwyd ei dad. Nid amheuaf nad oedd mwy o'r awen yn William Jones nag a geir yn y penillion uchod. Daeth awen fawr i'r teulu o rhywle, oblegid chwaer Pedr Fardd ydoedd mam y bardd enwog Nicander.

Y BACHGEN YN PRYDYDDU.

Canai Pedr yn hogyn ieuanc, a dywedir iddo pan yn wyth oed gyfansoddi englyn i'w chwaer a'i gorfodai i gyrchu enllyn iddi o rywle :

Fy chwaer sydd ferch daer a dig,—un 'stormus
Rhyw sturmant anniddig,
Er bwrw iâ a'r barrig,
Myn hon gael menyn neu gig.

A chaniatau fod y bardd yn blentyn anarferol o ddeallus a medrus, y mae'n anodd ymddiried mewn traddodiad sy'n priodoli iddo feistrolaeth ar reolau barddoniaeth, eithr y mae sicrwydd ei fod yn gryn gampwr ar y gelf pan yn bymtheg oed, pryd y galwodd Dafydd Ddu Eryri yn ei gartref. Yn gwybod yr ystyrrid y llanc bach yn fardd mawr gan y pentrefwyr, ceisiodd Dafydd ganddo ganu englyn i'r mis, sef Ionawr. Canodd yntau fel hyn :

Och ! Ionawr, aml ochenaid,—o'th achos,
A thuchan wna'r gweiniaid ;
Cwyno herwydd iâ canaid
Oer hin a rhew blin wna'r blaid.

### Yn Liverpool.

Tybir iddo barhau i weithio fel gwehydd gyda'i dad hyd nes oedd yn bump ar hugain oed, ac yna symud ohono i Liverpool. Er holi llawer methais â tharo ar neb a wyddai beth ydoedd gwaith Pedr ar ol gadael cartref, ac am y rhan fwyaf o'i oes yn y dref Seisnig. Dywed y llengar Mr. Isaac Davies, Birkenhead, i hen ŵr ddywedyd wrtho lawer blwyddyn yn ol mai *clerk* ydoedd mewn rhyw swyddfa neu'i gilydd yn y ddinas. Ofna Mr. Davies fod manylion hanes Pedr wedi eu colli pan gladdwyd y llenor Mr. Eleazar Roberts. Pa orchwyl bynnag a gyflawnai ymddengys iddo'i gymhwyso ei hun i fod yn rhyw fath ar ysgolfeistr. Y mae'n sicr iddo weithio'n ddiflin i ddiwyllio'i feddwl; casglodd doreth o wybodaeth, a meistrolodd yr iaith Saesneg fel ag i gyfansoddi'n rhwydd a rhagorol ynddi. Heblaw ysgrifennu'n achlysurol i gylchgronau Saesneg, cyfansoddodd, ar gais Dr. Raffles, hanes y Trefnyddion Calfinaidd. Byr ydoedd yr hanes, eithr cyhoeddwyd ef, a chanmolid yn fawr ei arddull Saesneg. Er mai fel bardd yr adnabyddid Pedr, ac mai i farddoniaeth y rhoddodd ei amser a'i ynni, ysgrifennodd lawer mewn rhyddiaith i gyhoeddiadau Cymreig, megis *Seren Gomer* a *Goleuad Cymru*. Cyhoeddodd hefyd ddau lyfr, sef *Manteision ac anfanteision Ystad Priodas yn ol fel yr elir iddi gyda Phersonau Crefyddol ac Anghrefyddol*, a *Catecism Ysgrythyrol ar Ddull Corff o Ddiwinyddiaeth*. Ystyrrid y Catecism hwn yn gampwaith, a bu mewn bri mawr am gryn amser.

Tua diwedd 1807 sefydlwyd ysgolion beunyddiol ar anogaeth y Parch. Thomas Charles o'r Bala ynglŷn ag Eglwysi Cymraeg Pall Mall a Bedford Street, Liverpool, a bu Pedr Fardd yn athro yn y gyntaf am ryw ysbaid. Dichon mai ar gynllun ysgolion y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, yr oedd y rhain, eithr nid oes sicrwydd am hynny. Cynhelid Ysgol Pall Mall, tan yr hen gapel, ac am dymor byr y bu Pedr yn

athro ynddi.[1] Pa fendithion bynnag a ddaethai i'r disgyblion trwy'r athro, y mae'n amlwg oddiwrth ei gwynfan i'r alwedigaeth beri blinder caled i'w gnawd a'i ysbryd ef:

Och! yn f' einioes na chawn fwyniant;—ysgol
A wasgai fardd methiant;
Gydâ blin giwed o blant,
Egwan weithian y'm gwnaethant.

Lleisiau ni ewyllysiwn—i'm dotiaw
O'm deutu fel cacwn;
Boddi mewn nadau byddwn,
Nychais i gan wych a sŵn.

Gwaeddi A. B., mawr gri mor groes,—hyll wbain
A sillebu trachroes;
I'm pen yr acen a roes
Hallt iâs a holltau eisoes.

O'r dwndwr a'r syfrdandod—y mynych
Ddymunais ryw gysgod;
Nid oes bardd yn dewis bod
Yn nirfawr sŵn anorfod.

Perchid Pedr Fardd gan holl Gymry Liverpool oherwydd ei wybodaeth eang, ei farn, ei ddoethineb, a'i gymeriad. Fel bardd ef oedd oracl mawr y ddinas i gyd, a chyrchai beirdd ieuanc ato am addysg o bob cyfeiriad. Nid oedd awdurdod uwch nag ef yn fyw ar y rheolau cynganeddol. Arferai addoli gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Pall Mall, a bu'n flaenor am lawer o flynyddoedd, hyd nes daeth llwch i'w loywder. Dywed ysgrifennydd a gofnoda'i farw i Eglwys Pall Mall ddisgyblu Pedr am ryw drosedd, eithr er y cerydd, i'r swyddogion ganiatau iddo le yn yr eglwys hyd y diwedd. Dywed hefyd,

[1] Mr. Eleazar Roberts yng *Ngheninen* Ion. 1906. Eithr dywed ysgrifennydd yn *Y Brud a Sylwydd* (1828) mai yn 1821 y sefydlwyd ysgol Pall Mall.

"Cysurus meddwl fod y ddisgyblaeth eglwysig wedi effeithio yn ddaionus ar ein brawd hwn; ni ddarllenai yr un llyfr ond ei Feibl y flwyddyn ddiweddaf o'i ymdaith."[1] Y cyhuddiad yn erbyn Pedr ydoedd ysgafnder anweddus i flaenor yn ei berthynas â morwyn iddo. Taerai ef ei fod yn ddiniwed, a dadleuai eraill drosto; eithr disgyblwyr llym a didrugaredd oedd yr hen frodyr gynt, a chosbwyd ef, diniwed neu beidio. Nid ymddengys ei fod o wasanaeth mawr fel blaenor, ac hwyrach y teimlai'r awdurdodau yn hawddach ei ddisgyblu oherwydd hynny. Dywed Mr. Eleazar Roberts: "Yr oedd yn y sêt fawr yn Pall Mall, pan oeddwn i yn hogyn, hen ŵr tal, penwyn, sef neb llai na Phedr Fardd. Dyn tawel, hamddenol ydoedd, heb fawr o ddawn siarad; ac er mai Pedr Fardd ydoedd, teflid ef i'r cysgod yn lân gan ei gydflaenor Samuel Jones. Er cystal bardd oedd Pedr ni lewyrchodd fawr fel blaenor, yn wir, os da yr wyf yn cofio, bu dan dipyn o gwmwl yn ei hen ddyddiau, yr hyn a amharodd ychydig ar hynny o ddefnyddioldeb y gallai ymffrostio ynddo."[2]

## Y BARDD.

Ceir prif waith barddonol Pedr Fardd, ac eithrio'i emynau, yn ei lyfr *Mêl Awen*, a gyhoeddwyd yn Liverpool gan T. Thomas, yn 1823. Y mae yn hwn lawer o Awdlau, Englynion a Chywyddau maith, ac y mae rhagoriaethau a diffygion yr awdur ynddynt i gyd.

Bardd bach ydoedd Pedr, ac ni chawsai byth le anrhydeddus ymhlith y beirdd onibai am y ffaith y rhoddid pris uchel gan ei gyfoeswyr ar y gynghanedd. Cyn belled ag y mae a fynno gwir farddoniaeth—meddwl a naws farddonol, â'r pwnc, y mae'r cwbl o waith cynganeddol yr awdur yn lled amddifad ohoni. Os ceir ar ddamwain ambell syniad tarawiadol a barddonol, ceir hefyd mai benthyg o'r Beibl ydyw. Dywed Caledfryn ar y pwynt hwn, "Os ydyw prydyddiaeth i gynnwys mwy na mesur-

[1] *Y Drysorfa*, xv. 1845. [2] *Y Geninen*, Ion. 1

iad silliadau a llyfnder geiriau, ac os ydyw y galon i gael ei phoethi gan fflam athrylith, rhaid i ni fyned i rywle oddiwrth gyfansoddiadau cyffredin Pedr i chwilio am hynny."[1] Ysgafnder diynni ydyw nodwedd ei holl gyfansoddiadau cynganeddol. Y maent yn ddigon hoyw a glân, eithr hoywder a glendid afonig fâs yn llifo'n ddiymdrech ac unffurf trwy ddyffrynoedd a'u swynion yn brin, a geir ynddynt. Sylwer mor ddôf ydyw ei ddarlun o'r Berth yn Llosgi, yn ei gywydd " Gwaredigaeth Israel a Dymchweliad yr Aifftiaid " :

A Moses ar des y dydd
Mewn man y' min y mynydd,
Gwiw alwad, yn bugeiliaw
Praidd ei chwegrwn, ddidwn ddaw ;
I fynu na wybu neb,
Aeth o'i hiraeth i Horeb ;
Ac addas gymdeithasu
Diau y ca'dd â Duw cu.
A dwy elfen dieilfydd
Gwelodd ef mewn goleuddydd ;
Rhyfedd a dieithr hefyd,
Glasberth yn goelcerth i gyd ;
Ac er y tân a'i waneg,
Ei gwiail a'i dail oedd dêg ;
Gwerdd ydoedd fel gardd Eden,
A hyfryd oedd pryd y pren.

Nid ydyw cywyddau hirion yr awdur, megis " Am garu Duw," " Diniweidrwydd," " Dyngarwch," " Brawdgarwch," " Rhagoriaethau Cariad," a " Chnawdoliaeth Crist," yn ddim amgen na thraethodau llac, neu bregethau merfaidd mewn iaith firain a chynghanedd dlos. Cymerer yn enghraifft ei gywydd ar " Gnawdoliaeth Crist." Gesyd yr awdur, fel mae arfer pregethwyr, ei destun uwchben ei gywydd,—" Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a

[1] *Traethodydd*, Gor. 1854.

drigodd yn ein plith ni." Ioan i. 14. I gael deunydd rhagymadrodd aiff y bardd yn ol i ardd Eden i ymdrin ag anffawd gyntaf Adda ac edrych hanes effeithiau'r Cwymp ar yr hil ddynol. Yna daw i ymyl ei destun—addewid am Waredwr, eithr gedy ef ar darawiad, a thry i gwmni'r patriarchiaid, a chaiff air difyr â Noa a'i fywyd newydd. Gwel Moses ymlaen, a phrysura beth, a'i ddal, ac wrth gyd-deithio trwy'r anialwch yf ddwfr o'r graig. Caiff flas ar y Manna, a chipolwg ar y Sarff bres. Clyw broffwydo am y Meseia, a daw drachefn at y testun—Y Geni ym Methlehem. Eithr gedy ef eto, ac aiff ymlaen at y bywyd dibechod, y dioddefiadau mawr, a'r marw ar y Groes. Math ar bregeth ymarferol a red yn un llinyn diglwm o'r Cwymp i'r Groes ydyw'r Cywydd.

Gwobrwywyd ei gywydd "Gwaredigaeth Israel a Dymchweliad yr Aifftiaid" yn Eisteddfod Aberhonddu yn 1822, ac yn 1826 enillodd gadair Gwent a Morgannwg mewn Eisteddfod a gynhaliwyd yn yr un dref am ei awdl ar "Roddiad y Ddeddf." Dyma'r unig fuddugoliaethau o fri a gafodd Pedr Fardd yn y byd eisteddfodol. Ni chlywais i neb ameu cyfiawnder y dyfarniadau hyn, eithr ofnaf mai pethau lled eiddil ydoedd cyfansoddiadau eraill y ddwy gystadleuaeth od oedd eiddo Pedr yn rhagori arnynt, oblegid nid ydyw ei eiddo ef ond aralleiriad cynghaneddol o hanesion ysgrythyrol.

Hwyrach na chafodd y genedl erioed ei well, os ei gystal, am gynganeddu hanes. Mor ddidrafferth a naturiol yr edrydd hanes ymddygiad yr Offeiriad, y Lefiad, a'r Samariad, ynglŷn â'r dyn a ysbeiliwyd gan ladron, ac a gamdriniwyd :

Chwarddent y lladron chwerwddull,
Rhedent a ffoent mewn ffull ;
A'i adael yn wael ei wêdd
Y' min cornant mewn carnedd ;
A drain i'w gylch, druan gwr !
Heb fwyd na chlwyd na chlydwr.

Bu yno am dro mewn drain,
Er ei nych oer, yn ochain,
A deuai yn y diwedd
Drwy'r wlad offeiriad hoff wedd.
Dieithr fodd ! pan daeth i'r fan,
Canfu hwn ef yn cwynfan ;
Ond pan welodd, e drodd draw ;
Diystyr fu a distaw.
Yr un modd, gwelodd ei gur,
Ryw Lefiad, a'i arw lafur.
Wrth ei gur ni thosturiodd,
Ond yn ddifraw draw fe drodd.
Aeth y rhain ymaith ar hynt ;
Swyddwyr o'r eglwys oeddynt.

Yna daeth y Samariad heibio :

Teithiwr, un bwynt a hwythau,
O well dyn na hwy ill dau.

Gwelodd yntau archollion y truan, a

Sychodd a rhwymodd y rhai'n
Yn eu lleoedd â lliain ;
Gan dywallt y gwin diwael
A'i olew coeth 'r ol eu cael.
A gwisgodd ef â gwasgawd ;
Meddai galon a bron brawd.
Ac, rywfodd, dododd y dyn
Oer isel ar ei asyn.
Ac felly i'r llety llawn
Dygodd ef i gael digawn.
Trugaredd fawr, tra gwiwran
A wnaeth ag ef, noeth a gwan.
Gwnaeth ryfedd ymgeledd gu
I'r adyn, a'i waredu
O chwerw ing a chur angau ;
Tra thirion oedd ei fron frau,
A phan aeth, helaeth haelwr,
Talodd heb ffrôst gôst y gŵr.

Am y gôst elai drosto,
A'i draul 'n ôl hyny o dro ;
I ŵr y tŷ rhoi air têg,
Od echwynid ychwaneg ;
Rhwymiad am daliad dilys,
A doi fo i'r fro ar frys.

Rhagorai Pedr mewn iaith, cynghanedd a chwaeth. O'i gyfoeswyr yr oedd Robert ap Gwilym Ddu yn fwy di-wastraff, eithr nid yn lanach, nac yn fwy meistr ar y gynghanedd. Cymerai drafferth anarferol i nyddu gwisg ysblennydd am feddyliau diegni a gwelw. Ni cheir yn y cwbl o'i waith bennill na llinell a bair i ddyn sefyll mewn syndod. Y mae'r gynghanedd bob amser yn ddifeth, eithr nid oes digon o rym a thân yn y meddyliau i saethu trwyddi nes ein synnu a'n syfrdanu ganddynt. Byddai'n fanwl hyd fai gyda chelfyddyd barddoniaeth, a diau mai gorfanylrwydd sy'n cyfrif am lawer o eiddilwch ei gyfansoddiadau.

Ymhyfrydai mewn cywreinrwydd cynganeddol, a gwnaeth amryw bethau cywreiniach yn y gynghanedd na neb yn ei oes, fel y praw " Egwyddor y Bardd " yn ei lyfr *Mêl Awen*. Nid yw'r awdl hon dda i ddim na neb, ond i'r sawl sy'n deall y rheolau. Nid oes ganddo fath yn y byd ar destun, ond y rheolau. Difudd ydyw ei awdl " Amddiffyniad i Gerdd Dafod " hithau, i bawb ond beirdd y gynghanedd. Ceir ynddi fedr a chywreinrwydd anarferol fel y dengys y dernyn a ganlyn â'i linellau'n dechreu â llythrennau gwreiddiol y wyddor :

Awen bur eon barod,
Beraidd gu da fu dy fod.
Canaf ei chlod hynod hi,
Chwarddaf wrth wrando'i cherddi,
Diwael adrodd diledryw
Ddoniau hon, rhadlon ei rhyw.
Emynau, gwawdiau gwiwdon
Fwriodd ei llais o feirdd llon.

Ffraeth ei genau, ffrwyth gwinwydd
Geir o hon ; a gwiw y rhydd
Hedegog ardderchog ddawn,
Iraidd dduwies oreuddaw.
Lan oreuglod, hynod haedd ;
Llu a'i car llai a'i cyraedd.
Minau gefais mewn gafael
Naws hon a'i thirion iaith hael.
Oes ynof eisiau anian ?
Profais a theimlais ei thân.
Rhaid addef rhed y wiwddawn
Swynawl wych yn seiniol iawn.
Tarddodd o honot urddas
Uwch y cwyn i iachau cas,
Wrth ei thrin efo'r min mau,
Ymlynaf â'i mêl enau.

## Yr Emynau.

Nid oes ym marddoniaeth gaeth yr awdur ddigon o deilyngdod i'w gadw'n fyw, na'i osod yn rhenc flaenaf beirdd ei wlad. Gorffwys ei anfarwoldeb ar ei emynau. Pe collid ei awdlau, ei gywyddau, a'i englynion, ni fyddai'r byd llenyddol fawr tlotach. Y mae mwy o werth mewn un o'i emynau nag sydd yn y cwbl o'i farddoniaeth gaeth.

Cyhoeddwyd yn 1825 *Hymnau Newyddion a gyfansoddwyd gan Peter Jones, Llynlleifiad*, eithr ei brif lyfr ydyw *Crynhoad o Hymnau, sef Cydymaith yr Ysgol Sabbothol*, yn Dair Rhan :

i. *Hymnau ar amrywiol Destynau ;*

ii. *Hymnau ar Benodau'r Hyfforddwr, sef Catecism Parch. T. Charles ;*

iii. *Hymnau Cenhadol.*

Yn ei ragymadrodd dywed yr awdur :—" Gan fy mod yn teimlo gradd o awydd i fod o ryw ddefnydd i'm cenedl yn fy nydd a'm cenhedlaeth anturiais gynnyg i'm cydwladwyr grynoad byr o Hymnau at wasanaeth yr Ysgol

Sabbothol, ynghyd ag ychydig o Hymnau Cenhadol, yn nghyfansoddiad y rhai ni ofelais i ddim am gywreinrwydd barddonol a seiniau clymedig a chynghaneddawl, ond yn hytrach am synwyr ac eglurdeb ymadrodd. Ni welir lloffion o faes neb arall yn y llyfryn hwn, a pha bethau bynag a geir ynddo yn llesg a gwael, rhaid cyfrif y ffaeleddau i mi yn unig, oherwydd nid oes un pennill o'i fewn o gyfansoddiad neb arall." Cyhoeddwyd y llyfr hwn yn 1830, ac y mae ynddo 86 o emynau.

Er y dywed yr awdur na ofalodd ddim am gywreinrwydd a chynghanedd, ceir llawer o'r naill a'r llall yn yr emynau, ac y maent yn well oherwydd hynny. Drygu eu hemynau a wnaeth cynghanedd Benjamin Francis ac Edward Jones, Maesyplwm, eithr beth sy'n llyfnach a mwy persain nag emyn adnabyddus Pedr Fardd :

> Daeth ffrydiau melus iawn
> Yn llawn fel lli, etc.

Y mae pob emyn yn gyfan a gorffenedig. Nid ydyw llawer o emynau Williams sydd yn ein llyfrau emynau heddyw ddim ond penillion a ysgarwyd oddiwrth eu brodyr eiddil a dieneiniad. Pe ysgerid penillion Pedr Fardd drygid yr emyn, oni ddinistrid ef. Ni ddaw neb yn agos at Pedr o ran gorffeniad ond Ieuan Glan Geirionydd. Nid oes ganddo un emyn gwael ; y maent i gyd yn ymyl y perffaith o ran celfyddyd, a cheir llond y mwyafrif o'r peth byw sy'n anadl einioes emyn gwir. Ystyrrir ei emynau goreu yn gyfartal â rhai goreu Pantycelyn ; y gwahaniaeth mawr rhyngddynt ydyw fod gan Williams ugeiniau onid cannoedd o emynau anfarwol, ac nad oes gan Pedr ond ychydig mewn cymhariaeth.

Prif destun yr emynau ydyw'r Iachawdwriaeth—ei Hawdur a'i chyflawnder ; eithr cana hefyd lawer o'i brofiad personol. Yn ei emyn " Yr Afael sicraf Fry," ceir profiad yr emynydd a phrofiad pob Cristion da,—ffydd yn Nuw, diogelwch mewn peryglon, a hyder am fuddugoliaeth ar bob gelyn :

Dywedwyd ganwaith na chawn fyw
  Gan anghrediniaeth hy';
Ond ymddiriedaf yn fy Nuw,—
  Mae'r afael sicraf fry.

Er rhwydau'r fall, a grym fy mhla',
  Mi welaf fwy o'm tu;
Galluog ydyw'r Bugail da,—
  Mae'r afael sicraf fry.

Caf floeddio concwest yn y man,
  Pob gelyn draw a ffy;
Can's er nad ydwyf fi ond gwan,
  Mae'r afael sicraf fry.

Yn ei emyn mirain "Arglwydd, cofia fi," ceir dwy ran, yn y naill y mae gweddi am drugaredd,—Duw yn *cofio* mewn maddeuant; ac yn y llall, gweddi am Dduw yn blaid "wrth rydio'r hen Iorddonen gas," a phan ddygir adref yr "etholedig ri," gweddia, "O Arglwydd, Cofia fi."

Yr oedd y bardd yn gyfarwydd a medrus anarferol yn yr Ysgrythyrau, a hawdd gwybod o ba le y cafodd lawer o feddyliau a ffigyrau ei emynau:

Marw wnaeth y gronyn gwenith,
  A thoreithiog fydd ei ffrwyth, etc.,

I gaethion Babilon
  Cyhoeddir llawn ryddhad, etc.,

Yr holl freniniaethau a dreulir,
  A'r ddelw falurir i lawr, etc.

Ymhlith ei emynau goreu y mae:

Daw miloedd ar ddarfod am danynt, etc.

Mae'r Iachawdwriaeth rad, etc.

Pechadur wyf, y dua'n fyw, etc.

Gorffenwyd, medd ein Iesu mawr, etc.

Cysegrwn flaenffrwyth ddyddiau'n hoes, etc.

Mae Eglwys Dduw trwy'r ddae'r a'r nef yn un, etc.
Hyfryd lais Efengyl hedd, etc.
Daeth ffrydiau melys iawn, etc.
Duw sy'n cyfiawnhau'r annuwiol, etc.
Mi af ymlaen, o nerth i nerth, etc.
Un ydyw'r Eglwys oll, etc.
Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen, etc.
Yr holl freniniaethau a dreulir, etc.

### Pedr Fardd a Ieuan Glan Geirionydd.

O chafodd y genedl fwyafrif ei hemynwyr mawr o Ddeheudir Cymru, y Gogledd a roes iddi ei hemynwyr celfyddydol,—rhai a ymboenodd i ddethol iaith dda, cymariaethau dianaf, a phenillion caboledig, nes cynhyrchu emynau cwbl lân. O'r rhain ymgyfyd tri uwchlaw pawb, sef Robert ap Gwilym Ddu, Ieuan Glan Geirionydd a Phedr Fardd. Y cyntaf oedd y bardd mwyaf, eithr y ddau arall oedd yr emynwyr mwyaf. Ieuan a Phedr ydyw prif emynwyr Gogledd Cymru. Yr oedd Ann Griffiths ar ei phen ei hun yn frenhines ym myd yr emyn, ac ni faidd neb ei mesur a'i phwyso. Diddorol ydyw cymharu'r ddau sydd ar y blaen er gweled y tebygrwydd a'r anhebygrwydd sy rhyngddynt.

Ymdebygant mewn gwerth llenyddol. Y mae iaith y ddau yn syml a glân, y ffigyrau a'r cymariaethau yn naturiol, a'r gelfydydd i gyd ar fin y perffaith. Y maent hefyd yn lled gyfartal o ran nodweddion profiadol (*subjective*) a gwrthrychol eu hemynau. Cân y ddau eu profiad o grefydd a'u gwybodaeth am grefydd. Ychydig o ddefnydd a wnaeth y naill a'r llall o Natur; cawsant eu cymariaethau o'r Ysgrythyr,—Ieuan o'r Hen Destament a Phedr o'r Testament Newydd.

Gwahaniaethant ym mhrif nodwedd eu hemynau. Pruddglwyfus ydyw Ieuan, a Phedr yn galonnog a gobeith-

iol. Aralleiriad o emynau Saesneg ydyw llawer o eiddo Ieuan, ac ni chydnebydd hynny bob amser, eithr y mae'r holl emynau a briodolir i Pedr yn eiddo gwreiddiol iddo. Ceir gan Pedr yntau rai cyfieithiadau, ac fe gydnebydd hynny'n ddieithriad. Cana Ieuan mewn iaith syml heb ymgais am glec ; ond gwna Pedr ddefnydd helaeth o gynghanedd, a gwna hynny i'r fantais oreu. Yn wir, Pedr Fardd ydyw'r unig emynydd hyd yma a lwyddodd i ddefnyddio'r gynghanedd yn gwbl ddidramgwydd mewn emynau. Er na chyfansoddodd Pedr lawer iawn o emynau, y mae eu rhif yn fwy na dyblu eiddo Ieuan, ac y mae rhif ei rai gwych a phoblogaidd felly hefyd.

Ac ystyried popeth tueddir fi i osod Pedr Fardd ar y blaen o'r ddau, ac felly, yn brif emynydd Gogledd Cymru.

Pedr Fardd, pa awdur fu
O'i amgenach am ganu ?
Ar ei fin, win awenydd ;
Daear Sais yn do oer sydd.

PENNOD VIII.

# ANN GRIFFITHS.

MERCH Dolwar Fach ydyw Cymraes enwocaf y byd. Nid doeth taeru mai Ann Griffiths ydyw emynyddes fwyaf y byd fel y gwna rhai llenorion gwlatgar a brwd. Dichon y rhagora'i hemynau ar eiddo pob merch a ganodd emyn, ond rhaid wrth wybodaeth eang a manwl o ddawn a chynnyrch merched y gwahanol genhedloedd i fod yn bendant a therfynol ar y pwnc. Cydnebydd pawb o ddyddiau Charles o'r Bala ei bod yn frenhines ym myd yr Emyn Cymraeg, ac o'r llu emynwyr a feddwn, na fedr, ac na faidd neb ond Pantycelyn geisio cydgerdded â hi i lawr trwy'r cenedlaethau.

Amaethdy cudd, cymedrol ei faint, mewn ceunant rhwng bryniau heb achos ymffrost yn eu huchter, ydyw Dolwar Fach, ym mhlwyf Llanfihangel yng Ngwynfa, sir Drefaldwyn. Os ceisir ef o Lanfyllin fe'i ceir ar ben rhyw wyth milltir i'r de-orllewin. Dyma gartref Ann Griffiths,—yma y ganed hi yn y flwyddyn 1776. Nid ydyw dydd ei geni ar glawr, ond gwyddys ei bedyddio yn Eglwys Llanfihangel, Ebrill 21, 1776; felly, naturiol ydyw casglu ei geni yng ngwanwyn yr un flwyddyn.

Y mae mwy wedi ei ysgrifennu am yr emynyddes nag am unrhyw emynydd Cymreig ond William Williams, ac y mae'r cwbl a gyhoeddwyd yn rhad a hawdd i'w gael, a phair hyn nad oes galw uchel am ysgrif faith yn y gyfrol hon. Er hyn, amcenir cymryd golwg gywir a chyflawn o'r Emynyddes a'i gwaith. Yn *Nhraethodydd* Hydref, 1846, cyhoeddwyd ysgrif gan y Parch. John Hughes, Pontrobert, tan yr enw *Cofiant a Llythyrau Ann Griffiths*. Gwyddai John Hughes fwy am Ann na neb yn ei oes, ac na neb mewn unrhyw oes, ac er ei chladdu ddeugain mlynedd cyn ysgrifennu ei hanes, yr oedd gan ei chof-

iannydd law fedrus a chof da, ynghyd â chof gwell ei wraig Ruth, i'w gynorthwyo. Yn y flwyddyn 1865 cyhoeddwyd llyfr hylaw Mr. Morris Davies, Bangor, yn cynnwys cofiant, llythyrau, ac emynau'r awdures. Yn ychwanegol at yr hyn a geir yn ysgrif y Parch. John Hughes casglodd Mr. Davies rai ffeithiau newydd, a llawer o draddodiadau. Yn 1903 cafwyd llyfr swllt gan Elfed ar *Ann Griffiths, ei Hanes a'i Hemynau ;* ond er y cwbl a ysgrifennwyd, y peth gwerthfawrocaf mewn argraff hyd yma ar Ann Griffiths ydyw llyfr Syr O. M. Edwards a gyhoeddwyd yng *Nghyfres y Fil* yn 1905. Yn hwn yn unig y ceir yr emynau fel y'u cyfansoddwyd, neu o'r hyn lleiaf, agosaf at yr hyn oeddynt yn wreiddiol.

### Teulu Dolwar Fach.

Enwau'r rhieni ydoedd John a Jane Thomas. Bu iddynt bump o blant, ac Ann ydoedd y drydedd ferch, a'r ieuângaf ond un o'r plant. Yn Ionawr, 1794, bu farw'r fam, a'r tad yn Chwefror, 1804. Rhagorai John Thomas ar fwyafrif tyddynwyr y plwyf mewn deall a chymeriad. Yr oedd yn abl i ysgrifennu a darllen, yn meddu peth dawn i brydyddu, ac yn Eglwyswr selog a manwl. Yr oedd y teulu yn fwy crefyddol a defosiynol nag odid un teulu yn y plwyf, a thelid peth gwrogaeth iddynt gan hyd yn oed yr offeiriad. Cedwid addoliad teuluaidd ar yr aelwyd yn gyson hwyr a bore, trwy gymorth y Llyfr Gweddi Gyffredin. Mynychid yr Eglwys yn rheolaidd, ac yr oedd ci Dolwar yn enwog trwy'r wlad am ei ffyddlondeb i'r gwasanaeth eglwysig. Trwy arferiad y daeth mynd i'r Eglwys yn gyson yn reddf i'r ci, a dysg hyn lawer am gysondeb rhywun, onid pawb o'r teulu yn odfeuon yr Eglwys. Dywedir nad oedd yn Dolwar wir grefydd er cymaint y sêl eglwysig a'r ymarferiadau crefyddol a geid yno. Y cyntaf i wybod trwy brofiad am grefydd ydoedd John, y mab hynaf. Ymunodd ef â'r Methodistiaid, a addolai ar y pryd yn amaethdy Penllys, ac ymhen ychydig flyn yddoedd gwnaed ef yn flaenor, a pharhaodd yn y swydd

wedi symud yr Achos i Bont Robert. Bu farw John mewn tangnefedd Ionawr, 1808, tua 38 mlwydd oed. Gwelir felly fod crefydd ysbrydol ar aelwyd Dolwar Fach yn nyddiau bore bywyd Ann Griffiths. Daeth yr holl deulu yn lled fuan wedi troedigaeth y mab yn grefyddwyr cywir ac yn Ymneilltuwyr ffyddlon. Cofrestrwyd Dolwar yn lle i addoli yn gyhoeddus ynddo Mehefin 9, 1803, a pharhaodd y Methodistiaid i bregethu yno am naw mlynedd.

### Y Parch. John Hughes, Pont Robert.

Y Parch. John Hughes, Pont Robert, ydyw'r unig awdurdod ar hanes Ann Griffiths. Fe'i hanfarwolodd ei hun trwy ddiogelu i'r genedl ei llythyrau a'i hemynau. Ganed ef yn y Figyn, Llanfihangel yng Ngwynfa, Chwefror 22, 1775. Gwehydd ydoedd, ond daeth yn athro ysgol Gymraeg tan y Parch. Thomas Charles o'r Bala, a bu yn ysgolfeistr yng nghymdogaeth Dolwar Fach, yn Llanwrin, Llanidloes, Berthlas, Llanfihangel a Phont Robert. Bu'n lletya yn Nolwar am amryw fisoedd wedi i Ann gael crefydd, a chafodd felly gyfle da i'w hadnabod.

Ymddengys i fryd John Hughes fod ar bregethu am ysbaid hir cyn cael caniatad y Corff i wneuthur hynny. Dyn a'i olwg braidd yn wrthun ydoedd,—ei wyneb yn anhawddgar, ei gorff a'i wisg yn aflêr, a'i lais yn amhersain. Anodd ydoedd gweled trwy'r pethau hyn ei gymwysterau i'r gwaith, ond dyn ardderchog ydoedd er y cwbl, ac yn 1802 cafodd ddechreu pregethu, a daeth yn dywysog o weinidog ym mywyd Methodistiaeth Maldwyn. Yr oedd yn Nolwar Fach forwyn o'r enw Ruth Evans, un fuandro a chymen, ac yn 1805 daeth yn wraig i John Hughes. Yr oedd Ann Griffiths a Thomas ei phriod yn y briodas, a'u henwau hwy a Evan Williams, y clochydd, a geir fel tystion yn llyfr Eglwys Llanfihangel. Treuliodd John Hughes oes lafurus a defnyddiol. Canodd rai emynau cymeradwy, a chyhoeddodd naw neu ddeg o lyfrynnau yn cynnwys Emynau, Caniad Solomon ar Gân, Pregethau a Chofiannau.

### Ann Griffiths cyn cael Crefydd.

Merch dal, dyner, wyneb gwyn a gwridog, â llygaid byw a llawen, ydoedd yr emynyddes. Y mae gennym fwy nag un darlun ohoni, ond un John Hughes yw'r perffeithiaf o lawer; y mae mor fanwl, ei linellau'n glir, a'r cyffyrddiadau'n dyner, fel y dwg Ann yn fyw ger ein bron,—"O ran ei dynsawdd, yr oedd o gyfansoddiad tyner, o wynepryd gwyn a gwridog, talcen lled uchel, gwallt tywyll, yn dalach o gorffolaeth na'r cyffredin o ferched, llygaid siriol ar don y croen, ac o olwg lled fawreddog, ac er hynny yn dra hawdd nesau ati mewn cyfeillach a hoffai." Cafodd beth ysgol ym more'i hoes, a dysgodd ddarllen ac ysgrifennu Saesneg, yr hyn oedd anarferol i blant ei dyddiau hi. Tyfodd i fyny yn eneth hoenus llawn asbri, ac athrylith ei hemyn yn lliwio'i harferion, ac yn rhoddi swyn yn ei hymddiddanion cyffredin.

Y mae cofianwyr Ann Griffiths yn tueddu i or-dduo ei bywyd cyn ei throedigaeth, a pharant i un dybio y gofidient am nad ydoedd dduach. Yr amcan yn ddiau ydoedd mwyhau y cyferbyniad rhwng ei bywyd cyn ei hachub ac wedyn. Sonnir amdani fel merch wyllt, wamal, yn ymhyfrydu mewn gwawdio crefydd a chrefyddwyr, a llwyddwyd rywfodd i argraffu ar feddwl y wlad fod ei phrif emynyddes unwaith yn enwog am ei hanystyriaeth a'i hannuwioldeb. Nid oes sail dda i'r haeriadau hyf hyn, ac y mae'n rhy hwyr i symud yr argraff a wnaethant. A chymryd nodwedd ei hoes a'i hamgylchoedd i ystyriaeth, y tebygolrwydd ydyw fod bywyd Ann Griffiths mor wastad a gweddaidd a di-son amdano ag eiddo unrhyw eneth yn y wlad. Cofier mai merch Dolwar ydoedd, yn dechreu a diweddu pob dydd o'i bywyd mewn addoliad teuluaidd ar aelwyd Eglwyswyr manwl a chrefyddwyr defosiynol. Ni chaniata tystiolaeth y Parch. John Hughes y syniadau a goleddir yn gyffredin am fywyd *gwyllt* ein gwrthrych. Dyfynnwn ei eiriau garwaf a chaletaf am dani:—"Hynod o bell oedd John Thomas a'i deulu oddiwrth feddwl am wrandaw ar neb o bregethwyr un

blaid o Ymneilltuwyr. Myned i Eglwys y plwyf y Sabbothau a dilyn y ddawns, etc., oedd agwedd ieuenctyd y wlad y pryd hwnw, ac felly yr arferai ieuenctyd y teulu hwn." Pan yn cyfeirio at wrthwynebiad y teulu i grefydd newydd John y mab hynaf, dywed, "Yr oedd John Thomas, ieuengaf, yn ddyn o dymher ddystaw, dwys, a serchogaidd, ac yn syml a thra difrifol yn ei agwedd grefyddol. Yr oedd y teulu am ysbaid cyntaf ei broffes ef yn edrych ar grefydd ymneillduol gyda chryn ddirmyg; er hynny ni ddangosasant gasineb chwerw tuag ato, canys yr oeddynt yn deulu tra serchog tuag at eu gilydd. Ond yr oeddynt yn dangos cryn lawer o ysgafn-wawd o'i grefydd ef; ac yr oedd Ann y pryd hwnw yn llawn can waethed yn hyn a neb ohonynt, ond yr oedd ei sobrwydd syml ef yn ennill parch iddo yn eu meddyliau." Am Ann yn arbennig, dywed, "Yr oedd wedi ei chynysgaethu â chyneddfau cryfion; ond lled wyllt ac ysgafn ydoedd ei hieuenctid. Hoffai y ddawns, ac arferai ei doniau i siarad yn lled drahâus am grefydd a chrefyddwyr o Ymneillduwyr. Dywedai yn wawdus am y bobl a fyddai yn myned i Gymdeithasfa y Bala, 'Dacw y pererinion yn myned i Mecca.'" Heblaw y dyfyniadau uchod, ceir hefyd ddywediad hen wraig a adnabu Ann Griffiths, wrth Mr. Morris Davies,—"Yr oedd Ann Thomas yn rhemp am y nosweithiau chwareu; un dôst oedd hi am ddawnsio." Dyma'r cwbl a geir yn gymorth i benderfynu nodwedd bywyd moesol ein gwrthrych cyn ei haileni, ac wrth fanylu gwelir y daw'r gwaethaf a roddir yn erbyn yr emynyddes i hyn: Yr oedd yn ysgafn ei bryd, yn hoff o'r ddawns, yn rhagfarnllyd yn erbyn Ymneilltuaeth, ac yn dueddol i siarad yn drahaus am Ymneilltuwyr a'u crefydd.

Nid oes dim yn rhyfedd ac ofnadwy yn hyn i gyd, ond i feddwl Piwritanaidd y diwygwyr Methodistaidd oedd ar y pryd yn effro'u cydwybod ac yn danllyd eu teimladau. Yn wir, yr oedd yn y wlad y pryd hwnnw, ac y mae eto, gannoedd yn ystyried pob un o'r nodweddau a nodwyd yn rhinwedd ynddi. Nid yw yn debyg y gofidiai Ann

hithau lawer ar ol cael crefydd oherwydd arferion difyr a nosweithiau llawen ei gorffennol, oblegid nid oes yn ei llythyrau un cyfeiriad atynt, er mai baich trymaf y cyfryw ydyw gofid a galar yn codi o ddiffygion ei bywyd. I farnu'n deg, rhaid ystyried tymheredd a doniau naturiol ein gwrthrych, ynghyda nodweddion ei hoes. Yr oedd yn ferch hoenus, ac o'i chymharu a'i chyfoedion, yn anarferol dalentog, ac yr oedd holl Eglwyswyr ei hoes, fel Eglwyswyr *manwl* yr oes hon, yn gwrthwynebu Ymneilltuwyr a'u crefydd bron hyd ddirmyg. Dylid cofio hefyd mai siarad yn drahaus a wnai Ann am y grefydd Ymneilltuol a'i phroffeswyr, ac nid am grefydd fel y cyfryw. Rhagfarn ei hoes ydoedd ei phrif bechod. A chaniatau ei bod yn "rhemp am y nosweithiau chwareu," yr hoffai ganu gyda'r delyn, ac yr ymgollai yn hwyl y ddawns ar loriau glân tyddynnod syml yr ardal, faint gwaeth hyn i gyd nag arferion merched *parchus* ein dyddiau ni a fynycha gyngherddau, eisteddfodau a chwaraedai ?

## Ei Throedigaeth.

Yn hen dref Llanfyllin, ym Maldwyn, y clywodd Ann Griffiths lais Duw yn ei galw i fywyd newydd,—yno y crewyd emynyddes Cymru. Nid oes sicrwydd pa flwyddyn ydoedd ; y cwbl a ddywed John Hughes ydyw, " Rhyw dro, nis gwyddom yr amser, aeth i Lanfyllin mewn bwriad i ddawnsio ; pa un ai gwylmabsant neu rhyw gyfarfod gwag arall oedd yn bod yno ar y pryd, nid ydys yn awr yn gwybod i sicrwydd ; ond tebygol mai amser gwylmabsant ydoedd yr adeg."[1] Ar yr heol cyfarfu Ann â merch a

[1] Sylwer nad oedd gan John Hughes ddim ond tyb noeth parthed bwriad Ann Griffiths yn ymweled â Llanfyllin. Rhyfedd baroted ydyw pawb i ameu cywirdeb ysbryd ac amcan y wraig ieuanc hon ymhob peth cyn ei dychwelyd at grefydd. Paham na ellir credu fyned ohoni i Lanfyllin ar neges ddiddrwg ynglŷn ag angenrheidiau teuluol ? Gosodid anghenrhaid weithiau ar dyddynwyr ardal Dolwar Fach fel eiddo ardaloedd anghysbell eraill i ymweled â thref i rywbeth heblaw dawnsio a chware cardiau. Ond a chaniatau mai dawnsio oedd bwriad Ann, y mae'n amlwg na feddai'r chware afael gref arni, oblegid

fuasai unwaith yn forwyn yn Dolwar Fach, ac ar gais yr hen forwyn aeth gyda hi i gapel yr Annibynwyr, ym mhen y dref, i wrando gŵr dieithr a bregethai yn y prynhawn. Y pregethwr ydoedd y Parch. Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr yng nghapel Penlan, Pwllheli.

Nid dyn dinod ydoedd Benjamin Jones, oblegid yr oedd yn bregethwr rhagorol, ac yn awdur o beth bri. Cyhoeddodd bregethau ar *Athrawiaeth y Drindod* yn 1793, a thraethawd ar *Ffynonau Iachawdwriaeth, neu Amddiffyniad o Athrawiaeth Gras* yn 1805.[1] Yn yr oedfa hon argyhoeddwyd Ann Griffiths o'i phechod, a phenderfynodd gefnu arno am byth. Wedi dychwelyd adref ceisiodd oleuni ac ymwared gan offeiriad ac eglwys y plwyf, ond methodd. Yna ymwasgodd at y Methodistiaid yng nghapel Pont Robert, a chlywodd y Parch. Ishmael Jones, o Landinam, yn pregethu yno nes dyfnhau ei phryder am gyflwr ei hysbryd, a dwyn goleuni byd arall i'w henaid. Porth cyfyng a fu'r argyhoeddiad iddi : " Yr oedd awdurdod ac ysbrydolrwydd y ddeddf yn ymaflyd mor rymus yn ei meddwl, hyd oni bu yn ymdreiglo amryw weithiau ar hyd y ffordd wrth fyned adref o'r Bont o wrando pregethau, gan ddychrynfeydd a thrallod meddwl."[2] Wedi bod yn y cyfyngder dygn hwn am ryw ysbaid daeth i ryddid a heddwch, ac ymaelododd gyda'r Methodistiaid yn y Bont. Yr oedd gwres diwygiad yn yr Eglwys ar y pryd, a'r awyrgylch yn gydnaws a phrofiad newydd yr aelod ieuanc.

## Un o blant y Diwygiad ydoedd.

Yng ngwres diwygiad y bu Ann Griffiths fyw a marw. Ni wybu hi am oeri gwres y cariad cyntaf, ac ni laciodd tannau ei thelyn. Ymunodd â'r Eglwys yn y Bont rhywaeth, a hi yn "lled wyllt ac ysgafn," ac yn Eglwyswraig ragfarnllyd, o ymyl hwyl a chyfaredd y ddawns, i gapel Ymneilltuol i wrando Ymneilltuwr yn pregethu.

[1] *Llyfryddiaeth y Cymry*, tud. 673.

[2] *Cofiant Ann Griffiths*, Y Parch. John Hughes.

bryd yn 1797, a dywed John Hughes fod diwygiad grymus wedi dechreu yno ddwy flynedd cyn hynny, a'i wres yn parhau o hyd. Yr oedd nerthoedd ysbrydol y Bala hefyd ar eu heithaf y blynyddoedd hynny, ac âi'r emynyddes dan orfoleddu ar yn ail fis â Ruth y forwyn, yr holl ffordd o Dolwar i'r Bala, pellter o ugain milltir, ar gyfer Saboth y Cymundeb. Torrai'r ffordd trwy fyned i Lanwddyn nos Sadwrn, a dychwelyd drannoeth wedi oedfa'r hwyr. Daw gorchestion yn hawdd a chyffredin yng ngwres a goleuni diwygiadau. Yr un ydyw neilltuolion dychweledigion pob diwygiad mawr yng Nghymru. Eiddo plant diwygiad 1904 ydoedd rhai Ann Griffiths hithau. Torrai allan i orfoleddu yn yr addoliad cyhoeddus, a chyrhaeddai adref o'r oedfeuon yn aml ar ieuenctid y dydd. Eir eto o'r tŷ i Bont Robert ar hyd ffordd Ann,—ffordd gul ddiymgeledd, rhwng llwyni a than goed, a deithiwyd ganddi yn araf, aeaf a haf, drycin a hindda, i addoli yn yr hen gapel. Ar y ffordd hon disgynnodd ei dagrau, rhai chwerw a melys. Yma y gweddïodd daeraf ac y canodd felysaf. Gwnaeth y ffordd i'r Bont yn llwybr cynefin angylion. Edrydd John Hughes am dani hi a'i chyfeillesau yn treulio oriau i weddïo a chanu ar eu taith adref. Un tro ceid tair ohonynt ar eu gliniau yn yr eira yn gorfoleddu, a thystiai Ann wrtho fod y cynhesrwydd ysbrydol yn eu henaid yn peri na theimlent oerni'r hin. Bryd arall, a hi'n dywyll iawn, crwydrasant i fannau anwastad a chlapiog gan syrthio ar draws y twmpathau, ond yn parhau i ganu a moliannu'n ddidaw.

### Ei Phriodas.

Wedi marw ei mam yn 1794, ymddengys y gofalai Ann am y cartref yn Nolwar Fach. Tybir i'r merched hynaf ymbriodi, a sefydlu cartrefi newydd. Yr oedd yn Nolwar y blynyddoedd hynny forwyn o'r enw Ruth Evans a ddeuthai oherwydd nodwedd ei hysbryd a'i chymeriad yn fwy o gyfeilles na morwyn i'r feistres ieuanc. Dywed y Parch. John Hughes mai " anfynych y mae y fath gyfeill-

ach agos mewn ystyr grefyddol yn bod rhwng meistres a morwyn ag oedd rhwng Ann a Ruth am y pedair blynedd y bu yn gwasanaethu yn Nolwar," a dug merch John a Ruth Hughes dystiolaeth gyffelyb: "Byddai fy mam ac Ann Thomas yn arfer cysgu gyda'u gilydd; byddai Ann yn deffro fy mam weithiau yn nhrymder y nos, ac yn dywedyd, 'Ffordd yr wyt ti yn gallu cysgu, lodes,—angeu, barn a thragwyddoldeb?' neu ryw ymadroddion difrifol cyffelyb." Y mae dyled Cymru'n fawr i ddwy o forynion Dolwar Fach.

Yn Hydref y flwyddyn y bu farw ei thad, sef 1804, priododd Ann amaethwr ieuanc o'r enw Thomas Griffiths, mab hynaf Edward a Marged Griffiths, Rhos Fawr, Meifod, ac wedi hynny o'r Cefn Du, ym mhlwyf Cegidfa. Yr oedd Thomas Griffiths yn gymar addas i'w briod feddylgar a defosiynol, yn ddyn deallus a chrefyddol, ac yn wasanaethgar iawn yn yr eglwys, yn arbennig gyda'r Ysgol Sabothol. Cyfansoddodd yntau ychydig emynau, ond heb athrylith ei wraig.

### Ann yn marw.

Prin blwyddyn y parhaodd yr undeb priodas. Ddeng mis wedi priodi ganed iddynt ferch, eithr ni bu fyw ond pythefnos, ac ymhen pythefnos wedi marw'r plentyn, hunodd y fam ieuanc hithau. Bu hyn ym mis Awst, 1805, a hi yn naw mlwydd ar hugain oed. Ni ddaeth i ni hanes manwl o'i dyddiau olaf, ond mewn cyfeiriad at ei marw ceir un sylw gwerthfawr gan y Parch. John Hughes: "Dywedai ei bod wedi dymuno lawer gwaith am gael gwely marw yn adeg oleu ar ei meddwl, ond erbyn myned iddo, nid oedd yn edrych cymaint ar hyny; ond ei bod yn cael modd i ymorffwys yn dawel ar gadernid y cyfamod tragwyddol a threfn cadwedigaeth pechaduriaid trwy y Cyfryngwr Mawr." Diolch am y gair hwn. Y fath gysur i Sion fydd cofio byth i wirioneddau mawr emynau Ann Griffiths ieuanc gynnal ei henaid yn ddiofn a thawel yng nglyn marwolaeth.

Claddwyd hi Awst 12, 1805, ym mynwent Llanfihangel. Pregethwyd ar yr achlysur i dorf fawr gan Mr. Thomas Owen, o'r Bala, oddiar Col. iii. 4, a'r bore Saboth dilynol traddodwyd pregeth goffadwriaethol yng nghapel Pont Robert gan ei hen gyfaill John Hughes, oddiar y geiriau "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

Bu'r bedd heb ddim i'w nodi am drigain mlynedd, ond yn 1864, gosododd y genedl golofn o ithfaen goch, gwerth £66, er cof amdani ym mynwent Llanfihangel, ac yn 1903 adeiladwyd Capel Coffa hardd yn Dolanog.

### Ei Llythyrau.

Y mae ar glawr wyth o lythyrau Ann Griffiths. Cyhoeddwyd hwy o dro i dro gan y Parch. John Hughes, ac yn 1865 fe'u cyhoeddwyd i gyd gan Mr. Morris Davies, Bangor, ynglŷn â'i gofiant i'r awdures; ond y mae'n bwysig gwybod na chyhoeddwyd hwy gan y naill na'r llall fel yr ysgrifennodd hi hwy. Anfonodd Ann saith o'r llythyrau at y Parch. John Hughes pan wasanaethai fel ysgolfeistr ym Mathafarn, Llanwrin, gerllaw Machynlleth, a'r wythfed at gyfeilles grefyddol.

Yn ffodus, onid yn rhagluniaethol, daeth Syr O. M. Edwards o hyd i ddau Lyfr Llawysgrif o eiddo John Hughes ym meddiant y Parch. Edward Griffiths, Meifod. Ysgrifenwyd y rhan fwyaf o'r llyfrau hyn rhwng 1800 ac 1805, a chynhwysant emynau, llythyrau a chofnodion cyfarfodydd crefyddol yn y Cyfundeb Methodistaidd. Y mae ynddynt chwech o lythyrau Ann, a rhan o'r seithfed,—collwyd un ddalen,—yn agos, onid yn hollol, fel yr ysgrifennodd hi hwy, ac y maent gryn lawer yn llai perffaith eu hiaith na'r rhai a gyhoeddwyd gan y Parch. John Hughes a Mr. Morris Davies. Ceir yn y llythyrau hyn brofion digonol o eangder gwybodaeth Ysgrythyrol, dyfnder argyhoeddiadau, a chyfoeth ysbrydol anarferol yr awdures ieuanc; ond gan eu bod bellach mewn argraff, ac o fewn cyrraedd i bawb ni ddyfynnaf ohonynt. Os dymuna'r darllenydd weled y llythyrau fel yr ysgrifennwyd hwy gan

Ann Griffiths, neu o'r hyn lleiaf, mor agos ag y gellir eu cael i hynny, efe a'u caiff yng *Nghyfres y Fil*, ac yno'n unig mewn argraff.

Er mai'r llythyrau yn llawysgrif John Hughes yw y rhai perffeithiaf a feddwn, nid oes sicrwydd na chyfnewidiodd rywfaint arnynt wrth eu copïo i'w lyfrau ; ond y mae gennym un llythyr yn llawysgrif yr awdures ei hun, sef yr un a ysgrifennodd at ei chyfeilles. Rhoddwyd y llythyr hwn gan un o deulu'r emynyddes, y diweddar Mr. John Jones, Llanfyllin, ŵyr i chwaer hynaf Ann Griffiths, i Lyfrgell Gymraeg Coleg Prifysgol Aberystwyth,[1] a chan y dengys nodwedd ei holl lythyrau yn ogystal a nodwedd ei bywyd, gosodir ef yma yn gyflawn, yn air am air:

ANWYLAF CHWAER YN YR ARGLWYDD.

Yn ol eich dymuniad y ysgrifenais yr ychydig leiniau hyn atoch a da [genyf][1] iawn genyf gael cyfle i wneyd fy helynt yn adnabyddus i chwi garedig chwaer y peth mwyaf neillduol sydd ar fy meddwl yn bresenol fel mater yw mewn perthynas i dristau yr Ysbryd Glan gair hwnw ddaeth im meddwl oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn demlau i'r Ysbryd Glan sydd yn trigo ynoch ac wrth dreiddio gronyn i mewn i ryfeddodau yr person a i fod yn trigo neu yn preswylio yn y credadyn rwif yn meddwl yn symul na chefais erioed fy meddianu ir un graddau ac ofnau parchus rhag i dristau ac yngyd a hynu cefais weled un achos ar achos penaf o fod y pechod mawr hwn yn cael mor lleied o argraff wasgedig ar y meddwl oherwydd fy meddyliau isel cableddus am berson mor fawr dyma oedd rhediad fy meddwl am bersonau yr diwdod rwif yn clywed fy meddwl yn cael ei ddal a chywilydd etto dan rywmai i ddweud oherwydd y niwaid o hono Meddwl am berson y Tad ar mab yn ogufywch ond am berson yr ysbryd glan ei [olygu][1] fel [sy][1] swyddog islaw iddynt. O feddwl

[1] Y mae *genyf*, *olygu* a *sy* wedi eu croesi allan yn y gwreiddiol.

dychmygol cyfeiliornus am berson dwyfol holl bresenol Hollwybodol a hollalluog i ddwyn yn y blaen a gorffen y gwaith da a ddechreiodd yn ol trefn y cyfamod rhad a chyngor tri yn un ar rhan gwrthrychau yr cariad borau o am y fraint o fod oi nifer Anwyl chwaer rhwif yn teimlo gradd o syched am ddod i fynu yn fwy mewn crediniaeth am breswyliad personol yr ysbryd glan yn fy nghyflwr a hynu trwy ddatguddiad nid yn ddychymigol gan feddwl amgyffred y dull ar modd y mae yr hyn sydd eilunaddoliaeth real Anwyl chwaer wrth edrych gronyn ar y pechadyrusrwydd ynddo ei hun o dristau yr ysbryd glan ac or tu arall edrych i mewn i ddyfnderoedd y codwm mawr a fy mod wedi fy llwyr ddifeddianu o bob gallu i ddim ond yw dristau mae yn o wasgedig yn wir ond y gair yma sydd ar fy meddwl gwiliwch a gweddiwch fel ped fau yr Arglwydd yn dyweyd er mor halld yw yr gorchymun a thithau mor analluog i gyflawni un peth o fil yn y fan yna ar y tir yna o ran dy feddwl tyred i'r maes treia di yr orsedd canys llawer a ddichon taer weddi yr cyfiawn.

Digon i ti fy ngras i fy nerth i a berffeithir mewn gwendid Diolch byth am Duw yn llond ei addewidion Anwyl chwaer mi a ddymunwn ddyweud llawer am rhinwedd gweddi ddirgel ond chwi a wyddoch fwy nag a allaf fi ddweyd am dani ond rwyf yn gwbl or farn ei bod yn rhagori llawer i wynebu gelunion ar fyddin o wyr arfog mi a wn trwy brofiad am gael fy roundio gan elunion na feddwn ddim yw wneud ond hynu a minau a arferaf weddi a hynu yn ateb y diben iddynt syrthio ynwysg ei cefnau o am y fraint o fod dan orichwiliaethau manwl yr ysbryd glan [rh][1] rwif yn meddwl yn symul na ffitia gorichwiliaeth llai manwl nar gair hwnw byth mo nghyflwr i ar bob moment y Dwfrhaf hi Diolch byth am fibl yn ffitio cyflwr wedi mynd mor ddyfn Anwyl chwaer rhiw fraint fawr yw bod cyflwr ar gael

[1] *rh* wedi ei groesi allan yn y gwreiddiol.

yngwyneb gair Duw o am ei ddal yn y drych Sanctaidd i'r diben i wneud use o gyfryngwr un peth neillduol ar fy meddwl neithiwr mewn perthynas i feindio cyflwr yn y gair R.J. yn llefaru yn werthfawr iawn o ran mater a minau mor sych mor Bell o ran fy mhrofiad nid oedd na deddf nac efengil yn gweithredu dim arnaf a hynu a weithiodd fesur o ddychryn ar fy meddwl ffaelu meddwl cael fy nghyflwr yn y gair o ran fod deddf ac efengil megis yn ddifydd gair hwnw ddaeth im meddwl dos allan rhagot ar hyd ol y praidd a minau ffaelu gweld ol y praidd yn yr Amgylchiad hwnw ond y gair hwnw ddaeth i'm meddwl gyda golau a gwres Deffro di ogledd wynt a thyred ddehau wynt Diolch byth am graig y gair i roi troed arni i gychwyn ar amosiblrwydd o gychwyn heb hynu Anwyl chwaer rwif yn gweled mwy o angen nac erioed am gael treilio y rhan su yn ol dan roi fy hun yn feunyddiol ac yn barhaus gorph ac enaid i ofal yr hwn su yn abal i gadw yr hyn a roddir ato erbyn y dydd hwnw nid rhoi fy hun unwaith ond byw dan roi fy hun hyd nes ac wrth roi yr tabernacle hwn heibio Anwyl chwaer mae meddwl am i roi o heibio yn felus neillduol weithiau gallaf ddweud mai hyn sudd yn fy lloni fwyf o bob peth y dyddiau hyn nid marw ynddo ei hun ond yr elw mawr sudd yw gael trwyddo cael gadel ar ol bob tueddiad croes i ewyllis Duw gadel ar ol bob gallu i ddianrhydeddu deddf Duw bob gwendid yn cael ei lyncu i fynu gan nerth cael cydymffuriad cyflawn ar gyfraith yr hon sudd eusoes ar ei calon a mwynhau delw Duw am byth Anwyl chwaer byddaf yn cael f llwngu gimaint weithiau ir pethau hyn fel ag y byddaf yn misio yn deg a sefyll yn ffordd fy nyledswydd gyda phethau amser ond disgwil am yr amser i gael fy natod a bod gyda Christ canys llawer iawn gwell ydiw er ei bod yma yn dda iawn trwy ddellt a bod yr Arglwydd yn datgyddio gymaint oi ogoniant weithiau trwy ddrych mewn dameg a all fy ngyneddfau gweiniaid i ddal Anwyl chwaer mae yn dda genyf ddweyd

hyn wrth ddibenu mi a ddymunwn ei ddweud gyda diolchgarwch er fy holl lygredd a dyfais uffern byd ai wrthrychau rwi o ddaioni Duw yn unig heb newid gwrthrych fy serch hyd heno ond yn hytrach o galon am ymlonyddu yn ei gariad ac ymhyfrydu ynddo byth dan ganu er nas caf hynu ir graddau lleiaf tu yma i angau ond trwy drais Anwyl [chwaer][1] garedig chwaer dymynaf arnoch yn neillduol anfon ataf gydaf brys na omeddwch fi nis gallaf beidio ai gymeryd yn angaredig arnoch os gwnewch mae Ruth yn dymuno ei chofio yn garedig atoch nid oes gair neillduol yw anfon atoch fel newydd ond hyn mae rhiw ysbryd gobeithio bob dim i weld arwyddion adferiad Rachel Pugh a hyn oddiwrth eich gredig chwaer yn cyflum deithio trwy fyd o amser i byd mawr a bery byth

ANN THOMAS

Er mai cwbl groes i nattur yw fy llwybur yn y byd
I deithio wnaf a hynu yn dawel yngwerthfawr
wedd dy wyneb pryd wrth godi yr groes ei chyfri yn goron
Mewn gorthrymderau llawen fyw ffordd yn iniawn
Er mor ddyrus i Ddinas gyfaneddol yw.

*Nodyn.*—Y cyfeiriad ar lythyr Ann Thomas cyn belled ag y gellir ei ddeall ydyw,—

" Elizabeth Evans,
Bwlch Aeddon."

Y mae'r llythyr hwn yn gopi cywir o *ddarlun* o'r llythyr gwreiddiol yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Y cwbl y gwyddys am dano heddyw yn llawysgrif Ann Griffiths ydyw'r llythyr hwn, ei henw yn llyfr Eglwys Llanfihangel wrth gofnod ei phriodas, a'i henw fel tyst ym mhriodas John a Ruth Hughes yn yr un llyfr.

[1] *chwaer* wedi ei groesi allan yn y gwreiddiol.

## HANES A NODWEDD YR EMYNAU.

Yn ol y Parch. John Hughes bwriad cyntaf Ann Griffiths ar ol cael crefydd ydoedd cadw dydd-lyfr ac ysgrifennu ynddo ei phrofiadau crefyddol, ond am ryw reswm na wyddys ni chyflawnodd ei bwriad. Dechreuodd yn hytrach gyfansoddi penillion ac emynau, "a phryd bynnag y byddai rhywbeth neilltuol ar ei meddwl, deuai allan yn bennill o hymn." Y fath fendith i'r eglwys a'r genedl ydoedd iddi droi oddi wrth ei bwriad cyntaf, a gosod ei meddyliau mawr a'i phrofiadau ysbrydol mewn "pennill o hymn." Cyfansoddodd yr emynau yn y llaethdy ac wrth y droell nyddu yn ei chartref, ac ambell un wrth ddychwelyd o gyfarfodydd crefyddol. Gan nad oedd yn y Cyfundeb Methodistaidd ar y cychwyn, ac am rai blynyddoedd wedyn, weinidogion ordeiniedig i weinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd, gorfodid y rhai a ddymunai gymuno i deithio degau, ac weithiau ugeiniau o filltiroedd, i leoedd fel Llangeitho a'r Bala i dderbyn yr elfennau o ddwylo rhai a fuasai unwaith yn offeiriaid yn Eglwys Loegr, megis Rowlands a Charles. Dyma'r rheswm paham yr ai Methodistiaid ardal Pont Robert trwy lafur a lludded i'r Bala erbyn Sul y Cymundeb. Cawsai Ann Griffiths lawer o hwyl i fyfyrio a gorfoleddu ar y teithiau hyn. Un tro wrth ddychwelyd o'r Bala, ymgollodd mewn myfyrdod ar ddirgelwch y Drindod, gogoniant person y Gwaredwr, a'r dedwyddwch o fod yn wastad gydag Ef, fel na wybu ddim am dani ei hun nes dyfod tros y Berwyn i flaen plwyf Llanwddyn, tua phum milltir o'r ffordd, a hynny ar geffyl "a fyddai yn arfer bod yn gryn afreolus." Yn ystod y pum milltir hyn y cyfansoddodd y pennill adnabyddus:

O ddedwydd awr tragwyddol orffwys
  Oddiwrth fy llafur yn fy nrhan,
Ynghanol mor o ryfeddodau
  Heb weled terfyn byth, na glan;

Mynediad helaeth byth i bara,
I fewn trigfanau tri yn un,
Dwr i'w nofio heb fynd trwyddo,
Dyn yn Dduw, a Duw'n ddyn.

Nid oes ond un pennill o'r holl Emynau yn llawysgrif yr Emynyddes, sef yr un a geir ar ddiwedd ei llythyr i'w chyfeilles :

Er mai cwbwl groes i natur, etc.

Ymddengys nad ysgrifennai hi ond ychydig ohonynt, ond adroddai hwy i Ruth y forwyn, a dymunai arni eu canu, i weled a ddeuent ar y tonau arferedig. Dysgodd Ruth y cwbl ohonynt, neu yn agos y cwbl, a dywedai ymhen blynyddoedd wedi marw Ann y cofiai hwy yn fanwl hyd oni argraffwyd hwynt ; ond wedi hynny nad oedd mor sicr ohonynt. Mor hawdd credu fod a fynno Duw â diogelu'r emynau gwerthfawr hyn. Ysgrifennodd y Parch. John Hughes yr emynau yn ei ddau Lyfr Llawysgrif o gof ei briod Ruth, ac ar gais y Parch. Thomas Charles, ysgrifennodd hwy eilwaith ar gyfer eu hargraffu, eithr nid fel y cyfansoddodd Ann hwy, nac fel y maent yn y Llyfr Llawysgrif. Cymerodd yr hen bererin ryddid i drefnu a chywiro'r emynau yn ol ei farn ei hun. Eithr er trefnu a drysu, cywiro a niweidio, y mae'r meddyliau mawr, y dwyster cyfriniol, a'r eneiniad dwyfol yn aros yn ddianaf. Yn y flwyddyn 1806 cyhoeddodd y Parch. Thomas Charles yn y Bala gasgliad o Emynau gan mwyaf heb erioed eu hargraffu o'r blaen,[1] ac yn 1808 cyhoeddwyd ail argraffiad.[2] Gwelais y cyntaf, ac y mae'r ail wrth law gennyf. Yn argraffiad 1808 y mae 65 o emynau o eiddo amryw awduron, ac nid oes dim i wahaniaethu rhai Ann Griffiths oddi wrth y gweddill. Ond nid yw hyn yn golled fawr, od yw'n golled o gwbl, gan fod yr emynau gwreiddiol ar gael yn Llyfrau Llawysgrif John Hughes. Ceir yn y llyfrau

[1] Yn *Grawnsypiau Canaan*, Robert Jones, o Roslân, yr ail argraffiad—Bala, R. Sanderson, 1805, yn gymysg ag emynau o waith eraill, ceir eiddo Ann Griffiths.

[2] Ail argraffiad tan yr enw *Hymnau o Fawl i Dduw ac i'r Oen.*

hyn 70 o benillion. Cyhoeddodd John Hughes yn *Nhraethodydd* Hydref, 1846, ddau bennill, a Morris Davies bedwar pennill yn ei *Gofiant*, nas ceir yn y Llyfrau Llawysgrif. Y mae'r cwbl felly yn 76, ac ni cheir ond 45 o'r rhain yn argraffiad 1908 o *Hymnau o Fawl i Dduw ac i'r Oen*.

Nid oes un emyn yn ein llyfrau emynau heddyw yn gwbl fel y cyfansoddodd Ann Griffiths ef. Nid yn unig newidiwyd geiriau, llinellau, ac weithiau feddyliau, ond darniwyd *amryw* o'r emynau gwreiddiol i wneuthur *un* ar gyfer casgliadau'r enwadau. Cymerer yr emyn adnabyddus :

Dyma Babell y Cyfarfod, etc.

Yn llyfr y Methodistiaid Calfinaidd ceir ynddo bedwar pennill, a phob un o emyn gwreiddiol gwahanol. Sylwer hefyd ar y gwahaniaeth rhwng y ddau bennill a ganlyn :

| | |
|---|---|
| Cofia, Arglwydd, dy ddyweddi, | Cofia, Arglwydd, Dy ddyweddi, |
| Llama ati fel yr hydd, | Llama ati fel yr hydd ; |
| Ac na'd i'r Ameleciaid | Ac na âd i'w holl elynion |
| Arni'n hollol gario'r dydd ; | Arni'n hollol gael y dydd : |
| Mae'r llwynogod ynddi'n rhodio | O ! dadguddia y colofnau |
| I ddifwyno'r egin grawn, | Wnaed i'w chynnal yn y nos,— |
| S'ceina fwyfwy sy'n ymadael | Addewidion diammodol |
| O foreuddydd hyd brydnhawn. | Duw ar gyfrif gwaed y Groes. |
| (*Llyfr Llawysgrif* J. Hughes). | (*Llyfr y Meth. Calfinaidd*). |

Nodaf un arall, o lawer, i ddangos y cyfnewid a fu :—

| | |
|---|---|
| Cofia ddilyn y Medelwyr, | Cofia ddilyn y Medelwyr, |
| Yn mhlith'r ysgubau treulia dy oes | 'Mhlith y 'sgubau treulia d'oes ; |
| Pan fo mynydd Seinai'n danllyd, | Pan fo'r gwres yn fwyaf tanbaid, |
| Gwlych dy damaid wrth y groes; | Gwlych dy damaid wrth y grose; |
| Gwel ddirglewch mawr duwioldeb, | Lloffa'n maes yr Ysgrythyrau, |
| Cafwyd allor wrth dy droed, | Cais dwysenau addfed, llawn,— |
| Duw a dyndod arno yn dyodde, | Hael fendithion y cyfamod |
| Llef am ole i ganu ei glod. | Sydd yn dyfod trwy yr Iawn. |
| (*Llyfr Llawysgrif* J. Hughes). | (*Emynau y Cysegr*, T. Gee). |

Gwelir fod pedair llinell olaf y pennill a genir heddyw yn gwbl wahanol i eiddo'r pennill gwreiddiol yn llawysgrif John Hughes. Y mae'n lled debyg mai eiddo John Hughes, ac nid Ann Griffiths ydyw'r pedair sy'n dechreu :

Lloffa'n maes yr Ysgrythyrau,

oblegid ni cheir hwy ymhlith emynau y Llyfr Llawysgrif, ac ni cheir y rhai gwreiddiol, sy'n dechreu

Gwel ddirgelwch mawr duwioldeb,

ymhlith emynau argraffiad Thomas Charles, nac yn eiddo Morris Davies, er y mynnai'r olaf fod holl emynau Ann yn ei Gasgliad. Gwelir hefyd fod yr odl gudd trwy'r pennill argraffedig, ac eithrio'r ddwy linell gyntaf, eithr anodd credu y rhoddai Ann Griffiths unrhyw bwys ar yr odl gudd, os gwyddai am dani o gwbl, ac ni cheir hi onid ar damwain yn ei hemynau. O'r ochr arall, hoffai'r Parch. John Hughes yr odl hon, fel y dengys y pigion o'i emynau a geir yng *Nghyfres y Fil.* Ceir yr odl gudd yn y mwyafrif ohonynt. Dichon y dywedir nad oedd John Hughes yn ddigon o emynydd i wneuthur dim teilwng o Ann Griffiths ; ond a chaniatau hynny, yr oedd yn ddigon o brydydd ac yn ddigon duwiol i gyfansoddi pedair llinell y pennill sydd mewn argraff o dan gyfarwyddyd pedair llinell gyntaf pennill Ann. Peth arall a bair i mi gredu mai pennill y Llawysgrif a ganodd yr emynyddes ydyw, y ffaith fod y toriad sydyn ac annisgwyliadwy sydd yn y pennill o sôn am dreulio oes ymhlith y 'sgubau i sôn am allor a " Duw a dyndod arno yn dyedde " yn hollol gyson ag arferiad yr awdures ; y mae'r toriad sydyn hwn yn un o'i neilltuolion. Er bod dwy ran y pennill a genir heddyw yn fwy cyson a'i gilydd, y pennill gwreiddiol sy'n debig i Ann Griffiths wedi'r cwbl.

Nid ydyw'r holl emynau ond 572 o linellau, a gynhwysir mewn 76 o benillion. Dosberthir y penillion weithiau i 26, a phryd arall i 29, o emynau. Rhoddwyd y clod i Ann Griffiths am dros gan mlynedd am yr emynau

Ffrydiau tawel byw rhedegog,
O dan riniog tŷ fy Nuw, etc.,

a

O rhwyga'r tew gymylau duon,
Sy'n cuddio gwedd dy wyneb gwiw, etc.,

eithr y Doctor Nathaniel Williams biau hwynt, a chyhoeddwyd hwy pan nad oedd Ann Griffiths yn un mlwydd ar ddeg oed, yn "*Ychydig o Hymnau Newyddion*, Yr Ail Ran, Caerfyrddin, 1787." Ac y mae amheuaeth ynglŷn ag awduraeth yr emyn

O Arglwydd Dduw rhagluniaeth
Ac iachawdwriaeth dyn, etc.

Nid oes le i gŵyn parthed defnydd yr emynau; o chwilio am fai rhaid gwneuthur hynny yn y wisg. Defnyddiai'r emynyddes weithiau air heb fod o fonedd uchel, megis *senter* a *cleimio*, ond yn hyn nid yw ei bai y ganfed ran o eiddo Pantycelyn. Y mae yn yr emynau ambell odl hefyd a gondemnir gan y beirniaid manwl, ond nid ydyw Ann yn euog, fel Williams, Morgan Rhys, Dafydd Jones, Dafydd William, ac eraill, o lurgunio geiriau er mwyn odl. Yr unig fai gwerth sôn amdano ydyw tor mesur, ac y mae hwn mor aml fel na cheir yn llawysgrif John Hughes ond ychydig benillion a red yn rhydd a heini. Eithr, er mai hwn ydyw bai mwyaf yr emynau, un bychan bach ydyw, gan y medr unrhyw fardd neu lenor yn ddiorchest ddisgloffi pob pennill.

Y mae'r holl emynau mor odidog nes yw'n anodd nodi eu rhagoriaethau, a phrin y deil eiddo neb i'w cymharu â hwy. Dywed Caledfryn yn ei draethawd ar *Athrylith Ann Griffiths* fod "ganddi rai darnau na chyrhaeddodd unrhyw emynydd arall eu cyffelyb," a dywedai Elfed yn y Cyfarfod Canmlwyddiant yn Llanfyllin fod "rhai o'i hemynau hi yn rhagori hyd yn oed ar eiddo Williams, Pantycelyn."[1] Canai rhai o'r hen emynwyr emynau

[1] *Y Cymro*, Awst 17, 1905.

mawr a hir yn cynnwys deuddeg a rhagor o benillion; ond byr, dwys, a chyfrin ydyw emyn Ann; rhyw bedwar pennill yw ei hemyn fel rheol. Nid oes ganddi ond un a mwy na phump ynddo, ac y mae pob pennill fel aur digymysg. Gellir canu pob emyn a gyfansoddodd, am eu bod i gyd yn addas i'r addoliad mwyaf ysbrydol. Ni ellir dywedyd hyn am neb o'r emynwyr a ganodd o'i blaen hi. Canai am bethau mwyaf y cydfyd,—Cariad Duw, gogoniant person y Cyfryngwr, y drefn i gadw dyn, a dirgelwch mawr duwioldeb. Bu hi'n byw yng nghymdeithas y ffeithiau hyn, a'r gymdeithas honno sy'n cyfrif am naws santaidd ac eneiniad dwyfol eu hemynau.

Prin y mae eisiau nodi fod yr emynau'n Ysgrythyrol iawn; gwêl y cyfarwydd â hwy hynny ar darawiad. Y maent yn llawn o gymariaethau a ffigyrau o'r Ysgrythyr megis *meddyg*, *nyth*, *ffordd*, *ffynnon*, *brenin*, *brwydr*, *ffrydiau*, *afon*, *moroedd*, *craig*, *hawl* a *nithio*. Amled y cyfeiria at *cyfamod*, *pabell*, *Calfaria*, *Sinai*, *iawn*, *noddfa*, *anialwch* a *colofnau*.

Yr oedd elfen gyfriniol gref yn perthyn i feddwl Ann Griffiths, a bu nodwedd meddwl crefyddol ei hoes, ac yn arbennig nodwedd meddwl Methodistiaid yr oes, yn foddion i gryfhau yr elfen honno. Y mae pob diwygiad crefyddol mawr yn cynhyrchu cyfrinwyr,—dynion wedi eu geni i bethau goruwchnaturiol, yn profi a gweled pethau anesboniadwy. Gwelir delw esboniadaeth, diwinyddiaeth, a phregethu'r cyfnod ar lythyrau ac emynau'r awdures. Yn un o'i llythyrau i John Hughes, dywed, " Ni bu erioed fwy o hiraeth arnaf am fod yn bur; y gair hwnnw ar fy meddwl,—' Y tŷ, pan adeiladwyd, a adeiladwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu.' " Esbonia'r adnod i ddysgu'r angenrheidrwydd am burdeb. Dull hynod o gymhwyso gwirioneddau'r Hen Destament, ond dull nodweddiadol o'i hoes ydoedd. Gwnaeth y Parch. John Nelson, gweinidog enwog gyda'r Wesleaid Seisnig, a gladdwyd ddwy flynedd cyn geni Ann, yr un defnydd yn hollol o'r " cerrig wedi eu cwbl naddu." Ymosodid arno'n galed am bre

gethu athrawiaeth perffeithrwydd Cristionogol, ac i brofi gwiredd yr athrawiaeth cymerai Nelson fenthyg hanes y cerrig nadd.[1] Dywedir fod i'r emynyddes gof cryf a gafaelgar anarferol, ac y cofiai bregethau John Elias a Thomas Charles yn lled lwyr. Diau i ddiwinyddiaeth, ac hyd yn oed ymadroddion, y pregethau hynny osod argraff ddofn ar ei meddwl a'i chyfansoddiadau. Ceir llawer o ddwyster ac ofnadwyaeth pregethu'r cyfnod ymhlith y Methodistiaid yn ei holl emynau.

Dichon mai'r esboniad goreu ar yr emynau ydyw ei llythyrau. Y mae a fynno gwirioneddau mawr y llythyrau â'r un materion ag eiddo'r emynau, sef, y Drindod, undeb y ddwy Natur ym Mab Duw, llygredigaeth pechadur, aberth y Groes, trefn i faddeu, gwaith yr Ysbryd Glân, a gwynfyd tragwyddol. Nid damwain ydoedd i'r awdures ganu mor odidog. Yr un un ydyw nodweddion y llythyrau â'r emynau; ceir athrylith gref, cyfriniaeth ddofn, a phrofiad ysbrydol uchel yr emynau yn y llythyrau hefyd. Mor debig i'w hemyn ydyw'r dyfyniadau hyn o'i llythyrau i John Hughes:

> "Yr wyf yn cywilyddio'n barchus, ac yn llawenychu mewn syndod, wrth feddwl fod yr Hwn y mae'n ddarostyngiad iddo edrych ar y pethau yn y nefoedd, etto wedi rhoi ei hun yn wrthddrych serch i greadur mor wael a myfi.
>
> "Yn yr olwg o'r dianrhydedd ar Dduw o roi'r lle blaenaf i ail bethau, dyma fy meddwl yn symyl. Os rhaid i natur gael ei gwasgu i afael marwolaeth oherwydd ei gwendid i ddal twniadau tanbaid haul profedigaethau, byddaf yn meddwl weithiau y caf edrych ar fy ysbeilio yn llawen o 'mywyd naturiol yn hytrach (os rhaid) nag i ogoniant fynd tan gwmwl wrth i natur gael ei rhwysg a'i gwrthddrychau.
>
> "Mae'n syndod i'm feddwl pwy oedd ar y Groes,—
> —Yr Hwn sydd a'i lygaid fel fflam dân yn treiddio

[1] *Wesley's Veterans*, Cyf. iii. tud. 103.

trwy'r nefoedd a daear ar yr un moment yn methu canfod ei greaduriaid, gwaith ei ddwylaw. Y mae fy meddwl yn boddi gormod i ddweud dim yn chwaneg ar y mater."

Nid oes i'r genedl un emynydd â'i emyn cyn lawned o gyferbyniadau ag eiddo Ann Griffiths. Y maent yn synfawr ac ofnadwy, ac eto'n ysblennydd. Nid oes dim yn yr iaith yn fwy aruchel ac ysbrydoledig na'r rhain :

Rhoi Awdwr Bywyd i farwolaeth,
  A chladdu'r Adgyfodiad mawr.

Y greadigaeth ynddo yn symud,
  Ynte'n farw yn y bedd.

Dwr i'w nofio heb fynd trwyddo,
  Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

Byw i weld yr Anweledig,
  Fu farw ac sy'n awr yn fyw.

Pan fo Sinai i gyd yn mygu,
  A sain yr utgorn uwcha ei radd,
Caf fynd i wledda tros y terfyn,
  Y Nghrist y Gair, heb gael ei ladd.

Mor odidog yw'r llinellau a ganlyn :

Bywyd myrdd o safn marwolaeth
  A gafwyd yn ei angau dryd.

Mae yno'n trigo bob cyflawnder
  Llond gwagle colledigaeth dyn ;
Ar yr adwy rhwng y ddwyblaid,
  Gwnaeth gymod trwy ei offrymu ei hun.

Yn Llyfrau Llawysgrif y Parch. John Hughes ceir holl emynau yr awdures ond y chwe pennill a ganlyn :

Dyma frawd a annwyd inni, etc.

Ni all y moroedd mawrion llydain, etc.
Ffrydiau tawel, byw, rhedegog, etc.
Nid oes wrthrych ar y ddaear, etc.
Pan oedd Sinai gynt yn danllyd, etc.
Mi gerdda'n araf ddyddiau f'oes, etc.

Copïodd Syr O. M. Edwards yr emynau fel yr ysgrifennwyd hwy gan John Hughes o gof Ruth ei wraig, a chyhoeddwyd hwy yng *Nghyfres y Fil* gyda'r gwallau i gyd,—yn union fel yr oeddynt cyn eu cywiro gan John Hughes ar gyfer y wasg. Trwy imi gael golwg ar y ddau Llyfr Llawysgrif gallaf dystio i fanylrwydd y marchog yn hyn o beth.

Terfynaf y bennod hon yng ngeiriau'r Parch. John Hughes,—" Am Ann Griffiths, gwirionedd diormodiaeth ydyw ei bod yn hynod ymhlith y merched a'r gwragedd crefyddol. Un hynod ydoedd—hynod o ran cyneddfau eang a chryfion, hynod o ran gwybodaeth ysgrythyrol a phrofiadau ysbrydol, a hynod o ran serchogrwydd, a siriol-deb, a sancteiddrwydd buchedd ; yr oedd yn goron o harddwch i'w phroffes."

Dyna ddarlun o feddwl a bywyd Emynyddes Cymru,—Cymraes enwocaf ac anwylaf y byd.

## PENNOD IX.

# IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

GWR â swyn mawr yn ei enw yw Ieuan Glan Geirionydd. Credwn er yn lled ieuanc, cyn darllen ei hanes, mai gŵr cywir, a goleu, a llednais ydoedd. Rhaid mai nodwedd ei emynau, yn fwy na'i enw, a gynhyrchodd yr argraff hon ar fy meddwl; ac eto, y mae rhywbeth yn yr enw hefyd. Belled a dyfned y traidd yr emynydd i fywyd ei genedl! Nid oes ond ychydig a draidd cyn belled, ac a rydd eu llaw cyn drymed ar gynifer o rannau ei bywyd. Cyffwrdd ef y llenor diwylliedig a gâr y gân gelfydd a mirain, a'r gwerinwr di-ddysg a ad i'w brofiad lifo trwy emyn syml. Yr oedd Ieuan yn ysgolhaig gwych, eang ei wybodaeth, hoyw ei awen, a medrus ei law i gaboli englyn neu emyn, ac i goroni'r cwbl, yn berchen ysbryd addfwyn wedi ei santeiddio gan ras dwyfol. Dywed Syr Oliver Lodge mai gwell gan ddynion ymddiried yn y proffwyd a'r sant nag yn y diwinydd: a swynir ein holl genedl ni gan awen gysegredig Ieuan yn fwy na chan ei ddysg a'i ddawn a'i fedr.

Ganed Evan Evans ar yr 20 o Ebrill, 1795, mewn tyddyn hen o'r enw Tan-y-Celyn, ar lan afon Geirionydd, ar y ddehau i bentref Trefriw, yn sir Gaernarfon. Yma y ganed ei fam hithau, a ddisgynnai ar ei hunion o hen deuluoedd a breswyliai yn Nhan-y-Celyn am ganrifoedd. O Lanbedr, Dyffryn Ardudwy, ym Meirionydd, y deuthai'r tad, Robert Evans, a chyn priodi Elizabeth Pritchard, dilynai'r alwedigaeth o saer llongau. Yr oedd i Ieuan dair chwaer ac un brawd, ac ef oedd y pedwerydd plentyn. Gan fod a fynno rhieni dyn gymaint â ffurfio nodweddion ei feddwl a chyfeiriad ei fywyd, mantais i ddeall Ieuan fydd cael darlun Robert ac Elizabeth Evans gan un a gafodd gyfleusterau i'w hadnabod:—" Yr oedd Robert

Evans hefyd yn gryn raddau o ysgolhaig. Yr oedd yn llenor a bardd o gryn deilyngdod. Cyfansoddodd hefyd amryw emynau melusion a phrofiad-lawn, gyda mân bethau eraill o natur gyffelyb. Ond y man yr oedd efe i'w weled yn ei wir ragoroldeb oedd yn ei arfogaeth Gristionogol. Yr oedd ei dduwioldeb yn ei wneud yn sant ymhlith ei gydoeswyr. Arferai Ieuan ddywedyd yn fynych, ' Yr oedd fy nhad yn dduwiol iawn.' " Am y fam dywedir: " Yr oedd ei galluoedd meddyliol uwchlaw'r cyffredin. Yr oedd o synnwyr cryf a chyflym, ei gwybodaeth yn eang, ei syniadau yn oleubwyll, ei theimladau yn dyner, a'i thymer yn addfwyn. Yr oedd yn hynod am ei hunan-lywodraethiad. Gyda y rhagoriaethau naturiol hyn, yr oedd hi yn ysgolheiges dda, ac yn deall llythyreniaeth a chystrawen y Gymraeg a'r Saesneg yn lled gampus."[1] Er rhagored y tad, dywed cofiannydd Ieuan mai delw'r fam oedd ar ei feddwl a'i fywyd.

Mewn ysgol a gedwid yn Eglwys Trefriw gan ryw Mr. Griffiths y cafodd y bardd elfennau cyntaf addysg, a chyn hir gosodwyd ef yn Ysgol Rad Llanrwst. Ni wyddys hyd ei dymor yn yr Ysgol Rad, eithr bu yno'n ddigon hir i ddysgu Saesneg da, a dywedir y gwyddai beth Lladin cyn ymadael. Wedi treulio amryw flynyddoedd gartref yn Nhan-y-Celyn yn gyrru'r wedd a thrin y tir, aeth i Dal-y-bont, Glan Conwy, yn y flwyddyn 1816, i gadw ysgol feunyddiol; ond yn 1818 ceir ef yng Nghaerlleon yn cyfieithu i'r Gymraeg waith Boston ar *Bedwar Cyflwr Dyn*, ac yn golygu *Goleuad Gwynedd*. Yn 1820 torrodd ei iechyd i lawr, ac aeth adref i Drefriw.

Yn Eisteddfod Gwrecsam yn 1820 y daeth Ieuan i'r golwg fel bardd mawr. Yn 1817 neu 1818, anfonasai i Eisteddfod Llanelwy awdl ar farwolaeth y Dywysoges Charlotte, tan yr enw *Plorator*, a dyfarnwyd hi yn oreu yn y gystadleuaeth, ac yn deilwng o'r tlws aur; eithr ni ddatguddiodd y buddugwr ei hun, a dywedir na wyddai

[1] *Geirionydd*, td. 15.

Ieuan mai ei awdl ef a orfu hyd o fewn ychydig i Eisteddfod Gwrecsam. Anodd esbonio hyn ; rhaid mai pris bach a roddai'r awdur ar y fuddugoliaeth, neu ynteu fod difaterwch dieithr wedi ei ddal. Pan hysbyswyd yng Ngwrecsam mai mab Tan-y-Celyn oedd *Plorator*, cynhyrchwyd syndod a brwdfrydedd anarferol ymhlith y beirdd a'r llenorion, ac ychydig ymhellach ymlaen yn yr Eisteddfod, dyblwyd y brwdfrydedd pan gyfododd Ieuan eilwaith i dderbyn y wobr am Awdl *Hiraeth Cymro am ei Wlad.* Nid rhyfedd i Gutyn Peris, ychydig cyn yr Eisteddfod, floeddio mewn afiaith pan wybu pwy oedd *Plorator*,— " Sir Gaernarfon am byth ! Dyma fardd eto i roddi pluen yng nghopa Eryri."[1]

Tynnodd buddugoliaethau'r bardd ieuanc sylw gwŷr Eglwysig o fri, yn llên a lleyg, a chan y gwelent ynddo ddefnydd ysgolhaig a meddyliwr mawr, cymellasant ef i ymbaratoi am urddau yn yr Eglwys Wladol, gan addo iddo eu nawdd a chymorth ariannol. Wedi ymgynghori â'i rieni ac eraill, penderfynodd Ieuan gefnu ar Ymneilltuaeth ac ymestyn, tan gysgod dylanwad a chyfoeth gwŷr urddasol, am fywoliaeth fras yr Hen Fam. Tua diwedd 1820, trefnodd y Parch. Mr. Richards, Caerwys, i'w osod tan addysg gyda'i frawd, y Parch. T. Richards, Berriew, ac yno y bu am ryw gyfnod yn manteisio ar wybodaeth a medr y gŵr da, ac yn canu ambell awdl. Ni wyddys pa bryd y gadawodd Berriew, na pha adeg yr aeth i Goleg St. Bees, eithr gwyddys ei ddychwelyd o'r Coleg yn glaf i Drefriw yn y flwyddyn 1826. Nid oedd ei glefyd i farwolaeth ; gwellhaodd yn raddol ; cafodd urddau Eglwysig, a thrwydded i ddarllen y llithoedd Cymraeg yn Eglwys St. Martin, Caerlleon, Chwefror 19, 1826 ; ac yn Rhagfyr yr un flwyddyn cafodd guradaeth Christleton. Gwasanaethodd yn Christleton hyd y flwyddyn 1843, a symudodd i guradiaeth barhaus Ince. Brithwyd blynyddoedd olaf Ieuan yn Ince â phrofedigaethau, cystudd,

[1] *Geirionydd*, tud. 15.

a phruddglwyf; ac yn 1852, rhoddodd y guradiaeth i fyny, ac ymneilltuodd i'w hen gartref yn Nhrefriw, gyda blwydd-dal am ei oes o ganpunt, yn arwydd o barch ei hen blwyfolion iddo. Bu yn Nhrefriw am ryw flwyddyn a hanner, yn wan ei iechyd a than bruddglwyf mawr. Gwellhaodd eto yn raddol, ac o'r diwedd, wedi hir grefu a disgwyl, yn 1854, cafodd le fel offeiriad yng Nghymru. Penodwyd ef i guradiaeth barhaus yn y Rhyl. Prin saith mis a gafodd y bardd yn y Rhyl; galwyd ef o'i lafur, ei ganu a'i bruddglwyf, ac ar yr 21 o Ionawr, 1855, croesodd "Iorddonen ddofn," ac ef yn drigain oed. Claddwyd ef yn Nhrefriw.

## Yr Esgobion Cymreig a Ieuan.

Ni fagwyd gwell Cymro na Ieuan Glan Geirionydd. Carai ei wlad a'i genedl â chariad angherddol; ond ag eithrio ychydig fisoedd yn y Rhyl, bu fyw fel offeiriad yn Lloegr, ac i'r Saeson; eithr fel bardd a llenor a cherddor, bu fyw bron yn hollol i Gymru. Gwyddai pawb yng Nghymru ond Esgobion ei Eglwys, am faint ei allu a gwerth ei waith, a chredai miloedd y dylai fyw a gwasanaethu fel offeiriad yn ei wlad ei hun, a dyna argyhoeddiad ac awydd sefydlog Ieuan yntau. Am ddeng mlynedd ar hugain bu cŵyn yn ei galon a deigryn ar ei rudd, a hiraethai'n bruddglwyfus am wlad ei eni:

Mae fy ngnghariad at fy henwlad,
Hoff lym eiriad, fel fflam eres;
Mwy ni ddiffydd, ped âi ffosydd
Dŵr afonydd drwy y fynwes.
Ond ni chlywaf, ac ni welaf,
Er a ganaf, mewn oer gŵynion,
Arwydd lleia' cael dihangfa
Draw i Walia, frodir wiwlon.

Erys tystiolaeth Nicander yn brawf o awydd anniwall y bardd am le yng Nghymru i wasanaethu fel offeiriad, a'i siom oherwydd methu. "Unwaith," ebe Nicander,

" wrth ymweled ag ef ar fy nychweliad adref ryw dro o Rydychen, y'ngwyliau'r Nadolig, dywedais wrtho fod yn resyni dirfawr na buasai yn gweinidogaethu yng Nghymru yn lle yn Lloegr. Dywedodd yntau fod teulu Mostyn wedi ei gymeryd mewn llaw i'w noddi pan ddaeth o'r Coleg, a'u bod wedi rhoddi curadiaeth Christleton iddo; (yr oedd brawd y diweddar Arglwydd Mostyn yn berson yn Christleton ar y pryd). Wrth ei berswadio i gymeryd y guradiaeth hon, addawodd y diweddar Arglwydd Mostyn yr arferai ei ddylanwad i gael lle iddo yn y Dywysogaeth yn fuan. Ymddiriedodd Ieuan i'r addewid, ond ni chafodd ddim ond siomedigaeth ddigymysg. Dywedodd Ieuan hyn wrthyf â'i ddagrau yn treiglo dros ei ruddiau."[1]

Dichon y dadleuir na wnaeth yr Eglwys gam ag Ieuan trwy ei gadw ar hyd ei oes, ag eithrio ychydig fisoedd olaf ei fywyd, yn gurad yn Lloegr—*perpetual curate*, yr hyn yn ol deddf Senedd sy'n gyfystyr â *ficer*. Eto, rhaid cydnabod i un o'r offeiriaid mwyaf athrylithgar a fagodd y genedl fyw a marw heb dderbyn onid ychydig o gefnogaeth a ffafr yr Eglwys Gymreig. Cyfiawnha Nicander yr Esgobion trwy ddywedyd, " Nid oedd mo'r bai lleiaf ar yr Esgobion Cymreig yn hyn oll; nid oedd dim modd iddynt hwy wybod amdano ef na'i werth." Dim modd gwybod am un o Gymry disgleiriaf ei oes, ac yntau am y terfyn, a chynnyrch ysblennydd ei feddwl ar gannoedd o aelwydydd Cymru! Chwanega Nicander am yr Esgobion, " Ni buasai yn iawn iddynt ddwyn gŵr Eglwysig i Gymru o Loegr, a'i osod mewn bywiolaeth a haeddesid gan ryw ŵr Eglwysig yn eu hesgobaethau eu hunain yn y Winllan Gymreig."[2] Diogelir yr Esgobion rhag y *bai lleiaf* yn achos Ieuan gan eu cyfiawnder a'u hanwybodaeth! Gŵr Eglwysig oedd Nicander yntau, a gesyd y bai am ddiffyg cefnogaeth yr Eglwys Gymreig i'r bardd ar Ieuan ei hun, oherwydd iddo, fel Goronwy, trwy fyned i Loegr i ddechreu, " gloi y drws arno ei hun rhag dyfod yn ol i

[1] *Geirionydd*, tud. 35. [2] *Geirionydd*, tud. 30.

Gymru," ac ar wŷr Eglwysig y Dywysogaeth, am na buasent yn darparu lle iddo yn ei wlad ei hun." Hwyrach, er hyn oll, fod eto le i ddadl ar y cwestiwn a wnaed cam â Ieuan yn bersonol ; eithr nid oes ddyn iawnbwyll yn fyw a wad i'r Eglwys wneuthur cam dybryd â hi ei hun, ac â'r genedl yn gyffredinol trwy ei gadw'n alltud o Gymru. Pwy deilyngach o gadair Esgob Cymreig nag ysgolhaig gwych, bardd athrylithgar, llenor mirain, a sant gwladgar fel Ieuan Glan Geirionydd, a fu'n gurad am ddeng mlynedd ar hugain ?

## Darlun o'r Bardd.

Diddorol, mi wn, i'r darllenydd, fydd darlun o'r bardd o ran y dyn oddiallan. "O ran agwedd gorfforol ac allanol Ieuan, hyd y mae ein hatgofion am dano yn cyrraedd, yr ydym yn tybio gweled ger ein bron ddyn canolig o ran ei daldra, ac o gorffolaeth llawn—o bryd goleu, yn tueddu at y cringoch ar ei gernau, a'i wallt yn tynu at yr un gorlliw, ond o dywyllwch cyfatebol. Y mae ychydig o frychau yr haul, fel y dywedir, ar ei wynepryd, ac y mae o olygiad hawddgar, hoew, a chariadlawn. Tremiad ei lygaid yw ei brif hynodrwydd, yr hwn sydd yn dangos graddau mawr o fywiogrwydd a threiddgarwch. Y mae o ran ei ymddangosiad yn gwbl ddirodres, ac ar yr un pryd, o ran ystum ac agwedd, yn foneddigaidd a theilwng o'i enw. Nid ydym yn cael dim yn ei agweddiad ag sydd yn peri i ni edrych arno fel un yn tra rhagori ar y cyffredin. Y mae cuddiad ei gryfder yn ngalluoedd ei feddwl, yn hynawsedd ei deimlad, yn nisgleirdeb ei dalent, yn nilysrwydd ei ddybenion, ac yn mhrydferthwch ei ymarweddiad, yn hytrach nag yn ffurfiad ei gorff."[1]

## Y Llenor.

Ystyrrid Ieuan Glan Geirionydd yn Gymreigydd da, a'i arddull yn gywir a didramgwydd. Dichon y gellid

[1] Gwalchmai, yn *Geirionydd*, tud. 32. (Enghraifft dda o iaith rodresgar yr awdur hwn a'r cyfnod).

cŵyn i'w erbyn oherwydd gorhoffter o ansoddeiriau, a gellir cymhwyso'r gŵyn at ei gynganeddion yn fwy na'i ryddiaith. Ei gynhyrchion cyntaf mewn rhyddiaith ydyw cyfieithiad o *Bedwar Cyflwr Dyn*, gan Boston, a'i ysgrifau yng *Ngoleuad Gwynedd*, cylchgrawn a olygai am ryw gyfnod. Ym more'i fywyd llenyddol cymrodd ran yn y ddadl fawr rhwng y Calfiniaid a'r Wesleaid, ac ysgrifennodd draethawd ar "Brynedigaeth Neilltuol" yn ateb i'r Parch. Samuel Davies (W.) ar "Brynedigaeth Gyffredinol." Ni wn ddim am draethawd Ieuan, ond yn unig fod ynddo ddigon o werth i'r hen wron Samuel Davies daro'n ol, ac nid un a ddyrnai wynt ydoedd ef.

Yn y flwyddyn 1830, anfonodd Ieuan gylchlythyr at yr Esgobion Cymreig yn ceisio eu nawdd a'u cefnogaeth i ddwyn allan gylchgrawn Cymreig o'r enw *Gwladgarwr*, ac yn ateb cafodd air eu bod yn "goddef iddo ddwyn allan y fath gyhoeddiad, os ceid lle i ddisgwyl y byddai hynny o wir leshad." Gofyn am nawdd a chefnogaeth a wnaethai Ieuan, eithr yn ol *Geirionydd* y cwbl a gafodd gan yr Esgobion ydoedd *caniatad* i gyhoeddi ar ei draul ei hun, ac yr oedd hynny'n llawer oddiwrth wŷr "nad oedd dim modd iddynt wybod am dano ef na'i werth." Ymhen tair blynedd llethwyd y bardd gan lafur a cholled ariannol ynglŷn â'r *Gwladgarwr*, a chyflwynodd y cyhoeddiad i ofal Mr. Edward Parry, Caerlleon. Priodolir i ddylanwad ysgrifau yn y *Gwladgarwr* ar gerddoriaeth, gan un a'i cyfenwai ei hun *Peryddon*, ddeffroad arbennig ynglŷn â cherddoriaeth ymhlith gweithwyr Gogledd Cymru. Yr oedd yr ysgrifau'n wir feistrolgar, ac mewn arddull ysgafn a phleserus, a dywedir mai Ieuan oedd yr awdur. Diau i'r werin fanteisio'n fawr ar ei gyfarwyddiadau. Rhyfedd mor amlochrog ydoedd y dyn talentog a llafurus hwn,—llenor, cerddor, bardd,—ac yr oedd yn fawr yn y cwbl, ac o ran gwybodaeth a medr yn sicr a llwyr. Ysgrifennodd lawer o bryd i bryd yn Saesneg a Chymraeg i wahanol gylchgronau ar amryw faterion pwysig; ond hwyrach mai'r gorchwyl a drethodd fwyaf ar ei amser a'i

nerth ydoedd y *Beibl Darluniadol*. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1844, a'r olaf, sef y drydedd yn 1850. Ni chyhoeddwyd onid yr hen Destament yn unig. Bu'r awdur yn golledwr mawr mewn arian ynglŷn â phopeth bron a gyhoeddodd mewn rhyddiaith. Ei gariad at ei genedl a chyfoeth ei briod a'i galluogodd i gyhoeddi, ac nid cefnogaeth gwreng na bonedd.

Cydnebydd pawb fod Ieuan yn wir fardd a chydnebydd y rhai cymhwysaf i farnu ei fod yn fardd mawr. Os diogel penderfynu ei safle oddiwrth fuddugoliaethau Eisteddfodol, yr oedd yn un o brif feirdd ei oes; ond hwyrach mai prin y gellir ymddiried bob amser ym marn a chydwybod Eisteddfod,—rhaid cofio'r Dryw a Dewi Wyn, ac eraill. Eithr ar wahan i bob buddugoliaeth, croesawyd ef gan ei gyfoeswyr i orsedd anrhydeddus yn nheml y prif-feirdd, ac erys ffrwyth ei awen i'w cyfiawnhau. Cyhoeddwyd cyfrol oddeutu'r flwyddyn 1862, yn cynnwys 464 o dudalennau o gyfansoddiadau barddonol, cerddorol a rhyddiaithol yr awdur, a galwyd hi *Geirionydd*. Casglydd a threfnydd y gyfrol ydoedd Gwilym Cowlyd, nai Ieuan. Golygydd y gwaith ac awdur y nodiadau ar fywyd ac athrylith y bardd ydoedd Gwalchmai. Nid oes onid ychydig o ddarnau barddonol yr awdur heb fod yn y llyfr, a cheir digon o'i ryddiaith ynddi i brofi ei wybodaeth a'i ddawn.

Y mae rhai o brif nodweddion y bardd yn amlwg hyd yn oed i un na fedr lawer ar farddoni. Wedi gwybod am ddiwylliant meddwl a lledneisrwydd teimlad a glendid buchedd yr awdur, ni raid ofni am chwaeth ei farddoniaeth. Gwyrth fyddai i linell neu syniad yn *Geirionydd* lygru meddwl a moes y neb a'i darllenai. Cyn belled ag yr â chwaeth y mae'r farddoniaeth mor bur ag aur coeth. Hwyrach nad oedd Ieuan o bell ffordd mor feiddgar ei ddychymig â llawer o'n beirdd; prin y gallai fod, nid dyna'i nodwedd. Crebwyll sy'n feiddgar ac nid darfelydd, ac yn yr olaf y rhagorai Ieuan,—bardd disgrifiadol ydoedd. Anaml yr âi at natur, a phan âi a dychwelyd

nid oedd ganddo i'w ddywedyd amdani ond yr hyn a ganfu ar ei hwyneb. Gallai fawrhau ei thlysni a moli ei rhamant, eithr ni threiddiai trwodd i'w chysegr santeiddiolaf at yr anweledig. Dyna hefyd nodwedd y mwyafrif o feirdd ei oes. Gwyddai'r bardd ddawn ei awen, a bu cyn ddoethed ag ymroddi i destunau personol a hanesiol a chysegredig, megis " Y Dywysoges Charlotte " a "Charles o'r Bala," " Drylliad y *Rothsay Castle* " a " Gorlifiad Cantre'r Gwaelod," " Gwledd Belsasar " a'r " Adgyfodiad."

Yr oedd Ieuan yn gryn feistr ar destunau yn gofyn llafur caled a dyfalbarhad,—meistr i ymdrin a dal ati. Prin y gwyddai pa bryd nac ymha le i beidio â chanu. Credaf er hyn, fod dychmygiad a chynllun ei ddarnau hwyaf yn fwy barddonol na'r ymdriniaeth. Rhydd y beirniaid ganmoliaeth uchel i'r " Adgyfodiad," y bryddest fuddugol ar destun Cadair Eisteddfod Rhuddlan, 1850,— " They have all gone through the fiery ordeal of criticism, and out of that fire has come one as pure as gold. It is as beautiful as anything in the Welsh language. . . . There is mind in every line. Almost every sentence contains a climax. Every paragraph is a volume of living imagery, and the whole poem is a body of divinity."[1] Gallai'r hen feirdd gyfansoddi beirniadaethau barddonol iawn, a'u traddodi'n hyf a diofn. Y mae cymal olaf y feirniadaeth yn cloffi'r cwbl. Ceir yn y bryddest agos i dair mil o linellau ; ac wedi difa egni a cholli chwys i deithio trwyddi, gwelir mai'r cwbl o'r feirniadaeth sy'n fanwl gywir ydyw'r sylw olaf,—" the whole poem is a body of divinity." Pe newidid ffurf y cyfansoddiad ac y diddymid ei odlau, gwnâi draethawd diwinyddol maith a didramgwydd ar yr Atgyfodiad. Cân y bardd yn ddidrafferth a llyfn yn y mesurau rhydd, eithr cân yn well o lawer yn y mesurau caethion a'r gynghanedd, er iddo ysgrifennu'n frwd a miniog i'w herbyn i'r *Gwladgarwr*. Bernir mai cyfansodd-

[1] Beirniadaeth yr Archiagon Williams, Tegid a Gwrgant, *Geirionydd*, tud. 229

iad goreu'r awdur, ar wahan i'w emynau, ydyw *Gwledd Belsasar*, awdl Cadair Eisteddfod Dinbych, 1828. Y mae rhai disgrifiadau penigamp a diguro yn hon, eithr nid oes ynddi ddrychfeddyliau synfawr nac anghyffredin i'r cyfarwydd â'r hanes Beiblaidd.

Gresyn i'r bardd gadw cyn belled oddiwrth y delyn, ac yntau mor fedrus ar drin ei thannau. Deallai gyfriniaeth a theimlai gyfaredd y delyn, fel y prawf amryw o'i delynegion. Felysed ydyw ei efelychiad o "Hen Amser Gynt" Burns :

Er troion byd, ei wên a'i wg,
   A llawer dyrys hynt,
Tra melys ydyw galw i gof
   Yr hen amser gynt.

Er mwyn yr amser gynt, fy ffrind,
   Yr hen amser gynt,
Ni wnawn yn llawen heno er mwyn
   Yr hen amser gynt.

Ar hyd y meysydd clywid sain
   Ein hadlais gyda'r gwynt,
Tra'n dilyn ein diniwed gamp,
   Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, fy nghyfaill llon,
   Aed gofal byd gan wynt ;
Ni wnawn yn llawen heno er mwyn
   Yr hen amser gynt, etc.

Amheuaf a oes rhagorach rhyfelgân mewn unrhyw iaith na "Chyflafan Morfa Rhuddlan." Cymerer dau bennill i weled berffeithied ei darlun a'i hysbryd :

Trwy y gwyll gwelaf ddull teryll y darian ;
Clywaf sï eirf heb ri arni yn tincian.
O'r bwâu gwyllt mae'n gwau saethau gan sïo ;
A thrwst mawr, nes mae'r llawr rhuddwawr yn siglo ;

Ond uwch sain twrf y rhain, ac ochain y clwyfawg,
Fry hyd nef clywir cref ddolef Caradawg,—
"Rhag gwneud brad ein hen wlad, trown ein cad weithian,
Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan.

Wele fron pob rhyw lon Frython yn chwyddo,—
Wele'u gwedd, fel eu cledd fflamwedd, yn gwrido ;
Wele'r fraich rymus fry'n dyblu'r ergydion ;
Yn eu nwy torrant trwy lydain adwyon ;
Yr un pryd Cymru i gyd gyfyd ei gweddi,—
"Doed yn awr help i lawr yn ein mawr gyni ;
Boed i ti, O ! ein Rhi, noddi ein trigfan ;
Llwydda'n awr ein llu mawr ar Forfa Rhuddlan."

### Yr Emynydd.

Yn y flwyddyn 1829, ac Ieuan ar y pryd yn gurad Christleton, cyhoeddodd gasgliad o emynau Cymraeg at wasanaeth Eglwys St. Martin, Caer ; ac yn 1841, cyhoeddodd gasgliad arall o emynau at wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru ; a phan yn y Rhyl, yn 1854, cyhoeddodd lyfr emynau Cymraeg a Saesneg at wasanaeth yr Eglwys yno. Cyfansoddodd a chyfieithodd rai emynau ar gyfer y casgliadau hyn, a chyhoeddodd y cwbl ar ei draul ei hun. Ni chyfansoddodd Ieuan ond ychydig o emynau o'i gymharu â'r hen emynwyr. Cysegrodd ef ei amser gan mwyaf i'r Awdl, y Cywydd, a'r Bryddest ; eithr ei ychydig emynau a'i ceidw 'n fyw ac enwog fel bardd yng Nghymru. Parha ambell emyn,

I gario enw Geirionydd
Ar lif ei ddawn i'r olaf ddydd.

Canodd llawer well awdl, a chywydd a phryddest, ond ni cheir o'i oes ef hyd yma fwy nag un yn hafal iddo fel emynydd. Y mae holl emynau'r awdur yn rhifo tri a deugain yn *Geirionydd*. Cyfieithiad o'r Saesneg ydyw amryw ohonynt, a haerir gan rai mai cyfieithiadau yw'r mwyafrif o'i emynau goreu, eithr rhy anodd yw profi

hynny. Wedi chwilio a chymharu llawer ni chefais sicrwydd fod mwy na'r naw a ganlyn yn gyfieithiadau :—

"Mor ddirgel ydyw ffyrdd ein Ior,"—Cowper.

"Y mae un uwchlaw pawb eraill,"—Newton.

"Henffych i enw Iesu Mawr."—Perronet.

"Dyrchafer enw Iesu cu."—Perronet.

"Cydunwn â'r angylion fry."—Watts.

"O Ynys Iâ fynyddig."—Heber.

"Enaid cu, mae dyfroedd oerion."—Ellmeston.

"Clywch leferydd gras a chariad."—Jonathan Evans.

"Wele'n dyfod ar y cwmwl,"—y pennill cyntaf—Wesley, a'r ddau eraill—B. Francis.

Maentumiwyd hefyd gan amryw nad ydyw "Ar lan Iorddonen ddofn" a "'Rwy'n sefyll ar dymhestlog lan" onid lled-gyfieithiad, y naill o eiddo Isaac Watts a'r llall o eiddo Stennett ; ac y mae llawer o reswm dros gredu hyn, oblegid ceir cryn fesur o debygrwydd rhwng y rhai Saesneg ag eiddo Ieuan. Am y cyntaf o'r ddau, ceir yr un emyn mewn gwisg waelach gan William Thomas, Caergybi, bardd a aned yn 1790, ac a fu farw yn 1861, mewn llyfr o'i waith o'r enw *Ehediad y meddwl, neu Ffrwyth Awen a Myfyrdod*, a argraffwyd yn 1862. Y mae yn *Ehediad y Meddwl* emyn ar "Dymuniad y claf i osgoi angeu," a'i syniadau yr un yn hollol ymhob llinell ag eiddo "Ar lan Iorddonen" Ieuan. Dyma'r pennill cyntaf yn enghraifft :

| | |
|---|---|
| Wrth gofio grym y dŵr,<br>A'r tonnog genllif mawr,<br>A'r mynych rymus ddewrwych ŵr<br>A suddodd ynddi i lawr.—W.T. | Wrth gofio grym y dŵr,<br>A'i thonnog genlli,<br>A'r mynych rymus ŵr<br>A syddodd ynddi.—Ieuan. |

Y tebygolrwydd ydyw i'r ddau fardd gyfieithu'r un emyn o'r Saesneg. Gresyn na fuasai casglydd y farddoniaeth

sydd yn *Geirionydd* wedi trafferthu i wybod pwy ydyw awduron yr emynau a gyfieithwyd yn hytrach na'u cyflwyno i'r wlad fel eiddo gwreiddiol Ieuan. Os caniateir fod y bardd yn ddyledus i Watts a Stennett, rhaid caniatau hefyd fod y cyfieithiad yn rhagori llawer ar y gwreiddiol. Gan nad oes sicrwydd fod mwy na naw emyn yn gyfieithiad, dylid ystyried pedwar ar ddeg ar hugain yn eiddo gwreiddiol yr awdur. Nid oes ganddo un emyn gwael, eithr ei rai goreu a mwyaf adnabyddus ydyw :

O Dduw ! rho im dy hedd, etc.
At un a wrendy weddi'r gwan, etc.
Ar fôr tymhestlog teithio'r wyf, etc.
Mae'n hyfryd meddwl ambell dro, etc.
Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd, etc.
Mae 'nghyfeillion adre'n myned, etc.
'Rwy'n sefyll ar dymhestlog lan, etc.
Ar lan Iorddonen ddofn, etc.
Dyrchafer enw Iesu cu, etc. (Cyf.).
Henffych i enw Iesu mawr, etc. (Cyf.).
Clywch leferydd gras a chariad, etc. (Cyf.).
Wele'n dyfod ar y cwmwl, etc. (Cyf.).

### NODWEDDION YR EMYNAU.

Yr oedd Ieuan Glan Geirionydd yn ddyn duwiol iawn, a'i awen yn llaith gan wlith nefol, a chanddo syniad cywir am yr hyn a ddylai emyn fod, Mewn ysgrif ar " Gyfansoddiad Emynau " yn *Geirionydd*, dywedir, " Mae rhai prydyddion hefyd yn cymeryd arnynt fath o esgeulusdra wrth gyfansoddi emynau, megis pe na byddai achos trafferthu nemawr yn eu cylch, ac na waeth mo'r llawer pa sut a fyddo arnynt ; ond wrth ystyried eu dyben goruchel, yr wyf yn barnu yr emyn, o bob barddoniaeth, y fwyaf teilwng o bob gofal a dichlynedd. Mae yn ofynol

bod holl enaid y prydydd gyda'i fater, ei holl gyneddfau dan ddylanwad grasol y nefoedd, ei egwyddorion a'i brofiad crefyddol, ei wybodaeth gyffredinol, ei athrylith, a'i chwaeth lenyddol oll, yn ol y graddau y byddont ganddo, yn cael eu troi yn fanteisiol, a'u cysegru i'r dyben goreu ; a phan fyddo y meddwl wedi ei lenwi gan fawredd ac ysbrydolrwydd y testun, ymdrecha yn naturiol i'w osod allan gydag eglurder ac ystwythder iaith, ffugyrau priodol a phrydferth, lledneisrwydd geirweddiad, a melusder mydryddiaeth. Mae diofalwch mewn gorchwyl mor bwysig ag yw paratoi ffurfiau o fawl i'r addoliad dwyfol, yn ddiammeu yn dra phechadurus. Pa beth ! ai y dall a'r cloff a offrymir i Dduw ?"[1] Tan ddylanwad syniadau tebig i'r rhai hyn y cyfansoddodd Ieuan ei emynau, ac nid rhyfedd eu bod mor berffaith ; nid oes yn eu plith ddall na chloff.

I'r emynydd hwn, taith flinderus ydoedd bywyd, taith o gaethiwed trwy anialwch i ryddid. Nid oedd ymdaith cenedl Israel o'r Aifft i Ganaan, iddo ef, ond cysgod o daith y dyn duwiol o gaethiwed pechod i wynfyd digymysg nefoedd tuhwnt i'r bedd, ac o hanes y genedl y tyn fwyafrif y ffigyrau a ddefnyddia yn ei emynau,—*anialwch*, *môr*, *manna*, *Iorddonen*, *Canaan*, *Jerusalem*, *Seion* :—

Mae'n hyfryd meddwl ambell dro
   Wrth deithio *anial* le.

Ce's fyned trwy'r *Môr Coch*
   Er maint oedd broch a brad
Fy hen elynion.

Câf *fanna* o'r nef i lawr,
   Ar doriad gwawr y dydd.

[1] *Geirionydd*, tud. 392. Mr. Morris Davies, Bangor, biau'r ysgrif ar " Gyfansoddiad Emynau " a briodolir i I. G. Geirionydd yn *Geirionydd*. Cyhoeddwyd yr ysgrif yn *Y Gwladgarwr* am 1838. Mr. Davies hefyd biau'r cyfieithiad o Emyn Cenhadol a briodolir i Ieuan. Gweler *Traethodydd* 1870.

Trwy yr *Iorddonen* gref,
  I'r nef fe'm dwg o'i ras.

Moliannu wna ag uchel floedd,
  Ar ben mynyddoedd *Canaan*.

*Caersalem* lon sy'n llawenhau,
  *Caersalem* newydd fry.

Dinas *Seion*, wiwlon wawr.

Trwy'r ddyfais fawr hon gwneir *Seion* yn llon.

Canodd y bardd rai caneuon llon a heini, eithr symud yn araf a lleddf eu llais a wna'i holl emynau. Ceid Pantycelyn yn aml ar ben y mynydd, ac weithiau yn y dyffryn eang, ond cynefin Ieuan ydoedd enbydrwydd storm ar "fôr tymhestlog," llwybrau anamlwg y "glyn" dwfn a thywyll, a "thonnog genlli" Iorddonen. O'i bedwar emyn ar ddeg ar hugain gwreiddiol, sonia pedwar ar hugain ohonynt am farn a bedd a byd a ddaw. Rhodio'n alarus a phen isel a wnaeth yr Emynydd

Gan syllu'n ddwys mewn hiraeth clau,
  Ar fryniau'r Ganaan fry.

Eithr nid tywyllwch ac ofn digymysg ei ran yntau chwaith, oblegid disgynnai ar ei lwybr weithiau belydrau gwyn gobaith o "ardal hyfryd" lle mae "un anfachludol ddydd," ac i ganol "blinderau dwys" yr anial deuai sicrwydd am "orffwys yn y Ne." Dichon mai'r rheswm goreu am nodwedd brudd a lleddf yr emynau ydyw bywyd y bardd; treuliai gyfnodau maith o bryd i bryd ar hyd ei oes mewn cystudd blin a phruddglwyf llethol; ac y mae llonder nwyfus yn dibynnu mwy ar iechyd corff a thymheredd naturiol dyn nag ar ysbrydolrwydd meddwl a glendid buchedd.

Y mae Ieuan yn un o'r ddau fardd mawr a gyrhaeddodd radd uchel fel emynwyr,—Robert ap Gwilym Ddu ydyw'r

llall. Yn ei oes ef, ac wedi hynny, ystyrrid ef yn un o brif feirdd y genedl,—" Yr oedd yn un o'r beirdd mwyaf talentog a llwyddiannus. . . . Y mae y cwbl o'i waith yn dangos yr amrywiaeth mwyaf hynod a gwrthgyferbyniol, a'r meddwl mwyaf ffrwythlawn a darfelyddol."[1] Cyn belled ag y mae celfyddyd yn bod ni cheir ei hafal ymhlith yr hen emynwyr. Y mae pob emyn yn gyfanwaith, a phob llinell yn gaboledig, yr iaith yn seml a glân, a'r profiadau yn berffaith addas i grefyddwyr yn gyffredinol. Ac i goroni'r cwbl, ceir y " peth byw " ac anfarwol yn y mwyafrif o'i emynau. Y mae Ieuan Glan Geirionydd yn un o'r prif emynwyr, ac ni fagodd Gogledd Cymru ddim ond un, neu hwyrach ddau, cyfartal iddo.

[1] *Y Gwyddoniadur*, Cyf. iv.

PENNOD X.

# DAVID CHARLES.

PERTHYN i'n cenedl ni amryw a ganodd emynau da, eithr a gofir naill ai fel pregethwyr neu feirdd mawr. Dichon eni rhai ohonynt yn rhy hwyr i fod yn nosbarth y prif emynwyr,—wedi i naws ac amcan goreu canu emyn fyned i golli. Dywed Syr O. M. Edwards wrth son am emynau hen a newydd : " Y mae gwell barddoniaeth yn y newydd, ond yn yr hen yr anadla ysbryd yr emyn yn fwyaf clywadwy. Meddyliau geir yn y newydd, profiadau yn yr hen ; y mae athrylith yn amlycach yn y newydd, a dwyster teimlad yn yr hen ; y mae'r emynydd newydd yn ddigon hunanfeddianol i fod yn gywir ac i wneud ei ffigyrau'n syml a difai, ond mewn cymysg ffigyrau y llifai teimlad yr hen emynydd." Diau fod yr hyn a ddywedodd y marchog llengar ar gyfyl y gwir. Ni wyddys yn sicr ymha le i osod y Parch. David Charles ; o brin y perthyn ef i'r hen na'r newydd. Gosodir ef rhwng y ddau.

Ganed David Charles mewn amaethdy o'r enw Pantdwfn, St. Clears, Sir Gaerfyrddin. Rhoed i'w frawd hynaf, Thomas Charles, o'r Bala, fanteision addysg tuhwnt i'r cyffredin ; ond pan dyfodd David yr oedd amgylchiadau'r teulu'n rhy isel i ganiatau iddo ef fanteision cyffelyb, ac anfonwyd ef i Gaerfyrddin i ddysgu nyddu rhaffau. Dysgodd y gelf yn dda, ac yn 1780 aeth i Bristol i weithio, a thra yno meistrolodd yr iaith Saesneg. Ymhen tair neu bedair blynedd,—nid oes sicrwydd pa bryd—dychwelodd i Gaerfyrddin i ddilyn ei alwedigaeth, ac ymbriododd ag Iddewes, merch Samuel Levi Phillips, ariannydd o Hwlffordd.

Dechreuodd bregethu pan yn 46 mlwydd oed, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yng Nghymdeithasfa Llandeilo

Fawr, yn 1811, pan dorrwyd cysylltiad y Corff Methodistaidd â'r Eglwys Wladol. Yng Ngorffennaf, 1828, tarawyd ef â'r parlys, a bu'n dihoeni'n ddiddefnydd am chwe blynedd. Bu farw Medi 2, 1834, yn 72 oed, a chladdwyd ef yn Llangunor.

Er nad oedd David Charles yn barablwr rhydd ac egnïol, yr oedd yn bregethwr hyawdl anarferol; eithr hyawdledd meddyliau ydoedd ac nid eiddo nwyd a llais. Yr oedd mor fedrus yn y Saesneg ag yn y Gymraeg, a phregethodd amryw weithiau gyda Rowland Hill, yng Nghaerloyw, a bu, unwaith o leiaf, yn pregethu ym mhulpud enwog Surrey Chapel.

Ymddengys ei fod yn un o'r meddylwyr mwyaf yng Nghymru yn ei ddydd. Dywed y Prifathro Lewis Edwards amdano'n siarad mewn cynghorau: "Nid oedd ynddo un egni nac ymdrech, dim un ystum nac ymgais i dynnu sylw; dim ond meddwl pur yn gorlenwi pawb â syndod; a phan dewai, byddai'r gwrandawyr yn teimlo fel pe byddent yn dyfod yn ol o fyd y meddwl i'r byd gweledig." Oherwydd praffter meddwl a doethineb ac ymgysegriad, ef oedd y gallu mwyaf yng nghynghorau'r enwad yn y Deheudir am yr ugain mlynedd olaf o'i oes.

Rhyw ugain o emynau a ganodd, eithr y maent i gyd yn dda, a rhai yn odidog, ac yn mynnu eu lle yn llyfr emynau pob enwad. Ymhlith y miloedd emynau sydd gennym, nid oes un a deithia'n amlach lwybrau emyn mawr Dafydd William i ddyffryn galar a glan bedd, nag emyn David Charles,—" O fryniau Caersalem caf weled," etc. Wele rai o'i brif emynau:

Ar groesbren brynhawn, etc.

Rhagluniaeth fawr y nef, etc.

O fryniau Caersalem caf weled, etc.

Llais hyfryd rhad ras sy'n gwaeddi " Dihangfa," etc.

I fyny at fy Nuw, etc.

O Iesu Mawr, rho'th anian bur, etc.

Cawn esgyn o'r dyrus anialwch, etc.

Nerthoedd y tragwyddol ysbryd, etc.

Yr oedd i'r awdur fab, o'r un enw, yn byw yng Nghaerfyrddin. Pregethai fel cynghorwr gyda'r Methodistiaid, a chyfansoddai ambell emyn; eithr syrthiai'n isel fel emynydd o'i gymharu â'i dad. Y mae rhai o emynau David Charles (ieu.) yntau ar arfer yn yr eglwysi heddyw. Dyma rai o'i eiddo :

Caersalem ! ti ddinas fy Arglwydd (Efel.).

Tydi wyt deilwng o fy nghân, etc.

O Arglwydd da, argraffa, etc.

Moliennwch Dduw sy'n rhoi pob dawn, etc. (Efel.).

PENNOD XI.

# GWILYM HIRAETHOG.

DEUTHAI dyn ieuanc o'r enw Henry Rees, o Landeilo Fawr, sir Gaerfyrddin, yn gyllidydd, i ardal Llansannan, ac ymbriododd â Gwen Lloyd, merch y Chwibren Isaf. Mab i'r ddau hyn ydoedd Dafydd, tad y Parch. William Rees (*Gwilym Hiraethog*).

Ganed Hiraethog Tachwedd 8, 1802. Yr oeddynt yn bump o blant, pedwar mab ac un ferch. Henry Rees, y gweinidog Methodistaidd enwog, oedd yr hynaf, a William yr ail fab. Pan yn blentyn cafodd William y frech wen, ac amharwyd peth ar ei wyneb, a chollodd ei lygad. Ychydig iawn o addysg a gafodd, dim ond ysbeidiau yn y gaeaf i ddysgu darllen Saesneg, ysgrifennu a rhifo. Gweithiai ar y fferm a bugeiliai ddefaid ei dad ar y mynydd, ac yn ei "Atgofion Mebyd ac Ieuenctid" sonia am y dyddiau diofidiau hynny:

> Awn i rodio hyfryd fryniau
>   Hen gynefin praidd fy nhad,
> Lle bu Tango'r ci, a minnau,
>   'R ddau ddedwyddaf yn y wlad;
> Mi ni wyddwn, mwy na Thango,
>   Am ofidiau bywyd gau,
> On' bai'r ddafad ungorn honno,
>   Buasem berffaith ddedwydd ddau.

Yr oedd Hiraethog tuag ugain oed pan ddeffrowyd ei awen gref drwy gyfrwng Robert ap Dafydd, o'r Gilfach Lwyd, Llansannan. Ar anogaeth ei athro canodd gywydd ar "Frwydr Trafalgar," a "Marwolaeth Nelson," ar gyfer Eisteddfod Aberhonddu, yn 1826. Dyma'i ymdrech bwysig gyntaf mewn cystadlu. Dyfarnwyd ef yn oreu, a chan nad oedd yn yr Eisteddfod, derbyniodd y wobr o

wyth gini a thlws arian trwy law y Doctor W. O. Pughe, ei gynrychiolydd. Daeth yn fuan yn un o gedyrn yr Eisteddfod, ac enillodd lawer o'i gwobrau ; eithr coron ei fuddugoliaethau ydoedd Cadair Eisteddfod Madog yn 1851 am ei awdl ar " Heddwch."

Dywedir mai awdl " Heddwch " ydyw cyfansoddiad pryd-ferthaf yr awdur, ond ei brif waith barddonol ydyw *Emanuel, neu Ganolbwnc Gweithrediadau a Llywodraeth Duw.*" Cynhwysa'r gwaith hwn 759 o dudalennau, ac ystyrrir ef yn orchest fawr. Yn ei *Efrydiau yn Emanuel*, dywed y Parch. David Adams (*Hawen*) fod Hiraethog yn gyfartal â Milton o ran " nerth ei argyhoeddiadau, ei gariad dwfn at ryddid . . . ei atgasedd o ormes a thrais, . . . ei gyd-ymdeimlad â phersonau a chenhedloedd gorthrymedig, ac yng nghrefyddolder ei ysbryd," ac y rhagorai'n *anrhaethol* arno " mewn arabedd a humor, syniad am urddas Person Crist, pwysigrwydd yr ymgnawdoliad yn llywodraeth foesol Duw, a dylanwad Angau'r Groes ar fodau moesol creadigaeth Duw."[1] Gwaith pwysig arall o'i eiddo a gyfansoddodd mewn llesgedd mawr, ydyw *Twr Dafydd*, sef y Salmau wedi eu troi ar gân. Ceir rhestr o'i weithiau yn y *Gwyddoniadur*, Cyf. x. td. 807.

Magwyd Hiraethog fel ei frawd, y Parch. Henry Rees, yn Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd. Eithr ymunodd ef am resymau na wyddys yn sicr â'r Annibynwyr. Dichon mai'r prif resymau ydoedd ei edmygedd o Williams o'r Wern, a llymder annoeth yr awdurdodau Methodistaidd mewn disgyblu. Dywed y *Gwyddoniadur* i lawer o arweinwyr a phobl y Methodistiaid fyned yn uchel-Galfinaidd, yn galed eu hysbryd, ac yn eithafol lym mewn disgyblaeth Eglwysig, yn nyddiau bore Hiraethog. Dyna nodweddion Methodistiaid Llansannan ar y pryd. Ceryddodd y swyddogion yn ddiarbed un o'r enw Joseph Davies am deithio ar y Sul o Gerrigydrudion i Lansannan oherwydd afiechyd peryglus ei briod. Parodd hyn i am-

[1] *Transactions of the Liverpool Welsh National Society*, tud. 108.

ryw gefnu ar y Methodistiaid yno. Aethant at y Parch. D. Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yn Ninbych, a chorffolwyd hwy yn Eglwys. Bu hyn yn Nhachwedd, 1827; ac ymhlith yr enwau yn llyfr yr Eglwys, Ionawr, 1828, ceir enw William Rees.

Ni bu'n hir yn yr Eglwys newydd cyn dechreu pregethu, ac oherwydd ei ddoniau anghyffredin cafodd glust y wlad ar unwaith. Yn Ebrill, 1832, ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys fechan ym Mostyn. Yr oedd ganddo erbyn hyn wraig a thri o blant, eithr nid oedd ei gyflog ond saith swllt yr wythnos. Yn 1837 symudodd i Ddinbych. Yno y tyfodd i'w gyflawn faint, ac fel pregethwr, diwygiwr cymdeithasol, bardd a llenor, enillodd safle ymhlith ei frodyr tebig i eiddo'r Wyddfa ymhlith mynyddoedd Cymru. Gwelid ef o bob cwr, a disgwylid wrtho gan wlad gyfan. Ym Mai, 1843, symudodd i eglwys y Tabernacl, Liverpool. Rhoddodd hon i fyny yn 1853, a chymerodd ofal Salem, yn yr un ddinas, a bu yno am 23 mlynedd. Yn 1876 ymneilltuodd, ac aeth at ei ferch i Gaerlleon, ac yno y bu farw. Ar y 3 o Dachwedd, 1883, claddwyd ef yng Nghladdfa Smithdown Road, Liverpool.

Gŵr tawel a gostyngedig oedd Hiraethog. Dywed Ruskin mai prif nôd meddwl mawr ydyw gostyngeiddrwydd ysbryd. Dywedir fod Hiraethog mor ostyngedig a phlentyn tra'n synnu a bendithio gwlad â'i feddwl cryf a'i lafur diball. A chymharu gwyr mawr Cymru yn oes Hiraethog credaf mai ef ydoedd y mwyaf amryddawn.

Dywed Elfed fod athrylith farddonol Hiraethog yn rhy braff a thrwm i gynhyrchu emynau o'r radd flaenaf.[1] Un o'r prif feirdd ydoedd, ac nid un o feirdd yr emyn. Gweddai iddo ef yn well yr arwrgerdd a'r awdl. Y mae ganddo emynau mawr, eithr nid mawredd y prif emynau sydd ynddynt. Anodd darllen emynau Hiraethog heb feddwl am afon fawr ddofn yn llifo'n ddirwystr ac urddasol. Eithr y maent yn rhy drwm. Cyfansoddodd

[1] *The Sweet Singers of Wales*, Elfed.

lawer, ac y maent oll o'r un nodwedd,—symudant yn araf a rhwysgfawr, fel Hiraethog ei hun. Ceir pump a thrigain o'i eiddo yn *Emynau y Cysegr*, ac nid oes Gasgliad diweddar o emynau heb amryw o emynau'r bardd ynddo. Ymhlith y rhai sy'n boblogaidd y mae :

Pan oedd Sinai yn melltennu, etc.
O ! Iesu mawr ei ddawn, etc.
Canwn am y gwaith gorffennol, etc.
Dyma gariad fel y moroedd, etc.
Mae f' Anwylyd oll yn hawddgar, etc.
Molwch Arglwydd nef y nefoedd, etc.
Mae yno yn dragwyddol ddydd, etc.
Mi welaf gyrrau'r hyfryd wlad, etc.
Felly carodd Duw wrthrychau, etc.

PENNOD XII.

# EHEDYDD IÂL.

EHEDYDD IÂL ydyw'r emynydd enwocaf a roddodd y Methodistiaid Wesleaidd i Gymru. Y mae'n rhy fuan i benderfynu ai ef ydyw'r mwyaf. Nid ydyw'r wlad wedi cael amser i brofi emynau Glanystwyth, Cadvan a'r Parch. T. J. Pritchard. Credaf fod emynau yn eiddo'r tri hyn a fydd byw byth. Dywedir weithiau mai ychydig a gyfoethogwyd ar lenyddiaeth y genedl gan y Wesleaid,—ychydig o'u cymharu â'r enwadau eraill. Y mae hyn yn wir. Ni roddodd yr enwad lawer; eithr rhoddodd Cawrdaf, awdur *Y Bardd a'r Meudwy*, y ffugchwedl hynaf yn yr iaith, a *Hiraeth y Cymro am ei Wlad;* y Dr. William Davies, beirniad craff, ac awdur *Y Geiriadur Ysgrythyrol;* Gwilym Lleyn, awdur *Llyfryddiaeth y Cymry*, yr unig waith safonol ar y pwnc sy'n bod; Clwydfardd, Cynfaen a Chadvan. Dichon y ceir peth eglurhad ar y ffaith nad ydyw cyfran yr enwad i lenyddiaeth yn fwy yng nghysylltiad agos y Cymry â'r Saeson. Y mae perthynas fyw iawn rhwng y Wesleaid Cymraeg â'r Wesleaid Saesneg, perthynas agosach o lawer nag sydd rhwng unrhyw enwad arall yng Nghymru â'r un enwad yn Lloegr. Cyfundeb ydyw'r Wesleaid, un pobl mewn undeb bywiol, a chan fod yr enwad yn lluosog a chryf anarferol yn Lloegr, hawdd a naturiol ydoedd argraffu'r ddelw Seisnig ar yr adran Gymreig, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf. Y mae hefyd rai pethau yn ffurflywodraeth yr enwad a rwystra weinidogion rhag ymollwng ac ymgysegru i lenydda llawer. I weinidogion Cymru y mae dyled mwyaf y genedl am ei llenyddiaeth, ac yn ychwanegol at bregethu a bugeilio disgyn ar y gweinidogion Wesleaidd wmbredd o waith gofalu am bethau a ddylai fod yn nwylo lleygwyr medrus.

Wrth feddwl am gyfraniad yr enwad i emynyddiaeth y genedl dylid cofio mai pobl gymharol newydd ydyw'r Wesleaid yng Nghymru. Yr oedd llais emynwyr mawr y wlad wedi tewi cyn geni Wesleaeth Gymraeg. Bu Dafydd Jones, o Gaio, farw yn 1777, Morgan Rhys yn 1779, Pantycelyn yn 1791, Dafydd William yn 1794, ac nid oedd yr enwad ond pum mlwydd oed pan fu farw Ann Griffiths yn 1805. Cyrhaeddodd llanw emynyddiaeth ei bwynt uchaf yn Williams ac Ann Griffiths, ac er bod i emynydd newydd roeso gan bob cenhedlaeth, yr oedd angen mawr yr Eglwys am gyfryngau mawl wedi ei gyflenwi ar gychwyn gyrfa'r enwad. Ymddengys fod i bob enwad ei genadwri arbennig, ac yn wyneb ffyddlondeb yr enwad Wesleaidd i'w genadwri ef, yr oedd yn anodd onid yn amhosibl iddo lenydda llawer, yn enwedig ar y cyntaf. Yr oedd Uchel-Galfiniaeth wedi treiddio i bob cwr o'r wlad yn 1800, ac am flynyddoedd lawer bu dadleu brwd a ffyrnig rhwng y Wesleaid a'r enwadau eraill, fel mai prin ydoedd eu hamddenau i chwyddo swm llenyddiaeth gyffredinol. Prif ddyletswydd yr enwad oedd bod yn ffyddlon i'w genadwri. Llwyddodd yn hyn, a chydnabyddir yn gyffredin iddo deilyngu lle ym mywyd Cymru pe ond ar gyfrif ei ddylanwad dwfn ac arhosol ar athroniaeth a diwinyddiaeth pulpud y genedl.

Cyn ymdrin â Ehedydd Iâl, y mae un arall yn hawlio sylw, sef y Parch. John Bryan. Prin hwyrach y gellir gosod Mr. Bryan ymhlith yr emynwyr, oblegid, er iddo gyfansoddi rhai emynau da, ei brif orchest ydoedd cyfieithu emynau y Parch. Charles Wesley, ac yn y gwaith hwnnw y mae'n ddiguro. Er ei fod yn wir fardd cysegrodd ei awen a'i fedr i gyfieithu emynau Pantycelyn y Saeson i'r Gymraeg. O emynau Charles Wesley a geir yn Llyfr Emynau'r Wesleaid y mae 71 yn gyfieithiadau Bryan, ac y maent cyn lyfned a llithrig yn y Gymraeg ag yn yr iaith wreiddiol, a cheir ambell un â mwy o eneiniad arno nag yn y wreiddiol. Yr oedd yn gyfieithydd emynau heb ei fath yn ei oes, ac ni chafwyd ei well byth wedyn. Gwnaeth

wasanaeth anarferol i'w enwad ac i'r genedl. Yr oedd Dafydd Ddu Eryri ac yntau yn gryn gyfeillion, ac un tro aeth yn ymryson cyfieithu rhyngddynt. Aed ati yn nhŷ Mr. Bryan i gymharu a beirniadu'r cyfieithiadau; darllenai y dyn bach ei gyfieithiad o *Wrestling Jacob* Wesley, yn dechreu

Ardderchog angel, gadarn Ior,

a phan yn gorffen yr oedd holl bapurau Dafydd Ddu yn y tân, ac yntau'n dywedyd, " Mae'r awen gen i, ond chwi biau'r cyfieithu."

Ganed John Bryan yn Llanfyllin, rhywbryd yn y flwyddyn 1770, a bu farw yng Nghaernarfon Mai 28, 1856, a chladdwyd ef ym mynwent Llanbeblig. Dyn bychan ydoedd; " Bryan bach " y'i gelwid. Yr oedd ganddo gorff a phen mawr anarferol, ond oherwydd byrder ei goesau main adnabyddid ef fel dyn bach. Dywedir bod darlun y Dr. William Davies ohono yn un byw iawn;— " Dyna'r pen mawr, gwastad bron yn ei ran uchaf fel nenau y tai yng ngwledydd y dwyrain; y gwallt gwyn arianaidd yn deneu o amgylch y pen, ond yn lled brin tua'r gwastadedd hwnnw ar y top; y talcen mawr llydan ac uchel; y llygaid duon, bywiog, teryll; y wefus isaf yn rhyw daflu tipyn allan, fel pe buasai ar hanner poutio; y corph mawr cadarn, a lled gestog hefyd; y coesau meinion, byrion, wedi eu gwisgo mewn hosanau duon, ac heb y *trousers* bid siwr i guddio eu harddwch; dim ond yr hen glôs pen glin hen ffasiwn iddo ef hyd ddiwedd oes."[1]

Dechreuodd bregethu yn 1800, ac yn 1801 neilltuwyd ef i'r weinidogaeth. Llafuriodd yn ddiarbed a than arddeliad anghyffredin am bymtheng mlynedd yng Nghymru, ac yn 1816 symudwyd ef gan y Gynhadledd i Loegr, ac yno drachefn bu ei lwyddiant gymaint ag y tynnai sylw yr holl enwad, ac hanner addolid ef gan werin gogledd Lloegr. Yr oedd yn bregethwr nerthol a diofn, a defnyddiwyd ef

[1] *John Bryan a'i Amserau*, Y Dr. William Davies.

yn offeryn troedigaeth cannoedd onid miloedd yng Nghymru a Lloegr. Symudwyd ef i Epworth yn 1823, a chyn diwedd y flwyddyn honno daeth cloffni i'w gerdded, a throwyd ef i'r mynydd. Ymsefydlodd mewn masnach a bu'n *grocer* llwyddiannus a chysurus yn Leeds am saith mlynedd, ac o hynny hyd derfyn ei oes bu'n masnachu a phregethu yn nhref Caernarfon. Yno y bu farw yn hen, yn ddedwydd, ac yn fawr ei barch.

Gwnaed llawer cynnyg at emynu gan weinidogion a lleygwyr Wesleaidd wedi dyddiau Bryan, ond ni chafwyd llawer â bywyd didranc ynddo hyd oni chlywyd llais yr Ehedydd. Un o blant sir Ddinbych ydoedd William Jones (*Ehedydd Iâl*). Yno mewn tŷ bychan a dinod ym mhlwyf Derwen, y ganed ef, yn y flwyddyn 1815. Yr oedd ar yr aelwyd lom naw o blant, a'r tad yn casglu tamaid iddynt trwy weithio yma a thraw am o bedwar i bum swllt yr wythnos. Bu'r tad farw yn 78 mlwydd oed, a'r fam yn 87, ac yn ei hen ddyddiau, yn 73, ymffrostiai'r Ehedydd i'r ddau fyned 'trwy borth marwolaeth heb fod yn nyled neb o geiniog goch.' Gwelir oddiwrth y ffaith hon gryfder eu cymeriad. Nid oes lle llwm tu hwnt i'r llen i'r rhai sy'n treulio oriau yr ochr hon i falu meddyliau pa fodd i gael deupen y llinyn ynghyd. Ni chafodd un o'r plant awr o ysgol, a gorfu i William droi allan pan yn naw oed i fod yn was bach yn Llwyn Isaf. Treuliodd fore'i oes yn was fferm o fan i fan nes dyfod i Landegla. Bu'n dal Melin y Mwnglawdd am tua thair blynedd, ac yna aeth i fyw i Dafarn y Gath. Tafarndy a fferm fechan ydoedd Tafarn y Gath, rhyw filltir o bentref Llandegla ar y briffordd i Wrecsam. Poenid llawer ar feddwl y bardd gan y syniad ei fod yn dafarnwr, a gwnaeth a fedrai i gael enw'r wraig ar y dafarn, ond gwrthodai'r awdurdodau hynny. Tro go wael ydoedd ceisio'i achub ei hun ar draul drygu'r wraig. Gan fod yr Ehedydd am ddal gafael yn yr ychydig dir oedd ynglŷn â'r tŷ, bu'n dafarnwr ac yn amaethwr am wyth mlynedd, yna llwyddodd i ymryddhau oddiwrth y fasnach feddwol, a gwnaed y lle yn

amaethdy syml a diddrwg. Wedi preswylio yn Nhafarn y Gath am 49 mlynedd cymerodd yr Ehedydd ei aden ac esgynnodd uwchlaw 'r cymylau yn 1899. Collwyd y gân, ac ni welwyd ef mwy. Ei oedran ydoedd 84.

### Ei Fywyd Crefyddol.

Yr oedd Gwylmabsant ac Interliwd mewn cryn fri yn nyddiau bore Ehedydd Iâl, ac ymhyfrydai yntau ynddynt. Pan yn was yn Hendre, Gwyddelwern, ef oedd arweinydd cwmni'r Interliwd yn yr ardal, a'i brif drysorau ydoedd llyfrau'r chwaraeon hyn, o waith Twm o'r Nant ac eraill llai eu gallu a'u poblogrwydd. Bywyd nwyfus, ysgafn, a thipyn yn anystyriol o bethau moesol ydoedd eiddo'r Ehedydd yn y blynyddoedd hyn ; ond dywedai'r diweddar Mr. Joseph Davies, Wernddu, Corwen,—un a wyddai fwy am flynyddoedd cyntaf y bardd na neb sy'n fyw heddyw,—ei argyhoeddi o'i bechod yn 1839, a bod ei drallod a'i ofid oherwydd ei gyflwr mor fawr fel y methai gysgu am ysbaid hir. Yn ei wasgfa ddygn cododd ganol nos a phawb yn cysgu, cyneuodd dân, a llosgodd ei holl lyfrau chwarae, a chefnodd am byth ar oferedd. Ymunodd â'r Eglwys, a thyfodd mor gyflym o ran gwybodaeth a phrofiad fel y gwnaed ef yn bregethwr ymhen rhyw ddwy flynedd, a pharhaodd i bregethu'n feddylgar a chymeradwy iawn am rai blynyddoedd. Daeth terfyn i'w bregethu, ond parhaodd yn weithgar gyda chrefydd, a bu'n flaenor ac athro hyd ddiwedd ei oes. Hwyrach fod y Wesleaid mor eiddigus dros burdeb ac urddas y pulpud â neb, ac o phoera un ar ei bilin mae'n anodd anghyffredin cael ei ddrws yn agored eilwaith.

Yr oedd doniau naturiol a gwybodaeth gyffredinol Ehedydd Iâl yn ei ddidoli oddiwrth grefyddwyr ei ardal. Yn ei ddyddiau ef yr oedd amryw ddynion cryf eu meddwl a mawr eu cymeriad yn eglwysi'r cylch, a'u dylanwad moesol yn llawn cymaint, onid yn fwy, na'i eiddo ef, ond safai ar ei ben ei hun mewn rhai cylchoedd. Medrai siarad yn hyawdl ac effeithiol yn y gwahanol gyrddau

crefyddol, ac yr oedd yn athro rhagorol. Eithr fel holwr ysgol y rhagorai ar bawb. Bu bri mawr unwaith ar holi ysgolion, a'r tri a ystyrrid yn feistri yn y gelf yn ardal y bardd ydoedd Mr. T. Lloyd Roberts, Garthgynan, Llanfair, amaethwr parchus a diwylliedig; Mr. John Hughes, Clocaenog, gŵr o allu mawr a gwybodaeth eang; a Ehedydd Iâl. Yr oedd y ddau gyntaf yn fedrus anarferol, eithr dywedir bod yr Ehedydd yn rhagori arnynt, ac yr ystyrrid ef gan bawb yn frenin holwyr ysgol.[1]

Yr oedd crefydd y bardd yn ddigon hydwyth i gynnwys llawer heblaw cyfarfod gweddi a chyfeillach a phregethu; cynhwysai hefyd y cyfarfodydd llenyddol a chystadleuol, ac yr oedd mor fedrus yn y naill ag yn y llall. Arweiniai gwrdd llenyddol neu eisteddfod yn well na neb yn ei ardal. Oherwydd ei wybodaeth lenyddol, a'i awen hoyw, a'i eiriau fraethbert, ac weithiau ffraethlym, medrai gadw torf mewn hwyl fawr am oriau. Gelwid arno'n aml i'r cyrddau hyn, a gwnaeth wasanaeth gwerthfawr fel arweinydd am gyfnod maith.

Un o brif nodweddion yr Ehedydd ydoedd naturioldeb. Yr oedd fel ef ei hun ymhob man, yn frwd a ffraeth a syth. Ni wyddai am fursendod ond mewn eraill. Ffieiddiai ffugddysgeidiaeth a rhodres a hunanoldeb. Un o bechodau mwyaf pregethwr ydoedd bod yn rhodresgar:—

Bai rhy hyll yw bwrw allan,—eiriau
Gorhirion fel trostan,
Coeg lediaeth, lond cêg lydan;
Gwir i mi mewn geiriau mân.

Er ei fod oherwydd ei dalentau yn boblogaidd, ac yn barchus gan bawb oblegid ei gymeriad a'i wasanaeth, prin yr hoffai neb ef; yn wir, yr oedd ar y werin beth o'i ofn, oherwydd ei watwareg ddreng a'i eiriau gwawdlym.[2]

[1] Llythyr Mr. R. Francis, Clocaenog, Awst 13, 1917.

[2] Llythyr Mr. R. Francis.

Gwerinwr a brofodd brinder a chaledi bywyd oedd y bardd, a cheid ol y caledi ar ei gorff a'i feddwl; ond profodd hefyd lawer o ddaioni a dedwyddwch crefydd, ac yn ei holl gyfyngderau arferai ffydd gref yn ei Dduw. Edrydd ef ei hun un enghraifft nodedig o'i ffydd mewn Rhagluniaeth. "Yr oedd dyled o £160 ar ein capel. Rhyw noson penderfynasom glirio y swm, ac addewais £5 tuag at hynny. Rhoddwyd chwe mis i dalu yr addewidion. Digwyddai yr amser i dalu ddisgyn ar nos Fawrth. Boreu y Sadwrn blaenorol nid oedd gennyf ddim tuag at dalu fy addewid, a theimlwn yn brudd iawn oblegid hynny. Ond yn ystod y dydd daeth porthmon at y drws i ofyn am le i droi ei wartheg dros y Sul. Rhoddodd £5 i mi am eu lle, a thelais inau fy addewid nos Fawrth."

### Ei Farddoniaeth.

Yn 1898, blwyddyn cyn marw'r awdur, cyhoeddwyd detholiad o'i farddoniaeth tan yr enw *Blodau Iâl, sef cynyrchion Barddonol William Jones* (*Ehedydd Iâl*), dan olygiaeth y Parch. John Felix. Ar ddechreu'r gyfrol ceir "Adgofion fy Mywyd" gan yr Ehedydd, wedi eu hysgrifennu mewn arddull gymen a dirodres. Yna fe geir cynnwys y llyfr dan y penawdau: Caneuon Cyffredinol, Coffadwriaethol, Cyfarchiadol, Adroddiadol, a Chynganeddol. Gwelir i'r bardd hau a medi peth ymhob rhan o'r maes barddonol. Nid ydyw holl waith yr awdur yn y gyfrol, ond gan ei chyhoeddi yn ei fywyd y mae'n naturiol casglu fod ei bethau goreu ynddi, oblegid prin yr esgeulusai'r golygydd ymgynghori ag ef.

A barnu oddi wrth y cwbl a gyhoeddwyd o'i waith nid oedd Ehedydd Iâl yn fardd mawr. Perthyn i adran ganol yr ail ddosbarth. Eithr dywed y sawl a'i hadnabu yn dda ei fod yn ddyn o athrylith wir, ac o awen hoyw. Ni ddaeth i'w ran gyfleusterau datblygu. Gweithiai pan yn blentyn naw mlwydd oed, ac ni chafodd awr o ysgol. Bu raid iddo amaethu a bugeilio, a thrwy chwys ei wyneb y bwytaodd ei fara. Pe na bai trais a rhaib ar ffordd

Rhagluniaeth i roddi iddo yn ol ei allu hwyrach y buasai yn un o'r prifeirdd. Awyr gymylog a throm ydoedd eiddo'r hen fardd ar hyd ei oes, ac anodd hyd yn oed i ehedydd esgyn yn uchel a chanu'n rymus mewn cymylau. Ond er gwaethaf amgylchiadau caled a phrinder cyfleusterau datblygu, cyrhaeddodd radd dda fel bardd gwlad, ac edrychid arno gan werin broydd ei gartref fel math ar oracl.

Canodd lawer yn y mesurau caeth, a chanodd yn lled fedrus a swynol hefyd. Y mae ganddo lawer llinell wallus, ond y mae hynny oherwydd diofalwch ac nid oherwydd diffyg gwybodaeth a medr. Dywed y prifardd Ben Davies ei fod yn gynganeddwr ardderchog,—fod greddf cynghanedd yn ei ysbryd, a'i deddf yn ei galon, yr hyn a'i gwnai'n ddiofal yn aml am y llythyren.[1] Y mae ganddo ambell gwpled ac englyn tarawiadol iawn :

*Yr Iaith Gymraeg.*

Iaith i'r clir areithiwr clau,
A thân yn ei gwythïennau.

*Yr Annuwiol.*

Nis myn ond anwesu moeth,
A'i enaid drud yn droednoeth.

*Y Bluen Eira.*

Mae ol y Llaw ddwyfol, dda,
Yn blaen ar bluen eira.

*Marw Morris Llwyd.*

Colled hir gofir gafwyd
Am wres a llais Morris Llwyd.

*Caru Gelyn.*

A gafodd, ar ol gofyn—i Dduw Ior
Faddeuant i gychwyn,
Duw a'i câr, a dyma'r dyn
Gwir hael, a gâr ei elyn.

[1] *Ceninen Gwyl Dewi*, 1900.

*Mawrth a Ladd.*

Mawrth oer sy'n gwneud merthyron—â'i wenwyn
O weiniaid blanigion,
Llwyddo clwyf, lladd y cleifion,
A llorio bri llawer bron.

*Ymson yr Ehedydd.*

Arosaf yn awr ar risiau—o berl
A bwrlymaf odlau ;
Pwy glyw fy nghân, fechan, fau ?
Dim un, ond Duw a minnau.

Dyma bedwar englyn campus eto :

*Y Goron Ddrain.*

Coron ddrain, filain afaeliad,—roddwyd
I ruddio ein Ceidwad ;
A'i rhoi i daflu sarhad
Ar goron aur ei gariad.

*Ieuanc yn y Nefoedd.*

Os i'r nef, o gref grafanc—yr angeu,
Hyf ringyll, caf ddianc,
O fewn y lle âf yn llanc,—
Nefoedd wna hen yn ifanc.

*Darostyngiad Crist.*

Un mawr aeth i lawr lwyraf,—a than wae
Aeth yn is na'r dyfnaf,
O'r golwg, dan wg Duw naf,
Efe, Iesu, fu isaf.

*Y Grwgnachwr.*

Dyn bach a rwgnach ei ran ;—o rwgnach
A rhygnu, beth bychan,
Daw clwy' naw mwy yn y man,
A daw achos i duchan.

Mor fyw ydyw ei ddarluniau o'r Fiaren a'r Ceiliog Coed yn ei gywydd i'r *Goedwig :*

Ah ! Fiaren afrywiog,
Erch o lun, arw ei chlog ;
Gwaedodd fi yn y goedwig,
Mewn bâr, gyda ei main big ;
Deil ei hawl o deulu hen,—
Ei thad yw melldith Eden.

Ceiliog gwig, edn clau a gwiw,
Hedlym, mewn gwisg symudliw,
A choler wen, uchel ryw,—
Ceiliog godidog ydyw ;
Wr abl, a wisga ruban
Ar ei ddwyfoch, o goch gwan ;
Y tlysaf, balchaf ei big
A gaed o fewn y goedwig.

Canodd doreth o ganeuon, ac y mae llawer ohonynt yn swynol iawn ; ond ystyriai ef mai ei oreuon ydyw y rheiny sydd a chlec y gynghanedd ynddynt, megis ei gân *Y Ferch Rinweddol*, sy'n dechreu :

Y Ddel, y fwyn rinweddol ferch,
  Yn ngwres fy serch ei hannerch hi
A wnaf yn rhwydd, er llwydd yn llon,
  Un sydd â'i bron yn orsedd bri ;
Nis llygra hi ei lliwgar ael
  Wrth wisgo gwael ffug-flodau gardd,
Ei haddurn bleth sydd beth fydd byw ;
  Ei rhinwedd yw ei choron hardd.

Golwg guchiog a sarug braidd a fyddai ar y bardd yn gyffredin, ond yr oedd tynerwch, llonder, a direidi yn nyfnder ei ysbryd, ac nid oedd raid bod yn hir yn ei gwmni cyn teimlo hynny. Yr oedd ganddo lawer o ganeuon ac englynion difyr a direidus dros ben. Mor ieuanc y canai yn ei hen ddyddiau ar *Y Naill yn lle y Llall :*

Rhoes llanc ei fraich am ganol
  Ei gariad,—glywais i ;
Ond erbyn chwilio allan,
  Wel, nid y hi oedd hi !
Ca'dd Huw fynd tua'r carchar,
  A'i dywys megis dall,
Am iddo roddi cusan
  I'r naill yn lle y llall.

Ai lygaid yn pallu aeth i siop " Zabulon Dafydd " yng Ngwrecsam i brynu spectol. Bu wrthi'n hir yn troi a throsi, a chraffu trwy amryw wydrau, ac wedi hir a hydoedd cafodd un i'w fodloni. " Ac yr ydych yn gweled yn iawn hefo 'nyna," ebe Zabulon. " Ydwyf," meddai'r Ehedydd :

" Gwelaf uwchlaw'm disgwyliad,—y mynydd
  A'r manwellt heb eithriad ;
A chwn lu, holl chwain y wlad,
A'r llau wrth oleu'r lleuad.

EI EMYNAU.

Ychydig o emynau a gyfansoddodd yr Ehedydd. Deunaw yn unig a welais i, ac y maent oll ym *Mlodau Iâl*. Ond nid ydyw hynny'n brawf na chyfansoddodd ragor. Y mae'n amlwg mai detholiad ydyw *Blodau Iâl*. Gŵyr pawb mai fel emynydd y mae'r awdur yn enwog. Yr oedd yn fardd gwlad campus, ac yn ddigon o fardd i lanw cylch sir neu ddwy, ond gŵyr cenedl gyfan amdano fel emynydd. Cydnebydd pawb fod ei brif emyn

Er nad yw'm cnawd ond gwellt, etc.

yn anfarwol, ac oherwydd hwn yn bennaf y mae mor adnabyddus. Eithr y mae ganddo amryw emynau eraill gwir dda, emynau a roddai i unrhyw un safle barchus ymhlith yr Emynwyr. Credaf y myn y rhai a ganlyn eu lle cyn hir yn llyfrau emynau holl enwadau Cymru :

O'r holl ffynonnau, wele un
  Yn llawn o ddyfroedd byw, etc.

Ein Iesu mwyn a gerddodd
  I ben Calfaria fryn, etc.

Dywedodd y disgyblion gynt,
  Pan ar eu hynt mewn bri,
Wrth Iesu Grist, ym min y nos,
  O aros gyda ni, etc.

Mae'r iachawdwriaeth fel y tir,—
  Yn ffrwythlon ac yn hardd, etc.

Ofer oedi hyd y fory,
  Nid oes wybod pwy a'i gwel, etc.

Nawr ar ddechreu ein gweddïau,
  Gwel ni, Arglwydd, ger dy fron, etc.

Ein cadw wnaed, er byw yn ffol,
  Yng nghanol pob digonedd, etc.

Os rhaid rhodio mewn tywyllwch
  Heb un llewyrch ar y llawr, etc.

Y mae'n anodd gwybod beth i'w ddywedyd am yr emyn

Er nad yw'm cnawd ond gwellt, etc.

Beirniadwyd ef eisoes yn aml a llym, a beirniedir ef eto yn ddiameu. Eithr er y beirniadu i gyd, erys yn anfarwol ym mywyd crefyddol y genedl. O'r pum pennill nid oes ond yr olaf yn unig yn emyn gwir. Math ar adroddgân ydyw'r pedwar arall, er bod mwy ynddynt nag sydd mewn cân. Y maent yn ddwys ac yn ofnadwy, a cheir naws ac eneiniad emynau goreu'r iaith ymhob pennill. Y mae hanes cyfansoddi'r emyn yn un diddorol iawn, a chan fod yr hanes a gyhoeddwyd eisoes gan fwy nag un yn anghywir, mantais fydd ei gael yng ngeiriau'r awdur ei hun :—

"Ar ol bod saith mlynedd, neu wyth, yn Gwyddelwern, aethum i Lanelidan, yn hwsmon at Mrs. Davies, Rhydmarchogion. Yr oedd yno, heblaw Mrs. Davies, Joseph

ei mab, a dwy o ferched, Elizabeth a Ruth. Yr oedd y pedwar yn grefyddol, ac mi gredaf, yn wir dduwiol. Yr oedd Ruth dipyn yn wanllyd ei hiechyd ; am hynny anfonodd ei mham hi i Lerpwl i edrych a ddeuai yn well. Ar ol bod yno am nifer o wythnosau, dychwelodd adref yn wanach na phan y cychwynodd. Rhyw brydnhawn, dywedodd fy meistres wrthyf, ' Mae Ruth yn gwanychu yn gyflym ; digalon ryfeddol ydyw heddyw. A wnewch chwi fyned i'r llofft, ac eistedd wrth erchwyn ei gwely ? Mae genych chwi rywbeth i'w ddyweyd wrthi i godi ei hysbryd.' I fyny yr aethum. Tarawodd yr olwg a gefais arni fi a braw ; yr oedd mor wan, ac yn siarad mor ddigalon. Gofynodd, ' A oes genych ryw adnod, neu benill, a adroddwch i mi, yr wyf yn ddigalon heddyw ?' Wel, meddwn inau, a gaf fi fyned allan,—mi ddychwelaf yn ol yn fuan ? ' O'r goreu,' ebai hithau. Felly allan yr aethum, i'r erw bach oedd yn ymyl y tŷ, gan ddywedyd yn ddistaw, *Pob cnawd sydd wellt*, *pob cnawd sydd wellt*. Aethum at bren onen mawr oedd yn ymyl, a gweddiais dros y ferch ieuanc. Cyfodais oddiar fy ngliniau a rhoddais fy nghefn ar y pren, a thra yr oedd geiriau y Beibl,— ' Pob cnawd sydd wellt " yn fy nghlustiau, dywedais,—

Er nad yw'm cnawd ond gwellt,
  A'm hesgyrn ddim ond clai,
Mi ganaf yn y mellt
  Maddeuodd Duw fy mai.

Aethum at y ferch glaf, ac adroddais y pedair llinell iddi. Hi a lonodd, ac a'u dysgodd, a buont yn gysur iddi hyd y diwedd, yr hyn a gymerodd le cyn hir. Anfonais ychydig o Gofiant iddi i'r *Eurgrawn Wesleyaidd*. Ryw ddiwrnod aethum i farchnad Rhuthin, ac i dŷ y Parch. David Williams, ' Yr Hen Frenin,' fel y'i gelwid,—oedd yno yn weinidog ar y pryd. Digwyddai y Parch. John Bartley, oedd yn weinidog yn Ninbych yr un adeg, fod yn bresenol. Adroddais fy llinellau iddynt. ' Ardderchog,' ebai Mr. Williams. ' Ac yr ydych yn eu barnu yn rhai da ?' gofyn-

ais inau. 'Wel, ydynt,' meddai yntau, 'ond y mae modd eu gwneud yn well.' 'Gall hyny fod,' meddwn inau. 'Ond sut y gwnewch chwi hwy yn well?' gofynodd Bartley. 'Fel hyn,' meddai Williams, 'gwneud cynffon iddynt, fel y penill acw :

'Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,
Fo byth i enw'n Harglwydd ni.'

'O'r goreu,' ebai Bartley, 'mi wnaf fi gynffon am y goreu â William Jones erbyn wythnos i heddyw.' Ym mhen yr wythnos aethum i Ruthyn drachefn ; ac yno yr oedd y ddau weinidog yn y tŷ. Can gynted yr eisteddais, gofynodd Williams, 'A wnest ti gynffon i'r penill, Bartley?' 'Do,' meddai yntau, 'Wel, gad i ni glywed beth a wnaethost.' 'Dyma fo,' ebai Bartley :

'Maddeuant rhad, maddeuant llawn,
A geir o foreu hyd brydnhawn.'

Edrychodd yr 'hen frenin' yn syn, a dywedodd, 'Yr wyt ti yn spwylio y penill hefo dy 'fore' a'th 'brydnhawn.' Yna gofynodd am fy llinellau inau, a mi a'u hadroddais :

'Mae craig yr oesoedd dan fy nhraed,
A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.'

Bu Williams heb ddyweyd dim am beth amser. O'r diwedd trodd ataf, gan ddywedyd wrthyf, 'Wyddost ti be, wyddost ti be.' Dyna'r gwir am gyfansoddiad y penill. Yn mhen blynyddoedd wedi'n y cyfansoddais y penillion eraill sydd yn yr emyn, ar ddymuniad y diweddar Tanymarian."[1]

Y pennill olaf o'r emyn sy'n adnabyddus a phoblogaidd, ac ef yn unig a roddir yn y casgliadau o emynau a gyhoeddir y blynyddoedd hyn gan y gwahanol enwadau. Teimla pawb rywfodd nad oes ond yr olaf o'r pum pennill yn emyn gwir. Y mae'r cyfansoddiad cyflawn fel a ganlyn :—

[1] *Adgofion fy Mywyd, Blodau Iâl.*

*Ystorm yr Argyhoeddiad.*

Y Nefoedd uwch fy mhen
A dduodd fel y nos,
Heb haul na lleuad wen,
Nac unrhyw seren dlos,
A llym gyfiawnder oddifry
Yn saethu mellt o'r cwmwl du !

Cydwybod euog oedd
Yn rhuo dan fy mron ;
Mi gofia'i chwerw floedd
Tra ar y ddaear hon :
Ac yn fy ing, ymdrechais ffoi,
Heb wybod am un lle i droi.

Mi drois at ddrws y ddeddf,
Gan ddisgwyl cael rhyddhad,
Gofynais iddi'n lleddf
Roi imi esmwythhad :—
" Ffo am dy einioes !" ebe hi,
" At Fab y dyn, i Galfari."

Gan ffoi, ymdrechais ffoi
Yn swn taranau ffroch,
Tra'r mellt yn chwyrn gyffroi
O'm hol fel byddin goch !
Cyrhaeddais ben Calfaria fryn,
Ac yno gwelais Iesu gwyn !

Er nad yw'm cnawd ond gwellt,
A'm hesgyrn ddim ond clai,
Mi ganaf yn y mellt
Maddeuodd Duw fy mai !
Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed,
A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.

Bu'r pennill " yn gysur hyd y diwedd " i'r ferch glaf, a bydd felly i filoedd eto. Mor hoff ydyw'r emyn o fyned

yng nghwmni'r adnod trwy'r glyn i'w eithaf at swn yr afon. Ychydig flynyddoedd yn ol mewn pentref ym Meirionydd, ymwelais â hen frawd claf yn marw o'r darfodedigaeth,—hen glefyd Ruth Davies, Rhydmarchogion. Brawd didalent ac anllythrennog ydoedd fy nghyfaill, ac yr oedd yn y glyn, ac yn gwybod hynny. Wedi darllen a gweddïo, a dywedyd ffarwel, disgynnais dros y grisiau, a thra'n cael gair â'i briod, deuthai o'r llofft ganu gwan a melys ar emyn Elfyn,

Dy ewyllys di a wneler,
Ti sy'n gwybod Arglwydd Ior, etc.

"Pwy sy'n canu?" "John," ebe'r wraig. "Wyddwn i ddim y medrai ganu." "Fedre fo ddim chwaith, chanodd o erioed cyn rwan; mae o fel se fo'n cael ei baratoi i ganu'r ochor draw. Mae'r emyn yna yn help mawr i John ni i farw." Aeth John yng nghwmni'r emyn yn ddiofn i'w wynfyd.

Tynnodd yr Ehedydd yntau lawer o gysur ar hyd ei oes o'i emyn anfarwol, a bu'n ffynnon o ddiddanwch iddo yn ei hen ddyddiau. Ymffrostiai beth yn ei emyn, ac yr oedd yn rhy annibynnol a gonest i geisio cuddio hynny. Y dyn perffaith fyddai un ag eithaf pob goreu ynddo; ond ychydig yw y rhai sydd hyd yn oed yn cyrchu at y nôd hwnnw, ac nid oedd Ehedydd Iâl ymhlith yr ychydig hynny. Edmygai'n fawr rhai pethau a chanmolai hwy beunydd, ac anwybyddai bethau eraill oedd yn llawn mor bwysig. Nid oedd terfyn i'w edmygedd o bregeth dda, cyfarfod hwyliog, cân fyw, englyn cryf, anifail graenus, a pherth wedi ei phlygu'n gelfydd. Ymffrostiai yn ei fedr i drin y gynghanedd, yn ei ddawn i arwain eisteddfod, ei allu i holi ysgol, ac yn bennaf, ei ffydd yn Nuw Rhagluniaeth. Yr oedd ganddo hawl deg i'w ymffrost, oblegid y mae'r pethau hyn oll yn dda, ac yntau'n fawr ymhob un ohonynt.

Yr oedd Ehedydd Iâl yn ddyn eithriadol mewn amgylchiadau cyffredin, yn feddyliwr cryf a diofn, yn gymeriad

gwreiddiol,—ar ei ben ei hun, ac yn byw crefydd ysbrydol. Dywedai Mr. Joseph Davies, Wernddu, mab Rhydmarchogion, a brawd Ruth, mewn llythyr a dderbyniais oddiwrtho, "Y mae gennyf feddwl uchel o hono fel Cristion. Yr oedd yr holwr ysgol goreu yn ei ddydd, a chefais fwynhad a mantais fawr oddiwrtho fel holwr. Pregethai nes deffro cydwybodau, a chanai yn naturiol a melys. Yr oedd un diffyg mawr ynddo—gormod o *sarcasm*, ac oherwydd hynny, a'i duedd i feirniadu mewn geiriau llym, ni enillodd y werin bobl i ymserchu yn fawr ynddo."

Cafodd yr Ehedydd oes hir a llafurus, eithr canodd ar ei hyd, a phan yn 84 mlwydd oed ehedodd i "wlad yr hâf." Huned yn dawel hyd y bore mwyn pryd na bydd "cnawd yn wellt," ac na bydd eisiau cynhorthwy ei emyn mawr.

# DANGOSEG.


Adams, Y Parch. David (*Hawen*) - - - - - 279
Albanaidd, Y Bedyddwyr - - - - - - - 209
*Aleluia, neu Gasgliad o Hymnau* - - - - - 58
*Alun* - - - - - - - - - - - 2
Annibynwyr, Yr, ym Mhlwyf Caio - - - - - 75
Arglwyddes Huntingdon, Yr - - - - 63, 145, 166
Arminaidd, Y Ddadl - - - - - 151
Asaph - - - - - - - - - 8
Athrofa Llwynllwyd - - - - - - - 42
Aurora Borealis - - - - - - - 62

Ballinger, John - - - - - - - - 24
Bardd Nantglyn - - - - - - - 171, 206
Barn Hiraethog am Bantycelyn a'i waith - - - 55
Barn Cynhafal am Bantycelyn fel Bardd - - 64
Basset, Y Parch. Christopher - - - - - 176
Bethesda'r Fro, Capel - - - - - - 170
*Beth sydd imi yn y byd* - - - - - - 111
Bevan, Hopkin - - - - - - - - 120
Bevan, Madam - - - - - - - 119, 140
*Blodau Iâl* - - - - - - - - 288
Bryan, John - - - - - - - 283, 284
*Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* - - - 54, 55

Cadair Eisteddfod Dinbych - - - - - - 268
Cadair Eisteddfod Madog - - - - - - 279
Cadvan - - - - - - - - - 282
Caledfryn - - - - - - - 3, 212, 226
Calvin, John - - - - - - - - 21
*Cân ar Ffolineb Swyngyfaredd* - - - - 192
*Cân Diddarfod* - - - - - - - 175, 176
*Caniadau Maes y Plwm* - - - - - 190, 192
Castell Newydd Emlyn - - - - - - 153
Carolau, Edward Jones, Maes y Plwm - - - 192
Cawrdaf - - - - - - - - 192, 282

Cefnarthen, Eglwys Annibynnol - - - - - 41
Claget, Yr Esgob Nicholas - - - - - - 44
Clwydfardd - - - - - - - - - 282
"Coch, y Ffeirad" - - - - - - - 142
*Cofiant . . . Edward Jones, Maes y Plwm* - - 190
Coflyfr Eglwys Llanfair-ar-y-bryn - - - - - 40
Cofrestrfeydd Bangor a Llanelwy - - - - - 10
Coll Gwynfa - - - - - - - - 56
Cowper - - - - - - - - 2
Cradoc, Walter - - - - - - - 52, 75
Croes-y-Parc, Eglwys - - - - - 120, 121, 125
Crefydd yng Nghymru cyn y Diwygiad Methodistaidd 52, 77
Crughywel - - - - - - - - 142
Crugybar, Eglwys - - - - - - - 76
*Cul yw'r llwybr imi gerdded* - - - - - - 68
Cwrtmawr MS. - - - - - - - 28, 29, 30
Cyfieithiad George Parry o'r Salm Gyntaf - - 36
Cyfieithiad Gwilym Ganoldref o'r Salm Gyntaf - - 27
Cyfieithiad James Rhys Parry o'r Salm Gyntaf - - 30
*Cyfres y Fil* - - - - - - - 246, 253
Cyfriniaeth yr Emyn - - - - - - - 3
Cyffin, Edward - - - - - - - - 24
Cyffin, Morus - - - - - - - 31, 32
*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd* - 41
Cymanfa Bedyddwyr Ddwyrain Morgannwg - - 117
Cynddelw - - - - - - - - - 207
Cynwal, William - - - - - 9, 13, 14, 16, 18
Cywyddau Ymryson - - - - - - - 14
*Cywydd y Drindod* - - - - - - - 2
Charles, Y Parch. David - - - - - 275, 276
Charles, David (ieu.) - - - - - - 277
Charles, Y Parch. Thomas - 40, 45, 47, 53, 224, 251, 256

Dafydd ap Gwilym - - - - - - - 21, 56, 204
Dafydd Ddu Eryri - - - - - 200, 223, 284
Dafydd Ddu, o Hiraddug - - - - - - 22
Dafydd, Ioan, Caio - - - - - - - 59
Dafydd Ionawr - - - - - - - - 171
Dafydd, Jethro - - - - - - - - 57
Davies, Y Doctor, Ffrwdyfal - - - - - 76
Davies, Y Doctor William - - - - - 282, 284

Davies, Y Parch. Ben - - - - - - 289
Davies, Y Parch. Howel - - - - - - - 101
Davies, Y Parch. Samuel - - - - - - 265
Davies, Yr Esgob Francis - - - - - - 38
Davies, Yr Esgob Richard - - - - - - 7
Davies, Joseph - - - - - - - 286, 298
Davies, Morris - - - 93, 237, 240, 245, 252, 272
Davies, W. Ll. - - - - - - 24, 33, 35, 38
*Daw amser prysur bwyso* - - - - - - 176
Delyneg, Y - - - - - - - - - 1
*Dewch, dewch o fawr i fân* - - - - - - 174
Dewi Silin - - - - - - - - - 206
Diwygiad Methodistaidd, Y - - - - - 5, 39, 164
Diarddel Peter Williams - - - - - 167, 169
Dolwar Fach - - - - - - - - - 236
*Drych y Prif Oesoedd* - - - - - - - 44
*Dwned, Y* - - - - - - - - - 10
*Dyfroedd Bethesda* - - - - - 178, 183, 184

Edwards, Syr O. M. - - - - - - 237, 258, 275
Edwards, Y Parch. Roger - - - - - - 175
Edwards, Y Prifathro Lewis - - - - - 276
EHEDYDD IÂL - - - - - - - - 282—298
Ei Eni, 285.—Ei Fywyd Crefyddol, 286.—Ei Farddoniaeth, 288.—Ei Emynau, 292.
Eifion, Dewi Wyn o - - - - - 141, 200, 203, 205
Eisteddfod Caerwys, 1568 - - - - - - 18
Eisteddfod Caerfyrddin, 1819 - - - - - 214
Eisteddfod Gwrecsam - - - - - - - 260
Eisteddfod Llanelwy - - - - - - - 260
Eisteddfod Rhuddlan - - - - - - - 267
Elfed - - - - - - - - - - 254, 280
Ely, Cofrestr Cathedral - - - - - - - 8
*Emanuel*, Hiraethog - - - - - - - 2
*Emynau*, Maes y Plwm - - - - - - - 196
Emyn, Nôd angen - - - - - - - 2
*Emynau y Cysegr* - - - - - - - 6, 281
*Emyniadur yr Eglwys* - - - - - - 175
*Enwogion y Ffydd* - - - - - - - 119
Englyn, Yr - - - - - - - - - 1
*Er nad yw'm cnawd ond gwellt* - - - 292, 293, 294, 296

Eryri, Dafydd Ddu - - - - - - - 223, 284
Evans, Ruth - - - - - - - - 243, 251
Evans, Theophilus - - - - - - - - 44
Evans, Y Parch. Christmas - - - - - - 207
Ewyas Lacy - - - - - - - - - 28, 35

Fach, Goppa - - - - - - 120, 122, 123
Fafasor Powel - - - - - - - 5, 52, 75
Fannog, Y - - - - - - - - - 67
Felix, Y Parch. John - - - - - - - 288
Ficer Pritchard, Y - - - - - - - - 32
Francis, Benjamin - - - - - - - - 150—163

Ei dad, 150.—Nodweddion y tad yn y mab, 152.—Ymsefydlu yn Horsley, 154.—Cylch eang ei lafur, 155.—Ei gariad at Gymru, 155.—Barddoniaeth yr awdur, 156.—Ei Emynau, 158.—Nodweddion yr Emynau, 160.

Francis, John - - - - - - - - - 35
Francis, Y Parch. Enoch - - - - - - - 150, 151
*Ffynnon Jacob* - - - - - - - - - 181

*Galarnad Henaint* - - - - - - - - 221
*Gardd Eifion* - - - - - - - - 212, 215
Gee, Thomas - - - - - - - - - 6, 175
*Geirionydd* - - - - - - - - 265, 266
George, Yr Anrh. D. Lloyd - - - - - 125
Glan Menai - - - - - - - - - 31
Glanystwyth - - - - - - - - - 282
Glasynys - - - - - - - - - - 12
*Golwg ar Deyrnas Crist* - - - - - - 54, 57
*Golwg o Ben Nebo* - - - - - - - 107—110
Gough, Mrs. Alan - - - - - - - - 24
Griffiths, Ann - - - - - - - - 236—258

Ei geni, 236.—Teulu Dolwar Fach, 237.—Ann cyn cael Crefydd, 239.—Ei throedigaeth, 241.—Un o blant y Diwygiad, 242.—Ei phriodas, 243.—Ann yn marw, 244.—Ei llythyrau, 245.—Hanes a Nodwedd yr Emynau 250.

Griffiths, Thomas (priod yr Emynyddes) - - - - 244
Griffiths, Y Parch. Edward - - - - - - 245
Griffiths, Y Parch. Vavasor - - - - - - - 42
Gruffydd Hiraethog - - - - - - - 18

Gruffydd, Yr Athro W. J. - - - - - 12, 20
Gutyn Peris - - - - - - - 205, 261
Gwalchmai - - - - - - - - 264
Gwallter Mechain - - - - - - - 215
*Gwialen i gefn yr ynfyd* - - - - - - 190, 191
Gwilym Cowlyd - - - - - - - - 266
Gwilym, Dafydd ap - - - - - - - 21, 56
Gwilym Ganoldref - - - - - - 22, 26, 27
Gwilym Hiraethog - - - - - - 278—281
43, 44, 55, 56, 57
Gwilym, Ioan ap - - - - - - - - 176
Gwilym Lleyn - - - - - - - 108, 282

*Halsing* - - - - - - - - - 175
Harris, Howel - - - - 42, 51, 57, 138, 139, 141
Hiraethog, Gwilym - - - - - - 278—281
43, 44, 55, 56, 57
Hiraethog, Gruffydd - - - - - - 18
Horsley - - - - - - - - - 154, 155
Howel, Y Deon - - - - - - - - 1
Hugh Machno - - - - - - - - 14
Hughes, Y Doctor Moelwyn - - - - 93, 100, 101
Hughes, Y Parch. Edward (*Y Dryw*) - - - 206
Hughes, Y Parch. John, Pontrobert - 47, 236, 238, 239, 241,
244, 245, 250, 251, 253
Huntingdon, Yr Arglwyddes - - - - 63, 145, 166

Ieuan Glan Geirionydd - - - - - - 259—274
Ei eni, 259.—Yr Esgobion Cymreig a Ieuan, 262.—Darlun y bardd, 264.—Y llenor, 264.—Yr Emynydd, 269.—Nodweddion yr Emynau, 271.
Ifan, Jethro Dafydd - - - - - - - 139
Ioan ap Gwilym - - - - - - - - 176
Ioan Sanders - - - - - - - - - 39
Ioan, St., Caergrawnt - - - - - - - 9
Iolo Morgannwg - - - - - - - - 6
Isaac, Capel - - - - - - - - 92, 98
Isaac Price - - - - - - - - 52, 75, 80
Islwyn - - - - - - - - - 66

Jesus, William (tad Pedr Fardd) - - - - - 220
JONES, DAFYDD, O GAIO - - - - - - 71—91
Ei eni, 72.—Cyfleusterau addysg, 73.—Ei droedigaeth, 74.—Nodwedd ei grefydd, 76.—Cyfieithu Salmau y Doctor Isaac Watts, 81.—Salmau Watts a Salmau Prys, 83.—Cyfieithiadau eraill, 87.—Emynau gwreidd-iol, 88.—Ei safle fel emynydd, 90.
JONES, EDWARD, MAES Y PLWM - - - - 186—199
Ei eni, 186.—Ei addysg, 187.—Ei waith barddonol, 188.—Ei Ganeuon eraill, 192.—Llyfr Llawysgrif yr awdur, 193.—Ei Emynau, 196.
Jones, John, Gelli Lyfdy - - - - - - - 29
Jones, William (tad Pedr Fardd) - - - - - 220
Jones, Syr John Morris- - - - - - - - 8, 10
Jones, y Parch. Benjamin - - - - - - - 242
Jones, Y Parch. Cynhafal - - - - - - 58, 100
Jones, Y Parch. David, Llangan - - - - 165, 166
Jones, Y Parch. Edmwnd, Pontypwl - - - - 52, 77
Jones, Y Parch. Edward - - - - - - - 191
Jones, Y Parch. Griffith, Llanddowror - 52, 93, 118—120, 164
Jones, Y Parch. Ishmael - - - - - - - 242
Jones, Y Parch. J. R. (Ramoth) - - - - - 208—210
Jones, Y Parch. Kilsby - - - - - - - 40, 58
Jones, Y Parch. M. H. - - - - - - - 40
Jones, Y Parch. Owen - - - - - - - 196
Jones, Yr Athro T. Gwynn - - - - - - 16, 18

Lewis, Y Parch. Lewis - - - - - - - - 103
Lewis, Y Parch. Leyshon - - - - - - - 73
Levi, Y Parch. Thomas - - - - - - - - 104
Lodge, Syr Oliver - - - - - - - - 259

*Llais y Durtur yn y Wlad* - - - - - - 171, 172
Llandâf, Esgob William Morgan - - - - - 29
Llanedi, Plwyf - - - - - - - - - 118
Llanenddwyn - - - - - - - - - 10
Llangyndeyrn - - - - - - - - - 116
Llanfair-ar-y-bryn - - - - - - - - 51
Llanfynydd - - - - - - - - - 118
Llanllwni, Plwyf - - - - - - - - 151

Llanwrda - - - - - - - - - - 74
Llawdden - - - - - - - - - 1
Llawysgrif Tanybwlch - - - - - - - - 8
Llewelyn, Y Doctor Thomas - - - - - 13
Lleyn, Gwilym - - - - - - - - 108, 282
Llyfrgell Caerdydd - - - - - - - 183
Llyfrgell Genedlaethol, Y - - - - - 23, 31, 35
Llyfr Gweddi Gyffredin, 1621 - - - - 31, 34
Llyfr Llawysgrif Edward Jones, Maes y Plwm - - 193
Llyfr Llawysgrif John Hughes - - - - 245, 251
*Llyfryddiaeth y Cymry* - - - - - - - 61
Llythyr Edmwnd Prys at Syr John Wynn - - 11

McLean, Y Parch. Archibald - - - - - 209
*Mae'r iachawdwriaeth fel y môr* - - - - - 49
Maes y Plwm - - - - - - - - 186, 187
Marw Ann Griffiths - - - - - - - 244
Maentwrog - - - - - - - - 9, 11
*Mêl Awen* - - - - - - - - - 226
Methodistaidd, Y Diwygiad - - - - 5, 39, 164
Middleton, Syr Hugh - - - - - - 26
Middleton, Y Capten William - - - - - - 26
Mochres, Ardudwy - - - - - - - 15
Morgan, Y Doctor William - - - - 7, 12, 29, 32, 33
Morgannwg, Iolo - - - - - - - 6
Mostyn, teulu - - - - - - - - - 263
Mydryddiad George Parry o'r Salm Gyntaf - - 36
Mydryddiad Siams Parry o'r Salm Gyntaf - - - 30
Mydryddiad Prys o'r Salm Gyntaf - - - - 34

Nant, Twm o'r - - - - - - - - 192
Nathan, Morgan - - - - - - - - 105
Nelson, Y Parch. John - - - - - - 255
Nicander - - - - - - - - - 223, 262

Oliver, Y Parch. T. - - - - - - - 174
Owen, Goronwy - - - - - - - - 19, 171
Owen, Hugh, Bronclydwr - - - - - - 52
Owen, Y Parch. D. Edmondes - - - - - - 40

*Pantheologia, neu hanes holl grefyddau y byd* - - 54

Parry, Edward - - - - - - - - 265
Parry, Y Parch. George - - - - - 28, 33, 35, 38
Parry, James Rhys - - - - - - 28, 30, 33
PEDR FARDD - - - - - - - - 219—235
Ei eni, 220.—Y bachgen yn prydyddu, 223.—Y bardd, 226.—Yr Emynau, 231.—Pedr Fardd a Ieuan Glan Geirionydd, 234.
Peniarth, Llawysgrif - - - - - - - 29
Peris, Gutyn - - - - - - - - 205, 261
*Perl mewn Adfyd* - - - - - - - - 180
Pontypridd, Arglwydd - - - - - - 125
Powel, Fafasor - - - - - - - 5, 52, 75
Powel, Y Doctor D. - - - - - - - 12
Price, Y Parch. David - - - - - - - 42
Price, Y Parch. Isaac - - - - - 52, 75, 80
Priodas Ann Griffiths - - - - - - - 243
*Prognostication* - - - - - - - 10
PRYS, EDMWND - - - - - - - - 7—38
Ei gyfnod, 7.—Ei eni, 8, 10.—Llythyr at Syr John Wyn, 11.—Cynorthwyo y Doctor Morgan i gyfieithu'r Beibl, 12.—Testunau ei ganu, 14.—Ymrysonau â'r beirdd, 14.—Yr ymryson â William Cynwal, 16, 19.—Y Salmau Cân, 21.—Ei ddyled i eraill, 32.
Prys, Sion (tad Edmwnd Prys) - - - - - 9
Prys, Thomas - - - - - - - - 14
Pughe, Y Doctor W. O. - - - - - - 206, 279

Rees, y Parch. Henry - - - - - - - 278
Rees, y Parch. Thomas - - - - - 42, 89, 179
Rees, y Parch. William - - - - - - - 278
*Rhad Ras, neu Lyfr Profiad* - - - - - 138
Rhieni Pantycelyn - - - - - - - 40
RHYS, MORGAN - - - - - - - - 91—116
Ffynonellau ei hanes, 91.—Ei gofiannau'n seiliedig ar draddodiad a thybiaeth, 92.—Yn athro Ysgol tan Griffith Jones, 93.—Morgan Rhys a Williams, 99.—Poblogrwydd ei emynau, 100.—Gwaith llenyddol yr awdur, 101.—Ei emynau, 106.—Nodweddion yr Emynau, 110.
Rhys Wyn, o Drawsfynydd - - - - - 15, 18
Richards, y Parch. D. B. - - - - - - 76
Richards, y Parch. T. - - - - - - - 261

Robert ap Dafydd - - - - - - - - 278
ROBERT AP GWILYM DDU - - - - - 200—218
Ei eni a'i farw, 200.—Darlun y bardd, 202.—Dylanwad golygfeydd, 203.—Cynhulliad y beirdd, 204.—Ei gyfeillion, 205.—Nodweddion y dyn, 211.—Nodweddion y bardd, 212.—Ei Emynau, 215.
Roberts, Eleazar - - - - - - 224, 226
Roberts, T. R. (*Asaph*) - - - - - - 8
Rowlands, y Parch. Daniel - - - - - 1, 51, 54
'*Rwy'n aros wrth ochor y dwr* - - - - - - 173

*Seion, Gorfoledd ym Mhebyll* - - - 116, 117, 120, 130
Shankland, y Parch. Thomas - - - - - - 42
Sion Prys - - - - - - - - - 15
Sion Prys (tad Edmwnd Prys) - - - - - - 9
Sion, Phylip - - - - - - - - - 15
Sion Tudur - - - - - - - - 22, 23
Sion Wyn o Eifion - - - - - - - 200

"Tafod Ysbyty Ifan" - - - - - - - - 16
Talgarth - - - - - - - - - 43
Tate a Brady - - - - - - - - - 21
Tennyson, Alfred - - - - - - - - 3
Testunau Canu Edmwnd Prys - - - - - - 14
Teulu Dolwar Fach - - - - - - - - 237
THOMAS, JOHN, RHAEADR GWY - - - - 137—150
Blwyddyn ei eni, 138.—Ei Hunangofiant, 138.—Dechreu Pregethu, 140.—Ymuno â'r Annibynwyr, 143.—Ei waith llenyddol, 144.—Ei Emynau, 145.—Nodweddion ei Emynau, 147.—Ei safle fel Emynydd, 150.
Thomas, y Parch. Joshua - - - - - - 52, 120
Thomas, y Parch. Owen - - - - - - 49, 190
Thomas, William, Caergybi - - - - - 270
Tibbott, y Parch. Richard - - - - - - 144
Trench, Yr Archesgob - - - - - - - 3
Troedrhiwdalar, Capel - - - - - - - 75
Tudur, Sion - - - - - - - - - 22, 23
Tyddyn Du - - - - - - - - - 8

Watts, y Doctor Isaac - - - - - 81, 87, 88
*Welch Piety* - - - - - - 91, 93, 95—98

Wesleaeth yng Nghymru - - - - - - 282, 283
Wesley, y Parch. Charles - - - - - 68, 283
William Cynwal - - - - - 9, 13, 14, 16, 18
"*Williams biau'r Emyn*" - - - - - - 58
WILLIAM, DAFYDD, LLANDEILO FACH - - - 116—136
Blwyddyn ei eni, 116.—Y Deffroad Mawr, 117.—Yn athro Ysgol, 118.—Traddodiadau am ei briodas, 121.—Yn cefnu ar y Methodistiaid, 122.—Ei farwolaeth, 124.——Ei waith llenyddol, 125.—Marwnadau, 126.—Caneuon, 127.—Ei emynau, 130.—Nodweddion yr Emynau, 131.
Williams, Dorothea (mam Pantycelyn) - - - 40, 41
William, Israel - - - - - - - - 120
Williams, John (*Gwernogydd*) - - - - - - 40
Williams, John (mab Pantycelyn) - - - - - 46
Williams, John, St. Athan - - - - - 175, 176
William Llŷn - - - - - - - - 7
Williams, y Parch. Peter - - - - - 167—170
Williams, William (mab Pantycelyn) - - - - 46
WILLIAMS, WILLIAM, PANTYCELYN - - - - 39—70
Ei rieni, 40.—Dydd ei eni, 40.—Ei droedigaeth, 42.—Gadael yr Eglwys Wladol, 45.—Ei briodas, 46.—Ei orlafur, 48.—Lle Williams yn y Diwygiad Methodistaidd, 51.—Ei safle fel pregethwr, 53.—Ei farddoniaeth ar wahan i'w Emynau, 54.—Ei Emynau, 57.—Nodweddion yr Emynau, 64.
Williams, y Doctor Nathaniel - - - - - 254
Wyn, Elis - - - - - - - - - 39
Wynn, Syr John, o Wydr - - - - - - - 11
Wynebddalen Cyfieithiad Cyffin - - - - - 25

*Y Beibl Darluniadol* - - - - - - - - 266
Y Gerddi Bluog - - - - - - - - 10
"Y Ffeirad Coch" - - - - - - - - 142
Y Llyfrgell Genedlaethol - - - - - 23, 31, 35
Y mwyafrif o Emynwyr mawr o'r Deheudir - - - 39
*Y Traethodydd* - - - - - - - 72, 200
Y Sasiwn yn nhŷ Jethro Dafydd Ivan - - - - 57
Ysgolion Cylchynol Griffith Jones - - - - - 119
Ysgol Pall Mall, Lerpwl - - - - - - 224
Ysgriflyfr Tanybwlch - - - - - - - 10

*Printed in Great Britain*
*at the Press of*
*Hugh Evans and Sons,*
*356, 358 Stanley Road,*
*Liverpool.*